

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

04/02/2015

Cynnwys Contents

- [1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth](#)
[1. Questions to the Minister for Finance and Government Business](#)
- [2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus](#)
[2. Questions to the Minister for Public Services](#)
- [3. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Maes Awyr Caerdydd](#)
[3. Welsh Conservatives Debate: Cardiff Airport](#)
- [4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Dreth Gyngor](#)
[4. Welsh Conservatives Debate: Council Tax](#)
- [5. Dadl Plaid Cymru: Ffracio](#)
[5. Plaid Cymru Debate: Fracking](#)
- [6. Cyfnod Pleidleisio](#)
[6. Voting Time](#)
- [7. Dadl Fer: Cynlluniau Pensiynau Diffoddwyr Tân: Sicrhau Chwarae Teg](#)
[7. Short Debate: Firefighters' Pension Schemes: Credit Where Credit's Due](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

- | | | | | |
|-------|--|--|----------|--|
| 13:30 | Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography
Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn. | | | Senedd.tv
Fideo Video |
| 13:30 | 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography
Item 1 is questions to the Minister for Finance and Government Business, and question 1 is Christine Chapman's. | 1. Questions to the Minister for Finance and Government Business
Eitem 1 yw'r cwestiynau i Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, a daw cwestiwn 1 gan Christine Chapman. | Y | Senedd.tv
Fideo Video |
| 13:30 | Dyraniad Cyllidebol i'r Portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Christine Chapman Bywgraffiad Biography
<i>1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfanswm y dyraniad cyllidebol i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(4)0511(FIN)</i>

Russell George Bywgraffiad Biography
<i>4. Pa ffactorau y rhoddodd y Gweinidog ystyriaeth iddynt wrth ddyrannu cyllid i'r gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? OAQ(4)0506(FIN)</i> | Funding Allocation to the Health and Social Services Portfolio

<i>1. Will the Minister make a statement on the overall funding allocation to the health and social services portfolio? OAQ(4)0511(FIN)</i>

<i>4. What factors were considered by the Minister when allocating funding to the health and social services budget? OAQ(4)0506(FIN)</i> | | Senedd.tv
Fideo Video |

- 13:30 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business
 Llywydd, I understand you've given permission for questions 1 and 4 to be grouped. The budget allocated to the health and social services portfolio reflects the evidence of the Nuffield report. It provides the NHS with the funding to progress the reforms needed for long-term sustainability.
- 13:31 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Thank you, Minister, and I welcome the Welsh Government's allocation of additional expenditure to our NHS, and in particular the extra £11 million for ambulance services that was recently announced. It is very concerning that some of the worst ambulance response times were in south Wales, including my own local authority area of Rhondda Cynon Taf. So, can the Welsh Government, whilst striving for improved ambulance response times across Wales, make sure that the south Wales Valleys benefit from their fair share of the additional funding?
- 13:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Well, clearly, improving the performance of the emergency ambulance service is a key priority of this Government, and the investment that we've made, I believe, is proof of that commitment. Of the £11 million, £3 million is capital funding for the purchase of 17 new front-line emergency ambulances, and of course, we would expect the funding to be equitably allocated and to be used to target areas where demand has increased to unprecedented levels.
- 13:32 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Minister, the mid Wales healthcare study identified the positive effect of small amounts of seed corn funding from Governments and how that can stimulate innovation in the provision of rural healthcare. Can the Minister outline what consideration the Welsh Government has given to best practice from around the world and how it can, and will, amend the health and social service budget as a result of the funding recommendations that are contained in the mid Wales healthcare study report?
- 13:32 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Indeed, the mid Wales healthcare network work has been very important, particularly in relation to looking at health needs in rural areas. Of course, the study outlined the challenges that we face in the health service in mid Wales, but also the ways in which we can secure the future of high-quality healthcare for people living across the region. Of course, that's just one aspect of the Wales health collaborative, which provides leadership and engagement, learning, of course, from other countries and other initiatives of that kind.
- Llywydd, rwy'n deall eich bod wedi rhoi caniatâd i gwestiynau 1 a 4 gael eu grwpio. Mae'r gyllideb a ddyrannwyd i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn adlewyrchu tystiolaeth adroddiad Nuffield. Mae'n rhoi cyllid i'r GIG gamu ymlaen gyda'r diwygiadau sydd eu hangen ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor.
- Diolch i chi, Weiniog, a chroesawaf y ffaith fod Llywodraeth Cymru yn dyrannu gwariant ychwanegol tuag at ein GIG, ac yn arbennig yr £11 miliwn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau ambiwlans a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'n destun pryder mawr fod rhai o'r amseroedd ymateb ambiwlansys gwaethaf i'w gweld yn ne Cymru, gan gynnwys fy ardal awdurdod lleol fy hun, sef Rhondda Cynon Taf. Felly, wrth ymdrechu i wella amseroedd ymateb ambiwlansys ar draws Cymru, a all Llywodraeth Cymru sicrhau bod Cymoedd y de yn elwa ar eu cyfran deg o'r cyllid ychwanegol?
- Wel, yn amlwg, mae gwella perfformiad y gwasanaeth ambiwlans brys yn un o flaenoriaethau allweddol y Llywodraeth hon, ac rwy'n credu bod y buddsoddiad rydym wedi ei wneud yn brawf o'r ymrwymiad hwnnw. O'r £11 miliwn, mae £3 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer prynu 17 o ambiwlansys brys rheng flaen newydd, ac wrth gwrs, byddem yn disgwyl i'r arian gael ei ddyrannu'n deg a'i ddefnyddio i dargedu ardaloedd lle y mae'r galw wedi cynyddu i lefelau digyffelyb.
- Weiniog, nododd yr astudiaeth o ofal iechyd yng nghanolbarth Cymru effaith gadarnhaol symiau bach o gyllid sbarduno gan Lywodraethau a sut y gall ysgogi arloesedd yn y broses o ddarparu gofal iechyd yng nghefn gwlad. A all y Gweinidog amlinellu pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei rhoi i arferion gorau o bob rhan o'r byd a sut y gall, a sut y bydd, yn diwygio'r gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn sgil yr argymhellion ariannu sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ar yr astudiaeth o ofal iechyd yng nghanolbarth Cymru ?
- Yn wir, mae'r gwaith ar y rhwydwaith gofal iechyd yng nghanolbarth Cymru wedi bod yn bwysig iawn, yn enwedig o ran edrych ar anghenion iechyd mewn ardaloedd gwledig. Wrth gwrs, amlinellodd yr astudiaeth yr heriau sy'n ein hwynebu yn y gwasanaeth iechyd yng nghanolbarth Cymru, ond hefyd y ffyrdd y gallwn sicrhau dyfodol gofal iechyd o ansawdd uchel i bobl sy'n byw ar draws y rhanbarth. Wrth gwrs, un agwedd yn unig yw hynny ar raglen gydweithredol iechyd Cymru, sy'n darparu arweinyddiaeth ac ymgysylltiad, gan ddsygu, wrth gwrs, o brofiad gwledydd eraill a mentrau eraill o'r math hwn.

- 13:33 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I also welcome the extra investment into the Welsh NHS, but I want to ask the question as to whether you've considered any aspect of additional funding for training places, particularly postgraduate training and undergraduate training, so that we can increase the numbers of doctors and other health professionals to actually deliver for the health service.
- Weinidog, rwyf innau hefyd yn croesawu'r buddsoddiad ychwanegol yn y GIG yng Nghymru, ond rwyf am ofyn a ydych wedi ystyried unrhyw agwedd ar gyllid ychwanegol ar gyfer lleoedd hyfforddi, yn enwedig hyfforddiant ôl-raddedig a hyfforddiant israddedig, er mwyn inni allu cynyddu nifer y meddygon a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n mynd ati i gyflawni ar gyfer y gwasanaeth iechyd.
- 13:33 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I do welcome David Rees's question because each year the Welsh Government invests more than £350 million to support in excess of 15,000 students, and those are students studying a range of health-related programmes across Wales, including undergraduate, postgraduate and continuing professional development. But it's not just medicine; it's important that we look at all of the allied healthcare professions, as well as dentistry, nursing and medicine. Of course, we now have a review. The Minister has commissioned a review of the arrangements currently in place to support this investment, and the review is due to report at the end of this month.
- Rwy'n croesawu cwestiwn David Rees oherwydd bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi dros £350 miliwn ar gefnogi mwy na 15,000 o fyfyrwyr, a'r rheini'n fyfyrwyr sy'n astudio amrywiaeth o raglenni iechyd ar draws Cymru, gan gynnwys rhaglenni israddedig, ôl-raddedig a datblygiad proffesiynol parhaus. Ond nid meddygaeth yn unig y mae'n ei gynnwys; mae'n bwysig ein bod yn edrych ar bob un o'r proffesiynau gofal iechyd perthynol, yn ogystal â deintyddiaeth, nyrsio a meddyginiaeth. Wrth gwrs, bellach mae gennym adolygiad. Mae'r Gweinidog wedi comisiynu adolygiad o'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd i gefnogi'r buddsoddiad hwn, a chyflwynir adroddiad ar yr adolygiad ar ddiwedd y mis hwn.
- 13:34 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, extra money for the health service, of course, is always welcome, but there are other budget decisions that affect the NHS. How much do you estimate cuts to adult social and healthcare services by local authorities have increased the burden on the NHS, particularly as more elderly people are finding their way into hospitals?
- Weinidog, mae croeso bob amser, wrth gwrs, i arian ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth iechyd, ond mae yna benderfyniadau eraill sy'n effeithio ar gyllideb y GIG. I ba raddau rydych chi'n amcangyfrif bod toriadau i wasanaethau cymdeithasol a gofal iechyd i oedolion gan awdurdodau lleol wedi cynyddu'r baich ar y GIG, yn enwedig wrth i niferoedd mwy o bobl hŷn gael eu derbyn i ysbytai?
- 13:34 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, clearly, the importance of our social services has been reflected in budget decisions that we have made. If we look at social services spend, this year, I allocated an extra £7 million, and that's £7 million that's gone through the revenue support grant in terms of the budget. But also, recognising the latest Treasury figures, actually, the spend on health and social care in Wales is 5% higher than in England.
- Wel, yn amlwg, mae pwysigrwydd ein gwasanaethau cymdeithasol wedi cael ei adlewyrchu yn y penderfyniadau cyllidebol rydym wedi'u gwneud. Os edrychwn ar wariant y gwasanaethau cymdeithasol eleni, dyrennais £7 miliwn yn ychwanegol, a dyna £7 miliwn sydd wedi mynd drwy'r grant cynnal refeniw o ran y gyllideb. Ond hefyd, gan gydnabod ffigurau diweddaraf y Trysorlys, mewn gwirionedd, mae'r gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru 5% yn uwch nag yn Lloegr.
- 13:35 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, rydych wedi esbonio sut mae'r arian i'r gwasanaeth ambiwlans yn cael ei rannu, ond fe wnaethoch chi gyhoeddi £40 miliwn ychwanegol ar 15 Ionawr. Sut yn union fydd yr arian yna'n cael ei ddosbarthu rhwng y byrddau iechyd?
- Minister, you have explained how the money for the ambulance service is shared, but you publish an extra £ 40 million on 15 January. How exactly will the money then be distributed between the health boards?

13:35

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is important in relation to equitable distribution of that money, but also seeing the areas where there is unprecedented demand. I mean, on the £40 million that was announced last month, of course, allocations will be made by the emergency ambulance services committee. They commission the emergency ambulance services on behalf of health boards. But it's also important that this additional funding is used to ensure sufficient capacity in those areas where there's particular demand, to ensure patients receive a timely response. I also have to say that, of course, this complements an extra £7.5 million investment, to employ 120 additional front-line emergency ambulance staff this financial year.

Mae hyn yn bwysig o ran dosbarthu'r arian hwnnw'n deg, ond hefyd o ran gweld ym mha ardaloedd y ceir galw digynsail. Hynny yw, ar ben y £40 miliwn a gyhoeddwyd y mis diwethaf, wrth gwrs, bydd dyraniadau yn cael eu gwneud gan y pwyllgor gwasanaethau ambiwlans brys sy'n comisiynu gwasanaethau ambiwlans brys ar ran y byrddau iechyd. Ond mae'n bwysig hefyd i'r cyllid ychwanegol hwn gael ei ddefnyddio i sicrhau bod digon o gapasiti yn yr ardaloedd lle y ceir galw penodol, i sicrhau bod cleifion yn cael ymateb amserol. Mae'n rhaid i mi ddweud hefyd, wrth gwrs, fod hwn yn ategu buddsoddiad ychwanegol o £7.5 miliwn i gyflogi 120 o staff ambiwlans brys rheng flaen ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, one area of pressure in the health service is spending around mental health services. We've seen spending in this area actually fall in recent years, and one particular aspect of mental health services—that for child and adolescent mental health provision—has actually been under even more intense pressure, as a result of rising demand for those services, with incidences of self-harm amongst young people particularly concerning in recent years. What action are you taking to ensure that the ring-fence for mental health services is being looked at, so that it can accommodate some increase in provision? In particular, could you consider the provision of a ring-fence within the ring-fence for child and adolescent mental health services?

Weinidog, un maes lle y ceir pwysau yn y gwasanaeth iechyd yw gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl. Rydym wedi gweld gwariant ar y maes hwn yn disgyn dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae un agwedd benodol ar y gwasanaethau iechyd meddwl—y ddarpariaeth iechyd meddwl ar gyfer plant a'r glasod—wedi bod dan bwysau mwy dwys byth mewn gwirionedd o ganlyniad i'r galw cynyddol am y gwasanaethau hynny, gydag achosion o hunan-niwed ymysg pobl ifanc yn arbennig yn peri pryder yn y blynyddoedd diwethaf. Pa gamau rydych yn eu cymryd i sicrhau bod sylw'n cael ei roi i glustnodi arian ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, er mwyn gallu darparu ar gyfer rhywfaint o gynnydd yn y ddarpariaeth? Yn benodol, a allech ystyried clustnodi arian o fewn yr arian a glustnodir ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Darren Millar, I thought you would be aware that, despite the budget pressures, we have ring-fenced funding for mental health services. We've made additional funding available for specific initiatives, and I'm glad you've raised the issue about child and adolescent mental health services, because additional funding made available most recently, in October 2013, of course, agreeing another £250,000 per annum, that is what is being taken forward to improve CAMHS response, particularly—and you mentioned this important area—treating eating disorders.

Wel, Darren Millar, fe gredais y byddech yn ymwybodol, er gwaethaf y pwysau ar y gyllideb, ein bod wedi clustnodi arian ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Rydym wedi darparu arian ychwanegol ar gyfer mentrau penodol, ac rwy'n falch eich bod wedi codi'r mater ynghylch gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod, gan fod cyllid ychwanegol ar gael, yn fwyaf diweddar ym mis Hydref 2013, wrth gwrs, pan gytunwyd i ryddhau £250,000 arall y flwyddyn. Dyna beth sy'n cael ei wneud i wella ymateb CAMHS, yn arbennig—ac fe sonioch am faes pwysig trin anhwylderau bwyta.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could the Minister provide an update on the funding for the new building planned at Velindre Hospital in Cardiff North, in my constituency, especially in light of the report from Cancer Research UK today that one in two of us will get cancer at some point in our lives?

A allai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyllid ar gyfer yr adeilad newydd a gynlluniwyd yn Ysbyty Felindre yng Ngogledd Caerdydd, yn fy etholaeth, yn enwedig yng ngoleuni'r adroddiad gan Cancer Research UK heddiw y bydd un o bob dau ohonom yn cael canser ar ryw adeg yn ein bywydau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think the work that we're doing in terms of the funding for the new building planned at Velindre Hospital, in your constituency in Cardiff North, is very important, particularly in light of those reports. We're now at the point where the Minister for Health and Social Services has considered a business case. We're making good progress. Of course, this is about ensuring that we have new resources, and is not just about replacing assets at Velindre Hospital, to ensure that we've got relevant expertise, and momentum. Of course, what's very important is this is being developed through a not-for-profit distributing financing model.

Rwy'n meddwl bod y gwaith rydym yn ei wneud o ran y cyllid ar gyfer yr adeilad newydd a gynlluniwyd yn Ysbyty Felindre yn eich etholaeth yng Ngogledd Caerdydd yn bwysig iawn, yn enwedig yng ngoleuni'r adroddiadau hynny. Rydym bellach wedi cyrraedd y pwynt lle y mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ystyried achos busnes. Rydym yn gwneud cynnydd da. Wrth gwrs, mae hyn yn ymwneud â sicrhau bod gennym adnoddau newydd, ac nid mater o gael asedau newydd yn Ysbyty Felindre yn unig, er mwyn sicrhau bod gennym yr arbenigedd perthnasol, a momentwm. Wrth gwrs, yr hyn sy'n bwysig iawn yw bod hyn yn cael ei ddatblygu drwy fodel ariannu nad yw'n dosbarthu elw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, yr wythnos diwethaf, fe wnaethoch chi gyhoeddi bod y gronfa gofal integredig yn mynd i dderbyn £20 miliwn. A allwch chi esbonio pam mae'r gronfa yma bellach yn mynd i gael ei rhoi yn uniongyrchol i fyrdau iechyd, yn hytrach nag i awdurdodau lleol, fel yn y cynllun gwreiddiol? A allwch chi wedyn ein sicrhau ni fel Cynulliad y byddwch chi'n sicrhau bod y byrdau iechyd yn cadw'r arian yma at y pwrpas gwreiddiol o sicrhau integreiddiad o wasanaethau?

Minister, last week, you made an announcement that the integrated care fund is to receive £ 20 million. Can you explain why this fund is now going to be given directly to health boards, rather than to local authorities, as per the original plan? Can you then assure us as an Assembly that you will ensure that health boards keep this fundings for the purpose for which it was intended, of ensuring the integration of services?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I think this is a very important development, as a result of the autumn statement. I remember coming to this Chamber, and announcing that we were allocating the £70 million. It gave Members across the Chamber the opportunity to tell me how they felt that money should be spent. The intermediate care fund, of course, was a key part of that call, I think, for allocation of that funding.

Wel, rwy'n credu bod hwn yn ddatblygiad pwysig iawn o ganlyniad i'r datganiad yn yr hydref. Rwy'n cofio dod i'r Siambr hon a chyhoeddi ein bod yn dyrannu'r £70 miliwn. Rhoddodd gyfle i Aelodau ar draws y Siambr ddweud wrthyf sut y teimlent y dylid gwario'r arian hwnnw. Rwy'n meddwl bod y gronfa gofal canolraddol, wrth gwrs, yn rhan allweddol o'r alwad honno i ddyrannu'r cyllid.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Of course, it was only a one-year agreement that we had in terms of the intermediate care fund, but we recognise the importance of it. I think the fact that it is being allocated via the health and social services Minister's portfolio will enable us to work with local government, and to develop what, of course, has always been a facility that we wish to use, which is the pooled budgets with local government. Of course, the intermediate care fund, throughout this year, has been developed in partnership between local health boards, local authorities and indeed the third sector.

Wrth gwrs, cytundeb blwyddyn yn unig a oedd gennym o ran y gronfa gofal canolraddol, ond rydym yn sylweddoli ei fod yn bwysig. Rwy'n meddwl bod y ffaith ei fod yn cael ei ddyrannu drwy bortffolio'r Gweinidog iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn ein galluogi i weithio gyda llywodraeth leol, ac i ddatblygu'r hyn sydd bob amser wedi bod yn gyfleuster rydym yn dymuno ei ddefnyddio, wrth gwrs, sef y cyllidebau cyfun gyda llywodraeth leol. Wrth gwrs, mae'r gronfa gofal canolraddol, drwy gydol y flwyddyn hon, wedi cael ei datblygu mewn partneriaeth rhwng byrdau iechyd lleol, awdurdodau lleol a'r trydydd sector, yn wir.

13:40

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, at a recent meeting with Alan Laurie who's director of primary and community care at Powys teaching health board, we discussed a recent expression of interest that had been submitted by the board to the invest-to-save fund, which would facilitate LED lighting throughout the extensive hospital estate. This would accrue environmental benefits, obviously, but also would reduce the overall electricity costs by some £55,000 a year. Minister, do you agree with me that this is exactly the kind of scheme that we should be supporting via invest to save, given the opportunity there is then to reinvest the money saved in front-line health services?

Weinidog, mewn cyfarfod diweddar gydag Alan Laurie, cyfarwyddwr gofal sylfaenol a chymunedol ym mwrdd addysgu iechyd Powys, buom yn trafod datganiad o ddiddordeb diweddar a gyflwynwyd gan y bwrdd yn y gronfa buddsoddi i arbed arian, a fyddai'n hwylyso'r gwaith o osod goleuadau LED drwy'r ystâd ysbyty helaeth. Byddai hyn yn creu manteision amgylcheddol, yn amlwg, ond hefyd yn torri tua £55,000 y flwyddyn oddi ar y costau trydan cyffredinol. Weinidog, a ydych yn cytuno â mi mai dyma'n union y math o gynllun y dylem ei gefnogi drwy gynllun buddsoddi i arbed, o ystyried bod cyfle yma i ail-fuddsoddi'r arian sy'n cael ei arbed ar wasanaethau iechyd rheng flaen?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I certainly do agree with you, William Powell, because we've ring-fenced funding within our invest-to-save programme for energy efficiency schemes, and already it's benefiting many health boards. Now some collaborative projects are coming forward with local government as well.</p>	<p>Rwy'n sicr yn cytuno â chi, William Powell, oherwydd rydym wedi clustnodi arian o fewn ein rhaglen buddsoddi i arbed ein hunain ar gyfer cynlluniau effeithlonrwydd ynni, ac eisoes mae'n creu budd i lawer o fyrddau iechyd. Bellach mae rhai prosiectau cydweithredol yn cael eu cyflwyno gan lywodraeth leol hefyd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Proses Gŵyl Ddewi		The St David's Day Process	
13:41	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p><i>2. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o unrhyw bwerau ariannol a allai gael eu datganoli i Gymru fel rhan o'r broses dydd gŵyl Dewi? OAQ(4)0519(FIN)</i></p>	<p><i>2. What assessment has the Minister made of any financial powers that may be devolved to Wales as part of the St David's day process? OAQ(4)0519(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:41	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I've continued to make the case for the measures that have been agreed by all parties in this Assembly: a funding floor, air passenger duty, a higher ceiling for capital borrowing, and bond-issuing powers.</p>	<p>Rwyf wedi parhau i gyflwyno'r achos dros y mesurau sydd wedi eu cytuno gan bob plaid yn y Cynulliad hwn: cyllid gwaelodol, toll teithwyr awyr, terfyn uchaf ar gyfer benthyca cyfalaf, a phwerau i gyhoeddi bondiau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:41	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that, Minister. The tax credit scheme for landfill tax allows landfill site operators to contribute 6.5% of their tax liability to community projects for environmental benefit. Is it the Welsh Government's intention to retain that scheme or to alter it in some way? I think a lot of people and groups interested in taking forward community projects of an environmental nature would be very interested as to what the future plans are.</p>	<p>Diolch am hynny, Weinidog. Mae'r cynllun credyd treth ar gyfer treth tirlenwi yn caniatáu i weithredwyr safleoedd tirlenwi gyfrannu 6.5% o'u hatebolrwydd treth i brosiectau cymunedol er budd amgylcheddol. A yw'n fwiad gan Lywodraeth Cymru i gadw'r cynllun hwn neu ei newid mewn rhyw ffordd? Rwy'n credu y byddai gan lawer o bobl a grwpiau sydd â diddordeb mewn datblygu prosiectau cymunedol o natur amgylcheddol ddiddordeb mawr mewn clywed beth yw'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:42	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank John Griffiths for that important question because I published only this morning our consultation on landfill disposals tax—I'm publishing it on the twenty-fourth, but I announced the date of publication. We're going to consult fully on this issue, and I think the importance of the fund has already come through in terms of discussions we've had to incentivise landfill site operators to support their local community and environmental projects.</p>	<p>Diolch i John Griffiths am y cwestiwn pwysig hwnnw gan i mi gyhoeddi, y bore yma yn unig, ein hymgyngoriad ar y dreth ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi—rwy'n ei gyhoeddi ar y 24ain, ond cyhoeddais y dyddiad cyhoeddi. Rydym yn mynd i ymgynghori'n llawn ar y mater hwn, ac rwy'n meddwl bod pwysigrwydd y gronfa eisoes wedi dod yn amlwg drwy'r trafodaethau a gawsom i gymell gweithredwyr safleoedd tirlenwi i gefnogi eu prosiectau cymunedol ac amgylcheddol lleol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:42	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>I wasn't clear, Minister, whether that was a 'yes', and you will be looking at it. I know, particularly in north Wales, a number of important projects have been supported by that tax, particularly around water quality and management, and those projects are, in effect, ongoing. So, the consultation itself will create uncertainty going forward, so perhaps I could echo John Griffiths's question and ask for a 'yes' or 'no' answer, if that's not too cheeky.</p>	<p>Nid oeddwn yn glir, Weinidog, ai ateb cadarnhaol oedd hwnnw, ac y byddwch yn edrych arno. Gwn fod nifer o brosiectau pwysig, yng ngogledd Cymru yn arbennig, wedi cael eu cefnogi gan y dreth, yn enwedig o ran ansawdd dŵr a rheoli dŵr, ac mae'r prosiectau hynny, i bob pwrpas, ar y gweill. Felly, bydd yr ymgynghoriad ei hun yn creu ansicrwydd ar gyfer y dyfodol, felly efallai y caf adleisio cwestiwn John Griffiths a gofyn am ateb 'ie' neu 'na', os nad yw hynny'n rhy ddigywilydd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:43	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>I think, Antoinette Sandbach, it's an opportunity and not a threat here, isn't it, to ensure that we do enable the landfill communities fund in Wales to go from strength to strength?</p>	<p>Rwy'n meddwl, Antoinette Sandbach, mai cyfle ac nid bygythiad sydd yma, ynte, i sicrhau ein bod yn galluogi'r gronfa tirlenwi gymunedol yng Nghymru i fynd o nerth i nerth?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:43 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Sawl gwaith y mae'r Prif Weinidog wedi dweud wrth y Siambr yma bod unrhyw beth sy'n cael ei gynnig i'r Alban o ran datganoli pwerau hefyd i fod i gael ei gynnig, o leiaf, i Gymru? Yn ystod y dyddiau diwethaf, rydym ni wedi gweld yn glir bod y Blaid Lafur, os ydyn nhw'n ennill yr etholiad yn San Steffan ym mis Mai, yn mynd i gynnig grymoedd ychwanegol ariannol a chyllidol i Senedd yr Alban, yn enwedig o gwmpas lles ac arian ychwanegol y 'vow plus' fel y mae'n cael ei alw. A ydy hyn, felly, yn safbwynt gan Lywodraeth Cymru, sef i ofyn am yr un pwerau â hynny, a pha waith ydych chi'n ei wneud i baratoi ar gyfer datganoli grymoedd pellach ariannol i'r Cynulliad?

How many times has the First Minister told this Chamber that anything proposed for Scotland in terms of the devolution of powers should also be offered, at least, to Wales? Over the past few days, we have clearly seen that the Labour Party, if they were to win the Westminster election in May, are going to offer additional financial and fiscal powers to the Scottish Parliament, particularly around welfare and additional funding for the 'vow plus' as it's described. Is it, therefore, the Welsh Government's proposal to request those same powers, and what work are you doing to prepare for the devolution of further fiscal powers to this Assembly?

13:44 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I think we had a very important and significant debate in this Chamber last year, in October. We had a unanimously supported motion, which highlighted what we had, across this Chamber and all parties, agreed were key developments in terms of future devolution for Wales. I would have to say I've already mentioned the fact that, as far as my role in this is concerned, leading the St David's day process, it has been to secure that Barnett floor to deliver fair funding for Wales, also the devolution of air passenger duty—if Scotland's got it, we should have it—as well as a higher ceiling for capital borrowing, and bond-issuing powers. These are also, of course, the key recommendations of the Silk commission.

Rwy'n credu ein bod wedi cael dadl bwysig ac arwyddocaol iawn yn y Siambr hon y llynedd, ym mis Hydref. Cawsom gynnig a gefnogwyd yn unfrydol ac a dynnai sylw at yr hyn yr oeddem, ar draws y Siambr hon a'r holl bleidiau, yn gytûn eu bod yn ddatblygiadau allweddol o ran datganoli i Gymru yn y dyfodol. Byddai'n rhaid i mi ddweud fy mod eisoes wedi crybwyll mai fy i rôl yn hyn, yn arwain y broses ddydd Gŵyl Dewi, oedd sicrhau llawr Barnett i sicrhau cyllid teg i Gymru, a datganoli toll teithwyr awyr hefyd—os yw'r Alban wedi ei gael, yna dylem ninnau ei gael hefyd—yn ogystal â therfyn uchaf ar gyfer benthyca cyfalaf a phwerau i gyhoeddi bondiau. Y rhain hefyd, wrth gwrs, yw prif argymhellion comisiwn Silk.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to questions from the party spokespeople and first this afternoon, the Welsh Liberal Democrats spokesperson, Peter Black.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau ac yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

13:45 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. Minister, we've seen already that you've allocated £70 million of the Barnett consequential from the autumn statement to health, and I very much welcome the extra money going into intermediate care. Can you give us an indication of when you will be allocating the remainder of these Barnett consequentials and at what stage you will be making announcements on them?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, rydym wedi gweld eisoes eich bod wedi dyrannu £70 miliwn o'r swm canlyniadol Barnett o ddatganiad yr hydref i iechyd, ac rwy'n croesawu'n fawr yr arian ychwanegol tuag at ofal canolraddol. A allwch roi syniad pa bryd y byddwch yn dyrannu gweddill y symiau canlyniadol Barnett ac ar ba gam y byddwch yn gwneud cyhoeddiadau yn eu cylch?

13:45 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Well, clearly, as far as the £70 million is concerned, we have allocated it to health and through health into social care as well. But, also we have made allocations through to education as well and I think the Minister has already outlined some of the beneficial allocations we've made in education. But, particularly important in light of the debate yesterday—the statement yesterday—made by the Minister for Economy, Science and Transport is the fact that we have also used the consequentials to deliver the important announcements in terms of small business rate relief and also to ensure that we can manage with the cap as well.

Wel, yn amlwg, o ran y £70 miliwn, rydym wedi ei ddyrannu i iechyd a thrwy iechyd i ofal cymdeithasol yn ogystal. Ond hefyd rydym wedi dyrannu arian i addysg yn ogystal ac rwy'n credu bod y Gweinidog eisoes wedi amlinellu rhai o'r dyraniadau buddiol a wnaethom i addysg. Ond yr hyn sy'n arbennig o bwysig yng ngoleuni'r ddadl ddoe—y datganiad ddoe—a wnaed gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yw'r ffaith ein bod hefyd wedi defnyddio'r symiau canlyniadol i gyflwyno'r cyhoeddiadau pwysig o ran rhyddhad ardrethi i fusnesau bach a hefyd i sicrhau y gallwn ymdopi â'r cap.

- 13:46 **Peter Black** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. I take it that there is still some money left to allocate as a result of what you've done so far. Can I ask whether you'll be using any of that money to try to bolster the Welsh Government's preventative spend agenda?
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rwy'n cymryd bod rhywfaint o arian ar ôl o hyd i'w ddyrannu o ganlyniad i'r hyn rydych wedi ei wneud hyd yn hyn. A gaf fi ofyn a fyddwch yn defnyddio rhywfaint o'r arian hwnnw i geisio atgyfnerthu agenda gwariant ataliol Llywodraeth Cymru?
- 13:46 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- I think the funding allocations that we've made as a result of the autumn statement are very much underpinned by our preventative agenda, particularly in relation to health, I would say, with the allocation to primary care, but also to recognise that the allocations that are being made in relation to education will also have an impact, particularly in relation, for example, to the funding for the social care apprenticeships.
- Rwy'n meddwl bod y dyraniadau cyllid a wnaethom o ganlyniad i ddatganiad yr hydref yn cael eu hategu i raddau helaeth gan ein hagenda ataliol, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd, fe fyddwn i'n dweud, gyda'r dyraniad i ofal sylfaenol, ond hefyd i gydabod bod y dyraniadau sy'n cael eu gwneud yng nghyswllt addysg hefyd yn cael effaith, yn enwedig o ran y cyllid ar gyfer y prentisiaethau gofal cymdeithasol, er enghraifft.
- 13:47 **Peter Black** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Thank you again for that answer, Minister. You'll know, of course, that when the Finance Committee produced its report on the budget, they were very concerned about the cuts to the Supporting People budget. A small amount of money put into that budget would make a huge difference in terms of prevention. Can I ask whether you will consider, as part of the allocation of these consequentials, trying to put that small amount of money into Supporting People to actually make a huge difference to a particular part of our society.
- Diolch i chi unwaith eto am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fe fyddwch yn gwybod, wrth gwrs, pan gynhyrchodd y Pwyllgor Cyllid ei adroddiad ar y gyllideb, eu bod yn bryderus iawn ynghylch y toriadau i'r gyllideb Cefnogi Pobl. Byddai rhoi swm bach o arian at y gyllideb honno yn gwneud gwahaniaeth enfawr o ran gwaith atal. Yn rhan o'r broses o ddyrannu'r symiau canlyniadol hyn, a gaf fi ofyn a wnewch chi ystyried rhoi'r swm bach hwnnw o arian tuag at Cefnogi Pobl, gan wneud gwahaniaeth mawr i ran benodol o'n cymdeithas mewn gwirionedd.
- 13:47 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Well, as I said when I brought the autumn statement to the Chamber, to ensure that I also listened to the views and priorities in terms of the limited sums of funding that had been made available to us, we did look at all pressures and needs. I think, in terms of Supporting People, the fact that we've already offset cuts as a result of budget agreements, not just for this year, but for next, and the work that the Minister for Communities and Tackling Poverty is doing, really does mean that Supporting People is being well looked after by this Government.
- Wel, fel y dywedais pan gyflwynais ddatganiad yr hydref i'r Siambr, er mwyn sicrhau fy mod hefyd yn gwrandao ar y safbwyntiau a'r blaenoriaethau o ran y symiau cyfyngedig o arian a oedd ar gael i ni, fe edrychom ni ar yr holl bwysau ac anghenion. O ran Cefnogi Pobl, rwy'n credu bod y ffaith ein bod eisoes wedi gwneud iawn am doriadau o ganlyniad i gytundebau cyllidebol, nid yn unig ar gyfer y flwyddyn hon ond ar gyfer y nesaf, a'r gwaith y mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn ei wneud, yn golygu mewn gwirionedd fod y Llywodraeth hon yn edrych ar ôl Cefnogi Pobl yn dda.
- 13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- We now move to the Welsh Conservatives spokesperson, Nick Ramsay.
- Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Nick Ramsay.
- 13:48 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Diolch. Minister, we do, of course, welcome any additional spending on the health service that will, at least, try to make up for the cuts that your Government has made to the health budget since the last Assembly election. Can I ask you, in terms of the recent £70 million announcement and the portion of that which has been allocated to the ambulance service, how will you ensure that that money does actually improve the ambulance service in Wales?
- Diolch. Weinidog rydym yn croesawu unrhyw wariant ychwanegol ar y gwasanaeth iechyd, wrth gwrs, a fydd o leiaf yn ceisio gwneud iawn am y toriadau y mae eich Llywodraeth wedi eu gwneud i'r gyllideb iechyd ers etholiad diwethaf y Cynulliad. A gaf fi ofyn i chi, o ran y cyhoeddiad diweddar ar y £70 miliwn a'r rhan ohono a ddyrannwyd i'r gwasanaeth ambiwlans, sut y byddwch yn sicrhau bod yr arian yn gwella'r gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru mewn gwirionedd?

13:48

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think I've already answered that point very fully in earlier questions. I think what's very important about the ambulance service and the performance is that we recognise that the demand on the service has been unprecedented over the last few months. With the service receiving over 40,000 calls during the month of December, or around 1,295 a day, we must recognise the pressure on the ambulance service. So, our allocation of £11 million, I think, is proof of the commitment that's being made but also recognises that this includes 120 additional front-line emergency ambulance staff in this financial year. This is before the allocation for the next financial year.

Rwy'n credu fy mod eisoes wedi ateb y pwynt yn llawn iawn mewn cwestiynau cynharach. Rwy'n credu mai'r hyn sy'n bwysig iawn am y gwasanaeth ambiwlans a'r perfformiad yw ein bod yn cydnabod bod y galw am y gwasanaeth wedi bod yn ddigynsail yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Gyda'r gwasanaeth yn derbyn dros 40,000 o alwadau yn ystod mis Rhagfyr, neu tua 1,295 y dydd, mae'n rhaid i ni gydnabod y pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans. Felly, mae ein dyraniad o £11 miliwn, rwy'n meddwl, yn brawf o'r ymrwymiad ond mae hefyd yn cydnabod bod hyn yn cynnwys 120 o staff ambiwlans brys rheng flaen ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae hyn cyn y dyraniad ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Minister, I think, of course, what has been unprecedented is your Government's failure to properly fund the ambulance service over a number of years and now you're having to try and play catch-up. The state that the ambulance service in Wales is in is nothing short of shocking. You hear day in and day out in this Chamber of concerns we have, which are being raised with us by our constituents. What you've provided to the ambulance service over the last few years has not represented value for money, has it? What time frame are you going to put on the local health boards and the ambulances to provide a ready improvement in local health provision and the all-important ambulance service?

Wel, Weinidog, rwy'n meddwl, wrth gwrs, mai'r hyn sydd wedi bod yn ddigynsail yw methiant eich Llywodraeth i ariannu'r gwasanaeth ambiwlans yn iawn dros nifer o flynyddoedd ac yn awr rydych yn gorfod ceisio dal i fyny. Mae cyflwr y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru yn frawychus. Rydych yn clywed ddydd ar ôl dydd yn y Siambur hon am y pryderon sydd gennym, sy'n cael eu dwyn i'n sylw gan ein hetholwyr. Nid yw'r hyn rydych chi wedi ei ddarparu i'r gwasanaeth ambiwlans dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn dangos gwerth am arian, oni chytunwch? Pa amserlen fyddwch chi'n ei rhoi i'r byrddau iechyd lleol a'r ambiwlansys i ddarparu gwelliant buan yn y ddarpariaeth iechyd leol a'r gwasanaeth ambiwlans hollbwysig?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course it's all-important, and the fact that we did approve funding of £3.8 million for the purchase of 41 replacement operational vehicles—part of the annual replacement programme—shows our commitment. You asked what the impact of that will be: a modernised fleet, more reliable, better equipped, cheaper to maintain and more fuel-efficient—key to delivering service improvement.

Wel, wrth gwrs ei fod yn hollbwysig, ac mae'r ffaith ein bod wedi cymeradwyo cyllid o £3.8 miliwn ar gyfer adnewyddu 41 o gerbydau gweithredol—rhan o'r rhaglen adnewyddu flynyddol—yn dangos ein hymrwymiad. Fe ofynnodd beth fydd effaith hynny: fflyd wedi ei moderneiddio, mwy dibynadwy, wedi'i chyfarparu'n well, rhatach i'w chynnal a mwy effeithlon o ran ei defnydd o danwydd—sy'n allweddol i gyflawni gwelliannau yn y gwasanaethau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:50

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, of course, Minister, all these things are welcome, but you only have to look at the figures. If you look at my own constituency, less than half of ambulances reach patients within that all-important eight-minute target—not their target, incidentally, but your Government's own target. I asked you a question, then: what time limits you are putting on the ambulance trust to make sure that these problems are dealt with? I didn't hear you give a date. How long will this take? Two months? Four years? Ten years?

Wel, wrth gwrs, Weinidog, mae'r holl bethau hyn i'w croesawu, ond nid oes ond raid i chi edrych ar y ffigurau. Os edrychwch ar fy etholaeth fy hun, nid yw hanner yr ambiwlansys yn cyrraedd cleifion o fewn y targed hollbwysig o wyth munud—nid eu targed hwy, gyda llaw, ond targed eich Llywodraeth eich hun. Gofynnais gwestiwn i chi, felly: pa derfynau amser rydych yn eu rhoi i'r ymddiriedolaeth ambiwlans i wneud yn siŵr yr eir i'r afael â'r problemau hyn? Ni chlywais i chi'n rhoi dyddiad. Pa mor hir fydd hyn yn ei gymryd? Dau fis? Pedair blynedd? Deng mlynedd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:50 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, you know, shouting and saying you don't actually—. Implying you don't welcome this extra money we're putting into the health service, I think, is very disheartening for the people who are working hard in the ambulance service, but also recognising that we expect the ambulance service to deliver better response times. Also, to look at ways in which—and it's not just in Wales, but across the border in England, as well—we are looking at ways in which we can, together, learn from each other about how we can improve the delivery of the ambulance trust service.
- Wel, wyddoch chi, nid yw gweiddi a dweud nad ydych mewn gwirionedd—. Mae awgrymu nad ydych yn croesawu'r arian ychwanegol rydym yn ei roi i'r gwasanaeth iechyd, rwy'n meddwl, yn ddigalon iawn i'r bobl sy'n gweithio'n galed yn y gwasanaeth ambiwlans, ond gan gydnabod hefyd ein bod yn disgwyl i'r gwasanaeth ambiwlans wella amseroedd ymateb. Hefyd, er mwyn edrych—nid yng Nghymru yn unig, ond ar draws y ffin yn Lloegr yn ogystal—ar ffyrdd o ddysgu, gyda'n gilydd, gan ein gilydd ynglŷn â sut y gallwn wella darpariaeth yr ymddiriedolaeth gwasanaethau ambiwlans.
- 13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to Plaid Cymru's spokesperson, Alun Ffred Jones.
- Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Alun Ffred Jones.
- 13:51 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda Gweinidogion y Deyrnas Unedig parthed cyllido teg i Gymru?
- Thank you very much. What negotiations have you had with UK Government Ministers in terms of fair funding for Wales?
- 13:51 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- As I said in answer to earlier questions, of course, this is a key part of the St David's Day process. A funding work stream has enabled me to continue to press for our call for a Barnett floor to deliver fair funding, and, of course, that is critical in terms of moving forward and for a fair deal for Wales in terms of new fiscal powers.
- Fel y dywedais wrth ateb cwestiynau cynharach, wrth gwrs, mae hon yn rhan allweddol o'r broses Ddydd Gŵyl Dewi. Mae ffrwd waith cyllid wedi fy ngalluogi i barhau i bwysio am ein galwad am lawr Barnett i ddarparu trefn gyllido deg, ac wrth gwrs, mae hynny'n allweddol o ran symud ymlaen a chael bargaen deg i Gymru o ran pwerau cyllidol newydd.
- 13:52 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Wel, nid wyf yn siŵr am 'fair deal', ond mae GVA y pen yr Alban yn 94% lefel y Deyrnas Unedig. Y ffigwr yng Nghymru ydy 72.3%. Pa gyfiawnhad, felly, sydd am y setliad llawer iawn gwell y mae fformiwla Barnett yn ei roi i'r Alban, a Gogledd Iwerddon petai'n dod i hynny—setliad y mae'ch arweinydd Llafur, Ed Miliband, wedi'i gefnogi?
- Well, I'm not sure about a fair deal, but the per capita GVA in Scotland is 94% of the UK level. The figure for Wales is 72.3%. What justification is there for the much better settlement that the Barnett formula gives to Scotland, and to Northern Ireland if it came to that—a settlement that your Labour leader, Ed Miliband, has supported?
- 13:52 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, of course, there's no justification for the better settlement that Scotland's had for decades from the Barnett formula. We would like to see a reform of the Barnett formula, but, of course, what we have to do in terms of our responsibilities here in Wales, and what I do as Welsh Government finance Minister, is find a way forward to secure a fair funding deal for Wales. We can secure a fair funding deal for Wales if we secure the floor that Gerry Holtham recommended when he undertook the independent commission. Of course, that was backed by the cross-party Silk commission.
- Wel, wrth gwrs, nid oes cyfiawnhad dros y setliad gwell y mae'r Alban wedi ei gael ers degawdau o fformiwla Barnett. Hoffem weld diwygio fformiwla Barnett, ond wrth gwrs, yr hyn mae'n rhaid inni ei wneud o ran ein cyfrifoldebau yma yng Nghymru, a'r hyn rwy'n ei wneud fel Gweinidog Cyllid Llywodraeth Cymru yw dod o hyd i ffordd ymlaen i sicrhau cytundeb cyllido teg i Gymru. Gallwn sicrhau cytundeb cyllido teg i Gymru os gallwn sicrhau'r llawr a argymhellodd Gerry Holtham pan gynhaliodd y comisiwn annibynnol. Wrth gwrs, cafodd hwnnw ei gefnogi gan y comisiwn Silk trawsbleidiol.
- 13:53 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Ers i ni fod yn y Cynulliad, rwyf i wedi clywed Gweinidogion ar y fainc flaen yn fanna yn cyfiawnhau fformiwla Barnett, tan yn ddiweddar iawn. Fe gawsoch chi 13 blynedd mewn Llywodraeth a gwnaethoch chi ddim byd am y fformiwla. Pe bai Cymru'n cael ei hariannu ar yr un lefel â'r Alban, yna mi fuasai gennych chi £1 biliwn yn ychwanegol. Rŵan 'te, y cwestiwn ydy: beth ydych chi'n mynd i'w wneud i gael setliad teg i Gymru, a pham y diffyg uchelgais yma ar ran Cymru?
- Since I have been at the Assembly, I've heard Ministers on the front bench there justifying the Barnett formula, until quite recently. You had 13 years in Government when you did nothing about the formula. If Wales were funded on the same level as Scotland, then you would have an additional £1 billion. Now then, the question is: what are you going to do to secure a fair settlement for Wales, and why this lack of ambition on behalf of Wales?

13:53	Jane Hutt Bywgraffiad Biography Well, I think it's been very powerful that the whole of this Assembly—all parties—have backed this recommendation for a funding floor. It was, of course, recommended by Gerry Holtham, it was backed by the cross-party Silk commission and, of course, it was backed in our motion and debate last year. It has been very powerful when I negotiate with the coalition Government—both Conservative and Liberal Democrat—for the funding floor, which I believe would give us a fair funding deal in terms of the Barnett formula here in Wales.	Wel, rwy'n meddwl bod y ffaith fod y Cynulliad hwn yn gyfan—pob plaid—wedi cefnogi'r argymhelliad am gyllid gwaelodol wedi bod yn bwerus iawn. Wrth gwrs, Gerry Holtham a'i hargymhellodd, a chafodd ei gefnogi gan y comisiwn Silk trawsbleidiol ac wrth gwrs, cafodd ei gefnogi yn ein cynnig a'n dadl y llynedd. Mae wedi bod yn bwerus iawn pan fyddaf yn trafod gyda'r Llywodraeth glymblaid—y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol—o blaid y cyllid gwaelodol, y credaf y byddai'n rhoi cytundeb cyllido teg i ni o ran fformiwla Barnett yma yng Nghymru.	Senedd.tv Fideo Video
13:54	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Now, we move back to questions on the paper and question 3 is from Gwyn Price.	Yn awr, symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur a daw cwestiwn 3 gan Gwyn Price.	Senedd.tv Fideo Video
Cyllideb yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth		The economy, science and transport budget	
13:54	Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography <i>3. Pa ffactorau y rhoddwyd ystyriaeth iddynt wrth ddyrannu cyllid i gyllideb yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth? OAQ(4)0508(FIN)</i>	<i>3. What factors were considered when allocating funding to the economy, science and transport budget? OAQ(4)0508(FIN)</i>	Senedd.tv Fideo Video
Eluned Parrott Bywgraffiad Biography			
<i>11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllidebol i bortffolio'r economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16? OAQ(4)0516(FIN)</i>		<i>11. Will the Minister make a statement on the budget allocation to the economy, science and transport portfolio for the 2015-16 financial year? OAQ(4)0516(FIN)</i>	
13:54	Jane Hutt Bywgraffiad Biography Llywydd, I understand you've given your permission for questions 3 and 11 to be grouped.	Llywydd, rwy'n deall eich bod wedi rhoi eich caniatâd i gwestiynau 3 a 11 gael eu grwpio.	Senedd.tv Fideo Video
13:54	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Yes.	Ydw.	Senedd.tv Fideo Video
13:54	Jane Hutt Bywgraffiad Biography The programme for government sets out our priorities for Wales and underpins our spending plans, including funding allocated to the economy, science and transport portfolio.	Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru ac yn ategu ein cynlluniau gwariant, gan gynnwys arian a ddyrannwyd i'r portffolio economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth.	Senedd.tv Fideo Video
13:54	Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography Thank you for that answer. Minister, affordable public transport is a key to providing access to jobs and services, particularly for my constituents in Islwyn and those of neighbouring valleys. How will the £500,000 allocated for regulated rail fares in 2014-15 help my constituents?	Diolch i chi am eich ateb. Weinidog, mae trafndiaeth gyhoeddus fforddiadwy yn allweddol i allu cyrraedd swyddi a gwasanaethau, yn enwedig i fy etholwyr yn Islwyn a'r cymoedd cyfagos. Sut y bydd y £500,000 a ddyrannwyd ar gyfer prisiau tocynnau trên sy'n cael eu rheoleiddio yn 2014-15 yn helpu fy etholwyr?	Senedd.tv Fideo Video

- 13:54 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I do agree with Gwyn Price's comments that affordable public transport is key to providing access to jobs and services and, following the autumn statement, I announced £500,000 for regulated rail fares in 2014-15. Of course, that's a way in which we can cap the growth of regulated rail fares as a proactive measure to ensure public transport users benefit from lower rail ticket prices than would otherwise be the case.
- Wel, rwy'n cytuno â sylwadau Gwyn Price fod trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy yn allweddol i allu cyrraedd swyddi a gwasanaethau ac yn dilyn y datganiad yr hydref, cyhoeddais £500,000 ar gyfer prisiau tocynnau trên sy'n cael eu rheoleiddio yn 2014-15. Wrth gwrs, mae honno'n cael eu rheoleiddio fel mesur rhagweithiol i sicrhau bod defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus yn elwa ar brisiau tocynnau trên is nag y byddent yn eu talu fel arall.
- 13:55 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, in the budget agreement between the Government and the Welsh Liberal Democrats, there was a commitment to bring forward work on the Gaer curve to allow direct services to Newport from the Ebbw Vale line. Can I ask you to confirm whether that will be funded from the Welsh Government budget or from EU funds that are off-budget, and has that money, therefore, been made available in the 2015-16 financial year?
- Weinidog, yn y cytundeb cyllidebol rhwng y Llywodraeth a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yr oedd ymrwymiad i gyflwyno gwaith ar Dro'r Gaer i ganiatáu gwasanaethau uniongyrchol i Gasnewydd o linell Glynabw. A gaf fi ofyn i chi gadarnhau a fydd hynny'n cael ei ariannu o gyllideb Llywodraeth Cymru neu o gronfeydd yr UE oddi allan i'r gyllideb arferol, ac a yw'r arian hwnnw, felly, yn mynd i fod ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16?
- 13:55 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- This is a commitment and an allocation that we've made in our budget, and, of course, it is an allocation that we made prior to any new developments and new funding opportunities from the European Union.
- Mae hwn yn ymrwymiad ac yn ddyraniad rydym wedi ei wneud yn ein cyllideb, ac wrth gwrs, mae'n ddyraniad a wnaethom cyn unrhyw ddatblygiadau newydd a chyfleoedd ariannu newydd o'r Undeb Ewropeaidd.
- 13:56 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, we have heard, with interest, the Minister for Economy, Science and Transport's vision for rail transport—for integrated systems in Wales—but, clearly, even though we don't get the powers until 2018, there'll be enormous preliminary work before that time. Has that been allowed for in your budget, particularly for next year?
- Weinidog, clywsom gyda diddordeb beth yw gwledigaeth Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar gyfer trafnidiaeth ar y rheilffyrdd—am systemau integredig yng Nghymru—ond yn amlwg, er nad ydym yn cael y pwerau tan 2018, bydd gwaith rhagarweiniol enfawr i'w wneud cyn hynny. A yw hynny wedi ei gynnwys yn eich cyllideb, yn enwedig ar gyfer y flwyddyn nesaf?
- 13:56 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, we have to factor in those planning and development arrangements and, of course, that is part of the budget arrangement.
- Yn amlwg, mae'n rhaid i ni gynnwys y trefniadau cynllunio a datblygu ac wrth gwrs, maent yn rhan o drefniant y gyllideb.
- 13:56 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mi fydd cynlluniau ar gyfer yr M4 yn cael lle arbennig, rwy'n siŵr, yn yr ystyriaethau ar gyllidebau economi a thrafnidiaeth yn y blynyddoedd nesaf. Rwy'n gobeithio'n arw mai cyllideb ar gyfer cynllun glas, nid du, a fydd honno. Ond, os ydy'r M4 yn cael sylw penodol, a allaf i gael sicrwydd y bydd anghenion datblygu a buddsoddi yn yr A55 hefyd yn cael sylw penodol fel prif wythien economaidd y gogledd? Mae gwaith ffordd lluosog ar draws y gogledd ar hyn o bryd yn achosi hunllefau. Mae unrhyw dagfa draffig yn dagfa economaidd yn y gogledd. A allaf i gael sicrwydd y bydd hyn yn flaenoriaeth?
- Plans for the M4 will be given a special place, I'm sure, in the considerations of the economy and transport budgets in the next few years. I do hope that it'll be a budget for the blue route rather than the black route. But, if the M4 is to be given specific attention, can I be given an assurance that the needs for development and investment in the A55 will also be given specific attention as it is the main arterial route for the economy in north Wales? Multiple roadworks across north Wales are causing nightmares. Any traffic jam is a jam for the north Wales economy. Can I be given an assurance that this will be a priority?

13:57 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I can give Rhun ap Iorwerth, of course, our assurance about the A55. You know that £42 million was already made available for the A55 Conwy tunnels improvements over three years. That will accelerate an essential upgrade of the Conwy tunnel and ensure that that important infrastructure asset remains fit for purpose. Of course, it's a key transport artery in north Wales and part of the trans-European transport network.

Gallaf roi ein sicrwydd ynghylch yr A55 i Rhun ap Iorwerth, wrth gwrs. Fe wyddoch fod £42 miliwn eisoes wedi ei ryddhau ar gyfer gwelliannau twnelau Conwy ar yr A55 dros dair blynedd. Bydd hynny'n cyflymu'r gwaith uwchraddio hanfodol ar dwannel Conwy ac yn sicrhau bod yr ased seilwaith pwysig hwnnw'n parhau i fod yn addas at y diben. Wrth gwrs, mae'n llwybr trafndiaeth allweddol yng nngogledd Cymru ac yn rhan o'r rhwydwaith trafndiaeth traws-Ewropeaidd.

13:57 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, figures released by the Local Data Company show that Wales continues to have a higher retail and leisure vacancy rate than England or Scotland. What consideration was given by the Minister to the schemes to reduce the burden of business rates on small businesses to encourage new enterprises to open and, thereby, revive our town and city centres when setting the budget for the economy portfolio?

Weinidog, mae ffigurau a ryddhawyd gan y Local Data Company yn dangos bod Cymru yn parhau i fod â chyfradd uwch o siopau ac adeiladau hamdden gwag na Lloegr a'r Alban. Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog wrth osod y gyllideb ar gyfer portffolio'r economi i'r cynlluniau i leihau baich ardrethi busnes ar fusnesau bach er mwyn annog mentrau newydd i agor a thrwy hynny, adfywio canol ein trefi a'n dinasoedd?

13:58 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I'm sure Mohammad Asghar would have been in the Chamber yesterday for the statement by the Minister for Economy, Science and Transport, when she announced the continuation of the small business rates relief scheme, which will particularly help those retail providers.

Wel, rwy'n siŵr y byddai Mohammad Asghar wedi bod yn y Siambwr ddoe i glywed y datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, pan gyhoeddodd barhad y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, a fydd yn help arbennig i'r darparwyr manwerthu hynny.

13:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Question 4 was grouped with question 1, so we move to question 5—Christine Chapman.

Mae cwestiwn 4 wedi ei grwpio gyda chwestiwn 1, felly symudwn at gwestiwn 5—Christine Chapman.

Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd

European Structural Funds

13:58 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y defnydd o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0512(FIN)

5. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for the use of European Structural Funds in the Cynon Valley? OAQ(4)0512(FIN)

13:58 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The £1.6 billion programmes for west Wales and the Valleys will be maximised to benefit communities, including the Cynon valley, by creating jobs, supporting businesses, helping people into work and raising skills.

Gwneir y defnydd gorau posibl o'r rhaglenni £1.6 biliwn ar gyfer gorllewin Cymru a'r Cymoedd er budd cymunedau, gan gynnwys Cwm Cynon, drwy greu swyddi, cefnogi busnesau, helpu pobl i gael gwaith a gwella sgiliau.

13:59

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. Well, we know that European money has had a real impact on the lives of many people across Wales, with over 30,000 people gaining qualifications or entering further education, and 7,000 entering employment in Rhondda Cynon Taf alone through it. We also know that this money can hugely benefit Welsh businesses and have a real impact on the SMEs that form the bulk of our economy. I'm still concerned about how SMEs can be made aware of the benefits of this funding and how we can support them in doing so. How can the Welsh Government prioritise this so that our SMEs don't miss out?

Diolch i chi, Weinidog. Wel, gwyddom fod arian Ewropeaidd wedi cael effaith wirioneddol ar fywydau llawer o bobl ledled Cymru, gyda thros 30,000 o bobl yn ennill cymwysterau neu'n mynd ymlaen i addysg bellach, a 7,000 wedi cael gwaith yn ei sgil yn Rhondda Cynon Taf yn unig. Rydym hefyd yn gwybod y gall yr arian hwn fod yn hynod o fuddiol i fusnesau Cymru a chael effaith wirioneddol ar y busnesau bach a chanolig sy'n ffurfio'r rhan helaethaf o'n heconomi. Rwy'n dal i fod yn bryderus ynglŷn â sut y mae sicrhau bod busnesau bach a chanolig yn ymwybodol o fanteision y cyllid hwn a sut y gallwn eu cefnogi yn hynny o beth. Sut y gall Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i hyn er mwyn sicrhau na fydd ein busnesau bach a chanolig ar eu colled?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I'm grateful for that question from Christine Chapman, because it is vitally important that we get the message over to SMEs that they will continue to benefit from vital EU fund investments. It's to help them to start up and grow, and an example in your constituency, I understand, is the Breeze's Gym, based in Aberdare, and set up with the help of the EU-funded new business start-up scheme.

Wel, diolch am y cwestiwn gan Christine Chapman, gan ei bod yn hollbwysig ein bod yn cyfleu'r neges i fusnesau bach a chanolig y byddant yn parhau i elwa o fuddsoddiadau cronfeydd hanfodol yr UE. Maent yno i'w helpu i ddechrau a thyfu, ac enghraifft yn eich etholaeth, rwy'n deall, yw Breeze's Gym yn Aberdâr, a sefydlwyd drwy gymorth y cynllun dechrau busnes newydd a ariennir gan yr UE.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, can you outline what involvement and what you have in place to guide partners in terms of planning for the new programmes and use of European structural funds? For example, Cynon valley, which we have just heard from, would be heavily reliant on projects emanating from the south-east Wales directors of environment and regeneration board, which has established task and finish subgroups to prepare for the next round of programmes. So, I would be interested to know what involvement you have to help and guide them.

Weinidog, a allwch amlinellu beth yw eich cyfraniad a beth sydd gennych ar waith i arwain partneriaid o ran cynllunio ar gyfer y rhaglenni newydd a defnydd o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd? Er enghraifft, byddai Cwm Cynon, y clywsom amdano yn awr, yn dibynnu'n drwm ar brosiectau'n deillio o fwrdd cyfarwyddwyr yr amgylchedd ac adfywio yn ne-ddwyrain Cymru, sydd wedi sefydlu is-grwpiau gorchwyl a gorffen i baratoi ar gyfer y rownd nesaf o raglenni. Felly, byddai gennyf ddi-ddordeb mewn gwybod pa ran sydd gennych yn y gwaith o'u helpu a'u harwain.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I would say to Byron Davies firstly that the private sector has been very engaged—fully engaged—in the development of the operational programmes, and also in their delivery arrangements. Of course, that involvement will continue. Our ministerial colleagues are meeting businesses across Wales now to discuss both public and EU investment opportunities. I am meeting CBI Wales next week in north Wales—at a north Wales event. Also, of course, we have Grahame Guilford representing business, but also as one of our EU funding ambassadors.

Wel, byddwn yn dweud wrth Byron Davies yn gyntaf bod y sector preifat wedi cymryd rhan fawr—rhan lawn—yn natblygiad y rhaglenni gweithredol, a hefyd o ran eu trefniadau cyflawni. Wrth gwrs, bydd y cyfraniad hwnnw'n parhau. Mae ein cyd-Weinidogion yn cyfarfod â busnesau ledled Cymru yn awr i drafod cyfleoedd ar gyfer buddsoddiadau cyhoeddus a buddsoddiadau'r UE. Byddaf yn cyfarfod â CBI Cymru yr wythnos nesaf yn y Gogledd—mewn digwyddiad yng ngogledd Cymru. Hefyd, wrth gwrs, mae gennym Grahame Guilford yn cynrychioli busnes, ond hefyd fel un o'n llysgenhadon cyllid yr UE.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

Minister, Rhondda Cynon Taf council recently adopted the south-east Wales valleys local transport plan, in which four major highway schemes are listed as medium to longer term aspirations, up to 2030. Now, these schemes comprise of the Mountain Ash north and south cross-valley links in the Cynon valley, along with the Gelli/Treorchy relief road and the upper Rhondda fach relief road from Pontygraith to Maerdy. Now, according to the relevant documentation, the package of funding to deliver these schemes relies heavily on the European regional development fund. The timescale to deliver them extends to 2030. Do you think that local authorities should be anticipating a further round of European structural funds when the present round ends in five years' time?

Weinidog, yn ddiweddar mabwysiadodd Cyngor Rhondda Cynon Taf gynllun trafndiaeth lleol cymoedd de-ddwyrain Cymru, lle y caiff pedwar cynllun priffyrdd mawr eu rhestru fel rhai tymor canolig i'r tymor hwy, hyd at 2030. Yn awr, mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys cysylltiadau ar draws y cwm i'r gogledd a'r de yn Aberpennar yng nghwm Cynon, ynghyd â ffordd liniaru Gelli/Treorci a ffordd liniaru Rhondda fach uchaf o Bont-y-gwaith i Faerdy. Yn awr, yn ôl y dogfennau perthnasol, mae'r pecyn cyllid ar gyfer cyflwyno'r cynlluniau hyn yn dibynnu'n helaeth ar gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop. Mae'r amserlen ar gyfer eu cyflawni yn ymestyn hyd at 2030. A ydych yn meddwl y dylai awdurdodau lleol ddisgwyl cylch arall o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd pan ddaw'r rownd bresennol i ben ymhen pum mlynedd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, it is important that local authorities have already been fully engaged in the preparation and identification of need, particularly in relation to integrated transport, which is a key priority for this round—the round that we are now in—for ERDF. Of course, it is going to be key that we ensure that we are accessing sustainable transport for people, particularly in terms of west Wales and the Valleys. I think the opportunities that we have now for allocation in east Wales will also help in terms of the 2007-13 round. It is important that we make use of this round to make that step change to our economy.

Wel, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol eisoes wedi cael eu cynnwys yn llawn wrth baratoi a nodi'r angen, yn enwedig o ran trafndiaeth integredig, sy'n flaenoriaeth allweddol ar gyfer y rownd hon—y rownd rydym ynddi yn awr—ar gyfer ERDF. Wrth gwrs, mae'n mynd i fod yn allweddol inni wneud yn siŵr ein bod yn sicrhau trafndiaeth gynaliadwy i bobl, yn enwedig o ran gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Rwy'n credu y bydd y cyfleoedd sydd gennym yn awr i ddyrannu yn nwyrain Cymru hefyd yn help o ran rownd 2007-13. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud defnydd o'r cylch hwn i wneud newid sylweddol o'r fath i'n heconomi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Caffael y Sector Cyhoeddus yng Nghymru

Welsh Public Sector Procurement Expenditure

14:02

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. Pa ganran o wariant caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n cael ei ddyfarnu i gwmnïau yng Nghymru? OAQ(4)0501(FIN)

6. What percentage of Welsh public sector procurement expenditure is awarded to companies within Wales? OAQ(4)0501(FIN)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I announced in the Plenary debate on 2 December, an analysis of 2012-13 data shows that 55% of Welsh public sector procurement expenditure was won by Wales-based companies.

Fel y cyhoeddais yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Rhagfyr, mae dadansoddiad o ddata 2012-13 yn dangos mai cwmnïau wedi'u lleoli yng Nghymru a enillodd 55% o wariant caffael y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr. Pryd y gallwn ni ddisgwyl ffigurau mwy diweddar na'r rheini, er mwyn i ni gael gweld beth ydy'r cynnydd yn y ganran yna? Fel y gwyddoch chi yn dda, pe baem ni'n gwerthu 75% o'r cytundebau yna i gwmnïau o Gymru, yna mi fyddai hynny'n creu tua 50,000 o swyddi.

Thank you. When may we expect more up-to-date figures than those, so that we can see what progress has been made in that percentage? As you know very well, if we were to sell 75% of those contracts to Welsh companies, it would create around 50,000 jobs.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:03 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, of course, I think great progress is being made, because we have improved that expenditure with Wales-based suppliers from 35% in 2003-04 to 55% in 2012-13. Of course, we can already drill down to some of the opportunities that are coming through, for example, as a result of the national procurement service. If we look, for example, recently, at the all-Wales print framework, that's a bridging arrangement to attract more Welsh small and medium-sized enterprises to become suppliers to the Welsh public sector. Within the first month of the bridging arrangement going live, 26 Welsh suppliers have signed up and are receiving invitations to quote—just one example of current progress.
- Wel, wrth gwrs, rwy'n meddwl bod cynnydd mawr yn cael ei wneud, gan ein bod wedi cynyddu'r gwariant gyda chyflenwyr yng Nghymru o 35% yn 2003-04 i 55% yn 2012-13. Wrth gwrs, gallwn fanteisio yn barod ar rai o'r cyfleoedd sy'n ymddangos, er enghraifft, o ganlyniad i'r gwasanaeth caffael cenedlaethol. Er enghraifft, yn ddiweddar, os edrychwn ar fframwaith argraffu Cymru gyfan, sef trefniant pontio ar gyfer denu mwy o fentrau bach a chanolig eu maint yng Nghymru i ddod yn gyflenwyr i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. O fewn mis i sefydlu'r trefniant pontio, mae 26 o gyflenwyr o Gymru wedi cofrestru ac yn derbyn gwahoddiadau i gynnig dyfynbrisiau—dyna un enghraifft yn unig o'r cynnydd ar hyn o bryd.
- 14:04 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Welsh economy is not a closed economy, although some people would like it to be, and many companies trade goods and services within the United Kingdom. How much money does the procurement of goods and services by Scottish and English public services provide to the Welsh economy?
- Nid yw economi Cymru yn economi gaeedig, er y byddai rhai pobl yn hoffi iddi fod, ac mae llawer o gwmnïau'n masnachu nwyddau a gwasanaethau o fewn y Deyrnas Unedig. Faint o arian y mae caffael nwyddau a gwasanaethau gan wasanaethau cyhoeddus yr Alban a Lloegr yn ei ddarparu i economi Cymru?
- 14:04 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, Mike Hedges is absolutely right and, of course, it is important that we look at the extent of our business in Wales, and outside Wales as well. It is important that we measure that. Of course, that is something where I think we are bearing up well in terms of the UK average. I think the fact that we've got now new opportunities with the new EU directives will make a difference in terms of our spend and the delivery for SMEs.
- Wel, mae Mike Hedges yn gwbl gywir ac wrth gwrs, mae'n bwysig ein bod yn edrych ar gyrhaeddiad ein busnesau yng Nghymru, a thu allan i Gymru hefyd. Mae'n bwysig ein bod yn mesur hynny. Wrth gwrs, rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth rydym yn ei wneud yn dda o ran cyfartaledd y DU. Rwy'n meddwl bod y cyfleoedd newydd sydd gennym yn awr gyda chyfarwydddebau newydd yr UE yn gwneud gwahaniaeth o ran ein gwariant a chyflawniad ar gyfer busnesau bach a chanolig.
- 14:05 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I am glad, in your answer to Alun Ffred Jones, you mentioned SMEs, because, of course, a Federation of Small Businesses report demonstrates the value of SMEs winning procurement contracts, particularly from local authorities, is worth far more to the local economy than for larger based companies. Now, you spoke about the bridging process that you've got, but what analysis is Welsh Government doing to see how it can maximise SME procurement to ensure that that local pound goes that bit further and creates and supports local jobs?
- Weinidog, rwy'n falch eich bod wedi sôn, yn eich ateb i Alun Ffred Jones, am fusnesau bach a chanolig, oherwydd mae adroddiad gan y Ffederasiwn Busnesau Bach wrth gwrs yn dangos bod i fusnesau bach a chanolig ennill contractau caffael, yn enwedig gan awdurdodau lleol, yn werth llawer mwy i'r economi leol na phan mae cwmnïau mwy o faint yn gwneud hynny. Yn awr, fe siaradoch am y broses bontio sydd gennych, ond pa ddadansoddiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i weld sut y gall uchafu caffael gan fusnesau bach a chanolig i sicrhau bod y bunt leol yn mynd ychydig yn bellach ac yn creu ac yn cefnogi swyddi lleol?
- 14:05 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think our public procurement policy statement does enable us to take this forward in terms of opportunities for Welsh SMEs, and I think the ways in which we have removed barriers identified by business—. For example, now, public bodies in Wales are committed to using the supplier qualification information database, helping to lower barriers for smaller, more local suppliers. Just on that point, indigenous contractors now win around 70% of all major construction contracts awarded on Sell2Wales, compared with around 30% prior to the introduction of the SQuID.
- Rwy'n credu bod ein datganiad polisi caffael cyhoeddus yn ein galluogi i fwrw ymlaen â hyn o ran cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, ac rwy'n credu bod y ffyrdd rydym wedi cael gwared ar rwystrau a nodwyd gan fusnesau—. Er enghraifft, erbyn hyn, mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr, gan helpu i leihau rhwystrau i gyflenwyr llai o faint, a mwy lleol. Ar y pwynt hwnnw'n unig, erbyn hyn, contractwyr cynhenid sy'n ennill tua 70% o'r holl gontractau adeiladu mawr a ddyfernir ar Sell2Wales, o gymharu â thua 30% cyn cyflwyno'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr.

Cyllid i'r Gyllideb Cymunedau a Threchu Tlodi

Funding to the Communities and Tackling Poverty Budget

- 14:06 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
7. Pa ffactorau y rhoddwyd ystyriaeth iddynt wrth ddyrannu cyllid i'r gyllideb cymunedau a threchu tlodi?
OAQ(4)0509(FIN)
- 14:06 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
The programme for government sets out our priorities for Wales and underpins our spending plans, including funding allocated to the communities and tackling poverty portfolio.
- 14:06 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you. Last week, I led a short debate supporting the call by Co-production Wales for the establishment of a co-production network for Wales, in which professionals and citizens share power to plan and deliver services together. As they say, it's not an add-on, but a new way of operating for Government, professionals and citizens themselves. Following that, amongst the many 'thank yous' I received, a Communities First cluster manager thanked me for taking the time to raise the work of Co-production Wales. What financial modelling has your department done, when considering how to allocate budgets to tackle poverty, to examine how co-production can help the Welsh Government, through other service providers, deliver more for the resource available?
- 14:07 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Well, the most positive point, I think, in your question was the fact that a Communities First project is fully engaged in doing what we, of course, have set out for it to do, which is to help tackle poverty, despite the unprecedented cuts to our Welsh budget, which, of course, have meant that we have had to allocate funding not just on our priorities, but to mitigate the impact of the cuts of the UK Government, which are now having an adverse impact not just on people's lives and communities, but on local economies. It is up to those communities, which are now, with our support, working together to tackle poverty, in partnership, of course, with their local authorities, with their partners in the third sector and with the support of the Welsh Government.
- 14:08 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Minister, I'm sure that outcomes are an important factor for you, so when do you expect Wales to become a prosperous nation?
- 7. What factors were considered when allocating funding to the communities and tackling poverty budget?*
OAQ(4)0509(FIN)
- Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer Cymru ac yn ategu ein cynlluniau gwariant, gan gynnwys arian a ddyrannwyd i'r portfolio cymunedau a threchu tlodi.
- Diolch yn fawr. Yr wythnos diwethaf, arweiniais ddadl fer yn cefnogi'r alwad gan Cydgynhyrchu Cymru i sefydlu rhwydwaith cyd-gynhyrchu ar gyfer Cymru, lle y mae gweithwyr proffesiynol a dinasyddion yn rhannu grym i gynllunio a darparu gwasanaethau gyda'i gilydd. Fel y maent yn dweud, nid rhywbeth wedi'i ychwanegu at yr hyn sydd gennym yn barod yw hyn, ond ffordd newydd o weithredu i'r Llywodraeth, gweithwyr proffesiynol a dinasyddion eu hunain. Yn sgil hynny, ymhlith y nifer fawr o 'diolchiadau' a gefais, diolchodd rheolwr clwstwr Cymunedau yn Gyntaf i mi am roi amser i sôn am waith Cydgynhyrchu Cymru. Pa fodelu ariannol y mae eich adran wedi ei wneud, wrth ystyried sut i ddyrannu cyllidebau ar gyfer trechu tlodi, i archwilio sut y gall cyd-gynhyrchu helpu Llywodraeth Cymru, drwy ddarparwyr gwasanaethau eraill, i gyflawni mwy gyda'r adnoddau sydd ar gael?
- Wel, y pwynt mwyaf cadarnhaol, rwy'n credu, yn eich cwestiwn oedd y ffaith fod prosiect Cymunedau yn Gyntaf yn bwrw iddi i wneud yr hyn rydym wedi ei lunio i'w wneud, wrth gwrs, sef helpu i drechu tlodi, er gwaethaf y toriadau digynsail i'n cyllideb yng Nghymru, sydd wedi golygu wrth gwrs ein bod wedi gorfod dyrannu cyllid nid yn unig ar gyfer ein blaenoriaethau, ond i liniaru effaith toriadau Llywodraeth y DU, sydd bellach yn cael effaith niweidiol nid yn unig ar fywydau a chymunedau pobl, ond ar economïau lleol. Mater yw hyn i'r cymunedau hynny sydd bellach yn gweithio gyda'i gilydd, gyda'n cymorth ni, ar drechu tlodi, mewn partneriaeth â'u hawdurdodau lleol, wrth gwrs, ynghyd â'u partneriaid yn y trydydd sector, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.

14:08	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, I've just mentioned the difficulty and the challenge that we have in terms of our current position in relation to cuts to our budget—a 9% real-terms cut to our budget—which means, of course, that we have to focus more on the importance of priorities in terms of budget setting and deliver on the outcomes that we need for Wales. Of course, this is about developing a budget that is underpinned by principles of social justice and fairness and making sure that we have key investment in health, young people and protecting services that people the length and breadth of Wales rely on.</p>	<p>Wel, rwyf newydd grybwyll yr anhawster a'r her sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd o ran toriadau i'n cyllideb—toriad o 9% mewn termau real i'n cyllideb—sy'n golygu, wrth gwrs, fod yn rhaid inni ganolbwyntio mwy ar bwysigrwydd blaenoriaethau o ran gosod cyllidebau a chyflawni'r canlyniadau angenrheidiol ar gyfer Cymru. Wrth gwrs, mae hyn yn ymwneud â datblygu cyllideb sy'n seiliedig ar egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol a thegwch a sicrhau ein bod yn buddsoddi'n allweddol mewn iechyd, pobl ifanc ac amddiffyn gwasanaethau y mae pobl ar hyd a lled Cymru yn dibynnu arnynt.</p>
	Trysorlys Cymreig	Welsh Treasury
14:09	Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>8. Pa gynnydd a wnaed o ran datblygu trysorlys Cymreig yn dilyn cyhoeddi Papur Trysorlys Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0504(FIN)</i></p>	<p><i>8. What progress has been made in relation to the development of a Welsh treasury following the publication on the Welsh Government's Treasury Paper? OAQ(4)0504(FIN)</i></p>
14:09	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Yn fuan, byddaf yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gasglu a rheoli trethi datganoledig.</p>	<p>I will be shortly be publishing a summary of the consultation responses on devolved tax collection and management.</p>
14:09	Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Diolch yn fawr i'r Gweinidog. Mae hi wedi cyfeirio yn barod y prynhawn yma at drethi tirlenwi, ond a gaf i ofyn iddi pa gynnydd sy'n cael ei wneud ynglŷn â threth ar drafodiadau yn ymwneud â buddiannau mewn tir a hefyd ar gyflwyno a gweithredu goblygiadau Bil Cymru ar gasglu a rheoli trethi datganoledig?</p>	<p>I thank the Minister. She's already referred this afternoon to landfill taxes, but may I ask her what progress is being made in terms of land transaction taxes and also the introduction and implementation of the implications of the Wales Bill on the collection and management of devolved taxation?</p>
14:09	Jane Hutt Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, on 10 February, next week, I am launching an open and wide-ranging consultation on a land transaction tax. That will be our tax to replace stamp duty land tax, from April 2018, in Wales. Of course, in preparing those consultation documents, which are going to be very important, we have already engaged extensively with tax experts and other key interested parties, but also with those sectors that represent our country: so, for example, the Bevan Foundation, the Wales TUC and also the Wales Council for Voluntary Action. Alongside tax experts and the Confederation of British Industry and the Institute of Directors, they have all been part of my tax advisory group.</p>	<p>Wel, ar 10 Chwefror, yr wythnos nesaf, rwy'n lansio ymgynghoriad agored ac eang ar dreth trafodiadau tir. Hon fydd ein treth yn lle treth dir y doll stamp, o Ebrill 2018 yng Nghymru. Wrth gwrs, wrth baratoi'r dogfennau ymgynghorol, sy'n mynd i fod yn bwysig iawn, rydym eisoes wedi ymgysylltu'n helaeth ag arbenigwyr treth a phartion allweddol eraill sydd â diddordeb, a hefyd gyda'r sectorau sy'n cynrychioli ein gwlad, er enghraifft, Sefydliad Bevan, TUC Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Ochr yn ochr ag arbenigwyr ar faterion treth a Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain a Sefydliad y Cyfarwyddwyr, maent i gyd wedi bod yn rhan o fy ngrŵp cynghori trethi.</p>

14:10

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as you know, I have been on a bit of a one-man tour of town and community councils in my area over the last couple of months, explaining the plethora of taxes that are wending their way inexorably to this place. As I have told you, I have met with a number of reactions, from total indifference to horror in some parts. But one recurrent response to my tour has been a concern about the cost of Government and the cost of a Welsh treasury function and associated tax functions. What measures are you putting in place to make sure that those costs will be at a minimum to start with, albeit providing the necessary support that's required? What is your estimate of the cost of that treasury function? How will you ensure that those costs are kept down over the medium and long term?

Weinidog, fel y gwyddoch, rwyf wedi bod ar ryw fath o daith un dyn o gwmpas y cynghorau tref a chymuned yn fy ardal dros y misoedd diwethaf, yn esbonio'r llu o drethi sy'n gwneud eu ffordd yn ddi-ildio i'r lle hwn. Fel y dywedais wrthyf, rwyf wedi nodi nifer o adweithiau, o ddifaterwch llwyr i arswyd pur mewn rhai manau. Ond un ymateb rheolaidd ar fy nhaith oedd pryder am gost Llywodraeth a chost swyddogaeth trysorlys Cymreig a swyddogaethau trethu cysylltiedig. Pa gamau rydych yn eu rhoi ar waith i wneud yn siŵr y bydd y costau mor isel ag y bo modd i ddechrau, gan ddarparu'r cymorth angenrheidiol sy'n ofynnol ar yr un pryd? Beth yw eich amcangyfrif o gost swyddogaeth trysorlys o'r fath? Sut y byddwch yn sicrhau bod y costau hynny yn cael eu cadw'n isel dros y tymor canolig a'r tymor hir?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I must say, I think we would all applaud Nick Ramsay for his mission to raise awareness among his town and community councils in Monmouthshire. I am sure that we would want to follow his example, because it is very important that we engage people who are representing communities at that level, for them to understand the new powers and opportunities.

Wel, rhaid i mi ddweud, rwy'n meddwl y byddem i gyd yn cymeradwyo Nick Ramsay am ei genhadaeth i godi ymwybyddiaeth ymysg ei gynghorau tref a chymuned yn Sir Fynwy. Rwy'n siŵr y byddem yn awyddus i ddilyn ei esiampl, oherwydd mae'n bwysig iawn ein bod yn cynnwys pobl sy'n cynrychioli cymunedau ar y lefel honno, er mwyn iddynt ddeall y pwerau a'r cyfleoedd newydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think, of course, Nick Ramsay, you will have been able to say to them, 'Well, you can raise taxes and you can borrow, and this is what the Welsh Government is going to be able to do in terms of our new powers'. You raise an important point about developing our new Welsh treasury, because we do have to build on existing finance capability, but we've got to have that expertise in terms of tax policy, tax administration, compliance and enforcement. We have to look at all the areas of receipt forecasting, cash management and enhanced investment strategy, and develop that alongside our consultations on replacement taxes for stamp duty and landfill. But of course, there will be, quite clearly, a range of options for who is going to collect and manage Welsh devolved taxes, and I am publishing shortly a summary of the responses to the White Paper on tax collection and management.

Rwy'n credu, wrth gwrs, Nick Ramsay, y byddwch wedi gallu dweud wrthynt, 'Wel, gallwch godi trethi a gallwch fenthylg, a dyma beth y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i allu ei wneud gyda'n pwerau newydd'. Rydych yn tynnu sylw at bwynt pwysig ynglŷn â datblygu ein trysorlys Cymreig newydd, gan y bydd yn rhaid inni adeiladu ar allu cyllidol sydd eisoes yn bodoli, ond mae'n rhaid i ni gael yr arbenigedd mewn perthynas â pholisi trethi, a gweinyddiaeth, cydymffurfiaeth a gorfodaeth yng nghyswllt trethi. Mae'n rhaid i ni edrych ar yr holl feysydd yn cynnwys rhagolygon o dderbyniadau, rheoli arian parod a strategaeth fuddsoddi well, a datblygu hynny ochr yn ochr â'n hymgyngoriadau ar drethi newydd yn lle treth stamp a thirlenwi. Ond wrth gwrs, mae'n amlwg y bydd amryw o opsiynau o ran pwy fydd yn casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, a chyn bo hir, byddaf yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r Papur Gwyn ar gasglu a rheoli trethi.

Cyfarfod gyda Gweinidogion Cyllid

Meeting with Finance Ministers

14:12

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. Pryd fydd y Gweinidog Cyllid yn cynnal ei chyfarfod nesaf gyda Gweinidogion cyllid llywodraethau eraill yn y DU? OAQ(4)0505(FIN)

9. When will the Finance Minister next meet with the finance Ministers of other governments in the UK? OAQ(4)0505(FIN)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:13

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr. Rwy'n cwrrd â Gweinidogion cyllid Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill yn rheolaidd.

I continue to meet finance Ministers from the UK Government and the other devolved administrations on a regular basis.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:13 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr i'r Gweinidog am yr ateb ro'n i'n gobeithio ei gael. Ond, a all hi ddweud wrthyf am ba wersi sydd yn mynd i gael eu dysgu yng Nghymru oddi wrth y ffaith bod yr Alban, o safbwynt datganoli trethi, ar y blaen inni ynglŷn â threth gwastraff safleoedd tirlenwi, yn ogystal â'r dreth ar drafodiadau yn ymwneud â buddiannau? A yw'r Gweinidog yn cytuno â'r egwyddor hon: sef, na allwch chi gael datganoli deddfwriaethol nag sydd hefyd yn symud yn ddifrifol tuag at ffederaliaeth gyllidol?
- I thank the Minister for the response that I'd hoped to hear. But, can she tell us what lessons will be learnt in Wales from the fact that Scotland, from the point of view of the devolution of taxation, is ahead of us in terms of landfill tax, as well as land transaction taxes? Does the Minister agree with this principle: namely, that you cannot have legislative devolution that doesn't also move in earnest towards fiscal federalism?
- 14:14 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, lessons have been learned over the past few years from my very strong engagement with colleagues in the Scottish Government. I think John Swinney has been finance Minister for seven years, and I have been finance Minister for five years, and so we've got to know each other extremely well at quadrilaterals. I think that what is important is that this sharing, of course, has to be across all the devolved administrations, so, not only meeting more recently—. In fact, I joined the Finance Committee at a visit to Scotland to meet not only the Minister but also the committee—the cross-party committee—to look at ways in which they have developed their new capacity and capability in terms of tax collection management and, of course, the replacement landfill and land transaction taxes.
- Wel, mae gwersi wedi'u dysgu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf o fy ymgysylltiad cryf iawn â chydweithwyr yn Llywodraeth yr Alban. Rwy'n credu bod John Swinney wedi bod yn Weinidog cyllid ers saith mlynedd, ac rwyf fi wedi bod yn Weinidog cyllid ers pum mlynedd, ac felly rydym wedi dod i adnabod ein gilydd yn arbennig o dda o bellter. Credaf mai'r hyn sy'n bwysig yw bod yn rhaid i'r rhannu hwn ddigwydd ar draws yr holl weinyddiaethau datganoledig, wrth gwrs, felly, gan gyfarfod yn fwy diweddar nid yn unig—. Yn wir, ymunais â'r Pwyllgor Cyllid ar ymweliad â'r Alban i gyfarfod nid yn unig â'r Gweinidog, ond hefyd â'r pwyllgor—y pwyllgor trawsbleidiol—i edrych ar ffyrdd y maent wedi datblygu eu capasiti a'u gallu newydd o ran rheoli casglu treth ac wrth gwrs, y trethi tirlenwi a thrafodiadau tir newydd.
- 14:14 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, in your discussions with other finance Ministers, and specifically with the Scottish finance Minister, what kinds of discussions will you, as the finance Minister for Wales, be holding to ensure fair funding for Wales in the context of retaining the Barnett formula?
- Weinidog, yn eich trafodaethau gyda Gweinidogion cyllid eraill, ac yn benodol â Gweinidog cyllid yr Alban, pa fath o drafodaethau y byddwch chi, fel Gweinidog cyllid Cymru, yn eu cynnal i sicrhau cyllid teg i Gymru yng nghyd-destun cadw fformiwla Barnett?
- 14:15 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I've made sure that my visits have included discussions, most recently on our position post the Scottish referendum, post the 'vow' commitment. I met with the Scottish finance Minister, John Swinney, and also I have been to Northern Ireland to meet the Northern Ireland finance Minister as well, in order to say to them—to explain to them, as I have done over the years—the fact that the Barnett formula has been unfair to Wales and that we do have a mechanism that has been recommended and has been tested in terms of evidence: the Barnett floor. And, indeed, respect has been shared between our administrations about our route and way forward for reform and for them also in terms of the way they're taking forward fiscal devolution.
- Rwyf wedi gwneud yn siŵr fod fy ymweliadau wedi cynnwys trafodaethau, yn fwyaf diweddar ar ein safbwynt ar ôl refferendwm yr Alban, ar ôl yr ymrwymiad i 'addewid'. Cefais gyfarfod â Gweinidog Cyllid yr Alban, John Swinney, a hefyd rwyf wedi bod yng ngogledd Iwerddon yn cyfarfod â Gweinidog cyllid Gogledd Iwerddon hefyd, er mwyn dweud wrthynt—egluro wrthynt, fel rwyf wedi'i wneud dros y blynyddoedd—fod fformiwla Barnett wedi bod yn annheg i Gymru a bod gennym drefn sydd wedi ei hargymell a'i phrofi o ran y dystiolaeth: y llawr Barnett. Ac yn wir, dangosodd y gweinyddiaethau barch tuag at ei gilydd o ran ein trywydd a'n ffordd ymlaen ar gyfer diwygio a thuang atynt hwy o ran y ffordd y maent yn symud ymlaen ar ddatganoli cyllidol.

Y Portffolio Addysg a Sgiliau

The Education and Skills Portfolio

- 14:16 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllidebol i'r portffolio addysg a sgiliau?*
OAQ(4)0503(FIN)
- 10. Will the Minister make a statement on the budget allocation to the education and skills portfolio?*
OAQ(4)0503(FIN)

14:16	Jane Hutt Bywgraffiad Biography		Senedd.tv Fideo Video
	The budget has been allocated in line with the planned delivery of our education and skills commitments made in the programme for government.	Mae'r gyllideb wedi cael ei ddyrannu yn unol â'r cynlluniau i ddarparu ein hymrwymiaidau addysg a sgiliau a wnaed yn y rhaglen lywodraethu.	
14:16	Angela Burns Bywgraffiad Biography		Senedd.tv Fideo Video
	The PricewaterhouseCoopers report on spend in education identified that 32% of education spend goes on back offices, general admin, processes, premises, et cetera, and suggested a shift to the front line. What do you think that figure is now, and, if you don't know, Minister, how does your department track value for money?	Nododd adroddiad PricewaterhouseCoopers ar wariant mewn addysg fod 32% o'r gwariant ar addysg yn mynd ar swyddfeydd cefn, gweinyddu cyffredinol, prosesau, safleoedd, ac ati, ac awgrymodd y dylid newid y pwyslais i'r rheng flaen. Beth y credwch yw'r ffigur bellach, ac os nad ydych yn gwybod, Weinidog, sut y mae eich adran yn olrhain gwerth am arian?	
14:16	Jane Hutt Bywgraffiad Biography		Senedd.tv Fideo Video
	Well, clearly, value for money is at the forefront of our budget-setting arrangements, particularly in the context of a reducing budget, and I would have to say at this point it's very interesting to recognise that, in terms of our spending per head on education in Wales, in 2013-14, it was 8% higher than it was in England. This week, your Prime Minister says that English schools are going to face a budget cut of an estimated 10% in real terms during the next Parliament. I think it's very important, as well as value for money, that we do get the message over that we have not only protected our spending for schools and education, and ensured that it is rigorous in terms of value for money against the backdrop of severe cuts, which obviously are now winging their way into English schools.	Wel, mae'n amlwg fod gwerth am arian yn flaenllaw yn ein trefniadau ar gyfer pennu'r gyllideb, yn enwedig yng nghyd-destun cyllideb sy'n lleihau, a byddai'n rhaid i mi ddweud yn y fan hon ei bod hi'n ddiddorol iawn nodi, o ran ein gwariant y pen ar addysg yng Nghymru, yn 2013-14, ei fod 8% yn uwch nag yn Lloegr. Yr wythnos hon, mae eich Prif Weinidog yn dweud bod ysgolion yn Lloegr yn mynd i wynebu toriad yn y gyllideb o tua 10% mewn termau real yn ystod y Senedd nesaf. Yn ogystal â gwerth am arian, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn inni gyfleu'r neges nid yn unig ein bod wedi gwarchod ein gwariant ar ysgolion ac addysg, ond ein bod hefyd wedi sicrhau ei fod yn gadarn o ran gwerth am arian yn erbyn cefndir o doriadau difrifol, sy'n amlwg yn gwneud eu ffordd i mewn i ysgolion Lloegr yn awr.	
14:17	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography		Senedd.tv Fideo Video
	Thank you very much.	Diolch yn fawr iawn.	
14:17	2. Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus	2. Questions to the Minister for	Y Senedd.tv Fideo Video
	Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Public Services	
	We now move to item 2, which is questions to the Minister for Public Services, and question 1 is Eluned Parrott.	Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, a daw cwestiwn 1 gan Eluned Parrott.	
	Lefel Cyflogau Uwch Swyddogion Cyngor	Level of Pay of Senior Council Officers	
14:17	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography		Senedd.tv Fideo Video
	<i>1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel cyflogau uwch swyddogion cyngor yng Nghymru? OAQ(4)0528(PS)</i>	<i>1. Will the Minister make a statement on the level of pay of senior council officers in Wales? OAQ(4)0528(PS)</i>	
14:17	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography		Senedd.tv Fideo Video
	<i>Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services</i>		
	I believe there is little justification for the wide variation in the salaries of senior council officers in Wales. The cost of senior management teams in local government in Wales is excessive and I will be taking action to reduce those costs.	Credaf nad oes fawr o gyfiawnhad dros yr amrywiad eang o ran cyflogau uwch swyddogion cyngor yng Nghymru. Mae cost uwch dimau rheoli mewn llywodraeth leol yng Nghymru yn ormodol, a byddaf yn rhoi camau ar waith i leihau'r costau hynny.	

- 14:18 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. In 2012, Cardiff Council embarked on a restructuring of its senior management, adding a new tier of managers at a salary cost of around £1.1 million a year on top of £679,000 spent on the recruitment process. The council now realises it can't afford it and is restructuring again to remove some of those posts. Will you agree with me that this is just an appalling waste of taxpayers' money, particularly at a time when jobs and services across the city are under threat, and for many of the lower paid workers in that council, only around half of them even make a living wage, let alone that kind of excessive figure?
- Diolch i chi, Weinidog. Yn 2012, dechreuodd Cyngor Caerdydd ailstrwythuro ei uwch reolwyr, gan ychwanegu haen newydd o reolwyr ar gost cyflogau o oddeutu £1.1 miliwn y flwyddyn ar ben y £679,000 a wariwyd ar y broses recriwtio. Mae'r cyngor yn awr yn sylweddoli na all ei fforddio ac mae'n ailstrwythuro eto i ddileu rhai o'r swyddi hyn. A ydych yn cytuno â mi bod hyn yn wastraff arswydus ar arian trethdalwyr, yn enwedig ar adeg pan fo swyddi a gwasanaethau ar draws y ddinas o dan fygythiad, ac i lawer o'r gweithwyr sy'n ennill cyflogau is yn y cyngor, nid oes ond oddeutu eu hanner yn ennill cyflog byw hyd yn oed, heb sôn am y math hwn o ffigur gormodol?
- 14:18 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Llywydd, I very much welcome the action taken by the leader of Cardiff Council to reduce the cost of senior management salaries in his council, just as I very much welcome the action taken in recent weeks by the leader of Rhondda Cynon Taf County Borough Council to reduce the costs of senior management salaries in his council, too.
- Llywydd, rwy'n croesawu'n fawr y camau a wnaed gan arweinydd Cyngor Caerdydd i leihau cost cyflogau uwch reolwyr yn ei gyngor, yn union fel rwy'n croesawu'n fawr y camau a gymerwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf gan arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i leihau costau cyflogau uwch reolwyr yn ei gyngor yntau hefyd.
- 14:19 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, yesterday's statement on the local government White Paper says that you are seeking tight controls on the remuneration of chief executives and chief officers. Given the scandals of Pembrokeshire County Council's Porsche and pay-offs, and Carmarthenshire County Council's proposed £446,000 severance package, do you regret your Government's refusal to support the Welsh Conservative amendment to the 2013 Local Government (Democracy) (Wales) Bill that could have protected the taxpayer from this malfeasance?
- Weinidog, mae datganiad ddoe ar y Papur Gwyn llywodraeth leol yn dweud eich bod yn ceisio rheolaethau tynn ar daliadau i brif weithredwyr a phrif swyddogion. O ystyried sgandal y Porsches a'r taliadau diswyddo yng Nghyngor Sir Penfro a phhecyn diswyddo arfaethedig Cyngor Sir Gaerfyrddin o £446,000, a ydych yn difaru bod eich Llywodraeth wedi gwrthod cefnogi gwlliant y Ceidwadwyr Cymreig i Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 a allai fod wedi diogelu'r trethdalwr rhag camymddwyn o'r fath?
- 14:19 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, she's quite right to draw attention to the pay-offs, perks and Porsches in Pembrokeshire. I have to say that I very much welcome the fact that, yesterday, Pembrokeshire County Council adopted the recommendation of the independent review panel in order to restrict the salary of the new chief executive below what they had previously been intending to do.
- Wel, mae hi'n hollol iawn i dynnu sylw at y taliadau diswyddo, y buddion a'r Porsches yn Sir Benfro. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn croesawu'n fawr fod Cyngor Sir Benfro wedi mabwysiadu argymhelliad y panel adolygu annibynnol ddoe i gadw cyflog y prif weithredwr newydd yn is na'r hyn a fwriadwyd yn flaenorol.
- 14:20 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- A gaf innau hefyd gyfeirio at yr argymhelliad ddoe i gadw gwell reolaeth ar gyflogau prif weithredwyr o fewn awdurdodau lleol? Felly, a wnewch chi ymuno â fi i longyfarch Cyngor Gwynedd am gadw cyflog y prif weithredwr a'r uwch-swyddogion i lefel gyda'r isaf yng Nghymru, tra ar yr un pryd yn cynyddu tâl i 2,000 o weithwyr sydd ar y cyflogau isaf? Buaswn i'n credu bod hynny'n esiampl dda i bob cyngor; fuasech chi ddim yn cytuno?
- May I also refer to the recommendation made yesterday to keep better control over chief executives' salaries in local authorities? Will you join with me in congratulating Gwynedd Council for keeping the chief executive's salary and that of the principal officers at about the lowest level in Wales, whilst increasing the salaries for 2,000 of the workers on the lowest salaries? I think that's a very good example for every council; would you not agree?
- 14:20 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I'm very happy to welcome action that is taken to hold down senior salaries in local government, wherever it happens.
- Wel, rwy'n hapus iawn i groesawu camau a gymerir i gadw cyflogau uwch reolwyr llywodraeth leol i lawr, lle bynnag y mae'n digwydd.

Cwmnïau Hyd Braich

Arm's-length Companies

- 14:20 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch atebolrwydd cwmnïau a sefydliadau hyd braich a sefydlwyd i ddarparu gwasanaethau awdurdodau lleol? OAQ(4)0524(PS)
2. Will the Minister make a statement on the accountability of arm's length companies and organisations set up to deliver local authority services? OAQ(4)0524(PS)
- 14:20 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am gael systemau a phrosesau priodol yn eu lle i sicrhau atebolrwydd llawn ar gyfer yr holl ddulliau gwahanol o ddarparu gwasanaethau'r awdurdod.
Each local authority is responsible for having appropriate systems and processes to ensure there is full accountability for all the different mechanisms by which the authority's services are delivered.
- 14:21 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
Diolch am yr ateb, Weinidog. Fel rŷch chi'n siŵr o fod yn gywbod, mae cynlluniau ar y gweill gan gyngor Castell-nedd Port Talbot i gau pwll nofio Cymer yng nghwm Afan. Yr hyn sydd yn broblem i fi, ac i bobl leol, yw ceisio sicrhau eu bod nhw'n gallu scrwtineiddio'r hyn y mae'r corff nid-am-elw, Celtic Community Leisure, yn ei wneud yn hynny o beth. Mae problemau wedi bod gyda sut maen nhw wedi, efallai, cyllidebu ar gyfer y pwll yn y gorffennol, sydd wedi arwain at y ffaith nawr fod y pwll yn cau ar hyn o bryd. Sut ydych chi fel Gweinidog yn argymhell i bobl leol i allu scrwtineiddio'r cyrff yma sydd yn cael eu sefydlu gan gynghorau i redeg eu gwasanaethau?
Thank you for that response, Minister. As I'm sure you know, there are plans in the pipeline by Neath Port Talbot council to close the Cymmer swimming pool in the Afan valley. Now, what's a problem for me and for local people is trying to ensure that they're able to scrutinise what the not-for-profit body, Celtic Community Leisure, is doing in that regard. There have been problems in terms of how they have budgeted for the swimming pool in the past, which has led to the fact that the pool is in the process of going through closure at present. How are you, as Minister, recommending that local people should be able to scrutinise these bodies that are set up by councils to run their services?
- 14:21 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
Well, I think the Member does raise an important question, because we are likely to see, I think, more and more councils across the whole of Wales adopting social enterprise, co-operative and mutual solutions to the delivery of services, not least in leisure, but probably in other services as well. There are issues of accountability in those areas, and it's important, I think, that councils do have in place mechanisms that local people can have confidence in in order to ensure effective scrutiny of such arrangements, particularly where, in some cases, what were previously publicly owned facilities, or municipally owned facilities, let me say, may pass to other agencies. I think that is something on which we will have rather more to say in the near future.
Wel, rwy'n meddwl bod yr Aelod yn gofyn cwestiwn pwysig, oherwydd rwy'n meddwl ein bod yn debygol o weld mwy a mwy o gynghorau ar draws Cymru gyfan yn mabwysiadu atebion ar ffurf mentrau cymdeithasol, a chwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol i ddarparu gwasanaethau, yn enwedig ym maes hamdden, ond mewn gwasanaethau eraill hefyd mae'n debyg. Mae materion yn codi o ran atebolrwydd yn y meysydd hynny, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig i gynghorau gael trefn ar waith y gall pobl leol gael hyder ynnddi er mwyn sicrhau bod trefniadau o'r fath yn cael eu craffu'n effeithiol, yn enwedig mewn rhai achosion, lle y gallai'r hyn a oedd yn flaenorol yn gyfleusterau'r cyhoedd, neu'n gyfleusterau'r cynghorau, gadewch i mi ddweud, drosglwyddo i asiantaethau eraill. Credaf fod hynny'n rhywbeth y bydd gennym ychydig yn fwy i'w ddweud yn ei gylch yn y dyfodol agos.
- 14:22 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
Minister, with these arm's-length business organisations that local councils do set up, sometimes we actually have directors who leave their posts and then go and take posts with those arm's-length organisations. Will you be issuing guidance to stop that process where a director of a local authority, who has had direct contact and has actually been involved in contracts with those organisations, takes up such a post? That could also be applied to other organisations, where we are seeing directors leaving local authorities and taking up directorships with businesses they've had dealings with.
Weinidog, gyda'r sefydliadau busnes hyd braich y mae cynghorau lleol yn eu sefydlu, weithiau bydd cyfarwyddwyr yn gadael eu swyddi ac yn mynd ymlaen wedyn i gael swyddi gyda'r sefydliadau hyd braich hynny. A fyddwch yn cyhoeddi canllawiau i atal y broses honno, lle y mae cyfarwyddwr awdurdod lleol, sydd wedi cael cysylltiad uniongyrchol, ac mewn gwirionedd wedi bod yn rhan o gontractau gyda'r sefydliadau hynny, yn cael swydd o'r fath? Gallai hyn fod yn berthnasol hefyd i gyrff eraill, lle y gwelwn gyfarwyddwyr yn gadael awdurdodau lleol ac yn cael swyddi cyfarwyddwyr gyda busnesau y maent wedi delio â hwy.

14:23	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, this is a very important point that my colleague the Member for Aberavon raises, and I certainly think that I would be happy to give further consideration to that. What I do know is that the current Code of Conduct (Qualifying Local Government Employees) (Wales) Order 2001 already includes a requirement that local government officers must not allow any private interests to conflict with their public duty. But there are arrangements in other places, for example, which control the entry of former public servants, and indeed Ministers, into other organisations where they must seek approval for such moves, and in some cases there are qualifying periods as well. I am certainly open to looking at any of those issues, and if the Member cares to write to me on that, I'll be happy to respond.</p>	<p>Wel, mae hwn yn bwynt pwysig iawn gan fy nghyd-Aelod dros Aberafan, ac rwy'n sicr yn meddwl y byddwn yn hapus i roi ystyriaeth bellach iddo. Yr hyn rwy'n ei wybod yw bod Gorchymyn Cod Ymddygiad (Cyflogeion Cymwys Llywodraeth Leol) 2001 eisoes yn cynnwys gofyniad na ddylai swyddogion llywodraeth leol adael i unrhyw fuddiannau preifat wrthdaro â'u dyletswydd gyhoeddus. Ond mae trefniadau mewn mannau eraill, er enghraifft, sy'n rheoli mynediad cyn weision cyhoeddus, a Gweinidogion yn wir, i sefydliadau eraill lle y mae'n rhaid iddynt geisio cymeradwyaeth ar gyfer symudiadau o'r fath, ac mewn rhai achosion ceir cyfnodau cymhwysio hefyd. Rwy'n sicr yn barod i edrych ar unrhyw un o'r materion hynny, ac os yw'r Aelod yn dymuno ysgrifennu ataf ynglŷn â hynny, byddaf yn fwy na pharod i ymateb.</p>
14:24	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, absent from your list were private companies, which also can offer services, and Welsh Government itself has experienced problems of this type, particularly with the company Xwavia, which received over £860,000 of Welsh Government money to deliver broadband services in north Wales. Now, just £500,000 of that was given shortly before this company went into administration. So, given Welsh Government's familiarity with these issues, what are you doing to make sure this sort of thing doesn't happen again?</p>	<p>Weinidog, yn absennol o'ch rhestr roedd cwmnïau preifat sydd hefyd yn gallu cynnig gwasanaethau, ac mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi cael problemau o'r math hwn, yn enwedig gyda chwmni Xwavia, a gafodd dros £860,000 o arian Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau band eang yng ngogledd Cymru. Yn awr, rhoddwyd £500,000 o hwnnw ychydig cyn i'r cwmni fynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Felly, o ystyried bod Llywodraeth Cymru yn gyfarwydd â'r materion hyn, beth rydych chi'n ei wneud i sicrhau nad yw'r math hwn o beth yn digwydd eto?</p>
14:24	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, can I say this is not an area of concern in my portfolio? I think this is in the portfolio of the Minister for Economy, Science and Transport, and I think she is well acquainted with the issues in respect of this particular enterprise.</p>	<p>Wel, a gaf fi ddweud nad yw hwn yn faes sy'n cael sylw yn fy mhortffolio? Rwy'n credu ei fod ym mhortffolio Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ac rwy'n credu ei bod yn gyfarwydd iawn â'r materion sy'n ymwneud â'r fenter benodol hon.</p>
Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau		Questions Without Notice from Party Spokespeople
14:24	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We now move to questions from the spokespeople, and first this afternoon, Welsh Conservative spokesperson, Janet Finch-Saunders.</p>	<p>Symudwn yn awr at gwestiynau gan y llefarwyr, ac yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Janet Finch-Saunders.</p>
14:25	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you, Presiding Officer. Minister, in your own invitation of expressions of interest to local authorities, in the prospectus, you agreed with Williams, saying we should support and incentivise those authorities that wish to begin the process of voluntary merger. Would you tell this Chamber how exactly you did this with the Conwy and Denbighshire expression of interest?</p>	<p>Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, yn eich gwahoddiad eich hun o ddatganiadau o ddiddordeb i awdurdodau lleol, yn y prospectws, rydych yn cytuno â Williams, gan ddweud y dylem gefnogi a chymell yr awdurdodau sy'n dymuno cychwyn y broses o uno'n wirfoddol. A wnech chi ddweud wrth y Siambur sut yn union y gwnaethoch hynny gyda datganiad o ddiddordeb Conwy a Sir Ddinbych?</p>
14:25	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We received the expression of interest from Conwy and Denbighshire. We reviewed it. We came to the conclusion that we could not support it.</p>	<p>Daeth y datganiad o ddiddordeb i law gan Gonwy a Sir Ddinbych. Fe'i hadolygwyd gennym. Daethom i'r casgliad na allem ei gefnogi.</p>

- 14:25 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Oh dear. You further state on page 3 that you would work closely with those authorities wishing to voluntarily merge to provide advice and support through the initial and subsequent stage, and there's talk of financial incentives and even help to set out their case during the development. Again, what advice did you provide? How did you support the six authorities in their applications? How did you help them to set out their case by your required deadline?
- O diar. Rydych yn datgan wedyn ar dudalen 3 y byddech yn gweithio'n agos gyda'r awdurdodau hynny sy'n dymuno uno'n wirfoddol i ddarparu cyngor a chefnogaeth drwy'r cyfnod cychwynnol a'r cyfnod dilynol, ac mae sôn am gymhellion ariannol a hyd yn oed help i gyflwyno eu hachos yn ystod y datblygiad. Unwaith eto, pa gyngor a ddarparwyd gennych? Sut yr aethoch ati i gynorthwyo'r chwe awdurdod gyda'u ceisiadau? Sut yr aethoch ati i'w helpu i gyflwyno eu hachos erbyn eich dyddiad cau gofynnol?
- 14:26 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I had meetings with leaders who were interested in putting forward a case for voluntary merger. My officials also met with officers of the councils involved and provided them with advice. There was clear guidance supplied in the prospectus for voluntary mergers. I have set out my reasons to each of the authorities as to why we did not support their expressions of interest, and those have gone out in correspondence.
- Wel, cefais gyfarfodydd â'r arweinwyr a oedd â diddordeb mewn cyflwyno achos dros uno gwirfoddol. Cyfarfu fy swyddogion hefyd â swyddogion y cynghorau dan sylw a rhoi cyngor iddynt. Darparwyd arweiniad clir yn y prospectws ar gyfer uno'n wirfoddol. Rwyf wedi nodi fy rhesymau pam nad oeddem yn cefnogi eu datganiadau o ddiddordeb i bob un o'r awdurdodau, ac mae'r ohebiaeth honno wedi mynd allan.
- 14:26 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. I have the prospectus and I've got the expression of interest, and I cannot see the gaps. But, you emphatically state:
- Diolch i chi, Weinidog. Mae'r prospectws gennyf ac mae'r datganiad o ddiddordeb gennyf, ac ni allaf weld y bylchau. Ond rydych yn bendant yn datgan:
- 'We are not expecting a fully worked up Merger Proposal supported by detailed evidence or... financial modelling by 28 November 2014. The purpose of developing the Expression of Interest is to provide a clear structure for moving forward with the merger process.'
- 'Nid ydym yn disgwyl Cynnig i Uno wedi ei ddatblygu'n llawn ac wedi'i ategu gan dystiolaeth fanwl na modelu ariannol... erbyn 28 Tachwedd 2014. Pwrpas datblygu'r datganiad o ddiddordeb yw darparu strwythur clir ar gyfer symud ymlaen â'r broses uno.'
- Minister, in your statement last week, you said you were disappointed that you were not persuaded by any of these expressions of interests sufficiently meeting the criteria for moving ahead to prepare for full voluntary merger proposal. Will you explain the evidence and detailed rationale that persuaded you that they did not meet the criteria? Is it not the case that it was you that did not engage, that it was you that did not support, and that it was you that failed these authorities? Will you say how, and on what basis, you rejected these bids and provide the evidence for us to scrutinise?
- Weinidog, yn eich datganiad yr wythnos diwethaf, fe ddywedoch eich bod yn siomedig na chawsoch eich perswadio bod unrhyw un o'r datganiadau hyn o ddiddordeb yn cwrdd â'r meini prawf yn ddigonol ar gyfer symud ymlaen i baratoi ar gyfer cynnig llawn i uno'n wirfoddol. A wnewch chi egluro'r dystiolaeth a'r rhesymeg fanwl a'ch perswadiodd nad oeddent yn bodloni'r meini prawf? Onid yw'n wir mai chi a fethodd ymgysylltu, mai chi a fethodd gefnogi, ac mai chi a wnaeth gam â'r awdurdodau hyn? A wnewch chi ddweud sut, ac ar ba sail, y gwrthodwyd y ceisiadau hyn gennych a darparu'r dystiolaeth i ni ei chraffu?
- 14:27 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Llywydd, I think that's all a bit silly. I have given detailed explanations to each of the leaders involved and I have written to the leaders. The expressions of interest, of course, are publicly available and Members can look at them. To take one example, which I won't be specific in naming just now, when you are told by one of the chief executives involved that it is unlikely that they would be able to produce the full business case by the deadline suggested in the voluntary merger prospectus, you are unlikely to have confidence that it is worth proceeding to the next stage.
- Llywydd, rwy'n meddwl bod hynny i gyd braidd yn wirion. Rwyf wedi rhoi esboniadau manwl i bob un o'r arweinyddion dan sylw ac rwyf wedi ysgrifennu at yr arweinwyr. Mae'r datganiadau o ddiddordeb, wrth gwrs, ar gael i'r cyhoedd a'r Aelodau eu gweld. I nodi un enghraifft, nad wyf am ei henwi'n benodol yn awr: pan ddywedir wrthyf gan un o'r prif weithredwyr dan sylw ei bod yn annhebygol y byddent yn gallu cynhyrchu achos busnes llawn erbyn y dyddiad cau a awgrymir yn y prospectws uno gwirfoddol, rydych yn annhebygol o fod yn hyderus ei bod yn werth bwrw ymlaen i'r cam nesaf.
- 14:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.
- Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.

14:28 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, o ran eglurder yn dilyn cwestiynau Janet Finch-Saunders, a wnewch chi gadarnhau'r prynhawn yma na fydd yna ddim cyfuno gwirfoddol na gorfodol o awdurdodau lleol cyn yr etholiad nesaf i'r Cynulliad yn 2016? A wnewch chi ddweud wrthym ni beth rydych yn mynd i'w wneud i ddigolledu'r chwe sir a wnaeth fynd trwy'r broses o roi cais i mewn, a oedd yn golygu cryn waith a chryn gost iddyn nhw? Beth ydych yn mynd i'w wneud i'w digolledu nhw gan eich bod wedi gwrthod eu ceisiadau nhw?

Minister, as regards clarity following Janet Finch-Saunders' questions, will you confirm this afternoon that there will be no voluntary or mandatory mergers of local authorities before the next Assembly election in 2016? Will you tell us what you are going to do to compensate the six counties that went through the process of submitting a proposal, which meant a great deal of work and quite a lot of expense? What are you going to do to compensate them as you have rejected their proposals?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:29 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, I won't confirm that there will be no voluntary mergers before the next election. In respect of costs of producing submissions against the voluntary merger prospectus, that was, of course, a matter for those local authorities.

Na, nid wyf am gadarnhau na fydd unrhyw uno gwirfoddol cyn yr etholiad nesaf. Mewn perthynas â chostau cynhyrchu cyflwyniadau yn ôl y prospectws uno gwirfoddol, mater i'r awdurdodau lleol oedd hynny, wrth gwrs.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:29 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wel, fe ddaeth y cais oddi wrthych chi, Weinidog, iddyn nhw i ddangos diddordeb mewn cyfuno gwirfoddol. Felly, mae'n gwbl anghywir ichi ddweud mai dod oddi wrthyn nhw wnaeth hynny. Am nad ydych chi'n mynd i gadarnhau, a gaf i gadarnhau na fydd yna gyfuno gwirfoddol na gorfodol cyn yr etholiad nesaf yn 2016? Rydym i gyd yn gwybod hynny erbyn hyn. Ond, o ran y cynghorau sydd nawr yn canfod eu hunain mewn sefyllfa o ansicrwydd llwyr ynglŷn â beth rydych yn dymuno oddi wrthyn nhw, a wnewch chi ein sicrhau ni y prynhawn yma y byddwch chi yn ymgyrchu o fewn y Cabinet i sicrhau na fydd toriad tebyg i'r toriad sy'n ei wynebu nhw ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn eu wynebu nhw ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dilyn hynny? Mae'n nhw'n canfod eu hunain mewn sefyllfa o ansicrwydd llwyr oherwydd y Llywodraeth yma, yn gorfod gwneud toriadau enbyd i'w cyllideb heb unrhyw fath o arweiniad oddi wrthych chi na'r Llywodraeth.

Well, the request came from you, Minister, for them to express an interest in voluntary mergers. So, it's quite wrong for you to say that the impetus came from them. As you are not going to confirm, may I confirm that there will be no voluntary or mandatory mergers before the next election in 2016? We all know that by now. But, as regards the councils that now find themselves in a situation of complete uncertainty as regards what you wish or desire from them, will you give us an assurance this afternoon that you will campaign within the Cabinet to ensure that there won't be a cut similar to the one facing them for the next financial year for the subsequent financial year? They find themselves in a position of total uncertainty because of this Government, having to make swingeing cuts to their budget without any kind of leadership from you or the Government.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:30 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the reason that we are facing cuts in budgets in local government is well-known to all in this Chamber. It's because of the cuts that have been imposed on the Welsh budget by the Conservative-led UK Government, amounting to £1.5 billion over the period of this spending review. We have protected, of course, local government far better in Wales than it's been protected in England, and no doubt that will come up in the debate subsequently this afternoon. In respect of voluntary mergers, I repeat that I do not yet rule out voluntary mergers before the next election.

Wel, mae'r rheswm ein bod yn wynebu toriadau yng nghyllidebau llywodraeth leol yn gyfarwydd iawn i bawb yn y Siambr hon. Mae'n deillio o'r toriadau a orfodwyd ar gyllideb Cymru gan Lywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr, sef cyfanswm o £1.5 biliwn dros gyfnod yr adolygiad o wariant. Rydym wedi diogelu llywodraeth leol yn llawer gwell yng Nghymru, wrth gwrs, nag y cafodd ei gwarchod yn Lloegr, ac nid oes amheuaeth y bydd hynny'n rhan o'r ddadl yn ddiweddarach y prynhawn yma. O ran uno gwirfoddol, dywedaf eto nad wyf eto'n diystyru'r posibilrwydd y ceir uno gwirfoddol cyn yr etholiad nesaf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:31 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, mae'n bosib y gallwch chi roi'r bai ar y glymblaid yn San Steffan o ran y toriadau sydd wedi dod i'r gyllideb yn y fan hyn, ond ni allwch drosglwyddo'r cyfrifoldeb am yr ansicrwydd sydd wedi'i greu, ac mae awdurdodau lleol bellach yn gorfod trefnu ar gyfer toriadau enbyd yng nghanol ansicrwydd llwyr ynglŷn â'ch bwriadau chi ynglŷn ag awdurdodau lleol yng Nghymru. Fe gawsom ni Williams, fe gawsom ni'r ceisiadau am gyfuno gwirfoddol, a nawr rydych wedi cyhoeddi Papur Gwyn. Beth ydych yn disgwyl i awdurdodau lleol ei wneud o ran ceisio ymdopi â'r toriadau yma? Onid sicrwydd sydd angen arnyn nhw, gwybod lle maen nhw flwyddyn nesaf, gwybod lle maen nhw ym mhen pum mlynedd, a gwybod lle maen nhw ym mhen 10 mlynedd? Dyna'r unig ffordd y gallan nhw ddelio â'r toriadau yma, ac rydych chi'n achosi iddyn nhw wynebu ansicrwydd llwyr.
- Minister, it's possible that you could actually blame the Westminster coalition as regards the cuts that have been made to the budget here, but you cannot transfer the responsibility for the uncertainty that's been created, and local authorities by now have to make arrangements for huge cuts in the midst of total uncertainty about your intentions with regard to the local authorities in Wales. We've had Williams, we've had voluntary merger bids, and now you've published a White Paper. What do you expect local authorities to do from the point of view of coping with these cuts? Isn't it that they need assurance, to know where they will be next year, five years hence, and 10 years hence? That's the only way in which they can deal with these cuts, and you are just bringing them total uncertainty.
- 14:31 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, 16 out of the 22 local authorities didn't put forward voluntary merger proposals, including at least one run by his own party, of course, and a number of them have opposed any agreement to merge in the future. Now, I happen to believe that across this Chamber there is a consensus that we need fewer local authorities in Wales, and the First Minister has extended an invitation to the leaders of all political parties to see if we can reach consensus on a map for the future.
- Wel, ni chyflwynodd 16 o'r 22 awdurdod lleol gynigion i uno'n wirfoddol, gan gynnwys o leiaf un sy'n cael ei redeg gan ei blaid ei hun, wrth gwrs, ac mae nifer ohonynt wedi gwrthwynebu unrhyw gytundeb i uno yn y dyfodol. Yn awr, rwy'n digwydd credu bod consensws ar draws y Siambr fod angen llai o awdurdodau lleol yng Nghymru, ac mae'r Prif Weinidog wedi estyn gwahoddiad i arweinwyr pob plaid wleidyddol i weld a allwn gyrraedd consensws ar gyfer y dyfodol.
- 14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Welsh Liberal Democrats spokesperson, Peter Black.
- Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.
- 14:32 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. It's a shame, Minister, that that invitation wasn't extended to leaders of the political parties when the Williams commission was set up, because at least then you would have a template that all the parties might have been able to sign up to. Minister, with regard to the voluntary mergers, at least two of those bids were outside of the template that the Williams commission set out, but, of course, the Conwy and Denbighshire one was within that template and certainly in line with what Williams had recommended. Given that you have rejected that for your own reasons, and I think you should publish the letters that you've sent to the chief executives, can I ask, do you expect Conwy and Denbighshire to be ready to merge when you come to actually publish a Bill to force those mergers?
- Diolch i chi, Lywydd. Mae'n drueni, Weinidog, nad estynnwyd y gwahoddiad i arweinwyr y pleidiau gwleidyddol pan sefydlwyd comisiwn Williams. O leiaf wedyn byddai gennych dempled y gallai pob un o'r pleidiau fod wedi ei gefnogi. Weinidog, o ran y ceisiadau i uno'n wirfoddol, roedd o leiaf ddau o'r ceisiadau y tu allan i'r templed a bennwyd gan gomisiwn Williams, ond wrth gwrs, roedd cais Conwy a Sir Ddinbych o fewn y templed ac yn sicr yn unol â'r hyn roedd Williams wedi ei argymhell. Gan eich bod wedi gwrthod y cais hwnnw am eich rhesymau eich hun, ac rwy'n meddwl y dylech gyhoeddi'r llythyron a anfonwyd gennych at y prif weithredwyr, a gaf fi ofyn, a ydych yn disgwyl i Gonwy a Sir Ddinbych fod yn barod i uno pan fyddwch yn mynd ati i gyhoeddi Bil i orfodi uno o'r fath?
- 14:33 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, we have not yet reached our conclusions on the final map and the invitation to meet, of course, is there for you to discuss that map. That could result, of course, in a situation where we saw a merger of councils on the Williams footprint, or it could result in other decisions entirely.
- Wel, nid ydym eto wedi dod i gasgliad ynglŷn â'r map terfynol ac mae'r gwahoddiad i gyfarfod, wrth gwrs, yno i chi drafod y map hwnnw. Gallai hynny arwain, wrth gwrs, at sefyllfa lle y byddem yn gweld uno cynghorau yn ôl dull Williams, neu gallai arwain at benderfyniadau eraill yn llwyr.

14:33	Peter Black Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, thank you for that answer, Minister. Is it the case, therefore, that you have, effectively, scrapped the Williams map and you will be coming back to us with an alternative map, or have you still to make up your mind exactly what map you want?</p>	<p>Wel, diolch i chi am eich ateb, Weinidog. A yw'n wir, felly, eich bod wedi dileu map Williams i bob pwrpas ac y byddwch yn cyflwyno map amgen, neu a ydych heb benderfynu eto'n union pa fap rydych ei eisiau?</p>
14:33	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>No, we have not scrapped the Williams map. As the First Minister said last week, Williams option 1 remains the preferred option, though not the definitive option, and we are open to conversations with other parties to see if we can agree a map for the way forward.</p>	<p>Na, nid ydym wedi cael gwared ar fap Williams. Fel y dywedodd y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf, opsiwn 1 Williams yw'r opsiwn a ffafirir o hyd, er nad dyna'r opsiwn terfynol, ac rydym yn agored i sgysiau gyda phleidiau eraill i weld a allwn gytuno ar fap ar gyfer y ffordd ymlaen.</p>
14:34	Peter Black Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Going back to my first question then, Minister, when you come to consider the merger of authorities, on whatever map you finally settle upon, what criteria will you expect those authorities to meet before you allow those mergers to go ahead, albeit ones that you will legislate for and tell them to go ahead and do?</p>	<p>Gan fynd yn ôl at fy nghwestiwn cyntaf, felly, Weinidog, pan fyddwch yn ystyried uno awdurdodau, pa fap bynnag a ddewiswch yn y pen draw, pa feini prawf fyddwch chi'n disgwyl i'r awdurdodau hynny eu bodloni cyn i chi ganiatáu i'r uno fynd yn ei flaen, er eu bod yn rhai y byddwch yn deddfu ar eu cyfer ac yn dweud wrthynt am fwrw ymlaen i'w gwneud?</p>
14:34	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, we are currently discussing, and, indeed, we'll be discussing in committee tomorrow, the Local Government (Wales) Bill, which sets out the proposals for any further suggested voluntary mergers that may come before us. We'll be discussing that in committee tomorrow and we can discuss the detail of that over the forthcoming stages of that Bill. We have already said, and we confirmed in the White Paper, that we will be bringing forward a draft Bill towards the end of this year for consultation, which would be implemented after the next set of Assembly elections, and, on the basis of that draft Bill, I think there will be considerable clarity for local authorities on the processes that we would expect to implement.</p>	<p>Wel, rydym yn trafod Bil Llywodraeth Leol (Cymru) ar hyn o bryd, ac yn wir, byddwn yn ei drafod yn y pwyllgor yfory. Mae'n nodi'r cynigion ar gyfer unrhyw awgrymiadau pellach ar gyfer uno gwirfoddol a allai ddod ger ein bron. Byddwn yn trafod hynny yn y pwyllgor yfory a gallwn drafod manylion hynny dros y camau sydd i ddod o'r Bil hwnnw. Rydym wedi dweud eisoes, ac rydym yn cadarnhau hynny yn y Papur Gwyn, y byddwn yn cyflwyno Bil drafft tuag at ddiwedd y flwyddyn hon ar gyfer ymgynghori, a fyddai'n cael ei roi mewn grym ar ôl y set nesaf o etholiadau'r Cynulliad, ac ar sail y Bil drafft, rwy'n credu y bydd y prosesau y byddem yn disgwyl eu gweithredu yn eglur iawn i awdurdodau lleol.</p>
14:35	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Russell George.</p>	<p>Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur yn awr, a daw cwestiwn 3 gan Russell George.</p>
	Criwyr Tref	Town Criers
14:35	Russell George Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>3. <i>A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i grŵyr tref yng Nghymru?</i> OAQ(4)0520(PS)</p>	<p>3. <i>Will the Minister make a statement on Welsh Government support for town criers in Wales?</i> OAQ(4)0520(PS)</p>
14:35	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Llywydd, I think there are more effective ways of disseminating information in the digital era. [Laughter.]</p>	<p>Llywydd, rwy'n meddwl bod yna ffyrdd mwy effeithiol o ledaenu gwybodaeth yn yr oes ddigidol. [Chwerthin.]</p>

14:35	Russell George Bywgraffiad Biography Thank you, Minister. A constituent of mine, Sue Blower, is the town crier in the town of Montgomery, and does an excellent job in her role. She has been invited to take part in the world town crier competition in New Zealand—the only entry in Wales, I should add. Now, as Sue is not only representing her town, but the whole of Wales, does the Minister know of any support that is available to her from Welsh Government? Clearly, there’s an opportunity to support Wales and give the Welsh Government an opportunity to sell Wales to the rest of the world.	Diolch i chi, Weinidog. Un o fy etholwyr, Sue Blower, yw criwr tref yn Nhrefaldwyn, ac mae’n gwneud gwaith rhagorol yn y rôl. Mae hi wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yng nghystadleuaeth criwr tref y byd yn Seland Newydd—yr unig ymgais o Gymru, dylwn ychwanegu. Yn awr, gan fod Sue nid yn unig yn cynrychioli ei thref, ond Cymru gyfan hefyd, a yw’r Gweinidog yn gwybod am unrhyw gymorth sydd ar gael iddi gan Lywodraeth Cymru? Yn amlwg, mae’n gyfle i gefnogi Cymru a rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru werthu Cymru i weddill y byd.	Senedd.tv Fideo Video
14:35	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Well, can I congratulate her on representing Wales in those world awards? And I have to say, someone with the name of Sue Blower would have what sounds like a very appropriate name to be a town crier. We will happily respond to him; if he wants to write to me, we will look at whether there is anything we might do in that regard.	Wel, a gaf fi ei llongyfarch ar gynrychioli Cymru yn y gwobrau byd? Ac mae rhaid i mi ddweud, byddai rhywun ag enw fel Sue Blower â’r hyn sy’n swnio fel enw priodol iawn ar gyfer bod yn griwr tref. Byddwn yn hapus i ymateb iddo; os yw’n dymuno ysgrifennu ataf, fe edrychwn i weld a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud yn hynny o beth.	Senedd.tv Fideo Video
Cyfiawnder Ieuentid		Youth Justice	
14:36	John Griffiths Bywgraffiad Biography <i>4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd polisi Llywodraeth Cymru ar gyfiawnder ieuentid yng Nghymru? OAQ(4)0526(PS)</i>	<i>4. Will the Minister make a statement on the progress of Welsh Government policy on youth justice in Wales? OAQ(4)0526(PS)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:36	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography We are making good progress. First-time entrant numbers continue to fall, and there are fewer young people in custody. Work with the Youth Justice Board for England and Wales to implement our joint strategy, ‘Children and Young People First’, is continuing, and this will provide support and services for children and young people.	Rydym yn gwneud cynnydd da. Mae rhifau’r rhai sy’n dod i mewn i’r system am y tro cyntaf yn dal i ddisgyn, ac mae llai o bobl ifanc yn y ddalfa. Mae gwaith yn parhau gyda Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid Cymru a Lloegr ar weithredu ein strategaeth ar y cyd, ‘Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf’, a bydd yn darparu cymorth a gwasanaethau i blant a phobl ifanc.	Senedd.tv Fideo Video
14:36	John Griffiths Bywgraffiad Biography Do you have concerns, Minister, in terms of the situation currently pertaining with the probation service—the split in responsibilities, and the private model that’s involved?	A oes gennych bryderon, Weinidog, o ran sefyllfa’r gwasanaeth prawf ar hyn o bryd—y rhaniad cyfrifoldebau, a’r model preifat sydd ynghlwm wrtho?	Senedd.tv Fideo Video
14:37	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Yes. I mean, I think we’ve said, as a Government, that we have significant concerns about that, and it’s been something that, obviously, has come up in discussions that we’ve had with the appropriate agencies. I think what is important, given the policy that has been adopted, is that we are clear in Wales about our responsibilities, that we have in place the right ways of working with the youth justice board and with the National Offender Management Service, and that we have good relationships that can ensure that we are seeing the best service being provided for people in Wales. And I think we are working to that end.	Ydw. Hynny yw, rwy’n meddwl ein bod wedi dweud, fel Llywodraeth, fod gennym bryderon sylweddol ynglŷn â hynny, ac mae’n amlwg ei fod yn rhywbeth sydd wedi codi yn y trafodaethau rydym wedi eu cael gyda’r asiantaethau priodol. Rwy’n credu mai’r hyn sy’n bwysig, o ystyried y polisi a fabwysiadwyd, yw ein bod yn glir yng Nghymru ynglŷn â’n cyfrifoldebau, fod gennym ffyrdd cywir o weithio gyda’r bwrdd cyfiawnder ieuentid a’r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd, a bod gennym gysylltiadau da sy’n gallu sicrhau ein bod yn darparu’r gwasanaeth gorau i bobl yng Nghymru. Ac rwy’n credu ein bod yn gweithio i’r perwyl hwnnw.	Senedd.tv Fideo Video

- 14:37 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, research has shown that young people leaving care are three times more likely to be cautioned or convicted of an offence. What discussions have you had with your colleagues to ensure young people leaving care are given the advice and support necessary to reduce the risk of offending again?
- Weinidog, mae ymchwil wedi dangos bod pobl ifanc sy'n gadael gofal dair gwaith yn fwy tebygol o gael rhybuddiad neu gollfarn am drosedd. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'ch cydweithwyr i sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael y cyngor a'r cymorth angenrheidiol i leihau'r risg o droseddu eto?
- 14:38 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I mean, it's quite true what the Member says, and there are specific challenges in this area, which is why our youth justice strategy and delivery plan is a strategy for the whole of the Government, binding on all my colleagues, and we review that regularly. Indeed, we intend to review that on a quarterly basis with all colleagues in the Government.
- Ie, hynny yw, mae'r hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud yn hollol wir, ac mae heriau penodol yn y maes, a dyna pam y mae ein strategaeth cyfiawnder ieuencid a'r cynllun cyflawni yn strategaeth ar gyfer y Llywodraeth gyfan, ac yn rhwymo fy holl gydweithwyr, ac rydym yn adolygu hynny yn rheolaidd. Yn wir, rydym yn bwriadu adolygu hynny yn chwarterol gyda'r holl gydweithwyr yn y Llywodraeth.
- 14:38 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, y llynedd, cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hymateb i Silk, fe wnaeth Comisiynydd Plant Cymru ar y pryd ddweud bod angen rhoi mwy o bwysau ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli cyfiawnder ieuencid, er mwyn i ni allu trafod pa adnoddau sydd eu hangen ar gyfer implementeiddio hynny, pe bai hynny'n dod i fodolaeth. Pa waith, felly, ydych chi'n ei wneud fel Llywodraeth i gyfathrebu â Llywodraeth San Steffan—roeddwn i'n mynd i ddweud Llywodraeth Lloegr—er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei ddatganoli i Gymru?
- Minister, last year, before the Welsh Government published its response to Silk, the Children's Commissioner for Wales at the time said that more pressure needed to be put on the Westminster Government to devolve youth justice, so that we could discuss what resources are needed to implement that, if it were to come to pass. What work are you therefore doing as a Government to communicate with the Government in Westminster—I was going to call them the English Government—in order to ensure that this is devolved to Wales?
- 14:38 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, that obviously remains our policy, and we are in regular discussions with representatives of the UK Government about how we take that forward. And, clearly, you will be aware—and I think party leaders here are aware—of discussions that are going on at the present time to see how Silk can be implemented. But, I certainly agree with you, we want youth justice to be devolved.
- Wel, dyna yw ein polisi o hyd, yn amlwg, ac rydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda chynrychiolwyr Llywodraeth y DU ynglŷn â sut i frwr ymlaen â hynny. Ac yn amlwg, fe fyddwch yn ymwybodol—ac rwy'n meddwl bod arweinwyr y pleidiau yma yn ymwybodol—o'r trafodaethau sy'n digwydd ar hyn o bryd i weld sut y gellir gweithredu Silk. Ond rwy'n sicr yn cytuno â chi, rydym yn awyddus i weld cyfiawnder ieuencid yn cael ei ddatganoli.
- 14:39 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, mae yna waith da yn cael ei wneud yn y maes yma yng Nghymru, ond, ym mis Tachwedd, fe ddywedoch chi eich bod chi wedi cael rhyw fath o drafodaethau cychwynnol efo Llywodraeth San Steffan ynghylch colegau diogel. A ydych chi'n barod i roi diweddariad, a beth ydy'ch safbwynt chi ar y cwestiwn yma o ran y bobl yma yng Nghymru y mae'n rhaid iddynt gael eu carcharu i ryw raddau?
- Minister, some good work is being done in this field in Wales, but, in November, you stated that you had had some kind of initial discussions with the Westminster Government regarding secure colleges. Are you willing to give us an update and tell us what your stance is on this issue as regards these people in Wales who have to be incarcerated to some extent?
- 14:39 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I've had meetings with the relevant Minister in Westminster on this issue, and, indeed, recent correspondence with him, and I'm happy to make that correspondence available.
- Ydw, rydw i wedi cael cyfarfodydd gyda'r Gweinidog perthnasol yn San Steffan ar y mater hwn, ac yn wir, wedi gohebu ag ef yn ddiweddar, ac rwy'n hapus i ryddhau'r ohebiaeth honno.
- 14:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Question 5, OAQ(4)0529(PS), is withdrawn. Question 6, Gwyn Price.
- Mae cwestiwn 5, OAQ (4) 0529 (PS), wedi ei dynnu yn ôl. Cwestiwn 6, Gwyn Price.

Gwasanaethau Cam-drin Domestig

Domestic abuse services

- 14:40 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
6. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid i gefnogi gwasanaethau cam-drin domestig? OAQ(4)0519(PS)
- 14:40 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Llywydd, despite the continuing pressure on the Welsh Government's budget, funding for violence against women, domestic abuse and sexual violence services continues to increase, totalling over £5 million next year.
- 14:40 **Gwyn R. Price** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for that answer, Minister. I welcome the Welsh Government's commitment to multi agency risk assessment conference representatives, who focus on domestic abuse victims at serious risk of harm. We know that domestic violence is rarely a one-off and that, over time, violence can escalate in frequency and severity. According to the Association of Chief Police Officers, on average, a woman is assaulted 35 times before they call for help from the police. Minister, what funding can be allocated to identify the support for victims of domestic abuse before it escalates to a MARAC level?
- 14:40 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
My colleague the Member for Islwyn is absolutely right to raise this and he'll be aware of the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill that is currently going through the Assembly. The implementation of that Bill, and the underpinning policies and programmes, will obviously seek to improve the public sector response to all victims of violence and abuse.
- This has been a subject I've discussed with chief constables and, in addition to the MARAC training already under way this year, our new national training framework will provide a range of comprehensive quality training across public service and other specialist sectors in Wales.
- 14:41 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Welsh Women's Aid have previously highlighted research showing that male and female victims of domestic abuse have different levels of need, often requiring different kinds of services. Therefore, in considering funding to support domestic abuse services, what consideration are you giving to the Barnardo's 'Hidden in plain sight' report, which found that the sexual exploitation of boys and young men is a much bigger problem than previously thought, requiring, quote:
- 'a radical shift in professional attitudes and practice'.
6. Will the Minister make a statement on funding to support domestic abuse services? OAQ(4)0519(PS)
- Llywydd, er gwaethaf y pwysau parhaus ar gyllideb Llywodraeth Cymru, mae cyllid ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn parhau i gynyddu, a bydd y cyfanswm dros £5 miliwn y flwyddyn nesaf.
- Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rwy'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynrychiolwyr cynhadledd amlasiantaeth asesu risg, sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n wynebu perygl difrifol o niwed. Gwyddom mai anaml y bydd trais domestig yn digwydd unwaith yn unig, a'i fod, dros amser, yn gallu cynyddu o ran ei amllder a'i ddifrifoldeb. Yn ôl Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, bydd menyw yn dioddef 35 o ymosodiadau ar gyfartaledd cyn galw am help gan yr heddlu. Weinidog, pa gyllid y gellir ei ddyrannu i nodi cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig cyn iddo waethygu i lefel cynhadledd amlasiantaeth asesu risg?
- Mae fy nghyd-Aelod dros Islwyn yn hollol gywir i dynnu sylw at hyn a bydd yn ymwybodol o'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy'r Cynulliad. Bydd gweithredu'r Bil hwnnw, a'r polisiau a'r rhaglenni sy'n sail iddo, yn amlwg yn ymgais i wella ymateb y sector cyhoeddus i holl ddioddefwyr trais a cham-drin.
- Mae hwn wedi bod yn bwnc rwyf wedi ei drafod gyda phrif gwnstabiliaid ac yn ogystal â'r hyfforddiant cynhadledd amlasiantaeth asesu risg sydd eisoes ar y gweill eleni, bydd ein fframwaith hyfforddi cenedlaethol newydd yn darparu ystod o hyfforddiant o ansawdd cynhwysfawr ar draws y gwasanaeth cyhoeddus a sectorau arbenigol eraill yng Nghymru.
- Mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi tynnu sylw o'r blaen at ymchwil sy'n dangos bod dioddefwyr cam-drin domestig gwrywaidd a benywaidd â gwahanol lefelau o angen, yn aml yn galw am wahanol fathau o wasanaethau. Felly, wrth ystyried cyllid i gefnogi gwasanaethau cam-drin domestig, pa ystyriaeth a roddwch i adroddiad Barnardos 'O'r golwg yng ngolwg pawb', a ganfu fod cam-fanteisio'n rhywiol ar fechgyn a dynion ifanc yn broblem lawer mwy nag a feddylwyd yn flaenorol, sy'n galw am:
- 'newid radical mewn agweddau ac arferion proffesiynol'.
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:41	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Well, the Member will be aware that our Bill is concerned with gender-based violence and we understand the issues that have been raised and, indeed, he has raised them with me before. It is important that both the national strategy and the local strategies that are subsequently developed as a result of the Bill engage with these issues.	Wel, bydd yr Aelod yn ymwybodol fod ein Bil yn ymwneud â thrais yn seiliedig ar rywedd ac rydym yn deall y materion a godwyd ac yn wir, y mae wedi eu dwyn i fy sylw o'r blaen. Mae'n bwysig fod y strategaeth genedlaethol a'r strategaethau lleol sy'n cael eu datblygu wedyn o ganlyniad i'r Bil yn cysylltu â'r materion hyn.	Senedd.tv Fideo Video
14:42	Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography Minister, should the domestic abuse Bill become law, will you give us an assurance that the funding needed, for example, for the adviser, the development of those strategies and training and so on, and the educational provisions, will not be taken from the current allocation for victims of domestic abuse?	Weinidog, os daw'r Bil cam-drin domestig yn ddeddf, a wnewch chi roi sicrwydd inni na fydd y cyllid sydd ei angen, er enghraifft, ar gyfer y cynghorydd, datblygu'r strategaethau hynny a hyfforddiant ac yn y blaen, a'r darpariaethau addysgol, yn cael ei gymryd o'r dyraniad presennol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig?	Senedd.tv Fideo Video
14:42	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Well, I think the provision that we've made for the implementation of the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill already takes account of the needs that the Member has raised. We have obviously announced an increase in the provision of resources to support the appointment of the ministerial adviser, so I am confident about that. But I will, on the back of her question, go away and review the situation.	Wel, rwy'n meddwl bod y ddarpariaeth rydym wedi ei gwneud ar gyfer gweithredu'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) eisoes yn ystyried yr anghenion y mae'r Aelod wedi eu codi. Rydym yn amlwg wedi cyhoeddi cynnydd yn y ddarpariaeth o adnoddau i gefnogi penodi cynghorydd gweinidogol, felly rwy'n hyderus ynglŷn â hynny. Ond i ddilyn ei chwestiwn, byddaf yn adolygu'r sefyllfa.	Senedd.tv Fideo Video
	Cysylltu ag Awdurdodau Heddlu	Liaising with Police Authorities	
14:43	Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography <i>7. Sut y mae'r Gweinidog yn cyflawni ei gyfrifoldeb o gysylltu ag awdurdodau heddlu? OAQ(4)0518(PS)</i>	<i>7. How does the Minister fulfil his responsibility for liaising with police authorities? OAQ(4)0518(PS)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:43	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography Nid yw awdurdodau'r heddlu'n bodoli mwyach. Etholwyd comisiynwyr heddlu a throseddau ar draws Cymru a Lloegr ym mis Tachwedd 2012. Byddaf yn cyfarfod â hwy'n rheolaidd i drafod eu cynlluniau plismona a'm blaenoriaethau i o ran cyflawni.	Police authorities no longer exist. Police and crime commissioners were elected across England and Wales in November 2012. I meet regularly with them to discuss their plans for policing and my priorities for delivery.	Senedd.tv Fideo Video
14:43	Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ei ateb. Mi fydd y Gweinidog yn ymwybodol bod yr etholiadau nesaf ar gyfer y comisiynwyr heddlu a throseddau i'w cynnal yn 2016, pryd y mae etholiad arall ar yr un diwrnod—etholiad pwysig iawn, etholiad cyffredinol Cymru ar gyfer y Cynulliad hwn. A ydy'r Gweinidog wedi darllen, ac a ydy'n bwriadu ymateb i'r adroddiad a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Etholiadol yn dangos y risgiau sylweddol a difrifol o gyfuno'r etholiadau yma, er enghraifft, dwy drefn etholiadol wahanol, ardaloedd pleidleisio gwahanol, ac a yw'r Gweinidog yn cytuno bod angen i ni gael y pwerau wedi'u datganoli i'r Cynulliad hwn i allu dileu'r swyddi yma, i ni gael un etholiad ar gyfer y Cynulliad hwn ar y dyddiad hwnnw?	I thank the Minister for that response. The Minister will be aware that the next elections for police and crime commissioners are to be held in 2016, when there is another election on the very same day—a very important election, the Welsh general election for this Assembly. Has the Minister read, and does he intend to respond to, the report published by the Electoral Commission demonstrating the significant and serious risks of combining these two elections, for example, two different electoral systems, the different electoral regions, and does the Minister agree that we need to have the powers devolved to this Assembly so that we can abolish these posts and that we can have a single election for this Assembly on that particular date?	Senedd.tv Fideo Video

14:44	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, can I say to the Member that I have read the report? And, of course, when a Labour Government is elected in May this year, one of the first actions it will take will be to abolish those posts in England, and I hope the powers will come to us to abolish them here in Wales.</p>	<p>Wel, a gaf fi ddweud wrth yr Aelod fy mod wedi darllen yr adroddiad? Ac wrth gwrs, pan etholir Llywodraeth Lafur ym mis Mai eleni, un o'r camau gweithredu cyntaf y bydd yn eu rhoi ar waith fydd dileu'r swyddi hynny yn Lloegr, ac rwy'n gobeithio y cawn ni'r pwerau i'w diddymu yma yng Nghymru.</p>
14:44	William Graham Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Will the Minister join with me in welcoming the regular meetings held by Ian Johnston, the police commissioner for Gwent, with local Assembly Members and MPs to allow AMs and, through us, this Assembly, to liaise with police authorities and to query aspects of performance and, of course, concerns to constituents, together with the well-appreciated regular report for elected Members?</p>	<p>A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i groesawu'r cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir gan Ian Johnston, comisiynydd yr heddlu ar gyfer Gwent, gydag Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol lleol i alluogi Aelodau'r Cynulliad a thrwom ni, y Cynulliad hwn, i gydgyssylltu ag awdurdodau heddlu a holi ynghylch agweddau ar berfformiad a phryderon etholwyr, wrth gwrs, ynghyd â'r adroddiad rheolaidd ar gyfer Aelodau etholedig sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr?</p>
14:45	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, I would hope, while they're in post, that all police and crime commissioners would have regular meetings with Assembly Members, Members of Parliament, local authorities and others.</p>	<p>Wel, byddwn yn gobeithio, tra'u bod yn y swydd, y byddai pob comisiynydd heddlu a throsedd yn cael cyfarfodydd rheolaidd gydag Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol, awdurdodau lleol ac eraill.</p>
Costau Paratoi am Uno Gwirfoddol		The Costs of Preparing for Voluntary Mergers
14:45	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y costau y mae awdurdodau lleol wedi mynd iddynt wrth baratoi ar gyfer uno gwirfoddol? OAQ(4)0523(PS)</i></p>	<p><i>8. Will the Minister make a statement on the costs that local authorities have incurred in preparing for voluntary mergers? OAQ(4)0523(PS)</i></p>
14:45	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Llywydd, that is a matter for the local authorities concerned.</p>	<p>Llywydd, mae hwnnw'n fater i'r awdurdodau lleol dan sylw.</p>
14:45	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, Minister, the whole process of local government reorganisation has been an embarrassing shambles, as recent events have shown. In north Wales, both Denbighshire and Conway were exploring the possibility of a voluntary merger, as you know, and many hundreds of hours of officer time were put into preparing that submission to you. Given the way that you've dismissed that application out of hand, will you now compensate the councils for the time and money that they have invested in preparing those voluntary mergers that you called for?</p>	<p>Wel, Weinidog, mae holl broses ad-drefnu llywodraeth leol wedi bod yn draed moch sy'n peri embaras, fel y mae digwyddiadau diweddar wedi dangos. Yng ngogledd Cymru, roedd Conwy a Sir Ddinbych yn archwilio'r posibilrwydd o uno'n wirfoddol, fel y gwyddoch, a neilltuwyd cannoedd o oriau o amser swyddogion ar gyfer paratoi'r cyflwyniad hwnnw i chi. O ystyried y ffordd rydych wedi diystyru'r cais yn ddiymdroi, a fyddwch yn awr yn digolledu'r cynghorau am yr amser a'r arian y maent wedi buddsoddi yn y gwaith o baratoi'r ceisiadau uno gwirfoddol y galwoch amdanynt?</p>

14:46 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Llywydd, I did not dismiss any of the voluntary merger proposals out of hand. We took very great care to review them and evaluate them and to reach our decisions. We then have to say that, I think, there has been learning that's been valuable to those authorities and to us as a Government in terms of the whole process of merger, and some of the issues that would be involved in going forward with the mergers. And, of course, there will be mergers of councils in the future.

Llywydd, ni ddiystyrtais yr un o'r cynigion uno gwirfoddol yn ddiymdroi. Fe gymeron ni ofal mawr iawn i'w hadolygu a'u gwerthuso ac i wneud ein penderfyniadau. Rhaid i ni ddweud wedyn, rwy'n meddwl, fod yr awdurdodau hynny a ninnau fel Llywodraeth wedi dysgu gwersi gwerthfawr o ran y broses gyfan o uno, a rhai o'r materion a fyddai'n codi o symud ymlaen gyda'r uno. Ac wrth gwrs, fe fydd yna uno cynghorau yn y dyfodol.

14:46 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, Minister, as one of those long-serving councillors that you want to get rid of, I'm quite heartbroken. [Laughter.] In view of your negative response to the local authorities who've worked hard to submit their voluntary merger proposals, why should we then assume you're going to take any heed of the responses you'll receive from your consultation White Paper on local government?

Wel, Weinidog, fel un o'r cynghorwyr hirsefydlog rydych yn awyddus i gael gwared arnynt, rwy'n torri fy nghalon. [Chwerthin.] O ystyried eich ymateb negyddol i'r awdurdodau lleol sydd wedi gweithio'n galed i gyflwyno eu cynigion i uno'n wirfoddol, pam y dylem gymryd yn ganiataol eich bod yn mynd i gymryd unrhyw sylw o'r ymatebion a gewch o'ch ymgynghoriad ar y Papur Gwyn llywodraeth leol ?

14:47 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I always listen very carefully to responses to consultations, Llywydd, and I will certainly do so in respect of this one. I am sorry if the Member is heartbroken, but I happen to think it's right to start a debate on the whole issue of term limits for councillors. I also think it's right that councillors should not be Members of this National Assembly.

Wel, rwyf bob amser yn gwrando'n ofalus iawn ar ymatebion i ymgynghoriadau, Lywydd, a byddaf yn sicr yn gwneud hynny mewn perthynas â'r un yma. Mae'n ddrwg gennyf os yw'r Aelod yn torri ei galon, ond rwy'n digwydd credu ei bod yn iawn inni ddechrau dadl ar holl fater gosod terfyn ar hyd cyfnod gwasanaeth cynghorwyr. Rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn iawn na ddylai cynghorwyr fod yn Aelodau o'r Cynulliad Cenedlaethol hwn.

Ad-drefnu Llywodraeth Leol (y Gorllewin)

Reorganisation of Local Government (West Wales)

14:47 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

9. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei fwradau o ran ad-drefnu llywodraeth leol yn y gorllewin? OAQ(4)0522 (PS)

9. Will the Minister provide an update on his intentions in relation to the reorganisation of local government in west Wales? OAQ(4)0522 (PS)

14:47 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Williams opsiwn 1 yw'r map a ffeirir o hyd. Creu llywodraeth leol gynaliadwy ar draws Cymru sy'n dal i fod yn flaenoriaeth inni.

Williams option 1 is still the preferred map. Creating sustainable local government across Wales remains our priority.

14:47 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, mae tipyn o drafodaeth wedi bod eisoes ar y mapiau llywodraeth leol, ac efallai fy mod i yn rhywfaint o eithriad yn y Cynulliad yma achos rwyf wedi anfon map amgen i chi ar gyfer y gorllewin sydd, i bob pwrpas, yn cyfeirio at ogledd Dyfed a de Dyfed. Nawr, wrth ichi feddwl ymhellach ynglŷn â'ch map chi fel Llywodraeth, pa mor radical ydych chi yn barod i fod, neu a ydych chi'n mynd i gaethiwo'ch hunan yn llwyr i ffiniau gweinyddol presennol?

Minister, there's been a great deal of discussion already on local government maps, and I might be an exception in this Assembly because I've sent you an alternative map for west, which, to all intents and purposes, refers to north Dyfed and south Dyfed. Now, as you consider further your own map as a Government, how radical are you prepared to be, or are you going to restrict yourself completely to the current administrative boundaries?

14:48	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Can I start by thanking the Member for Ceredigion for the very interesting proposal she has submitted to me? Can I ask her to encourage her colleagues in her own party to join in the discussions the First Minister wishes to have with all parties about a potential map for the future? Certainly, if we can establish consensus on a map for the future of local government, which receives the support of more than one political party in this Chamber, then we would be very interested in that, and that could include more radical proposals.</p>	<p>A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i'r Aelod dros Geredigion am y cynnig diddorol iawn y mae hi wedi'i gyflwyno i mi? A gaf ofyn iddi annog ei chydweithwyr yn ei phlaid ei hun i ymuno yn y trafodaethau y mae'r Prif Weinidog yn dymuno eu cael gyda phob plaid am fap posibl ar gyfer y dyfodol? Yn sicr, os gallwn sefydlu consensws ar fap ar gyfer dyfodol llywodraeth leol, sy'n cael ei gefnogi gan fwy nag un blaid wleidyddol yn y Siambr hon, yna byddem â diddordeb mawr yn hynny, a gallai gynnwys cynigion mwy radical.</p>
14:48	Paul Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, your predecessor has said that, and I quote:</p> <p>'councils are a bit obsessed with costs but reorganisation would pay for itself within four-to-five years.'</p> <p>As the current Minister with responsibility for local government reorganisation across Wales, can you confirm for the record that that is still the case given, of course, that you do not even know how you want to take this agenda forward? Can you tell us what mechanisms your Government will be putting in place to ensure that the costs of any reorganisation will be met within this specific time frame?</p>	<p>Weinidog, mae eich rhagflaenydd wedi dweud hyn:</p> <p>'mae cynghorau braidd yn obsesiynol ynglŷn â chostau ond byddai ad-drefnu yn talu amdano'i hun o fewn pedair i bum mlynedd.'</p> <p>Fel y Gweinidog presennol sydd â chyfrifoldeb dros ad-drefnu llywodraeth leol ar draws Cymru, a allwch gadarnhau ar gyfer y cofnod fod hynny'n dal yn wir o gofio, wrth gwrs, nad ydych hyd yn oed yn gwybod sut rydych chi am symud yr agenda hon yn ei blaen? A allwch ddweud wrthym pa drefniadau y bydd eich Llywodraeth yn eu rhoi ar waith i sicrhau y bydd costau unrhyw ad-drefnu yn cael eu talu o fewn y ffrâm amser benodol hon?</p>
14:49	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, I recall at the beginning of last year and the time that the Williams commission report was published the Welsh Local Government Association was suggesting that the overall costs would be some £400 million. They subsequently commissioned a report from the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy, which I think brought the figure down to some £260 million. Even within that, there were costs that certainly we would not accept. That report suggested that there could be savings per annum of £65 million. So, I think that, as this process has gone on over the last 12 months, the potential costs appear to be downgraded.</p>	<p>Wel, rwy'n cofio ar ddechrau y llynedd a'r amser y cyhoeddwyd adroddiad comisiwn Williams fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn awgrymu y byddai'r costau cyffredinol tua £400 miliwn. Wedyn, fe gomisiynon nhw adroddiad gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a ddaeth â'r ffigwr i lawr i oddeutu £260 miliwn, rwy'n credu. Hyd yn oed o fewn hynny, yn bendant roedd yna gostau na fyddem yn eu derbyn. Awgrymodd yr adroddiad y gellid sicrhau arbedion blynyddol o £65 miliwn. Felly, rwy'n credu ei bod yn ymddangos bod y costau posibl wedi cael eu hisraddio wrth i'r broses hon fynd rhagddi dros y 12 mis diwethaf.</p>
	Amodau a Chyflog Staff y Gwasanaeth Tân	Pay and Conditions of Fire Services Staff
14:50	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amodau a chyflog staff y gwasanaeth tân? OAQ(4)0525(PS)</p>	<p>10. Will the Minister make a statement on the pay and conditions of fire services staff? OAQ(4)0525(PS)</p>
14:50	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Fire and rescue authorities are responsible for staff pay and conditions. They and fire service unions negotiate changes to them on a UK-wide basis, via the national joint council.</p>	<p>Yr awdurdodau tân ac achub sy'n gyfrifol am gyflogau ac amodau staff. Maent hwy ac undebau'r gwasanaeth tân yn trafod newidiadau iddynt ar sail y DU gyfan, drwy'r cydgyngor cenedlaethol.</p>

14:50	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography	<p>Diolch yn fawr iawn. Mae yna bryder yn y gwasanaeth tân yn y gogledd ynglŷn â'r arfer sydd wedi dod yn gyffredin yn ddiweddar o gynnig cytundebau 21 awr i ymladdwyr tân, er bod y rheini yn gweithio, yn amlach na pheidio, yn llawn amser. Rwy'n deall, wrth gwrs, y gallai rhai unigolion ddymuno gweithio yn rhan amser, ond mae'r cytundebau yma, mewn difrif, yn dilyn yr un egwyddor â chytundebau 'zero hours'—cytundebau dim awr o gwbl—yn methu â chynnig y sicrwydd y mae ymladdwyr tân ifanc yn haeddu ei gael. A wnaiff y Gweinidog roi sicrwydd y bydd o'n gwrthio am roi diwedd i'r defnydd a'r arfer yma o gytundebu cyn gynted â phosibl?</p>	<p>Thank you very much. There is concern in the north Wales fire service about the practice that has become commonplace in recent times of offering 21 hour contracts to firefighters, although they, more often than not, work full time. I understand, of course, that some individuals may want to work on a part-time basis, but these contracts, in reality, follow the same principle as 'zero hour contracts'—in failing to provide the security that young firefighters deserve. Will the Minister give us an assurance that he will push for an end to the use of this practice of contracting as soon as possible?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:51	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	<p>Well, can I say to the Member that I don't think this issue's been raised with me before, including by the Fire Brigades Union, but if he wants to write to me on that issue, I'll happily look at what he's raised and have discussions around that.</p>	<p>Wel, a gaf fi ddweud wrth yr Aelod nad wyf yn credu bod y mater hwn wedi ei ddwyn i fy sylw o'r blaen, gan gynnwys gan Undeb y Brigadau Tân, ond os yw'n dymuno ysgrifennu ataf ynglŷn â'r mater, byddaf yn hapus i edrych ar yr hyn y mae'n ei grybwyll a chael trafodaethau ynghylch hynny.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:51	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	<p>Will the Minister make a statement on business planning and public services?</p>	<p>A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllunio busnes a gwasanaethau cyhoeddus?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:51	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>I'm sorry. Is that related to this question?</p>	<p>Mae'n ddrwg gen i. A yw hynny'n gysylltiedig â'r cwestiwn hwn?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:51	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	<p>I wasn't aware I had a question. I apologise.</p>	<p>Nid oeddwn yn ymwybodol fod gen i gwestiwn. Rwy'n ymddiheuro.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:51	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>Okay. William Powell.</p>	<p>lawn. William Powell.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:51	William Powell Bywgraffiad Biography	<p>Minister, the very bedrock of the fire service in Mid and West Wales is based on retained firefighters. I found myself having direct experience just last month when crews from Talgarth and from Crickhowell attended a farm fire at our place, which could have had devastating consequences upon livestock. Recruitment of retained firefighters is becoming increasingly difficult in some of our rural communities, particularly with changes in employment practices. Minister, in that context, what more can the Welsh Government do to assist fire and rescue authorities in this important area, particularly recognising the key contribution of women firefighters?</p>	<p>Weinidog, mae'r gwasanaeth tân yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn gwbl ddbynnol ar ddiffoddwyr tân wrth gefn. Cefais brofiad uniongyrchol y mis diwethaf pan fynychodd criwiau o Dalgarth ac o Grucywel dân fferm yn ein lle ni a allai fod wedi arwain at ganlyniadau trychinebus i dda byw. Mae recriwtio diffoddwyr tân rhan amser yn mynd yn fwyfwy anodd yn rhai o'n cymunedau gwledig, yn enwedig gyda'r newidiadau i arferion cyflogaeth. Weinidog, yn y cyd-destun hwn, beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gynorthwyo awdurdodau tân ac achub yn y maes pwysig hwn, gan gydnabod yn arbennig y cyfraniad allweddol a wneir gan fenywod sy'n ddiffoddwyr tân?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:52	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, can I say I am very pleased with the fact that we have established good relations with the Fire Brigades Union, and we're not in the situation they are in England in respect of impending strike action? I think that it's very important for us to ensure that the availability of careers in the fire service is well understood, and that is something that we work obviously very closely with the different fire and rescue authorities on.</p>	<p>Wel, a gaf fi ddweud fy mod yn falch iawn o'r ffaith ein bod wedi sefydlu cysylltiadau da gydag Undeb y Brigadau Tân, ac nad ydym yn y sefyllfa y maent ynddi yn Lloegr o ran y streic sydd ar y ffordd? Credaf ei bod yn bwysig iawn i ni sicrhau bod pawb yn deall fod gyrfaedd ar gael yn y gwasanaeth tân, ac yn amlwg, mae hynny'n rhywbeth rydym yn gweithio'n agos iawn arno gyda'r gwahanol awdurdodau tân ac achub.</p>
	Ad-drefnu Llywodraeth Leol (De Cymru)	Local Government Reorganisation (South Wales)
14:53	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ad-drefnu llywodraeth leol yn ne Cymru? OAQ(4)0527(PS)</i></p>	<p><i>11. Will the Minister make a statement on local government reorganisation across south Wales? OAQ(4)0527(PS)</i></p>
14:53	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Llywydd, Williams option 1 is still the preferred map and creating a sustainable local government across Wales remains our priority.</p>	<p>Lywydd, opsiwn 1 Williams yw'r map a ffafrir o hyd ac mae creu llywodraeth leol gynaliadwy ledled Cymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni.</p>
14:53	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Diolch, Weinidog. Given your stated preference for the Williams commission, it's perhaps not surprising that you chose to reject the proposed merger between the Vale of Glamorgan and Bridgend councils. However, my residents in the Vale of Glamorgan are wondering whether that means that a forced merger between the Vale of Glamorgan and Cardiff is inevitable. Or would you agree with me that, if the second city of Wales is potentially capable of standing on its own two feet, our capital city could potentially be able to do so as well?</p>	<p>Diolch, Weinidog. O ystyried y ffaith eich bod wedi datgan eich bod yn ffafrio comisiwn Williams, efallai nad yw'n syndod eich bod wedi dewis gwrthod yr uno arfaethedig rhwng cynghorau Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, mae fy nhrigolion ym Mro Morgannwg yn meddwl tybed a yw hynny'n golygu bod uno gorfodol rhwng Bro Morgannwg a Chaerdydd yn anochel. Neu a fydddech yn cytuno â mi, os yw ail ddinas Cymru â'r potensial i allu sefyll ar ei thraed ei hun, y gallai ein prifddinas wneud hynny hefyd o bosibl?</p>
14:53	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, of course Cardiff Council could potentially stand alone, but we have made it clear where our preference currently lies, and we are open to further discussions with parties in this Chamber on a map, and we would certainly like to reach consensus on a map going forward.</p>	<p>Wel, wrth gwrs y gallai Cyngor Caerdydd sefyll ar ei draed ei hun o bosibl, ond rydym wedi ei gwneud yn glir beth yw ein dewis ni ar hyn o bryd, ac rydym yn agored i drafodaethau pellach gyda'r pleidiau yn y Siambr hon ynglŷn â map, a byddem yn sicr yn hoffi cyrraedd consensws ar fap wrth symud ymlaen.</p>
14:54	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, it's been interesting hearing your defence this afternoon of your rejection of voluntary mergers, to Janet Finch-Saunders and others. You want voluntary mergers, but you don't seem to want them at the same time. Will you join me in congratulating Monmouthshire and Newport councils on not wasting taxpayers' money on working up a voluntary merger proposal for you to reject? And will you take this opportunity now to look at other options that could be on the table, such as the combined authority model, which a number of councils across south-east Wales are considering?</p>	<p>Weinidog, mae wedi bod yn ddiddorol eich clywed y prynhawn yma yn amddiffyn y ffaith eich bod wedi gwrthod ceisiadau uno gwirfoddol, i Janet Finch-Saunders ac eraill. Rydych eisiau uno gwirfoddol, ond ar yr un pryd mae'n ymddangos nad ydych ei eisiau. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch cynghorau Sir Fynwy a Chasnewydd ar beidio â gwastrafu arian trethdalwyr ar lunio cynnig uno gwirfoddol i chi ei wrthod? Ac a wnewch chi fanteisio ar y cyfle hwn yn awr i edrych ar ddewisiadau eraill a allai fod ar y bwrdd, megis y model awdurdod cyfunol y mae nifer o gynghorau ledled de-ddwyrain Cymru yn ei ystyried?</p>

14:54	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, I'm not sure that the combined authority model provides an alternative to the reform of local government, which we've been discussing. Certainly, we will take forward our proposals. We look forward to the conversations that I believe will be pending with other parties on a potential local government map for Wales.</p>	<p>Wel, nid wyf yn siŵr fod y model awdurdodau cyfunol yn cynnig dewis amgen yn lle diwygio llywodraeth leol, y buom yn ei drafod. Yn sicr, byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynigion. Rydym yn edrych ymlaen at y sgysiaau rwy'n credu y byddwn yn eu cael gyda'r pleidiau eraill ar fap llywodraeth leol posibl ar gyfer Cymru.</p>
	Swyddogion Monitro	Monitoring Officers
14:55	Keith Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl swyddogion monitro yng Nghymru? OAQ(4)0530(PS)</p>	<p>12. Will the Minister make a statement on the role of monitoring officers across Wales? OAQ(4)0530(PS)</p>
14:55	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Mae cyfrifoldebau'r swyddogion monitro yn cynnwys adrodd i'r cyngor, neu i'r weithrediaeth mewn perthynas â swyddogaethau gweithredol, am unrhyw gynnig, unrhyw benderfyniad neu unrhyw beth a hepgorwyd, sydd wedi achosi, neu sy'n debygol o achosi, anghyfreithlondeb neu gamweinyddiaeth. Mae'r swyddogion hefyd yn cyfrannu at annog safonau uchel o ymddygiad moesegol.</p>	<p>Monitoring officers' responsibilities include reporting to the council, or to the executive in relation to executive functions, any proposal, decision or omission that has given rise to, or is likely to give rise to, unlawfulness or maladministration. The officers also contribute to the promotion of high standards of ethical conduct.</p>
14:55	Keith Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Diolch, Weinidog. A ydych chi'n cytuno â mi, Weinidog, y dylai swyddogaeth swyddogion monitro y cynghorau sir fod nid yn unig i weinyddu y pwyllgorau safonau, ond hefyd i gynnig sylwadau i bob aelod cyngor ar amodau gwaith a lefel cyflogau uwch-swyddogion, er mwyn osgoi y sefyllfaoedd yr ydym wedi'u gweld yn ddiweddar yng Nghaerffili, Penfro a sir Gâr?</p>	<p>Thank you, Minister. Do you agree with me, Minister, that the function of monitoring officials within county councils should not only be to administer the standards committees, but also to provide commentary for all council Members on pay and conditions for senior officers, in order to avoid the situations we've seen developing recently in Caerphilly, Pembrokeshire and Carmarthenshire?</p>
14:56	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>My colleague, the Member for Llanelli, is right to draw attention to the role of monitoring officers who have a professional duty and responsibility to provide their local authorities with independent and impartial advice in their decision-making process? As he will be aware, a new system guarding against excessive salary awards for chief executives was introduced in April 2014, requiring local authorities to consult the Independent Remuneration Panel for Wales before deciding on any variation of salary that is proportionally higher or lower than that for other employees, and we saw the benefits of that in respect of the Pembrokeshire decision this week. Of course, the Local Government (Wales) Bill, which I introduced last week, extends these provisions to cover all local authority chief officers in the run-up to local authority mergers.</p>	<p>Mae fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Lanelli, yn iawn i dynnu sylw at rôl swyddogion monitro sydd â dyletswydd broffesiynol a chyfrifoldeb i ddarparu cyngor annibynnol a diduedd i'w hawdurdodau lleol gyda'u proses o wneud penderfyniadau? Fel y bydd yn gwybod, cyflwynwyd system newydd yn gwarchod yn erbyn taliadau cyflog gormodol i brif weithredwyr ym mis Ebrill 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â Phanel Taliadau Annibynnol Cymru cyn penderfynu ar unrhyw amrywiad cyflog sy'n gyfrannol uwch neu'n is na chyflog gweithwyr eraill, a gwelwn fanteision hynny o ran penderfyniad Sir Benfro yr wythnos hon. Wrth gwrs, mae Bil Llywodraeth Leol (Cymru), a gyflwynais yr wythnos diwethaf, yn ymestyn y darpariaethau hyn i gynnwys holl brif swyddogion awdurdodau lleol yn y cyfnod yn arwain at uno awdurdodau lleol.</p>
14:56	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, will you agree with me that, unfortunately, there is sometimes a too-cosy relationship between monitoring officers and executives in local authorities, and that that can give rise to occasions where monitoring officers do not feel able to challenge in a way that they ought to recommendations that executives are putting forward?</p>	<p>Weinidog, a ydych yn cytuno â mi fod yna berthynas rhy gyffyrddus weithiau, yn anffodus, rhwng swyddogion monitro a swyddogion gweithredol mewn awdurdodau lleol, ac y gall hynny arwain at achlysuron pan nad yw swyddogion monitro yn teimlo y gallant herio argymhellion y mae swyddogion gweithredol yn eu cyflwyno yn y modd y dylent?</p>

14:57	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I think the point the Member makes is well taken. It is important that monitoring officers have the confidence to provide that independent advice.</p>	<p>Rwy'n meddwl bod y pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud yn un da. Mae'n bwysig bod swyddogion monitro â hyder i roi cyngor annibynnol o'r fath.</p>
	Ymgynghori wrth Newid Gwasanaethau Awdurdodau Lleol	Consultation on Changing Local Authority Services
14:57	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y dylai awdurdodau lleol ymgynghori wrth newid gwasanaethau? OAQ(4)0516(PS)</i></p>	<p><i>13. Will the Minister make a statement on how local authorities should consult when changing services? OAQ(4)0516(PS)</i></p>
14:57	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>We expect all local authorities to hold effective public consultations on service proposals before making final decisions.</p>	<p>Rydym yn disgwyl i bob awdurdod lleol gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus effeithiol ar gynigion ar gyfer gwasanaethau cyn gwneud penderfyniadau terfynol.</p>
14:57	Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, I do appreciate that I've raised this with you before, but I would just like to reiterate the point that, in consultation processes that are ongoing, especially with regard to Neath Port Talbot council, there have been issues whereby online portals have been inactive, where people have not understood what time closing dates are happening, and changing of closing dates. Whenever you raise this with the council, they say they're doing it appropriately as per the Gunning principles, but local people are having a different experience. What can you do as Minister to make sure that local councils are actually following through on their consultation processes efficiently and effectively?</p>	<p>Weinidog, rwy'n gwybod fy mod wedi dwyn hyn i'ch sylw o'r blaen, ond hoffwn ailadrodd y pwynt fod problemau wedi codi gyda'r prosesau ymgynghori sydd ar y gweill. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos cyngor Castell-nedd Port Talbot, lle y mae pyrth ar-lein yn segur, lle nad yw pobl wedi deall pa bryd y mae dyddiadau cau yn digwydd, a dyddiadau cau yn cael eu newid. Os dowch â hyn i sylw'r cyngor, maent yn dweud eu bod yn ei wneud yn briodol yn unol ag egwyddorion Gunning, ond mae pobl lleol yn cael profiadau gwahanol. Beth allwch chi ei wneud fel Gweinidog i sicrhau bod cynghorau lleol yn mynd ati i gyflawni eu prosesau ymgynghori yn effeithlon ac yn effeithiol?</p>
14:58	Leighton Andrews Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Well, I think, in the first instance, it is for local scrutiny to ensure that councils are following the processes that they have set out. Where, of course, they are holding consultations in accordance with guidance published by the Welsh Government, if there are examples of where they are failing to follow through in an appropriate way on the guidance, then we as Ministers would want to know that.</p>	<p>Wel, rwy'n meddwl, yn y lle cyntaf, mai mater craffu lleol yw sicrhau bod cynghorau'n dilyn y prosesau y maent wedi eu gosod. Wrth gwrs, lle y maent yn cynnal ymgynghoriadau yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, os ceir enghreifftiau o fethu â dilyn y canllawiau mewn ffordd briodol, yna byddem ni fel Gweinidogion yn awyddus i wybod.</p>
14:58	Byron Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Minister, Swansea city council local authority in South Wales West has recently discussed the possibility of selling off school playing fields, a scandalous decision, I think, given the health issues with children here in Wales. In one case, it's been overturned after much protest. However, during the consultation, many schoolchildren and young people wrote to the council and did not receive a reply, which, as you'll be aware, is in stark contrast to the wishes and spirit of the United Nations Convention on the Rights of the Child. I've raised it before in the Chamber, and I'm still not clear as to what the Government here is doing about it, but it is a very important issue, and I would ask if you could make sure that Swansea city council does respond to these individual cases.</p>	<p>Weinidog, yn ddiweddar, trafododd awdurdod lleol cyngor dinas Abertawe yng ngorllewin de Cymru y posibilrwydd o werthu caeau ysgol, penderfyniad cywilyddus, rwy'n credu, o ystyried problemau iechyd plant yma yng Nghymru. Mewn un achos, cafodd y penderfyniad ei wrthdroi ar ôl llawer o brotestio. Fodd bynnag, yn ystod yr ymgynghoriad, ysgrifennodd llawer o blant ysgol a phobl ifanc at y cyngor ac ni chawsant ateb, ac fel y byddwch yn gwybod, mae hynny'n gwbl groes i ddymuniadau ac ysbryd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rwyf wedi dwyn y mater i sylw'r Siambr o'r blaen, ac rwy'n dal yn aneglur beth y mae'r Llywodraeth yma yn ei wneud am y peth, ond mae'n fater pwysig iawn, a byddwn yn gofyn i chi sicrhau bod cyngor dinas Abertawe yn ymateb i'r achosion unigol hyn.</p>

14:59 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I know that there are a number of schools in Swansea that have adopted the principles of the UNCRC themselves, and have been recognised by UNICEF and others as champions of that. Again, I would say this is a matter for local scrutiny in the first instance, and I think it is right that these issues are taken up by local councillors within Swansea. As far as guidance is concerned, certainly I would expect, where there have been responses from members of the public and where there is an expectation that there should be a response from the council, then that response should be received, but I don't think, in every situation, every response to a consultation by a local authority necessarily provokes an individual response.

Wel, rwy'n gwybod bod yna nifer o ysgolion yn Abertawe sydd wedi mabwysiadu egwyddorion y Confensiwn eu hunain, ac wedi cael eu cydnabod gan UNICEF ac eraill fel hyrwyddwyr y Confensiwn. Unwaith eto, byddwn yn dweud mai mater craffu lleol yw hyn yn y lle cyntaf, ac rwy'n meddwl ei bod yn iawn i gynghorwyr lleol yn Abertawe fynd ar drywydd y materion hyn. O ran y canllawiau, lle y cafwyd ymatebion gan aelodau'r cyhoedd a lle y mae disgwyl ymateb gan y cyngor, yn sicr byddwn yn disgwyl i'r ymateb hwnnw gael ei gyflwyno, ond nid wyf yn meddwl y bydd pob ymateb i ymgynghoriad awdurdod lleol, ym mhob sefyllfa, o reidrwydd yn galw am ymateb unigol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gwerthusiadau Swyddi

Job Evaluations

15:00 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

14. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran gwerthusiadau swyddi gan awdurdodau lleol Cymru o dan y cytundeb statws sengl? OAQ(4)0514(PS)

14. Will the Minister provide an update on the progress of job evaluations under the single status agreement by Welsh local authorities? OAQ(4)0514(PS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Completing job evaluation has been a matter for each individual authority. Twenty authorities have completed job evaluation and achieved single status.

Mae cwblhau'r broses o werthuso swyddi wedi bod yn fater i bob awdurdod unigol. Mae ugain o awdurdodau wedi cwblhau'r broses o werthuso swyddi ac wedi cyflawni statws sengl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. For someone who was involved in it for a very long time, it was a long and arduous and lengthy and, dare I say, expensive process. Does the Minister know how much of local authority reserves are currently set aside to pay for the cost of single status and job evaluation?

Diolch i chi, Weinidog. I rywun a oedd yn ei wneud am amser hir iawn, roedd yn broses hir a llafurus, a mentraf ddweud, yn ddrud. A yw'r Gweinidog yn gwybod faint o gronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol sy'n cael eu neilltuo ar hyn o bryd i dalu am gost statws sengl a gwerthuso swyddi?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think my colleague the Member for Swansea East is going to have ample opportunity over the next year or so to share his experience of local government in all its arduous circumstances with us in this Chamber and in committee. In respect of his specific question around local authority reserves, we do not hold this information centrally.

Rwy'n credu bod fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros ddwyrain Abertawe, yn mynd i gael digon o gyfle yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf i rannu ei brofiad o lywodraeth leol yn ei holl amgylchiadau llafurus gyda ni yn y Siambr hon ac yn y pwyllgor. O ran ei gwestiwn penodol ynghylch cronfeydd wrth gefn yr awdurdodau lleol, nid ydym yn cadw'r wybodaeth hon yn ganolog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:01 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

3. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Maes Awyr Caerdydd

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 4 yn enw Elin Jones, a gwelliannau 2 a 3 yn enw Aled Roberts.

3. Welsh Conservatives Debate: Cardiff Airport

The following amendments have been selected: amendments 1 a 4 in the name of Elin Jones, and amendments 2 and 3 in the name of Aled Roberts.

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move on to item 3, which is the Welsh Conservatives' debate, and I call on Byron Thomas to move the motion. I mean, sorry, Byron Davies; I beg your pardon.

Symudwn ymlaen yn awr at eitem 3, sef dadl y Ceidwadwyr Cymreig, a galwaf ar Byron Thomas i gynnig y cynnig. Hynny yw, mae'n ddrwg gennyf, Byron Davies; mae'n ddrwg gennyf.

Cynnig NDM5684 Paul Davies

Motion NDM5684 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod na fu unrhyw welliant sylweddol yn nifer y teithwyr sy'n teithio drwy Faes Awyr Caerdydd ers i Lywodraeth Cymru gymryd perchnogaeth o'r maes awyr.

1. Notes that there has been no significant improvement in the number of passengers travelling through Cardiff Airport since the Welsh Government took ownership of the airport.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

2. Calls on the Welsh Government to:

a) rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran datblygu llwybrau newydd o'r maes awyr a chynyddu gweithrediadau cludo nwyddau;

a) provide an update on progress made to develop new routes from the airport and increase freight operations;

b) cyhoeddi prisiad marchnad cyfredol ar gyfer Maes Awyr Caerdydd; ac

b) publish a current market valuation of Cardiff Airport; and

c) cyhoeddi strategaeth glir a chynhwysfawr er budd teithwyr, busnesau a threthdalwyr sy'n cynnwys cynigion ar gyfer llwybrau hir ac yn archwilio pob opsiwn ar gyfer dyfodol Maes Awyr Caerdydd, gan gynnwys dychwelyd y maes awyr i berchnogaeth breifat.

c) publish a clear and comprehensive strategy for the benefit of passengers, businesses and taxpayers which includes proposals for long-haul routes and explores all options for the future of Cardiff Airport, including returning the airport to private ownership.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, Presiding Officer. It gives me great pleasure to move this motion in the name of Paul Davies. Can I just, unusually perhaps, just at the outset, in relation to Cardiff Airport, say how pleased I was to see the part they played this morning in an emergency landing at the airport by an RAF Hawk jet, which had become involved in a bird strike in the air? Cardiff Airport played a big part in making sure that the emergency procedures were put into place, and it landed safely without injury.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Mae'n rhoi pleser mawr i mi gynnig y cynnig hwn yn enw Paul Davies. A gaf fi ddweud ar y cychwyn, yn anarferol efallai, mewn perthynas â Maes Awyr Caerdydd, pa mor falch yr oeddwn o weld y rhan a chwaraesant y bore yma wrth i awyren jet Hawk yr RAF wneud glaniad argyfwng yn y maes awyr ar ôl taro adar yn yr awyr? Chwaraeodd Maes Awyr Caerdydd ran fawr yn gwneud yn siŵr bod y gweithdrefnau argyfwng wedi eu rhoi ar waith, a glaniodd yn ddiogel heb anaf i neb.

So, during this debate, I hope that we can focus on the huge responsibility that the Government of Wales now has, given that the people of Wales not only need a successful international airport, but indeed now own an airport. We on this side of the Chamber are determined that Cardiff Airport must work for Wales.

Felly, yn ystod y ddadl hon, rwy'n gobeithio y gallwn ganolbwyntio ar y cyfrifoldeb enfawr sydd gan Lywodraeth Cymru bellach, o gofio nid yn unig fod angen maes awyr rhyngwladol llwyddiannus ar bobl Cymru, ond yn wir eu bod bellach yn berchen ar faes awyr. Rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn benderfynol fod yn rhaid i Faes Awyr Caerdydd weithio i Gymru.

Firstly, can we quickly speak to the amendments? We will support amendments 2 and 3, namely because they add two very good points which we agree with. I regret that, two years on, it's absolutely clear that the Welsh Government did not produce a full business case for taking ownership. On the face of it, it looks as though the airport was purchased by the First Minister looking for a hobby rather than on a professional basis. We can't support amendment 1 because it does not really add anything substantial and we would prefer this Government to be supporting a privately owned airport with sound commercial management. Amendment 4 again deletes the remainder of our motion and really does not add a great deal to the substantive motion, as amended by the Liberal Democrats. We cannot accept it, and I'm concerned that you completely remove any reference to the importance of freight.

Now, Members, I'm hoping that my contribution will set the scene for a mature debate about the future of the airport and the role of both Welsh Government and the National Assembly in supporting our aviation industry, a key industry for any developed country, and an international airport that has great potential that must be realised. At the outset, can we be clear and frank about the current situation at the airport? The rolling year data at the end of December 2014 put passenger levels down almost 4%, a clear decline and a worrying trend indeed. In terms of additional routes, it seems to be a one-in-one-out situation. And, from what I can see, and as other commentators also in the industry have said, this is normally underpinned by substantial public subsidies directly or indirectly. Now, when the financial support runs out, the airlines leave—clear business sense on their part. And I would suggest that is no way to run a sustainable airport on the part of a Government here in Wales.

Our position could not have been clearer when you spent the initial £52 million purchasing Cardiff Airport. It was not a good use of taxpayers' money, which is why we want a current market valuation carried out now to ensure Welsh taxpayers' money is safe and could at least get a similar return. This, of course, is without the millions spent on the airport—the new paintings, and yet no clear strategy in sight, and some may argue that it would have been much better spent advertising Wales and securing new routes to bring people into our country. After all, it is about bringing people into our country to spend money and not just sending them out to the sun to spend money.

So, I want at this juncture to highlight that, although we opposed the initial nationalisation, we want to work with you in a mature approach on the issue. We've published our plans for the airport. We continue to engage positively with the airport, with airlines, with companies based at the airport, public transport providers and other comparable regional airports to review our comprehensive document, which is evidence based—our 'A Blueprint for Cardiff Airport'.

Yn gyntaf, a gawn ni siarad yn gyflym am y gwelliannau? Byddwn yn cefnogi gwelliannau 2 a 3, am eu bod yn ychwanegu dau bwynt da iawn rydym yn cytuno â hwy. Rwy'n gresynu, ddwy flynedd yn ddiweddarach, ei bod yn gwbl glir nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu achos busnes llawn dros gymryd perchnogaeth. Ar yr olwg gyntaf, mae'n edrych fel pe bai'r maes awyr wedi ei brynu gan y Prif Weinidog yn chwilio am hobi yn hytrach nag ar sail broffesiynol. Ni allwn gefnogi gwelliant 1 gan nad yw mewn gwirionedd yn ychwanegu dim byd sylweddol a byddai'n well gennym i'r Llywodraeth hon gefnogi maes awyr sy'n eiddo preifat gyda rheolaeth fasnachol gadarn. Mae gwelliant 4 unwaith eto yn dileu gweddill ein cynnig ac yn wir nid yw'n ychwanegu llawer iawn at y cynnig gwreiddiol, fel y'i diwygiwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Ni allwn ei dderbyn, ac rwy'n poeni eich bod yn cael gwared yn llwyr ar unrhyw gyfeiriad at bwysigrwydd cludo nwyddau.

Yn awr, Aelodau, rwy'n gobeithio y bydd fy nghyfraniad yn gosod y llwyfan ar gyfer trafodaeth aeddfed am ddyfodol y maes awyr a rôl Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi ein diwydiant awyrennau, diwydiant allweddol i unrhyw wlad ddatblygedig, a maes awyr rhyngwladol sydd â photensial mawr y mae'n rhaid ei wireddu. Ar y dechrau, a gawn ni fod yn glir ac yn agored ynglŷn â'r sefyllfa bresennol yn y maes awyr? Mae'r data blwyddyn dreigl ar ddiwedd mis Rhagfyr 2014 yn dangos bod lefelau teithwyr i lawr bron 4%, gostyngiad clir a thuedd sy'n peri pryder yn wir. O ran llwybrau ychwanegol, mae'n ymddangos ei bod hi'n sefyllfa o golli un am bob un a enillir. Ac o'r hyn y gallaf ei weld, ac fel y mae sylwebyddion eraill yn y diwydiant wedi dweud, fel arfer caiff hyn ei ategu gan gymorthdaliadau cyhoeddus sylweddol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Yn awr, pan fydd y cymorth ariannol yn dod i ben, mae'r cwmnïau hedfan yn gadael—synnwyr busnes plaen ar eu rhan. A byddwn yn awgrymu nad dyna'r ffordd y dylai Llywodraeth redeg maes awyr cynaliadwy yma yng Nghymru.

Ni allai ein sefyllfa fod wedi bod yn gliriach pan warioch chi'r £52 miliwn cychwynnol yn prynu Maes Awyr Caerdydd. Nid oedd yn ddefnydd da o arian y trethdalwr, a dyna pam rydym am gynnal prisiad marchnad cyfredol yn awr i sicrhau bod arian trethdalwyr Cymru yn ddiogel ac y gallai sicrhau adenillion tebyg. Wrth gwrs, nid yw hyn yn cyfrif y miliynau a wariwyd ar y maes awyr—y peintiadau newydd, ac eto nid oes unrhyw strategaeth glir yn y golwg, a gallai rhai ddadlau y byddai wedi bod yn llawer gwell ei wario ar hysbysebu Cymru a sicrhau llwybrau newydd i ddod â phobl i mewn i'n gwlad. Wedi'r cyfan, mae'n ymwneud â dod â phobl i mewn i'n gwlad i wario arian ac nid eu cludo allan i'r haul i wario arian.

Felly, yn y fan hon rwyf am dynnu sylw at y ffaith ein bod am weithio gyda chi mewn modd aeddfed ar y mater hwn, er ein bod wedi gwrthwynebu'r gwladoli cychwynnol. Rydym wedi cyhoeddi ein cynlluniau ar gyfer y maes awyr. Rydym yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r maes awyr, gyda chwmnïau awyrennau, gyda chwmnïau sydd wedi'u lleoli yn y maes awyr, darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus a meysydd awyr rhanbarthol eraill cyffelyb i adolygu ein dogfen gynhwysfawr, sy'n seiliedig ar dystiolaeth—ein 'Glasbrint ar gyfer Maes Awyr Caerdydd'.

Again, this is why we urge the Welsh Government to publish a clear and comprehensive strategy for the benefit of passengers, businesses and taxpayers, which includes proposals for long-haul routes and explores all options for the future of Cardiff Airport, including eventually returning the airport to private ownership. In fact, worryingly, the First Minister, in response to a question I put to him in December last, ruled out long-haul flights to America. There has, however, been a great deal of talk about Chinese and Asian links, but the time for talk, I fear, is over. You must publish your plans.

To be able to compete with airports such as Bristol and to have any potential going forward, Cardiff Airport, I believe, must attract flights that have a demonstrable impact on its passenger numbers. This does not just include short-term financial incentives to secure routes. It means a market driven approach where routes are sustainable, where routes are able to bring people into Wales in addition to helping Welsh people holiday abroad or work abroad.

The current dramatic leakage of passengers to England will not be fully addressed by these additions. If you claim that they can, then we would like to see the evidence to support this. It is still a shameful statistic that more Welsh people use Bristol Airport than Cardiff Airport, and, by that key figure alone, Bristol currently serves as Wales's international airport, not Cardiff.

I said three months after the purchase of the airport in a debate that the Conservatives had and I led on, that the onus is on this institution—not just the opposition Members, but all Assembly Members—to ask the Welsh Government to outline their plans for Cardiff Airport. We still are no clearer, despite its purchase taking place almost two years ago now, next month. I didn't join this Assembly to stand by and watch the Welsh Government manage decline, be it in a key public service or indeed our national airport. Sadly though, this is what is happening at the moment at Cardiff Airport.

Now, the confusion surrounding the additional flight to Norwich is a prime example of a micro-managing of the airport. I say 'confusion' because one Government spokesman clearly wanted to take credit and demonstrated a clear lack of understanding, alleging the plane was based in the wrong place, and a total misunderstanding of how a public service operator works.

I also asked you, Minister, I remember, some time ago, about general aviation. It could have been, I think, perhaps, in committee, where you said that general aviation would play a big part in the future of the airport. I have to say, there is no clear evidence of that at the moment. Given that it's worth something in the region of £1.5 billion here in the UK to the economy, I think general aviation is a real goer and should be invested in in the airport at Cardiff.

Unwaith eto, dyma pam rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi strategaeth glir a chynhwysfawr er budd teithwyr, busnesau a threthdalwyr, sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer llwybrau pellter hir ac yn archwilio pob opsiwn ar gyfer dyfodol Maes Awyr Caerdydd, gan gynnwys dychwelyd y maes awyr i berchnogaeth breifat yn y pen draw. Yn wir, mae'n destun pryder fod y Prif Weinidog, mewn ymateb i gwestiwn a ofynnais iddo ym mis Rhagfyr wedi diystyru hediadau pellter hir i America. Fodd bynnag, cafwyd llawer iawn o siarad am gysylltiadau Tseiniaidd ac Asiaidd, ond mae'r amser i siarad, rwy'n ofni, wedi dod i ben. Mae'n rhaid i chi gyhoeddi eich cynlluniau.

Er mwyn gallu cystadlu gyda meysydd awyr fel Bryste ac i gael unrhyw botensial ar gyfer y dyfodol, yn fy marn i, mae'n rhaid i Faes Awyr Caerdydd ddenu hediadau sy'n cael effaith amlwg ar nifer y teithwyr. Mae hyn yn cynnwys mwy na chymhellion ariannol byrdymor i sicrhau llwybrau. Mae'n golygu ymagwedd wedi ei gyrru gan y farchnad lle y mae llwybrau'n gynaliadwy, lle y mae llwybrau'n gallu dod â phobl i mewn i Gymru yn ogystal â helpu pobl Cymru i fynd ar wyliau tramor neu i weithio dramor.

Ni fydd yr ychwanegiadau hyn yn atal yn llwyr y gostyngiad dramatig presennol yn nifer y teithwyr sy'n mynd i feysydd awyr yn Lloegr. Os ydych honni y gallant, yna hoffem weld y dystiolaeth i'w gefnogi. Mae'n dal i fod yn ystadegyn cywilyddus fod mwy o bobl Cymru yn defnyddio Maes Awyr Bryste na Maes Awyr Caerdydd, ac yn ôl y ffigur allweddol hwnnw'n unig, Bryste ar hyn o bryd yw maes awyr rhyngwladol Cymru, nid Caerdydd.

Dri mis ar ôl prynu'r maes awyr, dywedais mewn dadl a arweiniais ar ran y Ceidwadwyr fod y cyfrifoldeb ar y sefydliad hwn—nid Aelodau'r gwrthbleidiau'n unig, ond pob Aelod o'r Cynulliad—i ofyn i Lywodraeth Cymru amlinellu ei chynlluniau ar gyfer Maes Awyr Caerdydd. Nid ydym ronyn cliriach, er i'r gwerthiant ddigwydd ddwy flynedd yn ôl i'r mis nesaf. Ni ymunais â'r Cynulliad hwn i sefyll yn ôl a gwylio Llywodraeth Cymru yn rheoli dirywiad, boed yn wasanaeth cyhoeddus allweddol neu'n wir ein maes awyr cenedlaethol. Yn anffodus, fodd bynnag, dyna beth sy'n digwydd ar hyn o bryd ym Maes Awyr Caerdydd.

Yn awr, mae'r dryswch sy'n gysylltiedig â'r heddiad ychwanegol i Norwich yn enghraifft wych o ficoreoli'r maes awyr. Dywedaf 'dryswch' oherwydd roedd un llefarydd ar ran Llywodraeth yn amlwg yn awyddus i gymryd y clod a dangosodd ddiffyg dealltwriaeth amlwg, gan honni bod yr awyren wedi'i lleoli yn y lle anghywir, a chamddealltwriaeth lwyr ynglŷn â sut y mae gweithredwr gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio.

Rwy'n cofio fy mod wedi gofyn i chi beth amser yn ôl hefyd, Weinidog, ynghylch hedfan cyffredinol. Rwy'n meddwl y gallai fod mewn pwyllgor, efallai, ac fe ddywedoch y byddai hedfan cyffredinol yn chwarae rhan fawr yn nyfodol y maes awyr. Mae'n rhaid i mi ddweud, nid oes dystiolaeth glir o hynny ar hyn o bryd. O ystyried ei fod yn werth oddeutu £1.5 biliwn i'r economi yma yn y DU, rwy'n meddwl bod posibiliadau enfawr i hedfan cyffredinol a dylid buddsoddi ynddo yn y maes awyr yng Nghaerdydd.

If you look— Sorry, I was going to say that if—. You know, I'm aware that participants in trade missions use Cardiff Airport, or have recently used Cardiff Airport, to go abroad, but I'm still not sure whether Ministers are still using it loyally in Wales to go abroad on missions, and, I would like to know. I mean, did you use the airport when you flew back from Japan last? Which airport did you use? I mean, it is important, because it shows leadership and it shows that, you know, if you're prepared to use the airport, then perhaps other people would be very keen to follow suit.

So, I'll just finish by making a final plea to the Welsh Government to work with us, include us in discussions and help us scrutinise effectively, but constructively. We're not, you know—. We're very, very, very pro Cardiff Airport being successful, but we want to work with you and make sure it works properly. We've published our plans, we've set out our stall and we just ask that you do the same, please. We need an effective international airport in hitting distance of our capital city and key economic region, and I'm concerned about the continuing decline. I'm equally concerned by the continuing investment without a clear business case or strategy for reinvigorating the airport. So, I support your aims, but I do challenge your delivery and I commend this motion to the Assembly and look forward to the rest of the debate. Thank you.

Os edrychwch— Mae'n ddrwg gennyf, roeddwn ar fin dweud os—. Wyddoch chi, rwy'n ymwybodol fod rhai sy'n cymryd rhan mewn teithiau masnach yn defnyddio Maes Awyr Caerdydd, neu wedi defnyddio Maes Awyr Caerdydd yn ddiweddar, i fynd dramor, ond nid wyf yn sicr o hyd a yw Gweinidogion yn dal i'w ddefnyddio'n ffyddlon yng Nghymru i fynd dramor ar deithiau, a hoffwn wybod. Hynny yw, a ddefnyddioch chi'r maes awyr pan hedfanoch yn ôl o Japan ddiwethaf? Pa faes awyr a ddefnyddioch chi? Hynny yw, mae'n bwysig, oherwydd mae'n dangos arweiniad ac mae'n dangos, wyddoch chi, os ydych chi'n barod i ddefnyddio'r maes awyr, yna efallai y byddai pobl eraill yn awyddus iawn i wneud yr un peth.

Felly, fe orffennaf drwy apelio'n derfynol ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda ni, ein cynnwys mewn trafodaethau a'n helpu i graffu'n effeithiol, ond yn adeiladol. Nid ydym, wyddoch chi—. Rydym yn hynod, hynod, o awyddus i weld Maes Awyr Caerdydd yn llwyddo, ond rydym am weithio gyda chi a gwneud yn siŵr ei fod yn gweithio'n iawn. Rydym wedi cyhoeddi ein cynlluniau, rydym wedi gosod ein safbwynt ac rydym ond yn gofyn i chi wneud yr un peth, os gwelwch yn dda. Mae angen maes awyr rhyngwladol effeithiol arnom o fewn pellter rhesymol i'n prifddinas a rhanbarth economaidd allweddol, ac rwy'n pryderu am y gostyngiad parhaus yn y niferoedd. Rwyf yr un mor bryderus ynghylch y buddsoddi parhaus heb achos busnes clir na strategaeth ar gyfer adfywio'r maes awyr. Felly, rwy'n cefnogi eich nodau, ond rwy'n herio eich dull o'u cyflawni ac rwy'n cyflwyno'r cynnig hwn i'r Cynulliad ac yn edrych ymlaen at weddill y dda. Diolch yn fawr.

15:09

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I have selected the four amendments to the motion. I call on Rhun ap Iorwerth to move amendments 1 and 4 tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i gynnig gwelliannau 1 a 4 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Gwelliant 1—Elin Jones

Amendment 1—Elin Jones

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Delete point 1 and replace with:

Yn nodi y bydd gwelliant yn nifer y teithwyr sy'n teithio drwy Faes Awyr Caerdydd yn y dyfodol yn dibynnu ar gefnogaeth llywodraeth a rheolaeth fasnachol gadarn.

Notes that future improvement in the number of passengers travelling through Cardiff Airport will depend upon government support and sound commercial management.

Gwelliant 4—Elin Jones

Amendment 4—Elin Jones

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Delete point 2 and replace with:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

Calls on the Welsh government to:

a) cyhoeddi strategaeth twf clir a chynhwysfawr, gan gynnwys cynigion ar gyfer llwybrau pell;

a) publish a clear and comprehensive growth strategy including proposals for long-haul routes;

b) archwilio pob opsiwn ar gyfer dyfodol Maes Awyr Caerdydd, gan gynnwys modelau buddsoddi cyhoeddus a phreifat; ac

b) explore all options for the future of Cardiff Airport, including both public and private investment models; and

c) sicrhau datganoli toll teithwyr awyr er mwyn cynhyrchu llwybrau ychwanegol, cynyddu nifer y teithwyr a rhoi hwb i economi Cymru.

c) secure the devolution of air passenger duty in order to generate additional routes, increase passenger numbers and boost to the Welsh economy.

15:09

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch, Lywydd. Rwy'n falch iawn o gael siarad ar y cynnig yma ac i gynnig y gwelliannau yn enw Elin Jones. Mae Plaid Cymru wedi ymwneud â chwestiwn Maes Awyr Caerdydd mewn modd positif, ac mae'n gwelliannau ni heddiw, rwy'n meddwl, yn adlewyrchu hynny. Rydym eisiau gweld strategaeth ar gyfer twf yn y dyfodol, ac rydym yn galw am hynny o bersectif adeiladol. Mi wnaethom ni gefnogi dod â'r maes awyr i mewn i berchnogaeth gyhoeddus, ac, a dweud y gwir, mae'n bosib nad ydy'r model o berchnogaeth, mewn difri, yn rhywbeth sydd, ynddo fo'i hun, yn mynd i benderfynu ar lwyddiant. Mae gan y maes awyr hanes sy'n cynnwys perchnogaeth breifat a pherchnogaeth gyhoeddus, ac mae llwyddiannau'r maes awyr, neu fel arall, wedi dibynnu ar batrymau economaidd ehangach, yn fwy na dim.

Thank you, Presiding Officer. I am very pleased to speak to this motion and to move the amendments in the name of Elin Jones. Plaid Cymru has been involved with the Cardiff Airport question in a positive manner, and our amendments today, I believe, reflect that. We want to see a strategy for growth in the future, and we call for that from a constructive perspective. We supported bringing the airport into public ownership, and, truth be told, the model of ownership perhaps isn't something that, in and of itself, is going to actually be a factor in its success. The airport has a history of private ownership as well as public ownership, and the successes of the airport or otherwise have been reliant more than anything on wider economic patterns.

Yn sicr, pan benderfynodd y Llywodraeth brynu'r maes awyr, wnaethom ni ddim hawlio na honni, fel gwnaeth y pleidiau eraill, y byddai gweision sifil yn rhedeg y maes awyr. Nid dyna'r achos, wrth gwrs. Mae o'n dal yn cael ei reoli a'i redeg mewn ffordd fasnachol, ac mae'n bwysig iawn, wrth gwrs, fod hynny yn parhau, a rôl y Llywodraeth—rydym ni'n credu ym Mhlaid Cymru—ydy i osod y strategaeth ac i gynnig cymorth lle mae hynny'n angenrheidiol. Mae'r gwelliant cyntaf yn enw Elin Jones yn adlewyrchu'r pwynt hwnnw—busnes ydy o sydd mewn dwylo cyhoeddus. Mae'n rhaid i'r Llywodraeth gael ei dal yn atebol am ei strategaeth, ac mi fydd y maes awyr angen cefnogaeth a chynhaliadaeth y Llywodraeth er mwyn cynyddu niferoedd teithwyr.

Certainly, when the Government decided to purchase the airport, we didn't claim, as did other parties, that civil servants would be running the airport. That simply isn't the case, of course. It is still managed and run on a commercial basis, and it is very important that that should continue. The role of Government, from our point of view in Plaid Cymru, is to set the strategy and to provide assistance where necessary. The first amendment in the name of Elin Jones reflects that point—it is a business that is in public hands. The Government must be held to account for its strategy, and the airport will need support from Government in order to increase passenger numbers.

Mae gwelliant 4 yn galw ar y Llywodraeth i gyhoeddi strategaeth glir a chynhwysfawr ar gyfer twf. Rydym ni'n cefnogi'r camau presennol sy'n cael eu cymryd ar gysylltiadau i'r maes awyr. Rydym ni'n cefnogi cael y gwasanaeth bus cyflym rhwng y maes awyr a chanol Caerdydd, er enghraifft, oherwydd ei fod o'n rhan bwysig o'r hyn sy'n cael ei gynnig i gwmnïau, gobeithio, a wnaiff ddefnyddio'r maes awyr yn y dyfodol.

Amendment 4 calls on the Government to publish a clear and comprehensive growth strategy for the airport. We support the current steps being taken in terms of the connections to the airport. We support the bus service between the airport and the centre of Cardiff, for example, because it is an important part of the offer made to companies that, I hope, will use the airport in future.

Rhan nesa'r gwelliant yna: rydym ni'n meddwl y dylid edrych ar bob opsiwn ar gyfer perchnogaeth yn y dyfodol. Nid ydym ni, yn sicr, wedi ein clymu yn ideolegol i breifateiddio yn y dyfodol. Dyna ffocws y Ceidwadwyr, ac mae hynny'n tynnu'n llygaid ni oddi ar y bêl, rwy'n meddwl. Mi fyddem ni'n dweud 'na' wrth breifateiddio llwyr, ond 'ie' i'r posibilrwydd o ddefnyddio'r sector breifat mewn rhyw ffordd mewn partneriaeth efo'r Llywodraeth. Rydym ni'n hapus i edrych ar fodelau buddsoddi cyhoeddus a phreifat.

The next part of that amendment: we believe that all options for future ownership should be explored. We certainly aren't ideologically wedded to privatisation in future. That's the focus of the Conservatives, and that takes our eye off the ball, I would have thought. We would say 'no' to total privatisation, but 'yes' to the possibility of using the private sector in some way or another in partnership with Government. We are happy to look at public and private investment models.

Y drydedd ran i'r gwelliant yna: rydym ni eisiau sicrhau datganoli treth teithwyr awyr. Mae hwn yn gam hollbwysig ymlaen. Mae o'n rhywbeth sydd wedi cael ei wrthod yn y gorffennol ond sydd, rwan, yn ôl ar yr agenda.

The third part of that amendment: we want to secure the devolution of air passenger duty. This is a crucially important step forward. It is something that has been rejected in the past but is now back on the agenda.

Ar welliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol, mae gwelliant 2

In terms of the Liberal Democrat amendments, amendment 2

'Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi dod yn berchennog ar Faes Awyr Caerdydd heb baratoi achos busnes llawn dros wneud hynny yn gyntaf.'

Wrth gwrs yr ydym ni'n cydymdeimlo ac yn deall beth ydych chi'n ei ddweud yn y gwelliant yna, ond nid ydym ni'n gweld gwerth edrych yn ôl yn y ffordd yna. Mi oedd digon o resymau amlwg, rwy'n meddwl, dros gymryd y cam o ddod â'r maes awyr i berchnogaeth y Llywodraeth a oedd yn amlwg gadarnhaol o ran—. Hynny ydy, os oeddem ni'n wynebu'r peryg o gollir'r maes awyr yn llwyr, rydych chi'n sôn am ffactorau fel cyflogaeth uniongyrchol, cyflogaeth anuniongyrchol, effaith GVA ac ati a'r pwysigrwydd o gael maes awyr rhyngwladol efo cysylltiadau rhyngwladol yma yng Nghymru. Felly, nid ydym ni'n gweld gwerth mewn edrych yn ôl yn hynny o beth.

Mae gwelliant 3, fel ein gwelliant ninnau, yn sôn am y dreth teithwyr awyr.

I grynhoi, mae Maes Awyr Caerdydd angen ymroddiad wrth symud ymlaen gan y Llywodraeth bresennol a'r Llywodraeth nesaf yma. Mae o angen y gefnogaeth a'r gynhaliath yna er mwyn gallu ffynnu yn y dyfodol. Rydym ni angen cynnal y maes awyr yn dilyn cyfnod anodd tu hwnt yn eu hanes nhw. Rydym ni angen, ac rwy'n edrych ymlaen at weld, strategaeth lawn gan y Llywodraeth a fydd yn sicrhau dyfodol i'r diwydiant awyr a theithwyr awyr yng Nghymru.

'Regrets that the Welsh Government took ownership of Cardiff Airport without first having produced a full business case for doing so.'

Of course we understand and sympathise with what you are saying in that amendment, but we don't see any value in looking backwards in that sense. There were plenty of good reasons, I believe, for taking that step of bringing the airport into Government ownership, and reasons that were clearly positive in terms of—. That is, if we were facing the risk of losing the airport totally, then you are talking about factors such as direct employment, indirect employment, the effect of GVA and so on, and the importance of having an international airport with international connections and links here in Wales. So, we don't see any value in looking backwards in that regard.

Amendment 3, similar to our own amendment, does talk about air passenger duty.

To summarise, Cardiff Airport, as it moves into the future, needs commitment from the current Government and the next Government here. It needs support in order to prosper for the future. We need to support and maintain the airport following a very difficult time in its history. We need, and I look forward to seeing, a comprehensive strategy from Government that will secure the future for air travel and passengers in Wales.

15:14

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I call on Eluned Parrott to move amendments 2 and 3 tabled in the name of Aled Roberts. Eluned Parrott.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi dod yn berchennog ar Faes Awyr Caerdydd heb baratoi achos busnes llawn dros wneud hynny yn gyntaf.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i weithio gyda'i gilydd i ddatganoli toll teithiau awyr pell i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynigiwyd gwelliannau 2 a 3.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Galwaf ar Eluned Parrott i gynig gwelliannau 2 a 3 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Eluned Parrott.

Amendment 2—Aled Roberts

Insert as new point 2 and renumber accordingly:

Regrets that the Welsh Government took ownership of Cardiff Airport without first having produced a full business case for doing so.

Amendment 3—Aled Roberts

Insert as new point 2 and renumber accordingly:

Calls on the Welsh Government and UK Government to work together to devolve long-haul air passenger duty to the National Assembly for Wales.

Amendments 2 and 3 moved.

Diolch, Lywydd. I move amendments 2 and 3, tabled in the name of Aled Roberts. It's been nearly two years now since the Welsh Government made the decision to purchase Cardiff Airport. For me, the big question remains what it was at that time, which is: where is the plan? Now, as you've said, looking to the past, there wasn't one in advance of the purchase decision. It's a matter of fact that when I made a freedom of information request for that plan I was told that that information did not exist, but surely there has been time to develop such a plan in the two years since. We all want the airport to thrive. There is a commitment across this Chamber to see the airport be a success.

The mode of ownership, as far as I'm concerned, is not really relevant to whether or not the airport is going to be a success. It's whether or not there is a difference between what the Welsh Government will do, as opposed to what the private sector did when it did have the opportunity to run the airport. The First Minister, when he first took ownership, did say that he'd look for private sector partners to actually manage the airport and run it on a day-to-day basis. That hasn't happened. The model has been slightly different, and it is now an arm's-length company, but it is operated, obviously, under the auspices of the Welsh Government.

There has been a £10 million loan to the airport for improvements but no strategic context set for that spend. It does improve the passenger experience—I have visited the airport to see it—but that doesn't necessarily mean that an improved passenger experience will lead to an increase in passenger numbers; it just means that the passengers going through will enjoy their experience a little bit more. The question in my mind in terms of that investment is: was the poor passenger experience the most critical barrier to improvements in those passenger numbers and growth in the airport?

Similarly, there's been £3 million set aside as a loan for route development to be made available this year. I'm not unfair enough to ask for a report on how that's been spent before it has actually been given to the airport, but I think that it is reasonable to ask what the plan might be once they have received such money.

So, the problem, as I see it, is that there's no strategic plan to set the context and prioritise Welsh Government's investment. We do need a good analysis of the barriers and opportunities that the airport faces to enable the targeting of our efforts and our investments effectively.

Diolch, Lywydd. Cynigiaf welliannau 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Mae bron i ddwy flynedd bellach ers i Lywodraeth Cymru wneud y penderfyniad i brynu Maes Awyr Caerdydd. I mi, yr un yw'r cwestiwn mawr o hyd a'r hyn oedd ar y pryd, sef: ble mae'r cynllun? Yn awr, fel rydych wedi dweud, wrth edrych i'r gorffennol, nid oedd cynllun ar gael cyn y penderfyniad i brynu. Pan wnes gais rhyddid gwybodaeth i weld y cynllun hwnnw, mae'n ffaith eu bod wedi dweud wrthyf nad oedd y wybodaeth honno'n bodoli, ond does bosibl nad oes digon o amser wedi bod i ddatblygu cynllun o'r fath yn y ddwy flynedd ers hynny. Rydym i gyd eisiau i'r maes awyr ffynnu. Mae yna ymrwymiad ar draws y Siambr hon i weld y maes awyr yn llwyddo.

O'm rhan i, nid yw'r dull o berchnogaeth yn berthnasol mewn gwirionedd o ran a yw'r maes awyr yn mynd i fod yn llwyddiant ai peidio. Mae'n ymwneud ag a oes gwahaniaeth rhwng yr hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud, yn hytrach na'r hyn a wnaeth y sector preifat pan gafodd y cyfle i redeg y maes awyr. Pan ddaeth y maes awyr i berchnogaeth y Prif Weinidog am y tro cyntaf, dywedodd y byddai'n edrych am bartneriaid yn y sector preifat i reoli'r maes awyr a'i redeg o ddydd i ddydd. Nid yw hynny wedi digwydd. Mae'r model wedi bod ychydig yn wahanol, ac mae bellach yn gwmni hyd braich, ond mae'n cael ei weithredu, yn amlwg, o dan nawdd Llywodraeth Cymru.

Cafwyd benthyciad gwerth £10 miliwn i'r maes awyr ar gyfer gwelliannau ond ni osodwyd unrhyw gyd-destun strategol ar gyfer y gwariant. Mae'n gwella profiad teithwyr—rwyf wedi ymweld â'r maes awyr i'w weld—ond nid yw hynny'n golygu o reidrwydd y bydd profiad gwell i deithwyr yn arwain at gynnydd yn nifer y teithwyr; nid yw ond yn golygu y bydd y teithwyr sy'n mynd drwyddo yn mwynhau eu profiad ychydig yn fwy. Y cwestiwn yn fy meddwl o ran y buddsoddiad yw hwn: ai profiad gwael i deithwyr oedd y rhwystr mwyaf allweddol i wella nifer y teithwyr a thwf y maes awyr?

Yn yr un modd, neilltuwyd £3 miliwn i fod ar gael eleni fel benthyciad ar gyfer datblygu llwybrau. Nid wyf yn ddigon annheg i ofyn am adroddiad ar sut y gwariwyd hwnnw cyn iddo gael ei roi i'r maes awyr mewn gwirionedd, ond rwy'n meddwl ei bod yn deg gofyn beth y gallai'r cynllun fod ar ôl iddynt dderbyn arian o'r fath.

Felly, y broblem, fel rwy'n ei gweld, yw nad oes cynllun strategol ar gyfer gosod y cyd-destun a blaenoriaethu buddsoddiad Llywodraeth Cymru. Rydym angen dadansoddiad da o'r rhwystrau a'r cyfleoedd y mae'r maes awyr yn eu hwynebu er mwyn gallu targedu ein hymdrechion a'n buddsoddiadau yn effeithiol.

In terms of the question of the plan over the years, actually, initially it was that the plan hadn't existed before the purchase decision, but the question of what the plan is and what the strategy is seems to have got muddier and muddier over that period of time. The airport sits, of course, in a city region; it's mentioned within the Vale of Glamorgan local development plan; it is within the St Athan enterprise zone as well. Today we have heard that there is a second city region plan, which, of course, encompasses Bristol, and Bristol's own airport. We don't have a clear idea of how all these plans sit together, because, clearly, a plan for the generation of this area and the airport all ought to support each other and sit together. Who exactly is making sure that all these plans are consistent with one another and fit, and that they are co-ordinated to get the best result for the Welsh economy?

Just to give you an example, I queried some time ago an airport city mentioned in the Vale of Glamorgan local development plan. The LDP described it as a Welsh Government plan; the Minister and the First Minister denied all knowledge of such an airport city. The airport know nothing about it either, but I have to tell you, Minister, it's actually named on the Welsh Government's own website as an early concept. So, I suggest that, perhaps, the Welsh Government may know something about it, and you may want to go back to your officials and ask them what it is and whether perhaps it might have been nice to know what the plan was before residents were obliged to respond to a consultation on that plan to the Vale of Glamorgan's planning department in the dark as to what it actually means. For me, it just highlights that level of confusion that's possible when there are a variety of bodies that all have an interest in regional development involving the airport, but there's no clear governance structure to set out the interrelationship between all of these panels, boards and groups.

Ultimately, Minister, you are legally responsible for the airport, for the enterprise zones, and for the city region, and it is up to you to demand that these things work together in an effective way. If all these policy interventions do work effectively, then they have the potential to be very powerful drivers of growth for our region; but the signs on that co-ordination under those circumstances simply aren't good enough.

If we're to fight for things like long-haul air passenger duty we need to know where we're going to be able to use it to our advantage, or we could be exposing ourselves to financial risk with no appreciable benefit. Are the city regions, but particularly, is the enterprise zone, doing everything that it can to bring long-haul flights to Cardiff Airport? It's what the First Minister says that he wants to see, but do we have a joined-up approach? If it isn't joined up, devolving long-haul APD so that we can cut it may end up being a moot point, because we'll just end up paying for the accounting of a tax that we can't do anything with because it doesn't apply to anyone in Wales.

O ran y cwestiwn ynglŷn â'r cynllun dros y blynyddoedd, i gychwyn roedd yn ymwneud â'r ffaith nad oedd y cynllun wedi bodoli cyn y penderfyniad i brynu, ond ymddengys bod y cwestiwn ynghylch beth yw'r cynllun a beth yw'r strategaeth wedi mynd yn fwyfwy aneglur dros y cyfnod hwnnw o amser. Mae'r maes awyr mewn dinas-ranbarth wrth gwrs; cyfeirir ato yng nghynllun datblygu lleol Bro Morgannwg; mae yn ardal fenter Sain Tathan hefyd. Heddiw, rydym wedi clywed bod yna ail gynllun dinas-ranbarth, sy'n cwmpasu Bryste, wrth gwrs, a maes awyr Bryste ei hun. Nid oes gennym syniad clir sut y mae'r holl gynlluniau hyn yn cydweddu â'i gilydd, oherwydd mae'n amlwg y dylai cynlluniau ar gyfer adfywio'r ardal hon a'r maes awyr gefnogi ei gilydd a chydweddu â'i gilydd. Pwy'n union sy'n gwneud yn siŵr bod yr holl gynlluniau hyn yn gyson ac yn cyd-fynd â'i gilydd, a'u bod yn gydgyssylltiedig er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau ar gyfer economi Cymru?

I roi un enghraifft i chi, beth amser yn ôl, holais ynghylch dinas maes awyr a grybwyllir yng nghynllun datblygu lleol Bro Morgannwg. Câi ei ddisgrifio yn y Cynllun Datblygu Lleol fel cynllun Llywodraeth Cymru; gwadodd y Gweinidog a'r Prif Weinidog eu bod yn gwybod dim am y peth chwaith, ond rhaid i mi ddweud wrthyhch, Weinidog, mae'n cael ei enwi mewn gwirionedd ar wefan Llywodraeth Cymru ei hun fel cysyniad cynnar. Felly, rwy'n awgrymu efallai bod Llywodraeth Cymru yn gwybod rhywbeth am y peth, ac efallai yr hoffech fynd yn ôl at eich swyddogion a gofyn iddynt beth ydyw ac a fyddai wedi bod yn braf gwybod, efallai, beth oedd y cynllun cyn i drigolion orfod ymateb i ymgynghoriad arno i adran gynllunio Bro Morgannwg heb syniad beth y mae'n ei olygu mewn gwirionedd. I mi, mae'n tynnu sylw at y lefel honno o ddrwsych sy'n bosibl pan fo amryw o gyfrff â diddordeb mewn datblygu rhanbarthol sy'n cynnwys y maes awyr, ond ni cheir unrhyw strwythur llywodraethu clir i nodi'r gydberthynas rhwng pob un o'r paneli, y byrddau a'r grwpiau hyn.

Yn y pen draw, Weinidog, rydych yn gyfrifol yn gyfreithiol am y maes awyr, am yr ardaloedd menter, ac am y ddinas-ranbarth, a'ch lle chi yw mynnu bod y pethau hyn yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd effeithiol. Os yw'r holl ymyriadau polisi hyn yn gweithio'n effeithiol, yna mae ganddynt botensial i fod yn ysgogwyr twf pwerus iawn ar gyfer ein rhanbarth; ond yn syml iawn, ni cheir arwyddion bod y cydgysylltiad yn yr amgylchiadau hynny yn ddigon da.

Os ydym yn mynd i ymladd am bethau fel toll teithwyr awyr ar gyfer hediadau pellter hir mae angen i ni wybod ble rydym yn mynd i allu eu defnyddio at ein mantais, neu gallem fod yn gwneud ein hunain yn agored i risg ariannol heb unrhyw fudd sylweddol. A yw'r dinas-ranbarthau, ond yn arbennig, a yw'r ardal fenter, yn gwneud popeth o fewn ei gallu i ddod â hediadau pellter hir i Faes Awyr Caerdydd? Dyna y mae'r Prif Weinidog yn dweud ei fod am ei weld, ond a oes gennym ddull cydgysylltiedig o weithredu? Os nad yw'n gydgyssylltiedig, gallai datganoli toll teithwyr awyr ar gyfer hediadau pellter hir fod yn bwnc dadleuol yn y pen draw, gan na fyddwn ond yn talu am gyfrifo toll na allwn wneud unrhyw beth â hi gan nad yw'n berthnasol i neb yng Nghymru.

Rwy'n falch i gael y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon y prynhawn yma ar Faes Awyr Caerdydd. Fel mae Aelodau wedi'i ddweud yn barod, hwn yw ein maes awyr rhyngwladol, felly mae yn bwysig sicrhau ei fod yn datblygu ac yn gwella. Yn wir, rwy'n siŵr fod pawb yn y Siambr hon yn cydnabod bod y maes awyr yn bwysig i economi Cymru gyfan, yn ogystal â bod yn bwysig i economi de Cymru. Felly, o ystyried ei bwysigrwydd, mae'n rhaid cael strategaeth gynhwysfawr ar gyfer Maes Awyr Caerdydd sy'n rhoi manylion a gwybodaeth am sut y mae Llywodraeth Cymru yn datblygu mwy o lwybrau pell, sut y mae'r Llywodraeth yn cynyddu gweithrediadau cludo nwyddau, ac, yn y pen draw, sut y mae'r maes awyr yn cyflawni gwerth am arian i drethdalwyr Cymru, o ystyried ei fod yn awr yn nwylo y Llywodraeth.

Mae fy mhryderon i ynglŷn â'r maes awyr yn seiliedig ar y diffyg tystiolaeth sydd ar gael i weld sut mae Llywodraeth Cymru yn cwrdd â'i blaenoriaethau allweddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn glir ei bod, ymysg pethau eraill, am weld Maes Awyr Caerdydd yn creu amgylchedd i annog twf mewn cwmnïau hedfan a phartneriaid masnachol, i wneud y mwyaf o'r cyfle er budd Cymru, yr economi a busnes, ac i wella cysylltedd i Gymru. Nawr, mae'r rhain, yn sicr, yn amcanion rhesymol iawn, ac rwy'n siŵr y byddai Aelodau'n cytuno bod pob un o'r tri yn feysydd y dylai Llywodraeth Cymru fod yn eu blaenoriaethu. Fodd bynnag, wrth sgrwtineiddio llwyddiant y maes awyr yn erbyn yr uchelgeisiau hyn, mae yna ddiffyg targedau pendant y gallwn ni fesur perfformiad yn eu herbyn. Efallai, wrth ymateb i'r ddadl hon, y gallai'r Gweinidog ddarparu manylion concred ar y nifer o gwmnïau hedfan y mae'r maes awyr yn edrych i'w denu a pha amserlenni y mae'n edrych arnynt i gwrdd â'r targedau hyn.

Mae'r newyddion diweddar bod Flybe yn golygu cyflwyno un llwybr newydd yn ystod tymor yr haf, bob wythnos, o Gaerdydd i Dusseldorf, i ddechrau ym mis Ebrill, yn sicr yn rhywbeth i'w groesawu. Eto i gyd, ychydig cyn y Nadolig, bu i Flybe gadarnhau bod dau lwybr, un i faes awyr Charles de Gaulle ym Mharis ac un i Glasgow, yn cael eu tynnu yn ôl. Felly, mae'n hanfodol nawr bod y Gweinidog yn dod ymlaen â strategaeth fanwl ar gyfer twf y maes awyr.

Fel y dywedodd Byron Davies, bydd Aelodau'n ymwybodol o'n cynigion ni ar ochr hon y Siambr, a amlinellwyd yn ein 'Glasbrint ar gyfer Maes Awyr Caerdydd'—dogfen sydd, yn wir, yn cynnwys strategaeth i'r tymor byr ac, yn wir, i'r tymor hir. Mewn ysbryd o weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru, rwy'n gobeithio'n fawr iawn y bydd y Gweinidog yn ystyried ein cynigion ni yn fanwl iawn.

I'm pleased to have an opportunity to take part in this debate today on Cardiff Airport. As Members have already said, this is our international airport, and therefore it is important to ensure that it does develop and improve. Indeed, I'm sure that everyone in this Chamber would recognise that the airport is important to the economy of the whole of Wales, as well as being important to the economy of south Wales. So, given its importance, there has to be a comprehensive strategy for Cardiff Airport that provides details and information on how the Welsh Government is developing more long-haul routes, how the Government is increasing freight operations and, ultimately, how the airport is delivering value for money for the Welsh taxpayer, given that it is now in state hands.

My concerns surrounding the airport hinge on the lack of evidence available to see how the Welsh Government is matching its key priorities. The Welsh Government has made it clear that, amongst other things, it wants to see Cardiff Airport create an environment to encourage growth of airlines and commercial partners, maximise the opportunity for the benefit of Wales, economy and business, and improve connectivity to Wales. Now, these are certainly very reasonable objectives, and I'm sure that Members would agree that all three of these objectives are areas that the Welsh Government should be prioritising. However, in scrutinising the success of the airport against these ambitions, there is a lack of tangible targets that we can measure performance against. Perhaps, in responding to the debate, the Minister could provide concrete details on the number of airlines the airport is looking to attract and what timescales she is looking at to meet these targets.

The recent news that Flybe has announced a new weekly route for the summer season, from Cardiff to Dusseldorf, to start in April, is certainly something to be welcomed. However, just before Christmas, Flybe confirmed that two routes, one to Paris's Charles de Gaulle airport and one to Glasgow, are to be withdrawn. So, it's crucial that the Minister comes forward with a detailed strategy for the growth of the airport.

As Byron Davies said, Members will be aware of our proposals on this side of the Chamber, highlighted in our 'Blueprint for Cardiff Airport'—a document that comprises of a strategy for the short term and, indeed, for the long term. In the spirit of working constructively with the Welsh Government, I very much hope that the Minister will give very detailed consideration to our proposals.

Nawr, mae cysylltiadau trafndiaeth effeithlon ac effeithiol yn elfennau hanfodol i lwyddiant nifer o feysydd awyr, ac mae'r llwyddiant wedi cael ei brofi mewn meysydd awyr fel Southampton, er enghraifft. Yn anffodus, mae lleoliad Maes Awyr Caerdydd yn 13.5 milltir o ganol dinas Caerdydd, ac mae hyn yn tynnu sylw pellach at yr achos dros gysylltiadau trafndiaeth effeithlon, sydd, ar hyn o bryd, byddwn i yn dadlau, yn ddifffgiol. Rwy'n siŵr y gallai'r un peth fod yn wir am rai o'r meysydd awyr rhanbarthol yma yng Nghymru, fel maes awyr Llwynhelyg yn fy etholaeth i, lle rwy'n siŵr y byddai deuli'r A40 yn sicr o fudd mawr i'r maes awyr hwnnw. Yn wir, fel mae'r Gweinidog wedi'i ddweud o'r blaen yn y Siambr hon, ac rwy'n dyfynnu:

'Os edrychwch ar yr ystadegau, Cymry'r gorllewin sydd dan anfantais o ran unrhyw faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth.'

Weinidog, ni allwn gytuno yn fwy. Felly, fel rhan o strategaeth hedfan ehangach ar gyfer Cymru, rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried y seilwaith o ddifri, ac ystyried mynediad o amgylch yr holl feysydd awyr, sydd, wrth gwrs, yn cynnwys buddsoddi mewn seilwaith ffyrdd a seilwaith rheilffyrdd.

Wrth gloi, Lywydd, rwy'n meddwl taw'r pryder mawr o gwmpas dyfodol Maes Awyr Caerdydd yw'r diffyg dealltwriaeth am yn union beth y mae Llywodraeth Cymru ei eisiau o'r maes awyr yn y tymor byr a'r tymor hir. Heb unrhyw strategaeth benodol ar gyfer twf, heb unrhyw gynigion penodol ar gyfer ehangu hedfan masnachol neu weithrediadau cludo nwyddau, mae'n anhygoel o anodd mesur llwyddiant cynyddol y maes awyr. Ar ben hynny, mae bron yn amhosib cyfrif sut mae'r maes awyr yn sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr Cymru. Felly, rwy'n annog y Gweinidog i gyflwyno cynigion mwy cadarn a phendant i Faes Awyr Caerdydd. Rwy'n ei hannog hi i ddarparu manylion cliriach am ganlyniadau go iawn sut y mae'r buddsoddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi ei roi i mewn i'r maes awyr wedi cyflawni, ac rwy'n ei hannog hi i sefydlu strategaeth hedfan ehangach, sy'n edrych ar rai o'r problemau mawr sy'n wynebu meysydd awyr, fel ein hisadeiledd. Felly, rwy'n annog Aelodau i gefnogi ein cynnig ni heddiw.

Now, efficient and effective transport links are a vital component to the success of many airports, and that success has been demonstrated at airports such as Southampton, for example. Unfortunately, Cardiff Airport's location is 13.5 miles from Cardiff's city centre, and this further highlights the case for efficient transport links, which, at present, I would argue, are lacking. I'm sure that the same could be said for some of the regional airports in Wales, such as Witherby airport in my constituency, where I'm sure that dualling the A40 would certainly be of huge benefit to that airport. Indeed, as the Minister has previously said in this Chamber, and I quote:

'If you look at the statistics, it is the west Walians who are disadvantaged on any issues to do with transport.'

Minister, I couldn't agree more. So, as part of a wider aviation strategy for Wales, the Welsh Government must consider seriously the infrastructure and access around all airports, which, of course, includes investment in road and rail infrastructure.

In closing, Presiding Officer, I think the major concern surrounding Cardiff Airport's future is the lack of understanding of exactly what the Welsh Government wants from the airport in the short and the long term. With no specific strategy for growth, no specific proposals for commercial flight expansion or freight operations, it's incredibly difficult to measure the growing success, or lack of, of the airport. Furthermore, it's almost impossible to then calculate how the airport is delivering value for money for Welsh taxpayers. So, I encourage the Minister to bring forward more robust and tangible proposals for Cardiff Airport. I encourage her to provide clearer details about how the investment that the Welsh Government has put into the airport has delivered real outcomes, and I encourage her to establish a wider aviation strategy that looks at some of the major problems facing airports, such as our infrastructure. Therefore, I urge Members to support our motion today.

15:25

Mick Antoniw [Bywgraffiad Biography](#)

This is an important debate because the airport is a vital cog in the Welsh economy, and it has been absolutely essential that the Welsh Government stepped in when it did in order to ensure the survival and progress of the airport. I always do, however, worry a little bit when I read the drafting of the Conservative motions on this, because they always take it back to privatisation. It seems as though, you know, the Welsh Government taking it into ownership to save it is the issue that concerns them more than anything else, rather than the success and the progress of the airport. And, you know, you only need look back to what the Conservative position was when we had the debate in January 2013. This is what Byron Davies actually said then:

Mae hon yn ddadl bwysig oherwydd bod y maes awyr yn gog hanfodol yn economi Cymru, ac roedd hi'n gwbl allweddol fod Llywodraeth Cymru wedi camu i mewn pan wnaeth er mwyn sicrhau bod y maes awyr yn goroesi ac yn datblygu. Fodd bynnag, rwyf bob amser yn poeni ychydig bach wrth ddarllen cynigion drafft y Ceidwadwyr ar hyn am eu bod bob amser yn mynd â'r peth yn ôl i breifateiddio. Mae'n ymddangos, wyddoch chi, fel pe bai'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi cymryd perchnogaeth ar y maes awyr er mwyn ei achub yn fater sy'n peri mwy o bryder iddynt na dim arall, yn hytrach na llwyddiant a chynnydd y maes awyr. Ac nid oes ond angen i chi edrych yn ôl ar safbwynt y Ceidwadwyr ar hyn, wyddoch chi, pan gawsom y ddadl yn Ionawr 2013. Dyma beth a ddywedodd Byron Davies bryd hynny:

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

'Purchasing an airport at the current time demonstrates a complete lack of foresight, a waste of public money and is a prime example of lazy Labour once again failing to put the people of Wales first.'

Well, all I would say is, you tell that to people in the Vale of Glamorgan and broader south Wales; you tell that to the people with the 1,750 full-time jobs dependent on the airport; you tell that to the 900 people who have part-time employment with the airport; and you tell that also to those with thousands of engineering and aviation jobs that actually are associated with—and, probably in the long term, dependent on—the actual success and survival of the airport. I would also say, as someone who is a great supporter of public ownership, that the issue for me isn't actually the public ownership of the airport. Let's face it: it was in public ownership, Thatcher forced the local authority to sell it, it succeeded for a while under privatisation, but went into sharp decline. It did not feature as part of the economic structure and strategy of Wales, and if the Welsh Government hadn't stepped in when it did, then it's very likely that the airport would have gone into terminal decline.

The gross value added contribution of the airport to the economy is over £100 million, and we can expect that to actually increase. Again, just on the issue of public ownership, I mean, there are many airports around the world and in Britain that are either publicly owned, or they are part privately and part publicly owned, et cetera. What is important about an airport is that it is part of the economic cog—that it is part of an economic strategy. To that extent, this debate is perfectly correct insofar as we need to examine what that strategy is and what progress is being made. But I do worry about the continuance of the Tory attempts to undermine the airport and to continually put it down.

Now, let's look at the passenger figures. If you listen to the Tories on this, you'd think that there was something going very drastically wrong. Well, in actual fact, passenger figures, month by month, until the last three months, have been going up virtually every month. So, if you look at January 2014, there was a 17% increase; the following month, a 30% increase in passenger numbers, month by month; 3.3% the following month; 7.3% the other month. But of course, in the last three months, there have been declines, and those have brought the average figures down to a 3.6% reduction. Don't forget also that you are being very selective in what you are taking, because we are talking about the two years that it has been in public ownership, and, of course, we've got three winters within that. So, when you take the boost you're going to have in the summer, I would expect to see that there is probably going to be, overall, an increase. But let's also take the fact that what Welsh Government has actually done is actually prevent the decline in the airport and create a future for the airport, and that is recognised in the aviation industry around.

'Mae prynu maes awyr ar hyn o bryd yn dangos diffyg rhagweledigaeth ac yn wastraff arian cyhoeddus, ac mae'n enghraifft wych o Lafur diog unwaith eto yn methu â rhoi pobl Cymru yn gyntaf.'

Wel, y cyfan y byddwn i'n ei ddweud yw dywedwch hynny wrth bobl Bro Morgannwg a de Cymru yn ehangach; dywedwch hynny wrth y bobl mewn 1,750 o swyddi amser llawn sy'n ddibynnol ar y maes awyr; dywedwch hynny wrth y 900 o bobl sydd â swyddi rhan-amser gyda'r maes awyr; a dywedwch hynny hefyd wrth y rhai mewn miloedd o swyddi peirianeg a hedfan sy'n gysylltiedig â—ac yn ôl pob tebyg, yn y tymor hir, yn ddibynnol ar—lwyddiant a goroesiad y maes awyr. Byddwn hefyd yn dweud, fel rhywun sy'n cefnogi perchnogaeth gyhoeddus yn fawr, nad mater perchnogaeth gyhoeddus y maes awyr yw'r cwestiwn i mi. Gadewch i ni ei wynebu: roedd yn eiddo cyhoeddus, fe orfododd Thatcher i'r awdurdod lleol ei werthu, fe lwyddodd am gyfnod ar ôl ei breifateiddio, ond dirywiodd yn sydyn. Nid oedd yn rhan o strwythur a strategaeth economaidd Cymru, a phe na bai Llywodraeth Cymru wedi camu i mewn pan wnaeth, yna mae'n debygol iawn y byddai'r maes awyr wedi wynebu dirywiad terfynol.

Mae cyfraniad gwerth ychwanegol gros y maes awyr i'r economi yn fwy na £100 miliwn, a gallwn ddisgwyl i hynny gynyddu mewn gwirionedd. Unwaith eto, ar fater perchnogaeth gyhoeddus, hynny yw, mae llawer o feysydd awyr o amgylch y byd ac ym Mhrydain sydd naill ai'n eiddo cyhoeddus, neu'n eiddo rhannol gyhoeddus a rhannol breifat ac yn y blaen. Yr hyn sy'n bwysig am faes awyr yw ei fod yn rhan o'r cog economaidd—yn rhan o strategaeth economaidd. I'r graddau hynny, mae'r ddadl hon yn berffaith gywir yn yr ystyr fod angen i ni edrych ar beth yw'r strategaeth honno a pha gynnydd a wneir. Ond rwy'n poeni am ymdrechion y Toriaid i geisio tansello'r maes awyr a lladd arno'n barhaus.

Yn awr, gadewch i ni edrych ar ffigurau teithwyr. Os gwrandewch ar y Toriaid, fe fydddech yn meddwl bod rhywbeth yn mynd o'i le'n ddifrifol. Wel, mewn gwirionedd, mae ffigurau teithwyr, o fis i fis, nes y tri mis diwethaf, wedi codi bron bob mis. Felly, os edrychwch ar fis Ionawr 2014, cafwyd cynnydd o 17%; y mis canlynol, cynnydd o 30% yn nifer y teithwyr, o fis i fis; 3.3% y mis canlynol; 7.3% y mis arall. Ond wrth gwrs, yn y tri mis diwethaf, cafwyd gostyngiadau, ac mae'r rheini wedi dod â'r ffigurau cyfartalog i lawr i 3.6% o ostyngiad. Peidiwch ag anghofio hefyd eich bod yn ddetholus iawn yn yr hyn a nodwch, gan ein bod yn sôn am y ddwy flynedd y mae wedi bod mewn perchnogaeth gyhoeddus, ac wrth gwrs, mae hynny'n cynnwys tri gaeaf. Felly, pan gofiwch am yr hwb a gewch yn yr haf, byddwn yn disgwyl gweld cynnydd yn gyffredinol, yn ôl pob tebyg. Ond gadewch i ni hefyd gymryd y ffaith mai'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud mewn gwirionedd yw atal y dirywiad yn y maes awyr a chreu dyfodol ar gyfer y maes awyr, ac mae hynny'n cael ei gydnabod yn y diwydiant hedfan.

Let me also take the comment that was made with regard to Bristol. We are not in competition with Bristol. I think those who attended—and there was a representative of the leader of the Conservative Party's office—the joint meeting between Exeter, Bristol and Cardiff airports—. It was quite clear: yes, there are areas of competition, but we are not competing one against the other. There are many areas of common interest—including long-haul flights—that seek to benefit one another. So, we've got to stop basically doing this really irrelevant comparator that actually takes place.

Could I also say, with regard to the Plaid comments that Rhun made, I very much agree with what you say. What we want is the airport in the best structure. And, at some time in the future, participation with part of the aviation industry, I think, would probably be beneficial to the airport. But what we have to ensure with the airport is that it remains part of Welsh Government's interests and economic strategy.

15:30

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for the opportunity to speak this afternoon on Cardiff Airport. I'm sure we all recognise the importance of Cardiff Airport to the economy of Wales. Airports are gateways to the world. They are vital for businesses and investment, for social mobility and for tourism. An airport that fails to meet its full potential has a damaging effect on the economy of the nation. It is therefore in everybody's interest that Cardiff has a thriving international airport able to compete on the global stage.

It is now nearly two years since the Welsh Government bought Cardiff Airport. We all know the problems that faced Cardiff Airport at that time. Passenger numbers have fallen from over 2 million passengers in 2007 to just over 1 million in 2012. Forty per cent of passengers surveyed, and living within the Cardiff Airport catchment area, quoted more choice of destination as their main reason for using other airports. Accessibility was a problem, with nearly three quarters of passengers accessing Cardiff Airport by car, compared with only 9% doing so by coach or buses. We call on the Welsh Government to produce a cohesive strategy to address the problems faced by Cardiff Airport and enable it to reach its full potential to benefit the Welsh economy. Two years on, we still await a Welsh Government aviation strategy.

What has happened to Cardiff Airport since it was taken into state control? Passenger numbers have continued to decline—50,000 fewer passengers used Cardiff Airport last year compared to 2013; lack of connectivity remains a problem; and many flights are inconsistent, sometimes only once a week, with little flexibility for travellers. Last year saw the loss of CityJet flights to Glasgow, and a reduction in the service to Edinburgh. The Welsh Government response was to give £3 million to Cardiff Airport for route development. But, without any aviation strategy, what guarantees do we have that this money will be effectively spent?

Gadewch i mi hefyd sôn am y sylw a wnaed mewn perthynas â Bryste. Nid ydym yn cystadlu â Bryste. Rwy'n credu bod y rhai a fynychodd y cyfarfod ar y cyd rhwng Caerwysg, Bryste a Chaerdydd-ac roedd cynrychiolydd yno ar ran arweinydd swyddfa'r Blaid Geidwadol. Roedd yn eithaf clir: oes, mae yna feysydd lle y ceir cystadleuaeth, ond nid ydym yn cystadlu yn erbyn ein gilydd. Mae llawer o feysydd o ddiddordeb cyffredin-gan gynnwys hediadau pellter hira allai fod o fudd i'w gilydd. Felly, yn y bôn, mae'n rhaid i ni roi'r gorau i'r gymhariaeth wirioneddol amherthnasol sy'n digwydd mewn gwirionedd.

A gaf fi ddweud hefyd, o ran sylwadau Plaid Cymru gan Rhun, rwy'n cytuno i raddau helaeth iawn â'r hyn a ddywedwch. Yr hyn rydym ei eisiau yw maes awyr â'r strwythur gorau. Ac ar ryw adeg yn y dyfodol, byddai ymwneud â rhan o'r diwydiant awyrennau, rwy'n meddwl, o fudd i'r maes awyr yn ôl pob tebyg. Ond yr hyn y mae'n rhaid inni ei sicrhau gyda'r maes awyr yw ei fod yn parhau i fod yn rhan o fuddiannau Llywodraeth Cymru a'i strategaeth economaidd.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i siarad y prynhawn yma ar Faes Awyr Caerdydd. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn cydnabod pwysigrwydd Maes Awyr Caerdydd i economi Cymru. Meysydd awyr yw'r pyrth i'r byd. Maent yn hanfodol ar gyfer busnesau a buddsoddiad, symudedd cymdeithasol a thwristiaeth. Mae maes awyr sy'n methu cyflawni ei botensial llawn yn cael effaith niweidiol ar economi'r genedl. Felly mae sicrhau bod gan Gaerdydd faes awyr rhyngwladol ffyniannus sy'n gallu cystadlu ar y llwyfan byd-eang o fudd i bawb.

Mae bron i ddwy flynedd bellach ers i Lywodraeth Cymru brynu Maes Awyr Caerdydd. Rydym i gyd yn gwybod am y problemau a wynebai Maes Awyr Caerdydd ar y pryd. Mae nifer y teithwyr wedi gostwng o dros 2 filiwn o deithwyr yn 2007 i ychydig dros 1 filiwn yn 2012. Soniodd pedwar deg y cant o'r teithwyr a arolygwyd, ac sy'n byw yn nalgylch Maes Awyr Caerdydd, mai mwy o ddewis o gyrchfannau oedd eu prif reswm dros ddefnyddio meysydd awyr eraill. Roedd hygyrchedd yn broblem, gyda bron i dri chwarter y teithwyr yn defnyddio car i gyrraedd Maes Awyr Caerdydd, o gymharu â 9% yn unig a gyrhaeddodd ar fws neu goets. Galwn ar Lywodraeth Cymru i gynhyrchu strategaeth gydylnol i fynd i'r afael â'r problemau a wynebir gan Faes Awyr Caerdydd a'i alluogi i wireddu ei botensial llawn i fod o fudd i economi Cymru. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, rydym yn dal i aros am strategaeth hedfan Llywodraeth Cymru.

Beth sydd wedi digwydd i Faes Awyr Caerdydd ers iddo gael ei gymryd dan reolaeth y wladwriaeth? Mae nifer y teithwyr wedi parhau i ostwng—defnyddiodd 50,000 yn llai o deithwyr Faes Awyr Caerdydd y llynedd o'i gymharu â 2013; mae diffyg cysylltedd yn parhau i fod yn broblem; ac mae llawer o deithiau hedfan yn anghyson, unwaith yr wythnos yn unig weithiau, gydag ychydig iawn o hyblygrwydd i deithwyr. Y llynedd collwyd teithiau CityJet i Glasgow, a gwelwyd lleihad yn y gwasanaeth i Gaeredin. Ymateb Llywodraeth Cymru oedd rhoi £3 miliwn i Faes Awyr Caerdydd ar gyfer datblygu llwybrau. Ond heb strategaeth hedfan, pa warantau sydd gennym y bydd yr arian hwn yn cael ei wario'n effeithiol?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Effective transport links remain integral to the success of any airport. Access to Cardiff Airport remains predominantly car based, down A roads, and only 2% of passengers access it by train and bus—services that are heavily subsidised. The fact is that Cardiff Airport, under state control, is still not performing its pivotal role in growing the Welsh economy. The Welsh Government spent £52 million on buying this airport. Since then, a further loan of £10 million has been provided for modernisation, and £3 million for route development. How much more money, Presiding Officer, will be spent before the Welsh Government realises it has no plan, no strategy and no idea how to develop Cardiff Airport?

We have outlined a five-point plan to return Cardiff Airport back to profit based on the principle of delivering the taxpayer an economic dividend. Our five-point plan for growth targets the specific challenges currently facing the airport. Our plan includes the creation of the role of airline director to direct and co-ordinate our aviation strategy. We need to develop an effective marketing strategy and air freight operation. The transport link would be enhanced and we would consult on the best way of using air passenger duty, should it be devolved.

In the long term, we believe it is essential that Cardiff Airport be returned to the private sector. Presiding Officer, our approach provides a strategy that will allow Cardiff Airport to grow and thrive. It stands in stark contrast to the policy vacuum offered by the Welsh Government. I call on the Welsh Minister to adopt our proposal and let Cardiff Airport take its rightful place as one of the engines of the Welsh economy. We are in the twenty-first century and, just recently, Dubai airport has taken over as the world's best airport—better than Heathrow. So, we should compete, and aviation is the future of national prosperity. Thank you.

Mae cysylltiadau trafndiaeth effeithiol yn parhau i fod yn hanfodol i lwyddiant unrhyw faes awyr. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dal i ddefnyddio car i gyrraedd Maes Awyr Caerdydd, ar hyd ffordd A, a dim ond 2% o deithwyr sy'n cyrraedd ar y trên a'r bws—gwasanaethau sy'n cael cymhorthdal sylweddol. Mae'n ffaith fod Maes Awyr Caerdydd, o dan reolaeth y wladwriaeth, yn dal i fethu cyflawni ei rôl ganolog yn tyfu economi Cymru. Gwariodd Llywodraeth Cymru £52 miliwn ar brynu'r maes awyr. Ers hynny, darparwyd benthyciad pellach o £10 miliwn ar gyfer moderneiddio, a £3 miliwn ar gyfer datblygu llwybrau. Faint yn fwy o arian a gaiff ei wario, Lywydd, cyn i Lywodraeth Cymru sylweddoli nad oes ganddi gynllun, na strategaeth nac unrhyw syniad sut i ddatblygu Maes Awyr Caerdydd?

Rydym wedi amlinellu cynllun pum pwynt i droi Maes Awyr Caerdydd yn ôl i fod yn fusnes sy'n gwneud elw yn seiliedig ar yr egwyddor o ddarparu dididend economaidd i'r trethdalwr. Mae ein cynllun pum pwynt ar gyfer twf yn targedu'r heriau penodol sy'n wynebu'r maes awyr ar hyn o bryd. Mae ein cynllun yn cynnwys creu rôl cyfarwyddwr cwmnïau hedfan i gyfarwyddo a chydlynu ein strategaeth hedfan. Mae angen i ni ddatblygu strategaeth farchnata effeithiol a gweithrediadau cludo nwyddau yn yr awyr. Byddai'r cyswllt trafndiaeth yn cael ei wella a byddem yn ymgynghori ar y ffordd orau o ddefnyddio toll teithwyr awyr, pe bai'n cael ei datganoli.

Yn y tymor hir, credwn ei bod yn hanfodol i Faes Awyr Caerdydd gael ei ddychwelyd i'r sector preifat. Lywydd, mae ein hymagwedd yn cynnig strategaeth a fydd yn caniatáu i Faes Awyr Caerdydd dyfu a ffynnu. Mae'n cyferbynnu'n llwyr â'r diffyg polisi a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Galwaf ar y Gweinidog ar gyfer Cymru i fabwysiadu ein cynnig a gadael i Faes Awyr Caerdydd gymryd ei le priodol fel un o beiriannau economi Cymru. Rydym yn y unfed ganrif ar hugain ac yn ddiweddar, mae maes awyr Dubai wedi ennill statws maes awyr gorau'r byd—gwell na Heathrow. Felly, dylem gystadlu, a hedfan yw dyfodol ffyniant cenedlaethol. Diolch yn fawr.

15:35 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The first point I want to make, and repeat, which others have said today, is that, if the Welsh Government hadn't bought the airport when it did, it's very likely that the airport would have closed. And everybody here has said today everybody's supporting the airport. Obviously, the Conservatives initially opposed the Welsh Government buying the airport; now, they're saying they are supporting it. But—

Y pwynt cyntaf rwyf am ei wneud, a'i ailadrodd, fel y mae eraill wedi'i ddweud heddiw, yw ei bod hi'n debygol iawn y byddai'r maes awyr wedi cau pe na bai Llywodraeth Cymru wedi prynu'r maes awyr pan wnaeth hynny. Ac mae pawb yma wedi dweud heddiw fod pawb yn cefnogi'r maes awyr. Yn amlwg, roedd y Ceidwadwyr yn wreiddiol yn gwrthwynebu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn prynu'r maes awyr; erbyn hyn, maent yn dweud eu bod yn ei gefnogi. Ond—

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:35 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:35 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Are you taking an intervention?

A ydych yn derbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:35 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No; I've only just started, thank you.

Nac ydw; newydd ddechrau ydw i, diolch.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

But, I think we all agree that we need the airport to thrive, and we need it for the employment, and we need it as a vital part of the economic strategy for the country. I think the best thing for the Conservative opposition to do is to throw itself behind the airport, and show its support, and not whinge on, which I think does undermine the airport.

Sometimes, when I'm out knocking the doors, and talking to people, they have picked up some of your propaganda, and they say to me, 'Why didn't you put £52 million into the health service, instead of putting it into the airport?'. I think it's really important that we get the message out that health and the economy, and a prosperous south Wales are absolutely interrelated, and that there is no conflict. And that certainly is a message that I think all our parties should get out to the public.

The Conservative motion says that the airport should be returned to the private sector, and I believe that would be, ultimately, the intention of the Government. But, again, I think that it's upsetting, really, to hear again this old public-private sector argument that the opposition does bring up. Because it is important to remember that the airport was in the private sector when it was failing, before the Government stepped in and bought it.

Like Mick Antoniw, I was a member of South Glamorgan County Council when the airport was owned by the three Glamorgans. And, really, I think that the present problems all arise from the huge error of judgment made by John Redwood, who forced the hands of the three Glamorgans to sell the airport. Because, in his view, anything public was bad, and all private was good. That was his radical right agenda. And, of course, initially—I think Mick Antoniw made this point—things did go well in the private sector, when it was part of a local, Wales-based company in TBI, with Stan Thomas, Keith Brooks, and, of course, Jon Horne as the airport manager. I was sorry to hear that Jon Horne has actually moved on now. But, things did deteriorate when TBI was taken over by the Spanish company that also owned Luton airport, when really their interest was in Luton, and, after that, Cardiff Airport was always sort of treated as second rate.

The other point is that, of course, airports in the public sector can succeed. Well, obviously the outstanding example is Manchester Airport, because it continues in local authority ownership to this day. It's really an outstanding example of public enterprise in the UK, because it's, of course, owned by the 10 local authorities of the old Greater Manchester Metropolitan County Council—wound up by Thatcher, of course, in the mid 1980s. But the airport has really helped the 10 councils to stick together, to the point where, recently, George Osborne has actually heaped praise on the greater Manchester combined authority. I think the success of the airport has kept those councils working together. I mean, I know it's difficult to compare Manchester with Cardiff, because it's a much bigger catchment area there, but they also do have quite a lot of competition from the John Lennon airport in Liverpool. So, I think it is an outstanding example of how a public-owned airport can succeed.

Ond rwy'n credu ein bod i gyd yn cytuno bod arnom angen i'r maes awyr ffynnu, mae arnom ei angen ar gyfer cyflogaeth, ac mae arnom ei angen fel rhan hanfodol o'r strategaeth economaidd ar gyfer y wlad. Rwy'n meddwl mai'r peth gorau i'r wrthblaid Geidwadol ei wneud yw hybu'r maes awyr, a dangos ei chefnogaeth, yn hytrach na chwyno, sy'n tansellio'r maes awyr, rwy'n credu.

Weithiau, pan wyf i allan yn curo ar ddrysau, ac yn siarad â phobl, maent wedi codi peth o'ch propaganda, ac yn dweud wrthyf, 'Pam na roesoch £52 miliwn tuag at y gwasanaeth iechyd, yn hytrach na'i wario ar y maes awyr?'. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn inni gael y neges allan fod iechyd a'r economi, a de Cymru lewyrchus yn gwbl gydberthynol, ac nad oes unrhyw wrthdaro. Ac mae honno'n bendant yn neges rwy'n credu y dylai ein holl bleidiau ei chyfleu i'r cyhoedd.

Mae cynnig y Ceidwadwyr yn dweud y dylai'r maes awyr gael ei ddychwelyd i'r sector preifat, ac rwy'n credu mai hynny, yn y pen draw, fyddai bwriad y Llywodraeth. Ond unwaith eto, testun gofid yn fy marn i yw clywed y hen ddadl sector cyhoeddus sector preifat y mae'r wrthblaid yn ei gwyntyllu unwaith eto. Oherwydd mae'n bwysig cofio bod y maes awyr yn y sector preifat pan oedd yn methu, cyn i'r Llywodraeth gamu i mewn a'i brynu.

Fel Mick Antoniw, roeddwn yn aelod o Gyngor Sir De Morgannwg pan oedd y maes awyr yn eiddo i'r tair Morgannwg. Ac yn wir, rwy'n meddwl bod y problemau presennol i gyd yn deillio o gamgymeriad enfawr a wnaed gan John Redwood, a orfododd y tair Morgannwg i werthu'r maes awyr. Oherwydd, yn ei farn ef, roedd unrhyw beth cyhoeddus yn ddrwg, a phopeth preifat yn dda. Dyna oedd ei agenda adain dde radical. Ac wrth gwrs, yn y lle cyntaf-rwy'n meddwl bod Mick Antoniw wedi gwneud y pwynt-aeth pethau'n dda yn y sector preifat, pan oedd yn rhan o gwmni lleol TBI, yn seiliedig yng Nghymru, gyda Stan Thomas, Keith Brooks, a Jon Horne, wrth gwrs, yn rheolwr y maes awyr. Roedd hi'n flin gennyf glywed bod Jon Horne wedi symud ymlaen bellach. Ond dirywodd pethau pan gafodd TBI ei gymryd drosodd gan y cwmni Sbaeneg a oedd hefyd yn berchen ar faes awyr Luton, er mai Luton oedd eu gwir ddiddordeb mewn gwirionedd, a byth ar ôl hynny, câi Maes Awyr Caerdydd ei drin braidd yn eilradd.

Y pwynt arall, wrth gwrs, yw y gall meysydd awyr yn y sector cyhoeddus lwyddo. Wel, yr enghraifft ragorol mae'n amlwg yw Maes Awyr Manceinion, gan ei fod yn parhau ym mherchnogaeth awdurdodau lleol hyd heddiw. Mae'n enghraifft wirioneddol ragorol o fenter gyhoeddus yn y DU, am ei fod, wrth gwrs, yn eiddo i 10 awdurdod lleol hen gyngor sir Metropolitaidd Manceinion Fwyaf—y rhoddodd Thatcher ddiwedd arno, wrth gwrs, yng nghanol y 1980au. Ond mae'r maes awyr wedi helpu'r 10 cyngor i lynu gyda'i gilydd, i'r fath raddau fel bod George Osborne yn wir wedi rhoi clod ysgubol yn ddiweddar i awdurdod cyfunol Manceinion Fwyaf. Rwy'n meddwl bod llwyddiant y maes awyr wedi cadw'r cynghorau hyn i weithio gyda'i gilydd. Hynny yw, gwn ei bod yn anodd cymharu Manceinion a Chaerdydd, am ei fod yn ddalgylch llawer mwy, ond maent hefyd yn wynebu cryn dipyn o gystadleuaeth gan faes awyr John Lennon yn Lerpwl. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn enghraifft ragorol o sut y gall maes awyr sy'n eiddo cyhoeddus lwyddo.

So, I'm thoroughly behind the fact that the Government have bought the airport. I think it would have closed if this hadn't happened, and I think that the opposition should also throw themselves wholeheartedly behind the airport, instead of the constant whingeing we've heard. They say they want it to succeed. They initially opposed it, they've obviously changed their mind, and I think that we need to hear from them really wholehearted support, because it is absolutely vital to our economy.

Felly, rwy'n llwyr gefnogi'r ffaith fod y Llywodraeth wedi prynu'r maes awyr. Rwy'n credu y byddai wedi cau pe na bai hynny wedi digwydd, ac rwy'n meddwl y dylai'r wrthblaid hefyd roi ei chefnogaeth lwyr i'r maes awyr, yn hytrach na'r swmian cyson a glywsom. Maent yn dweud eu bod am iddo lwyddo. Roeddent yn ei wrthwynebu ar y cychwyn, maent yn amlwg wedi newid eu meddyliau, ac rwy'n meddwl bod angen i ni glywed cefnogaeth wirioneddol ddiffuant ganddynt, gan fod y maes awyr yn gwbl hanfodol i'n heconomi.

15:39

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Welsh Government continues to refuse to outline their plans for Cardiff Airport. Having committed to Government intervention, it is essential that a clear and comprehensive strategy for the airport is implemented as soon as possible. It is clear that the airport is struggling and with the airport, it is vital that we address these issues. Quite simply, we need to know what the Welsh Government are doing. Are they focusing on short, continental tourist routes or more long-haul flights?

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wrthod amlinellu ei chynlluniau ar gyfer Maes Awyr Caerdydd. Ar ôl ymrwymo i ymyrraeth y Llywodraeth, mae'n hanfodol fod strategaeth glir a chynhwysfawr ar gyfer y maes awyr yn cael ei rhoi ar waith cyn gynted â phosibl. Mae'n amlwg fod y maes awyr yn cael trafferth ac mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â'r materion hyn. Yn syml iawn, mae angen i ni wybod beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud. A ydynt yn canolbwyntio ar lwybrau twristaidd byr, cyfandirol neu hediadau pellter hwy?

Since its purchase, Cardiff Airport has seen very little in terms of development and expansion. With falling passenger numbers, a lack of route options and poor infrastructure, the airport fails to compete with others and risks slowly slipping into further decline.

Ers ei brynu, ychydig iawn o ddatblygu ac ehangu a fu ar Faes Awyr Caerdydd. Gyda niferoedd teithwyr yn gostwng, diffyg dewis o lwybrau a seilwaith gwael, mae'r maes awyr yn methu cystadlu â meysydd awyr eraill ac mae'n wynebu'r perygl o lithro i ddirywiad pellach.

Sadly, the airport has seen a steady reduction in its passenger numbers, since its peak in 2007 of over 2 million passengers. For example, in November 2014, Cardiff Airport served nearly 20% fewer passengers than the previous November. These are some of the lowest numbers since 2000, highlighting the ever-pressing need to discuss future developments for the airport.

Yn anffodus, cafwyd gostyngiad cyson yn niferoedd teithwyr y maes awyr ers ei uchafbwynt yn 2007 o dros 2 filiwn o deithwyr. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2014, aeth bron i 20% yn llai o deithwyr drwy Faes Awyr Caerdydd na'r mis Tachwedd blaenorol. Dyma rai o'r niferoedd isaf ers 2000, sy'n amlygu'r angen cyson i drafod datblygu'r maes awyr ar gyfer y dyfodol.

Low passenger numbers are not the only problem, but are a far from encouraging result of the airport's current inadequacy. Their consistent decline is a strong indicator that Cardiff Airport is struggling to compete and is in need of a clear direction for growth.

Nid nifer isel y teithwyr yw'r unig broblem, ond maent yn bell o fod yn ganlyniad calonogol i annigonolrwydd cyfredol y maes awyr. Mae eu dirywiad cyson yn ddangosydd cryf fod Maes Awyr Caerdydd yn cael trafferth i gystadlu ac angen cyfeiriad clir ar gyfer twf.

Simply, the problem lies with the lack of connectivity through major international hubs, which makes south Wales an unattractive location for international businesses.

Yn syml, deillia'r broblem o ddiffyg cysylltedd drwy ganolfannau awyr rhyngwladol o bwys, sy'n gwneud de Cymru yn lleoliad anneniadol ar gyfer busnesau rhyngwladol.

At present, Cardiff Airport has approximately 39 direct flights to regional and European destinations and boasts over 900 connections. However, flights are not consistent, with many operating on a once-a-week basis, meaning that there is little flexibility for travellers, particularly business travellers.

Ar hyn o bryd, mae gan Faes Awyr Caerdydd tua 39 o hediadau uniongyrchol i gyrchfannau rhanbarthol ac Ewropeaidd ac mae'n brolio bod ganddo fwy na 900 o gysylltiadau. Fodd bynnag, nid yw'r hediadau'n gyson, gyda llawer yn gweithredu ar sail unwaith yr wythnos, sy'n golygu nad oes llawer o hyblygrwydd i deithwyr, yn enwedig teithwyr busnes.

We should take the lead from the Heathrow hub, which recognises that a hub airport is uniquely important to establishing long-haul flights and will complement Cardiff Airport, as transfer passengers allow airlines to fly to more destinations, more frequently than could be supported by local demand alone. In December last year, the First Minister said:

Dylem ddysgu o arweiniad maes awyr canolog Heathrow, sy'n cydnabod bod maes awyr canolog yn hollbwysig er mwyn sefydlu hediadau pellter hir a bydd yn ategiad i Faes Awyr Caerdydd, gan fod teithwyr sy'n trosglwyddo yn caniatáu i gwmnïau awyrennau hedfan i fwy o gyrchfannau, yn amlach nag y gellid ei gefnogi gan alw lleol ar ei ben ei hun. Ym mis Rhagfyr y llynedd, dywedodd y Prif Weinidog:

'I think the strength of the airport lies in particular in long-haul flights.'

So, it would appear that his intentions are to focus on the long-haul route. Yet, last month, the Cardiff-Norwich route was announced and, currently, we are waiting to hear from the European Commission regarding the legitimacy of this route. In the meantime, further information is needed on this use of state-aid money to fund a route of this kind, and how the route to Norwich can be considered a public service obligation.

The First Minister also stated that the Welsh Government,

'are looking at ways of enhancing the long-haul offer from Cardiff, but it is probably right to say that we are looking in other directions at the moment, rather than a straight flight to the eastern seaboard of the states.'

I would acknowledge the sensitivity that surrounds discussion with airlines, but, as advised by the Enterprise and Business Committee previously, there is a need to establish a direct link to an airport hub, such as New York and Dubai. This would set Cardiff Airport apart from its nearest competitor, Bristol, which, at present, offers no direct flights to North America or the middle east. There is potential to widen Cardiff's runway to accommodate an Airbus A380, the world's largest passenger airplane, with wings made in north Wales.

Good infrastructure and ease of access are vital to the long-term success of this airport. Access to the airport from the M4 is provided by a series of A-roads, particularly the A4226, Five Mile Lane—sadly, a tortuous route with some recent fatalities. The M4 relief road would open up further markets from Monmouthshire, Forest of Dean and even Bristol, as outlined more recently in the Great Western Cities, publicised yesterday. In a 2008 Government consultation regarding access to the airport, numerous problems were identified with the airport's accessibility, yet these much needed improvements have yet to be implemented.

The Welsh Conservatives' strategy aims to raise the value of the airport to £208 million—four times what the purchase price was. Cardiff has huge potential to tap into new markets with sound airport infrastructure, including a runway with the potential to offer long-haul flights as well as our commitment to invest. We need to develop the air freight operation. Indeed, air freight operations fell by 98% between 2008 and 2010. We would support local, national and international businesses in approaching Cardiff Airport for freight operations, and look into developing a real air-freight hub operation.

'Rwy'n meddwl bod cryfder y maes awyr i'w weld yn arbennig mewn hediadau pellter hir.'

Felly, byddai'n ymddangos mai ei fwriad yw canolbwyntio ar hediadau pellter hir. Eto i gyd, y mis diwethaf, cyhoeddwyd llwybr Caerdydd-Norwich ac ar hyn o bryd, rydym yn aros i glywed gan y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch cyfreithlondeb y llwybr hwnnw. Yn y cyfamsar, mae angen rhagor o wybodaeth am y defnydd hwn o gymorth y wladwriaeth i ariannu llwybr o'r math hwn, a'r modd y gellid ystyried y llwybr i Norwich yn rhwymedigaeth gwasanaeth cyhoeddus.

Dyweddod y Prif Weinidog hefyd fod Llywodraeth Cymru,

'yn ystyried ffyrdd o wella'r cynnig o deithiau pell o Gaerdydd, ond mae'n debyg ei bod yn iawn i ddweud ein bod yn edrych i gyfeiriadau eraill ar hyn o bryd, yn hytrach na thaith uniongyrchol i arfordir dwyreiniol yr Unol Daleithiau.'

Byddwn yn cydnabod y sensitifrwydd sy'n gysylltiedig â thrafodaethau gyda chwmnïau hedfan, ond yn ôl cyngor y Pwyllgor Menter a Busnes yn flaenorol, mae angen sefydlu cyswllt uniongyrchol â maes awyr canolog, megis Efrog Newydd a Dubai. Byddai hyn yn gosod Maes Awyr Caerdydd ar wahân i'w gystadleuydd agosaf, Bryste, nad yw ar hyn o bryd yn cynnig unrhyw hediadau uniongyrchol i Ogledd America neu'r dwyrain canol. Mae potensial i ehangu rhedfa Caerdydd i ddarparu ar gyfer Airbus A380, awyren fwyaf y byd i deithwyr, gydag adenydd a wnaed yng ngogledd Cymru.

Mae seilwaith da a rhywddineb mynediad yn hanfodol i lwyddiant hirdymor y maes awyr hwn. Mae mynediad i'r maes awyr o'r M4 yn cael ei ddarparu gan gyfres o ffyrdd A, yn enwedig yr A4226, Five Mile Lane—llwybr troellog, yn anffodus, gyda rhai damweiniau angheuol yn ddiweddar. Byddai ffordd liniaru'r M4 yn agor marchnadoedd pellach o Sir Fynwy, Fforest y Ddena a hyd yn oed Bryste, fel yr amlinellwyd yn fwy diweddar yn y Great Western Cities, a gafodd gyhoeddusrwydd ddoe. Mewn ymgyngoriad gan y Llywodraeth yn 2008 ynglŷn â mynediad i'r maes awyr, nodwyd nifer o broblemau gyda hygyrchedd y maes awyr, ac eto mae'r gwelliannau mawr eu hangen hyn yn dal heb eu gweithredu.

Mae strategaeth y Ceidwadwyr Cymreig yn anelu i godi gwerth y maes awyr i £208 miliwn—bedair gwaith y pris prynu. Mae gan Gaerdydd botensial enfawr i fanteisio ar farchnadoedd newydd gyda seilwaith maes awyr cadarn, gan gynnwys rhedfa â'r potensial i gynnig hediadau pellter hir yn ogystal â'n hymrwymiad i fuddsoddi. Mae angen inni ddatblygu gweithrediadau cludo nwyddau yn yr awyr. Yn wir, cafwyd gostyngiad o 98% yn y gweithrediadau cludo nwyddau yn yr awyr rhwng 2008 a 2010. Byddem yn cynorthwyo busnesau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i fynd i Faes Awyr Caerdydd ar gyfer gweithrediadau cludo nwyddau, ac yn edrych ar ddatblygu canolfan go iawn ar gyfer cludo nwyddau yn yr awyr.

We also need to protect our aerospace industry and ensure the airport has potential for future business travel growth. The St Athan aerospace business park has been a base for aerospace activity for more than a century. The site has a newly resurfaced 1,800m-plus runway, but it lacks a category 1 level 3 instrument landing system—it only has category 1 at the moment, and, therefore, not really full airfield support.

Our five-point plan for growth will ensure a return to profit for Cardiff Airport. When the airport can once again generate enough profit to be seen as a viable business investment, it can be returned to the private sector.

The Welsh Government need to get this right. On the one hand we have the chief of staff advocating long haul as the key to success, but the Welsh Government continues to procrastinate. With better marketing and accessibility, and by listening to what passengers and the industry want, Cardiff Airport could really fly.

Mae angen inni hefyd amddiffyn ein diwydiant awyrfod a sicrhau bod potensial i deithiau busnes dyfu yn y dyfodol. Mae parc busnes awyrfod Sain Tathan wedi bod yn ganolfan ar gyfer gweithgareddau awyrfod ers dros ganrif. Mae gan y safle redfa 1,800m a hwy sydd newydd gael wyneb newydd, ond nid oes ganddo system offer glanio categori 1 lefel 3—categori 1 yn unig sydd ganddo ar y foment ac felly, nid oes ganddo gynhalieth maes awyr llawn mewn gwirionedd.

Bydd ein cynllun pum pwynt ar gyfer twf yn sicrhau bod Maes Awyr Caerdydd yn ailddechrau gwneud elw. Pan fydd y maes awyr yn gallu cynhyrchu digon o elw unwaith eto i gael ei weld fel buddsoddiad busnes hyfyw, gellir ei ddychwelyd i'r sector preifat.

Mae angen i Lywodraeth Cymru gael hyn yn iawn. Ar y naill law mae genym y pennaeth staff yn argymhell hediadau pellter hir fel yr allwedd i lwyddiant, ond mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ohirio. Gyda marchnata a hygyrchedd gwell, a thrwy wrando ar yr hyn y mae teithwyr a'r diwydiant ei eisiau, gallai Maes Awyr Caerdydd hedfan o ddirif.

15:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I now call on the Minister for Economy, Science and Transport to speak on behalf of the Government—Edwina Hart.

Galwaf yn awr ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i siarad ar ran y Llywodraeth—Edwina Hart.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:45 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Thank you very much indeed, Presiding Officer. As Members are aware, Cardiff Airport is not operated by the Welsh Government. It's managed at arm's length from the Government on a commercial basis. It is, therefore, a commercial company, so, therefore, I am unable to accept the motion that has been tabled for debate today. Furthermore, accepting the motion would mean divulging commercial information that we're not in a position to share. This is a company that operates in a very competitive commercial environment. Now, it's not my nature to be churlish, as you know, in the Assembly, but when I did listen to Byron Davies opening the debate today—. You know, I don't actually believe leopards ever change their spots and the wholesale opposition we've had in the main from the Tory party about the purchase of the airport has been there from day one. We've had it because they didn't like the fact that we were taking it over, even though it was a failing enterprise. They didn't seem to then care about the jobs. They didn't care about the reputation of Wales and they didn't really see it as an economic lever. Now, if this is a genuine attempt to be helpful, I will certainly look at their proposals in respect of the airport and forward them on, quite rightly then, to the board of the airport to look at how they could link the suggestions made by the Welsh Conservatives into the proposals the board are likely to be undertaking.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Fel y gŵyr yr Aelodau, nid yw Maes Awyr Caerdydd yn cael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cael ei reoli hyd braich oddi wrth y Llywodraeth ar sail fasnachol. Felly, cwmni masnachol ydyw, felly ni allaf dderbyn y cynnig a gyflwynwyd i'w drafod heddiw. Ymhellach, byddai derbyn y cynnig yn golygu datgelu gwybodaeth fasnachol nad ydym mewn sefyllfa i'w rhannu. Mae hwn yn gwmni sy'n gweithredu mewn amgylchedd masnachol cystadleuol iawn. Yn awr, nid yw yn fy natur i fod yn anfoesgar yn y Cynulliad, fel y gwyddoch, ond pan oeddwn yn gwrandao ar Byron Davies yn agor y ddadl heddiw—. Wyddoch chi, nid wyf yn credu mewn gwirionedd fod llewpardïaid yn newid eu smotiau ac mae'r gwrthwynebiad llwyr a gawsom, gan y blaid Doriaidd yn bennaf, ynglŷn â phrynu'r maes awyr wedi bod yno o'r diwrnod cyntaf. Rydym wedi ei gael oherwydd nad oeddent yn hoffi'r ffaith ein bod yn ei gymryd drosodd, er ei bod yn fenter a oedd yn methu. Nid oeddent i'w gweld yn poeni am y swyddi ar y pryd. Nid oeddent yn poeni am enw da Cymru ac nid oeddent wir yn ei weld fel sbardun economaidd. Yn awr, os yw hon yn ymgais wirioneddol i helpu, rwy'n sicr yn edrych ar eu cynigion o ran y maes awyr ac yn eu hanfon ymlaen, yn gwbl briodol felly, i fwrdd y maes awyr i edrych i weld sut y gallent gysylltu'r awgrymiadau a wnaed gan y Ceidwadwyr Cymreig â'r cynigion y mae'r bwrdd yn debygol o'u gwneud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I very much appreciate the genuine comments that have been made by others in the Chamber seeking to be helpful in terms of how they see the importance of the airport to the Welsh economy and the wider areas in Wales. If I can turn to the first amendment from Plaid Cymru, I was very positive about the contribution that Rhun ap Iorwerth made. From day one, Plaid Cymru has been positive but a critical friend in terms of the airport, recognising its importance in terms of economic development, but also understanding what the issues are. Also as well, he raised private ownership and he knows that is one of the areas about looking for the future in partnership, and Eluned Parrott said the same. Obviously, there are issues around that. There have been discussions on that and that is something that we are looking to in the long term. I think, probably, the speakers today, a lot of you understand the market has been consolidating not expanding actually in terms of what we're doing in the airline business. We do have to recognise the importance of the airport for the life of Wales and for some broader issues.

If I can turn to amendment 2 in the name of Aled Roberts, I'm afraid that, as far as I'm concerned, the commercial state of the airport and its future was fully considered as part of the due diligence process. So, I will not be accepting that amendment, but can I say I will be very much supporting your other amendment? You've been very consistent about the devolution of long haul air passenger duty, which was recommended by Silk. Obviously, we'll continue to argue the case there. I think it is very important for us to recognise that we are looking very carefully at what the airport undertakes, but we are being guided by the board in terms of how they want to take issues forward.

In terms of the final amendment from Plaid Cymru, it is with regret that I will be opposing that, only, to be honest with you, as point a) is a matter for the airport board, not a matter for me. The other two points are very valid indeed in terms of the Government's perspective on this agenda.

We think we have to recognise, and I think Julie Morgan has really eloquently outlined the history of the airport, what's happened with airports in public ownership elsewhere, and the worst day's work ever was when the local authorities lost control of that airport. That airport was then a very solid investment; it was working and functioning well. Let us not forget the fact that, when it was last in private ownership before we took it over, it was plummeting downwards. People would complain to us all the time about standards in the airport. Now, that's going to take time to reverse in terms of climbing up. The airport board have been making substantial improvements to the infrastructure and the overall experience of passengers since we've started. Lord Rowe-Beddoe and the board have been very keen to recognise they've got to turn around that decline, and they've been taking many strategic decisions. I know about the figures about the airport passengers, but if you go out to the airport, as I do, and you meet people, they are pleased with the improvements, and they are delighted when we have more new flights.

Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr iawn y sylwadau dilys a wnaed gan eraill yn y Siambr sy'n ceisio helpu o ran sut y maent yn gweld pwysigrwydd y maes awyr i economi Cymru a'r ardaloedd ehangach yng Nghymru. Os gallaf droi at welliant cyntaf Plaid Cymru, roeddwn yn gadarnhaol iawn ynghylch cyfraniad Rhun ap Iorwerth. O'r diwrnod cyntaf, mae Plaid Cymru wedi bod yn gadarnhaol ond yn gyfaill beirniadol o ran y maes awyr, gan gydnabod ei bwysigrwydd o ran datblygu economaidd, ond gan ddeall hefyd beth yw'r problemau. Yn ogystal, tynnodd sylw at berchnogaeth breifat ac mae'n gwybod mai dyna un o'r meysydd lle y gellir edrych am ddyfodol mewn partneriaeth, a dywedodd Eluned Parrott yr un peth. Yn amlwg, mae problemau'n gysylltiedig â hynny. Cafwyd trafodaethau ar hynny ac mae'n rhywbeth rydym yn awyddus i'w ystyried yn y tymor hir. Yn ôl pob tebyg, rwy'n meddwl bod y siaradwyr heddiw, bod llawer ohonoch yn deall bod y farchnad wedi bod yn atgyfnerthu, nid yn ehangu mewn gwirionedd o ran yr hyn rydym yn ei wneud yn y busnes hedfan. Mae'n rhaid i ni gydnabod pwysigrwydd y maes awyr i fywyd Cymru ac ar gyfer rhai materion ehangach.

Os gall droi at welliant 2 yn enw Aled Roberts, yn anffodus, o'm rhan i, rwy'n ofni bod cyflwr masnachol y maes awyr a'i ddyfodol wedi cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r broses ddiwydrwydd dyladwy. Felly, ni fyddaf yn derbyn y gwelliant hwnnw, ond a gaf fi ddweud y byddaf yn cefnogi eich gwelliant arall yn fawr iawn? Rydych chi wedi bod yn gyson iawn ynghylch datganoli toll teithwyr awyr ar gyfer hediadau pellter hir, a gafodd ei argymhell gan Silk. Yn amlwg, byddwn yn parhau i ddadlau'r achos ar hynny. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i ni gydnabod ein bod yn edrych yn ofalus iawn ar yr hyn y mae'r maes awyr yn ei wneud, ond rydym yn cael ein harwain gan y bwrdd o ran sut y maent am symud y materion yn eu blaenau.

O ran gwelliant olaf Plaid Cymru, mae'n ofid gennyf ddweud y byddaf yn gwrthwynebu hwnnw, a'r unig reswm am hynny i fod yn onest gyda chi, yw bod pwynt a) yn fater i fwrdd y maes awyr, nid i mi. Roedd y ddau bwynt arall yn ddilys iawn yn wir o ran safbwynt y Llywodraeth ar yr agenda hon.

Rydym yn meddwl bod yn rhaid i ni gydnabod, ac rwy'n meddwl bod Julie Morgan wedi amlinellu hanes y maes awyr yn wirioneddol huawdl, yr hyn sydd wedi digwydd gyda meysydd awyr sy'n eiddo cyhoeddus mewn mannau eraill, a'r diwrnod o waith gwaethaf erioed oedd pan gollodd yr awdurdodau lleol reolaeth ar y maes awyr. Roedd y maes awyr ar y pryd yn fuddsoddi cadarn iawn; roedd yn gweithio ac yn gweithio'n dda. Gadewch inni beidio ag anghofio'r ffaith ei fod yn plymio ar i lawr pan oedd mewn perchnogaeth breifat ddiwethaf cyn i ni ei gymryd drosodd. Byddai pobl yn cwyno wrthym drwy'r amser am safonau yn y maes awyr. Yn awr, mae hynny'n mynd i gymryd amser i'w wella o ran dringo i fyny. Mae bwrdd y maes awyr wedi bod yn gwneud gwelliannau sylweddol i'r seilwaith a phrofiad cyffredinol teithwyr ers i ni ddechrau. Mae'r Arglwydd Rowe-Beddoe a'r bwrdd wedi bod yn awyddus iawn i gydnabod bod yn rhaid iddynt osgoi'r dirywiad, ac maent wedi bod yn gwneud llawer o benderfyniadau strategol. Rwy'n gwybod am niferoedd teithwyr y maes awyr, ond os ewch i'r maes awyr, fel rwy'n ei wneud, a chyfarfod â phobl, maent yn fodlon â'r gwelliannau, ac maent yn falch iawn pan fo gennym fwy o deithiau newydd.

Now, if we can turn to some of the issues, there was a commercial loan to the airport in November 2013 to support the delivery of their business plan. There's also additional money been given as well for the budget year 2015-16 so we can deal with issues, and we have seen some improvements in some of the flights. There has been a lot of stuff spoken about what's not right on the airport and what's going on. In particular, I was quite amused by some of the comments about the Cardiff-Norwich service. So, can we put the record straight? We're not paying for or in any way subsidising Links Air's flights between Norwich and Cardiff. Our contract with Links Air ensures that only flights from Cardiff to Ynys Môn receive a subsidy. That is totally in accordance with the relevant EU regulations. The tendering process did encourage bidders to develop commercial routes to complement the PSO at the sole financial responsibility of the bidder. Can I also say as well that the report that the Public Accounts Committee did into some of these issues also proved very helpful in us actually dealing with this particular contract this time round?

There's a lot been made of the accessibility of the airport, and I think it's important to recognise there are improvements in the infrastructure being undertaken. They might not be ideal, and, in the long-term, if the airport gets more business in, we might have to look at future improvements in terms of the infrastructure. But, in terms of other issues with regard to the airport, people talk a lot about the purchase price. The purchase price was a decision of £52 million within a range of values that was acceptable to us. We tried to stop the downward spiral, hence the purchase. In the future, let's very much hope, when the passenger numbers improve and things happen with the airport, that we'll look at a greater valuation in terms of the airport, but the airport's valuation is linked to their cash position and potential, so you've got to look at airport valuations in quite a different way. So, think it's important to recognise the airport's been rescued, and the board is taking action.

Yn awr, os gallwn droi at rai o'r problemau, cafodd y maes awyr fenthyciad masnachol ym mis Tachwedd 2013 i gefnogi'r gwaith o gyflawni eu cynllun busnes. Rhoddwyd arian ychwanegol hefyd ar gyfer y flwyddyn gyllidebol 2015-16 er mwyn i ni ddelio â phroblemau, ac rydym wedi gweld rhai gwelliannau mewn perthynas â rhai o'r hediadau. Cafodd llawer o bethau eu dweud am beth sydd o'i le ar y maes awyr a'r hyn sy'n digwydd. Yn benodol, roedd rhai o'r sylwadau am wasanaeth Caerdydd-Norwich yn destun peth difyrwch i mi. Felly, a gawn ni egluro'r sefyllfa? Nid ydym yn talu am hediadau Links Air rhwng Norwich a Chaerdydd, nac yn rhoi unrhyw fath o gymhorthdal iddynt. Mae ein contract gyda Links Air yn sicrhau mai hediadau o Gaerdydd i Ynys Môn yn unig sy'n cael cymhorthdal. Mae hynny'n cydymffurfio'n llwyr â rheoliadau perthnasol yr Undeb Ewropeaidd. Fe anogodd y broses dendro gynigwyr i ddatblygu llwybrau masnachol i ategu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n gyfrifoldeb ariannol y cynigydd yn llwyr. A gaf fi ddweud hefyd fod yr adroddiad a luniodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar rai o'r materion hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn mewn gwirionedd i ni allu ymdrin â'r contract penodol hwn y tro hwn?

Mae llawer wedi'i wneud o hygyrchedd y maes awyr, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cydnabod bod gwelliannau yn cael eu gwneud i'r seilwaith. Efallai nad ydynt yn ddelfrydol, ac yn y tymor hir, os yw'r maes awyr yn denu mwy o fusnes, efallai y bydd yn rhaid inni edrych ar welliannau yn y dyfodol o ran y seilwaith. Ond mewn perthynas â materion eraill sy'n ymwneud â'r maes awyr, mae pobl yn siarad llawer am y pris prynu. Penderfynwyd ar y pris prynu o £52 miliwn o fewn ystod o werthoedd a oedd yn dderbyniol i ni. Fe geision ni atal y dirywiad, a dyna'r rheswm dros y pryniant. Yn y dyfodol, gadewch i ni obeithio'n fawr, pan fydd nifer y teithwyr yn gwella a phethau'n digwydd gyda'r maes awyr, y byddwn yn edrych ar brisiad uwch o ran y maes awyr, ond mae prisiad y maes awyr yn gysylltiedig â'u sefyllfa a'u potensial ariannol, felly mae'n rhaid i chi edrych ar brisiadau meysydd awyr mewn ffordd go wahanol. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig cydnabod bod y maes awyr wedi ei achub, a bod y bwrdd yn gweithredu.

Now, I have obviously discussed the concerns that Members raised with me with the chair of the board. The chair of the board is more than happy, if it will help in terms of Members' understanding of what the board is undertaking, for board members and himself as chair to brief Assembly Members directly on the issues surrounding the airport and where we're going, and I'd be more than happy to facilitate that. So, it's important to recognise that we're doing a lot in that area. People talk about how we're selling Wales, what passenger numbers are. We're looking at expanding existing routes, and attracting new routes. You know, we even go to the Arabian Travel Market and the World Routes conference to try and attract routes, and that's what you've got to do. Also as well, I think it's what Mick Antoniw said: we're not actually sometimes in competition with other airports; it's the collective that we can actually deal with in terms of how we work together, because the important thing is this part of the country should be served by routes, and we've only got to look at the issues about capacity now in Heathrow if there is not a third runway, and what opportunities—. Now, we've had discussions with Heathrow. We do know where that's going, and I can assure you that the board takes its responsibilities very seriously to regard the issues around the airport. So, I obviously thank Members for the contributions that they have made on this. I will certainly review the Record on their contributions, because it is important to recognise that we all have something to say about the airport, but it's also important to recognise this is being led by a board—by a board consisting of people from the private sector and people that understand business, and the important thing is I take their advice, and they are responsible for drawing up and developing plans under our overall control. But I would be delighted to have discussions with other parties and would be delighted, Presiding Officer, to arrange for a briefing by Lord Rowe-Beddoe and board members for Assembly Members, for them to have a clear understanding of the board's strategy.

Yn awr, rwy'n amlwg wedi trafod y pryderon y mae Aelodau wedi eu dwyn i fy sylw gyda chadeirydd y bwrdd. Mae cadeirydd y bwrdd yn fwy na pharod, os bydd hynny o gymorth o ran dealltwriaeth yr Aelodau o'r hyn y mae'r bwrdd yn ei wneud, i aelodau'r bwrdd ac ef ei hun fel cadeirydd frifio Aelodau'r Cynulliad yn uniongyrchol ar y materion sy'n ymwneud â'r maes awyr a lle rydym yn mynd, a byddwn yn fwy na pharod i hwyluso hynny. Felly, mae'n bwysig cydnabod ein bod yn gwneud llawer yn y maes hwnnw. Mae pobl yn siarad ynglŷn â sut rydym yn gwerthu Cymru, beth yw niferoedd y teithwyr. Rydym ystyried ehangu'r llwybrau presennol, a denu llwybrau newydd. Wyddoch chi, rydym hyd yn oed yn mynd i'r Farchnad Deithio Arabaidd a chynhadledd World Routes i geisio denu llwybrau, a dyna beth sy'n rhaid i chi ei wneud. Yn ogystal, rwy'n meddwl ei fod yn fater o'r hyn a ddywedodd Mick Antoniw: weithiau nid ydym mewn gwirionedd yn cystadlu â meysydd awyr eraill; gyda'i gilydd y gallwn ddelio â hwy mewn gwirionedd o ran sut rydym yn gweithio ar y cyd, gan mai'r peth pwysig yw y dylai fod llwybrau teithio i wasanaethu'r rhan hon o'r wlad, ac nid oes ond angen i ni edrych ar broblemau capasiti Heathrow bellach os na cheir trydedd redfa, a pha gyfleoedd—. Yn awr, rydym wedi cael trafodaethau gyda Heathrow. Gwyddom i ble mae hynny'n mynd, a gallaf eich sicrhau bod y bwrdd o ddifrif ynghylch ei gyfrifoldebau i ystyried y materion sy'n ymwneud â'r maes awyr. Felly, rwy'n amlwg yn diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau ar hyn. Byddaf yn sicr yn adolygu'r Cofnod i weld eu cyfraniadau, gan ei bod yn bwysig cydnabod bod gan bob un ohonom rywbeth i'w ddweud am y maes awyr, ond mae hefyd yn bwysig cydnabod bod hyn yn cael ei arwain gan fwrdd—gan fwrdd sy'n cynnwys pobl o'r sector preifat a phobl sy'n deall busnes, a'r peth pwysig yw fy mod yn cymryd eu cyngor, ac maent yn gyfrifol am lunio a datblygu cynlluniau o dan ein rheolaeth gyffredinol. Ond byddwn yn falch iawn o gael trafodaethau gyda phleidiau eraill a byddwn yn falch iawn, Lywydd, o drefnu sesiwn frifio gyda'r Arglwydd Rowe-Beddoe ac aelodau'r bwrdd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, er mwyn iddynt gael dealltwriaeth glir o strategaeth y bwrdd.

15:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nick Ramsay to reply to the debate.

Nick Ramsay i ymateb i'r ddadl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:53 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Let us never call the Minister churlish again after that offer at the end—and I'm sure that many Members will take you up on that. I do have to say, Minister, that I do agree with what you said about, 'This is going to take time'. I think we'd all agree with that; it does take time to turn failing enterprises around, but I think that's why so many Members today have spoken about the need to get a strategy in place as soon as possible, and not any strategy, but a strategy that draws from best practice in other airports that have been turned around—indeed, other examples of infrastructure across the UK that have been turned around.

Diolch i chi, Lywydd. Gadewch i ni beidio â galw'r Gweinidog yn anfoesgar byth eto ar ôl y cynnig hwnnw ar y diwedd—ac rwy'n siŵr y bydd llawer o Aelodau'n manteisio arno. Mae'n rhaid i mi ddweud, Weinidog, fy mod yn cytuno â'r hyn a ddywedoch, 'Mae hyn yn mynd i gymryd amser'. Rwy'n credu y byddem oll yn cytuno â hynny; mae'n cymryd amser i wella mentrau sy'n methu, ond rwy'n meddwl mai dyna pam y mae cymaint o Aelodau heddiw wedi siarad am yr angen i gael strategaeth ar waith cyn gynted ag y bo modd, ac nid unrhyw strategaeth, ond strategaeth sy'n pwyso ar arfer gorau mewn meysydd awyr eraill sydd wedi eu gwella—yn wir, enghreifftiau eraill o seilwaith ar draws y DU sydd wedi cael eu gwella.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Now, I'll just mention one statistic at the start, and that is that, last November, the number of passengers using the airport was down to below 50,000. We're looking at around an 18% dip, and I've heard some Members, certainly from the Labour benches, saying that we are whingeing, that we're talking the airport down, that we're talking Wales down. Well, that is certainly not the intention of this debate at all. We think you need to recognise the strengths of the airport, but also recognise the weaknesses and where we are today in order to get that strategy in place so we can move forward.

Byron Davies, in opening today's debate, prayed for a mature debate, despite differences over how we've got where we are with the ownership of the airport. I did think we had a mature debate going until John Redwood's and Margaret Thatcher's names were cast into the debate halfway through and it deteriorated slightly, but Mick Antoniw did make some reasonable points besides some of those more outlandish comments. Byron called for all options to be on the table and said that the time for talking is over. How often have we said that in this Chamber, day after day, year after year? We're fed up, on this side, with the continual decline of the airport, and the fact that airlines don't want to fly from there. We want to stop this. This isn't whingeing. This is calling for—. It's certainly not dogmatic, and it's not anti-public sector. It is us saying, 'Right, where do you move on from here?' In fact, some might say that it's the Members on the Labour benches who've been dogmatic today by talking constantly about public ownership. We accept that the airport is now in public ownership—[Interruption.]

Yn awr, fe soniaf yn unig am un ystadegyn ar y dechrau, sef y ffaith fod nifer y teithwyr a ddefnyddiodd y maes awyr fis Tachwedd diwethaf i lawr o dan 50,000. Rydym yn edrych ar ostyngiad o tua 18%, ac rwyf wedi clywed rhai Aelodau, yn sicr o'r meinciau Llafur, yn dweud ein bod yn swnian, ein bod yn lladd ar y maes awyr, ein bod yn bychanu Cymru. Wel, yn bendant nid dyna yw bwriad y ddadl hon o gwbl. Rydym yn meddwl bod angen i chi gydnabod cryfderau'r maes awyr, a chydabod y gwendidau hefyd a lle'r ydym heddiw er mwyn cael y strategaeth honno ar waith er mwyn i ni allu symud ymlaen.

Wrth agor y ddadl heddiw, apeliodd Byron Davies am ddadl aeddfed, er gwaethaf y gwahaniaethau o ran y modd rydym wedi cyrraedd y sefyllfa rydym ynnddi gyda pherchnogaeth y maes awyr. Rwy'n meddwl ein bod wedi cael dadl aeddfed tan i enwau John Redwood a Margaret Thatcher gael eu taflu i'r pair hanner ffordd drwy'r ddadl ac fe ddirywiodd ychydig, ond gwnaeth Mick Antoniw rai pwyntiau rhesymol ar wahân i rai o'r sylwadau mwy amherthnasol hynny. Galwodd Byron am roi'r holl opsiynau ar y bwrdd a dywedodd fod yr amser i siarad ar ben. Pa mor aml rydym wedi dweud hynny yn y Siambr hon, ddydd ar ôl dydd, flwyddyn ar ôl blwyddyn? Rydym wedi syrffedu, ar yr ochr hon, ar ddirywiad parhaus y maes awyr, a'r ffaith nad yw cwmnïau hedfan yn dymuno hedfan oddi yno. Rydym am atal hyn. Nid swnian yw hynny. Galwad yw hyn am—. Yn sicr nid yw'n ddogmatig, ac nid yw'n wrth-sector cyhoeddus. Mae'n fater ohonom ni'n dweud: 'lawnd, i ble rydych chi'n mynd o'r fan hon?' Yn wir, efallai y byddai rhai'n dweud mai'r Aelodau ar y meinciau Llafur sydd wedi bod yn ddogmatig heddiw drwy siarad yn gyson am berchnogaeth gyhoeddus. Rydym yn derbyn bod y maes awyr yn awr yn eiddo cyhoeddus—[Torri ar draws.]

15:55 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:55 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In one moment. But we think as well that, in the future, there could be a better home for it in the private sector, but you have taken on a fair amount of risk in taking on the airport. Mick Antoniw.

Mewn un foment. Ond credwn hefyd, yn y dyfodol, y gallai fod cartref gwell ar ei gyfer yn y sector preifat, ond rydych wedi ysgwyddo cryn dipyn o risg wrth gymryd meddiant ar y maes awyr. Mick Antoniw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:55 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you accept, now, though, that the decision by Welsh Government to take on the airport at the time it did was the correct decision?

A ydych yn derbyn, yn awr, fodd bynnag, mai penderfyniad Llywodraeth Cymru i gymryd meddiant ar y maes awyr ar yr adeg y gwnaeth oedd yr un cywir?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:55 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, we don't accept that, Mick. It was done without a proper assessment. It was a panic move, and you would have been better off looking at ways to support the airport as it was, and support the infrastructure. But I do admit you did leave it rather late to get involved in the airport, and I think the warning signs should have been ringing a long time before.

Na, nid ydym yn derbyn hynny, Mick. Cafodd ei wneud heb asesiad priodol. Gweithredu mewn panig a wnaethoch, a byddai wedi bod yn well i chi edrych ar ffyrdd o gefnogi'r maes awyr fel yr oedd, a chefnogi'r seilwaith. Ond rwy'n cyfaddef eich bod wedi ei gadael braidd yn hwyr i ymwneud â'r maes awyr, ac rwy'n credu y dylai'r arwyddion rhybudd fod wedi canu ers amser hir cyn hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rhun ap Iorwerth pointed out that the Government must be held to account for its strategy towards air flight in Wales, and it needs a clear route-map. But the infrastructure—you pointed out the infrastructure—around the point I just made, the infrastructure around the airport is key to the success of the airport, as the ownership is. Rightly, no solution to the airport is complete without the involvement of the private sector. I know we have a difference of balance of view on that, Rhun ap Iorwerth, but I think we're basically agreed that the private sector needs to play its full and measured part there. That's why we've called for the return of the airport to the private sector at a point in the future when that can be done with compensation, respective compensation, for the taxpayer for the original cost.

Air passenger duty has been mentioned by the Minister and by other Members, and there is no doubt at all—I think we'd all be agreed—that the devolution of air passenger duty is potentially a vital tool to attracting business, to attracting airlines, and certainly to making Cardiff Airport more attractive to airlines such as Flybe—a point that has been made by Flybe and was made in the Enterprise and Business Committee's report into ports and airports, where we made a number of recommendations. I would like to have an update from the Minister at some point on when we are with the implementation of those recommendations; I hope that report isn't just gathering dust.

Eluned Parrott, you're right, we all want the airport to succeed, so how do we achieve that? We need that strategic plan, and we need an understanding of what the obstacles are. There are many things going for the airport, and, over the last few years, there have been some improvements. The issue is, could there be more improvements, and how do you secure it for the future? There are many things going for the airport. You mentioned the enterprise zone. Mohammad Asghar also touched on the airport's rightful place in the UK economy. The airport has potential. Let's look at how other airports have been turned around.

There are reasonable objectives that the Welsh Government has, there is no doubt about that at all, and there is a great degree of agreement on all this. When you look at the Cardiff-Dusseldorf service, well, that's all well and good, but, at the same time, we have to recognise that other services have been lost. As we found on the Enterprise and Business Committee, the basic problem with Cardiff Airport is not the ownership, or its location—I did actually disagree, I'm sure Paul Davies won't mind me saying, with that one point of his speech, when he said about the location. Yes, the location may not be as good as of some airports, but, actually, if you look at airports like Bristol, they're not particularly closely connected either to the city centre, but they have been turned around. So, let's take best practice from airports like that, and let's get the right strategy in place.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:59.

Nododd Rhun ap Iorwerth fod yn rhaid i'r Llywodraeth fod yn atebol am ei strategaeth hedfan yng Nghymru, ac mae angen cyfeiriad clir. Ond mae'r seilwaith—fe nodoch y seilwaith—ynglŷn â'r pwynt rwyf newydd ei wneud, mae'r seilwaith o amgylch y maes awyr yn allweddol i lwyddiant y maes awyr, fel y mae perchnogaeth ohono. Yn gywir ddigon, nid fydd unrhyw ateb i'r maes awyr yn gyflawn heb gynnwys y sector preifat. Rwy'n gwybod fod gennym farn wahanol ar hynny, Rhun ap Iorwerth, ond rwy'n meddwl ein bod yn cytuno yn y bôn fod angen i'r sector preifat chwarae ei ran yn llawn ac yn bwyllog yn hynny o beth. Dyna pam ein bod wedi galw am ddychwelyd y maes awyr i'r sector preifat ar ryw bwynt yn y dyfodol pan ellir ei wneud gan ddigolledu'r trethdalwr, a'i ddigolledu'n briodol, am y gost wreiddiol.

Mae'r Gweinidog ac Aelodau eraill wedi sôn am y doll teithwyr awyr, ac nid oes unrhyw amheuaeth o gwbl—rwy'n meddwl bod pawb ohonom yn cytuno—fod datganoli'r doll teithwyr awyr o bosibl yn arf hanfodol i ddenu busnesau, i ddenu cwmnïau hedfan, ac yn sicr i wneud Maes Awyr Caerdydd yn fwy deniadol i gwmnïau hedfan megis Flybe—pwynt a wnaed gan Flybe ac fe'i gwnaed yn adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar borthladdoedd a meysydd awyr, lle rydym wedi gwneud nifer o argymhellion. Hoffwn gael y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog ar ryw bwynt ynghylch lle'r ydym o ran gweithredu'r argymhellion hynny; rwy'n gobeithio nad hel llwch yn unig y mae'r adroddiad.

Eluned Parrott, rydych yn gywir, rydym i gyd am i'r maes awyr lwyddo, felly sut rydym am gyflawni hynny? Mae arnom angen y cynllun strategol, ac mae arnom angen deall beth yw'r rhwystrau. Mae llawer o bethau'n digwydd yn y maes awyr, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu rhai gwelliannau. Y pwynt yw y gallai fod mwy o welliannau, a sut rydych chi'n mynd i'w ddiogelu ar gyfer y dyfodol? Mae llawer o bethau o blaid y maes awyr. Fe sonioch am yr ardal fenter. Hefyd, fe grybwyllodd Mohammad Asghar le priodol y maes awyr yn economi'r DU. Mae potensial gan y maes awyr. Gadewch i ni edrych ar sut y mae meysydd awyr eraill wedi cael eu gwella.

Mae gan Lywodraeth Cymru amcanion rhesymol, nid oes amheuaeth am hynny o gwbl, ac mae llawer iawn o gytundeb ar hyn i gyd. Pan edrychwch ar wasanaeth Caerdydd-Dusseldorf, wel, mae hynny'n iawn, ond ar yr un pryd rhaid i ni gydnabod bod gwasanaethau eraill wedi eu colli. Fel y gwelsom ar y Pwyllgor Menter a Busnes, nid y berchnogaeth na'i leoliad yw'r broblem sylfaenol gyda Maes Awyr Caerdydd—roeddwn i'n anghytuno mewn gwirionedd, rwy'n siŵr na fydd Paul Davies yn malio fy mod i'n dweud, gyda'r un pwynt yn ei araith, pan ddywedodd am y lleoliad. Efallai nad yw'r lleoliad gystal â lleoliad rhai meysydd awyr, ond mewn gwirionedd, os edrychwch ar feysydd awyr fel Bryste, nid oes cysylltiad arbennig o agos rhyngddynt a chanol y ddinas chwaith, ond maent hwy wedi cael eu gwella. Felly, gadewch i ni ddydsu o arferion gorau meysydd awyr fel hynny, a gadewch i ni gael y strategaeth gywir ar waith.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15.59.

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In conclusion, Presiding Officer, as I said earlier, I'm sad that some Members have accused us of whingeing and talking things down. That was never the intention of this debate, and, if there were aspects of it that have looked at the negative side of air strategy in Wales, well, that's because we think there is a serious lack in this air strategy. The Enterprise and Business Committee thought there was a serious lack as well. Maybe, in developing that air strategy, it does need to connect in with other strategies—the enterprise zone strategy, indeed—in a way that it hasn't in the past. That's no easy thing to achieve. It's a bit like when we talk about integrated timetabling and ticketing on public transport—a fiendishly difficult thing to achieve—is the comment often made, and this is difficult as well. So, you have our understanding on that, Minister—it's not easy to get there. But the sooner we get the right strategy in place, the sooner we get a vision for the airport and a vision of what we want it to be, where we want it to be in 10 years' time, then the sooner we can get on with turning that airport around and making sure that, in the future, Wales and Cardiff have an airport that they can be proud of.

I gloi, Lywydd, fel y dywedais yn gynharach, rwy'n drist fod rhai Aelodau wedi ein cyhuddo o swnian a lladd ar bethau. Nid dyna oedd bwriad y ddadl hon o gwbl, ac os oedd agweddu arni sydd wedi edrych ar yr ochr negyddol o strategaeth awyr yng Nghymru, wel, mae hynny oherwydd ein bod yn credu bod y strategaeth awyr hon yn ddifrifol o ddiffygiol. Roedd y Pwyllgor Menter a Busnes o'r farn fod diffyg difrifol hefyd. Efallai, wrth ddatblygu strategaeth awyr, fod angen iddi gysylltu â strategaethau eraill-y strategaeth ardaloedd menter, yn wir--mewn ffordd nad yw wedi ei wneud yn y gorffennol. Nid yw hynny'n beth hawdd i'w gyflawni. Mae ychydig fel pan fyddwn yn sôn am amserlennu integredig a thocynnau ar drafnidiaeth gyhoeddus-'peth dieffig o anodd ei gyflawni' yw'r sylw a wnaed yn aml, ac mae hyn yn anodd hefyd. Felly, rydym yn deall hynny, Weinidog-nid yw'n hawdd cyrraedd yno. Ond po gyntaf y cawn y strategaeth gywir yn ei lle, po gynharaf y cawn weledigaeth ar gyfer y maes awyr a gweledigaeth o'r hyn rydym am iddo fod, lle'r ydym am iddo fod ymhen 10 mlynedd, y cynharaf y gallwn fwrw ymlaen â'r gwaith o wella'r maes awyr a gwneud yn siŵr bod Cymru a Chaerdydd yn cael maes awyr y gallant fod yn falch ohono yn y dyfodol.

16:00

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Dreth Gyngor

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Item 4 is the second Welsh Conservatives' debate, this one on council tax. I call on Janet Finch-Saunders to move the motion.

4. Welsh Conservatives Debate: Council Tax

Item 4 yw ail ddadl y Ceidwadwyr Cymreig, y tro hwn ar y dreth gyngor. Rwy'n galw ar Janet Finch-Saunders i gynnig y cynnig.

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Elin Jones.

The following amendments have been selected: amendments 1 a 2 in the name of Elin Jones.

Cynnig NDM5681 Paul Davies

Motion NDM5681 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio symiau canlyniadol Barnett blaenorol gan Lywodraeth y DU i roi'r gallu i awdurdodau lleol rewi'r dreth gyngor i breswylwyr yng Nghymru;

1. Notes that the Welsh Government has not used previous Barnett consequentials from the UK Government to provide local authorities with the ability to freeze council tax for residents in Wales;

2. Yn nodi ymhellach y byddai teuluoedd sy'n talu band D y dreth gyngor yng Nghymru £149.31 y flwyddyn yn gyfoethocach pe bai Llywodraeth Cymru wedi gweithredu i rewi'r dreth gyngor ym mhob blwyddyn ers 2010;

2. Further notes that band D council tax households in Wales would be £149.31 a year better off if the Welsh Government had acted to freeze council tax in each year since 2010;

3. Yn gresynu at y ffaith bod biliau treth gyngor wedi cynyddu dros 150% yng Nghymru ers 1997/98, ac yn credu bod cynnydd andwyol o'r fath wedi rhoi pwysau gormodol ar aelwydydd sydd o dan bwysau; a

3. Regrets that council tax bills have increased by over 150% in Wales since 1997/98, and believes that such crippling rises have placed undue pressure on hard-pressed households; and

4. Yn credu bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wario arian cyhoeddus gyda gofal a phwyll, er mwyn sicrhau bod cyfraddau treth gyngor yn cael eu gosod mor isel â phosibl i breswylwyr a bod cyfraddau treth gyngor yn darparu gwerth am arian i'r trethdalwr.

Cynigiwyd y cynnig.

4. Believes that local authorities have a duty to spend public money with care and prudence, in order to ensure that council tax rates are set as low as possible for residents and that council tax rates provide value for money for the taxpayer.

Motion moved.

16:00

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I wish to open this debate and, by doing so, to propose that the National Assembly for Wales notes that the Welsh Government has not used previous Barnett consequentials from the UK Government to provide local authorities with the ability to freeze council tax for residents in Wales.

Point 2 further notes that band D council tax households in Wales would be £149.31 a year better off if the Welsh Government had acted to freeze council tax in each year since 2010, and regrets that council tax bills have increased by over 150% in Wales since 1997-98 and believes that such crippling rises have placed undue pressure on our hard-pressed households, and we believe that local authorities have a duty to spend public money with care and prudence, in order to ensure that council tax rates are set as low as possible for residents, and that council tax rates provide value for money for the taxpayer. They are the fundamentals of our motion laid today by Paul Davies AM and the Welsh Conservatives.

Today, households across Wales wait with bated breath as their local authorities assess the level of council tax they will be charging for the coming financial year. They will have read that indicators suggest that the majority of Wales's 22 local authorities are planning, once again, to raise council tax by between 3% and 5%. History proves though, doesn't it, that Labour in power simply does not support the taxpayer and that it is a high tax Government? Nothing is more evidenced by this than the constant huge increases, year on year, here in Wales.

On average, over the border, people in England living in Conservative-led authorities pay around £89 a year less for a band D than those held by Labour. And, under Labour in power in the UK, between 1997-98 and 2013-14, the people of Wales suffered from crippling rises in their council tax bills. In 1997, average band D council tax was £495; by 2014-15, it is £1,276. This is an increase of 158%. Those who are affected have seen their pay frozen and their savings diminish.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn agor y ddadl a thrwy wneud hynny, hoffwn gynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio symiau canlyniadol Barnett blaenorol gan Lywodraeth y DU i roi gallu i awdurdodau lleol rewi'r dreth gyngor ar gyfer trigolion yng Nghymru.

Mae pwynt 2 yn nodi ymhellach y byddai aelwydydd band D y dreth gyngor yng Nghymru £149.31 y flwyddyn yn well eu byd pe bai Llywodraeth Cymru wedi gweithredu i rewi'r dreth gyngor bob blwyddyn ers 2010, yn gresynu bod biliau treth gyngor wedi cynyddu dros 150% yng Nghymru ers 1997-98 ac yn credu bod codiadau andwyol o'r fath wedi rhoi gormod o bwysau ar ein haelwydydd sydd dan bwysau. Credwn fod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wario arian cyhoeddus gyda gofal a phwyll, er mwyn sicrhau bod cyfraddau'r dreth gyngor mor isel â phosibl i breswylwyr, a bod cyfraddau'r dreth gyngor yn cynnig gwerth am arian i'r trethdalwr. Dyna hanfodion ein cynnig a gyflwynwyd heddiw gan Paul Davies AC a'r Ceidwadwyr Cymreig.

Heddiw, mae aelwydydd ledled Cymru yn aros gan ddal eu hanadl wrth i'w hawdurdodau lleol asesu lefel y dreth gyngor y byddant yn ei chodi am y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Byddant wedi darllen bod dangosyddion yn awgrymu bod y mwyafrif o 22 awdurdod lleol Cymru yn cynllunio, unwaith eto, i godi'r dreth gyngor rhwng 3% a 5%. Fodd bynnag, mae hanes yn profi, onid yw, nad yw Llafur mewn grym yn cefnogi'r trethdalwr ac mai Llywodraeth trethi uchel ydyw? Nid oes dim yn cynnig mwy o dystiolaeth o hyn na'r cynnydd enfawr cyson, flwyddyn ar ôl blwyddyn, yma yng Nghymru.

Ar gyfartaledd, dros y ffin, mae pobl yn Lloegr sy'n byw mewn awdurdodau a arweinir gan y Ceidwadwyr yn talu tua £89 y flwyddyn yn llai ym mand D na'r rhai a arweinir gan Lafur. Ac o dan Lafur mewn grym yn y DU, rhwng 1997-98 a 2013-14, dioddefodd pobl Cymru gynydd andwyol yn eu biliau treth gyngor. Yn 1997, roedd y dreth gyngor ar gyfer band D yn £495 ar gyfartaledd; erbyn 2014-15, mae'n £1,276. Dyna gynydd o 158%. Mae'r rhai sy'n cael eu heffeithio wedi gweld eu cyflogau'n cael eu rhewi a'u cynilion yn lleihau.

Labour-led Welsh Government has refused to freeze council tax while also wanting to add new taxes and costs to the building of our family homes here in Wales. Labour councils across the country charge more and deliver less, showing that all Labour offer is more inefficiency, more ineffective spending and higher council tax bills. However, we, the Welsh Conservatives, do believe in cutting council tax to give people more financial security for themselves. The Welsh Conservative policy and commitment would freeze council tax and would've made our average band D council tax householders in Wales £149 better off.

In 2013-14 in Wales, the Welsh Labour Government and the Minister presided over £83 million of council tax going unpaid. This was money that could be used to keep bills down for our law-abiding residents. I would ask the Minister, especially as you've brought out one or two statements and White Papers recently, what are you going to do about the very poor collection rates that we have in some authorities across Wales.

In the Localism Act 2011 in England, that ensures that our residents are protected and that councils cannot increase their council tax by more than 2% without a community referendum. However, here in Wales, when we ask about capping, there is silence and no action. It is a fact that Welsh council tax payers are spending more on council tax as a percentage of their average weekly earnings. In realistic assessments the Conservative-led UK Government made on public spending, their response was to give extra funding to town halls to help freeze council tax, cutting their bills in real terms by more than 11%. In Scotland, they've enjoyed a freeze for years, and it's guaranteed until the end of this term.

Now, the continual Welsh Labour rebuttal to this fact is always that the average bills in Wales are cheaper than England. Well, then, can the Minister tell me why council tax is higher in 2014-15, now, in Cardiff and Swansea than it is for those living in wealthy London boroughs, such as Kensington and Chelsea? That argument holds no water.

Mike Hedges a gododd—

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi gwrthod rhewi'r dreth gyngor ac ar yr un pryd yn awyddus i ychwanegu trethi a chostau newydd at adeiladu ein cartrefi teuluol yma yng Nghymru. Mae cynghorau Llafur ledled y wlad yn codi mwy ac yn cyflawni llai, gan ddangos mai'r cyfan y mae Llafur yn ei gynnig yw mwy o wariant aneffeithiol a biliau treth gyngor uwch. Fodd bynnag, rydym ni, y Ceidwadwyr Cymreig, yn credu mewn torri'r dreth gyngor er mwyn rhoi mwy o sicrwydd ariannol i bobl. Byddai polisi ac ymrwymiad y Ceidwadwyr Cymreig yn rhewi'r dreth gyngor a byddai wedi golygu bod deiliaid tai band D y dreth gyngor £149 ar gyfartaledd yn well eu byd yng Nghymru.

Yn 2013-14 yng Nghymru, dan Lywodraeth Lafur Cymru a'r Gweinidog, aeth dros £83 miliwn o dreth gyngor heb ei thalu. Roedd hwn yn arian y gellid ei defnyddio i gadw biliau ein trigolion sy'n parhau'r gyfraith i lawr. Byddwn yn gofyn i'r Gweinidog, yn enwedig gan eich bod wedi cyhoeddi datganiad neu ddau a Phapurau Gwyn yn ddiweddar, beth rydych chi'n mynd i'w wneud am y cyfraddau casglu gwael iawn sydd gennym mewn rhai awdurdodau ar draws Cymru.

Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn Lloegr yn sicrhau bod ein trigolion yn cael eu diogelu ac na all cynghorau gynyddu eu treth gyngor fwy na 2% heb refferendwm cymunedol. Fodd bynnag, yma yng Nghymru, pan fyddwn yn gofyn am gapio, tawelwch yn unig a geir, a dim gweithredu. Mae'n ffaieth bod talwyr y dreth gyngor yng Nghymru yn gwario mwy ar y dreth gyngor fel canran o'u henillion wythnosol ar gyfartaledd. Mewn asesiadau realistig a wnaed gan Lywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr ar wariant cyhoeddus, eu hymateb oedd rhoi cyllid ychwanegol i neuaddau tref i helpu i rewi'r dreth gyngor, gan dorri mwy nag 11% mewn termau real oddi ar eu biliau. Yn yr Alban, maent wedi mwynhau treth wedi ei rhewi ers blynyddoedd, ac mae wedi ei warantu tan ddiwedd y tymor hwn.

Yn awr, dadl barhaus Llafur Cymru yn erbyn y ffaith hon bob amser yw bod biliau cyfartalog yng Nghymru yn rhatach na Lloegr. Wel, os felly, a all y Gweinidog ddweud wrthyf pam y mae'r dreth gyngor yn uwch yn 2014-15, yn awr, yng Nghaerdydd ac yn Abertawe nag y mae i'r rhai sy'n byw ym mwrdeistrefi cyfoethog Llundain, fel Kensington a Chelsea? Nid yw'r ddadl honno'n dal dŵr o gwbl.

Mike Hedges rose—

16:05

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Time and time again, Welsh Conservatives have called on Welsh Government to address the rise in council tax, and there are many ways it could do this. Now, the UK Government actually produced '50 ways to save: examples of sensible savings in local government'. I'm going to spare you all 50, but they are sensible, and they're what's needed here in Wales: transparency to cut waste; publish spending contracts and tenders; tackle duplicate payments—and yes, believe it or not, councils do pay bills more than once—clamp down on corporate charge cards; tackle fraud; get more for less by improving procurement—

Dro ar ôl tro, mae Ceidwadwyr Cymru wedi galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r cynnydd yn y dreth gyngor, ac mae nifer o ffyrdd y gallai wneud hyn. Yn awr, mewn gwirionedd cynhyrchodd Llywodraeth y DU '50 ways to save: examples of sensible savings in local government'. Nid oes raid i chi glywed yr 50, ond maent yn synhwyrol, a'r hyn sydd ei angen yma yng Nghymru: tryloywder i leihau gwastraff; cyhoeddi contractau gwario a thendrau; mynd i'r afael â dyblygu taliadau—a chredwch neu beidio, mae cynghorau yn talu biliau fwy nag unwaith—cyfyngu ar gardiau talu corfforaethol; mynd i'r afael â thwyll; cael mwy am lai drwy wella caffael—

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:05	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography Will you give way?	A wnewch chi ildio?	Senedd.tv Fideo Video
16:05	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography Okay.	Iawn.	Senedd.tv Fideo Video
16:06	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography Does that list also include, as they did in England, cutting the income of councils by up to 40%?	A yw'r rhestr hefyd yn cynnwys torri hyd at 40% ar incwm cynghorau, fel y gwnaethant yn Lloegr?	Senedd.tv Fideo Video
16:06	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography Get more for less, as I say, by improving procurement; utilise their reserves creatively. I ask the Minister today: £1.6 billion in reserves? Surely you should be looking to encourage and support local authorities to actually be kind to the council tax payer, and actually help them, and not be allowing councils just to point the finger and ensure that people are paying more council tax as a result of your poor settlement and their own inefficiencies. We go on: improve council tax collection rates; better land and property management; hot desking; estate rationalisation and sub-letting—doesn't that sound a little bit like collaboration or even voluntary merger? Cancel away days in posh hotels and glitzy award ceremonies. Cut senior pay—well, it's better late than never. Share senior staff—sounding a little bit like voluntary mergers and sounding a little bit like collaboration, two things that you've failed in doing so far.	Cael mwy am lai, fel y dywedais, drwy wella caffael; defnyddio eu cronfeydd wrth gefn yn greadigol. Gofynnaf i'r Gweinidog heddiw: £1.6 biliwn o gronfeydd wrth gefn? Siawns na ddylech geisio annog a chynorthwyo awdurdodau lleol i fod yn fwy caredig i dalwyr y dreth gyngor mewn gwirionedd, a'u helpu go iawn, nid caniatáu i gynghorau bwyntio bys a sicrhau bod pobl yn talu mwy o dreth gyngor o ganlyniad i'ch setliad gwael a'u haneffeithlonrwydd eu hunain. Awn ymlaen: gwella cyfraddau casglu'r dreth gyngor; rheoli tir ac eiddo yn well; rhannu desgiau; rhesymoli ystadau ac is-osod—onid yw hynny'n swnio ychydig yn debyg i gydweithio neu hyd yn oed uno gwirfoddol? Cael gwared ar ddiwrnodau cwrdd i ffwrdd mewn gwestai crand a seremoniau gwobrwyo ysbennydd. Torri cyflogau uwch reolwyr—wel, gwell hwyr na hwyrach. Rhannu staff uwch—sy'n swnio ychydig yn debyg i uno gwirfoddol ac yn swnio ychydig yn debyg i gydweithio, dau beth rydych wedi methu â'u gwneud hyd yn hyn.	Senedd.tv Fideo Video
	Now, there's an interesting one here. and I would like the Minister's response to this: scrapping the chief executive post entirely. We'd like your opinion, Minister. Introduce a recruitment freeze. Being as there's so much uncertainty in local authorities at the moment, do you support a recruitment freeze? Freeze councillor allowances and end councillor pensions—your thoughts on that, Minister? Cut spending on consultants and agency staff—and I have to say it is not only local authorities where it's fair to say that millions get wasted on that. Review and reduce absenteeism; earn more from private advertising. What is the Minister doing to encourage sponsorship, with authorities bringing in their own money so that they can actually again offset the balance, and so our residents are not continually, sort of, having to, you know, pay larger council taxes? I really like this one: scrap the town hall 'Pravda'. In Conwy Council alone, they were spending over £100,000 on propaganda and newsletters that were going out. Cut printing costs, stop producing glossy brochures, publish online, and finally—and I like this—ask your staff for more sensible savings ideas.	Yn awr, mae yna un diddorol yma. a hoffwn ymateb y Gweinidog i hyn: cael gwared ar swydd y Prif Weithredwr yn gyfan gwbl. Hoffem eich barn, Weinidog. Rhewi recriwtio. Gan fod cymaint o ansicrwydd mewn awdurdodau lleol ar hyn o bryd, a ydych yn cefnogi rhewi recriwtio? Rhewi lwfansau cynghorwyr a rhoi diwedd ar bensiynau cynghorwyr—eich barn ar hynny, Weinidog? Torri gwariant ar ymgynghorwyr a staff asiantaeth—a rhaid i mi ddweud nad awdurdodau lleol yn unig sy'n gwastraffu miliynau ar hynny, mae'n deg dweud. Adolygu a lleihau absenoldeb; ennill mwy o hysbysebu preifat. Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i annog nawdd, gydag awdurdodau'n dod â'u harian eu hunain i mewn fel y gallant unwaith eto wrthbwysu'r balans, mewn gwirionedd, fel nad yw ein trigolion yn gorfod talu trethi cyngor uwch yn barhaus, wyddoch chi? Rwy'n hoff iawn o hwn: cael gwared ar 'Pravda' neuadd y dref. Yng Nghyngor Conwy yn unig, roeddent yn gwario dros £100,000 ar bropaganda a chylchlythyrau a gâi eu dosbarthu. Torri costau argraffu, rhoi'r gorau i gynhyrchu llyfyrnau sgleiniog, cyhoeddi ar-lein, ac yn olaf—ac rwy'n hoffi hwn—gofyn i'ch staff am syniadau mwy synhwyrol ar gyfer arbed arian.	
	'Your staff will be the most informed and actually the most enthusiastic about cutting waste.'	'Eich staff sy'n gwybod fwyaf, ac sy'n fwyaf brwd mewn gwirionedd ynglŷn â chyfyngu ar wastraff.'	
	Minister, there are numerous ways in which you could empower, encourage, support, guide, direct and lead our local authorities to have another alternative than to keep bashing away at our council tax payers, our pensioners and our hard-working families. I fully support the motion, and I look forward to further contributions.	Weinidog, mae yna nifer o ffyrdd y gallech rymuso, annog, cefnogi, arwain, cyfarwyddo ac arwain ein hawdurdodau lleol i gael dewis arall yn lle dal ati i bwlio'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor, ein pensynwyr a'n teuluoedd gweithgar. Rwy'n llwyr gefnogi'r cynnig, ac edrychaf ymlaen at gyfraniadau pellach.	

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the two amendments to the motion, and I call on Rhodri Glyn Thomas to move amendments 1 and 2 tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig, a galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i gynnig gwelliannau 1 a 2 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

Gwelliant 1—Elin Jones

Amendment 1—Elin Jones

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

Delete points 2 and 3 and replace with:

Yn nodi'r sefyllfa ariannol anodd sy'n wynebu llywodraeth leol ac effaith mesurau llymder Llywodraeth y DU ar wariant cyhoeddus yng Nghymru.

Notes the difficult financial situation facing local government and the impact of UK Government austerity measures on Welsh public expenditure.

Gwelliant 2—Elin Jones

Amendment 2—Elin Jones

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Delete point 4 and replace with:

Yn credu mai dyletswydd gyntaf awdurdodau lleol yn sgil y toriad 3.4% ar gyfartaledd yn y setliad refeniw llywodraeth leol yw diogelu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Believes that in light of the average 3.4% cut in the local government revenue settlement, the first duty of local authorities is to protect vital public services.

Cynigiwyd gwelliannau 1 a 2.

Amendments 1 and 2 moved.

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Mae'n siŵr ei fod yn gysur mawr iawn i arweinyddion awdurdodau lleol ledled Cymru i glywed gweledigaeth y Blaid Geidwadol yng Nghymru ar gyfer awdurdodau lleol, sef rhewi y dreth. Dyna'r unig beth rŷm ni wedi clywed y prynhawn yma y maen nhw'n ei awgrymu—fel petai hynny, rywsut, yn mynd i fynd i'r afael â'r problemau enfawr sy'n wynebu awdurdodau lleol ledled Cymru ar hyn o bryd.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. It's sure to be a great comfort to the leaders of local authorities across Wales to hear the vision of the Conservative party in Wales for local authorities, which is to freeze tax. That's the only thing that we've heard this afternoon that they've suggested—as if that were somehow to tackle the huge problems facing local authorities across Wales at the moment.

Os siaradwch chi ag arweinwyr ac aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru, fe ddywedan nhw wrthyh chi mai dyma y sefyllfa waethaf y maen nhw'n ei chofio, a'r sefyllfa anoddaf y maen nhw erioed wedi ei hwynebu. Dyma y toriadau llymaf sydd wedi bod yn eu cyllid nhw, ac y maen nhw o ddydd i ddydd yn awr yn gorfod edrych ar wasanaethau a oedd yn cael eu hystyried yn wasanaethau hanfodol a gofyn y cwestiwn, 'A allwn ni barhau i gynnig y gwasanaethau yma i'n pobl ni?'

If you speak to leaders and members of local authorities in Wales, they will tell you that this is the worst they can remember, and the most difficult situation that they have ever faced. These are the most severe cuts to their funding, and they are on a daily basis now having to look at services that were previously considered to be vital services and to ask the question, 'Can we continue to offer these services to our people?'

Prif gyfrifoldeb unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru ydy cynnig gwasanaethau, a beth ddylem ni fod yn ei wneud yn y lle yma ydy eu cynorthwyo nhw i wneud hynny. Y realiti ydy, wrth gwrs, pan fydd y toriadau yn dod o'r glymblaid yn San Steffan, maen nhw wedi cael eu trosglwyddo i'r lle yma—mae'n siŵr bydd y Gweinidog yn cyfeirio at hyn yn ei gyfraniad ef—ac mae hynny wedi golygu bod yna doriad o 3.4% ar gyfartaledd i'r setliad i awdurdodau lleol.

The main responsibility of any local authority in Wales is to offer services, and what we should be doing in this place is supporting them to do so. The reality is, of course, that when the cuts come from the coalition at Westminster, they have been passed on to this place—I am sure the Minister will refer to this in his contribution—and that has meant that there has been a cut of 3.4% on average in the settlement for local authorities.

Ond ar ben hynny, wrth gwrs, y mae'r holl ansicrwydd yma wedi cael ei greu. Comisiynu adroddiad Williams, derbyn yr adroddiad, dweud bod angen gweithredu ar fyrder, y Llywodraeth yn ein sicrhau ni y bydden nhw mewn sefyllfa o fewn misoedd erbyn diwedd mis Mawrth y llynedd i ddweud wrthym ni beth oedd eu safbwynt diffiniadol nhw ar ddyfodol llywodraeth leol yng Nghymru, gwahoddiadau wedyn i awdurdodau lleol i fynegi diddordeb i gyfuno yn wirfoddol, troi lawr y cynigion hynny, ac yna Bapur Gwyn arall sydd yn gadael awdurdodau lleol ledled Cymru nid yn unig yn wynebu y toriadau llym yma, ond mewn sefyllfa o ansicrwydd llwyr ynglŷn â'u dyfodol.

Os ych chi am gynllunio ac os ych chi'n gorfod wynebu gwneud toriadau, yr un peth sydd yn hanfodol ydy sicrwydd: eich bod chi'n gwybod lle ych chi'n mynd i fod mewn blwyddyn, lle ych chi'n mynd i fod mewn pum mlynedd, lle ych chi'n mynd i fod mewn 10 mlynedd. Nid oes yna'r un awdurdod yng Nghymru sy'n gwybod hynny ar hyn o bryd, ac y mae'r cyfrifoldeb am hynny yn gorwedd gyda'r Llywodraeth yn y fan hyn.

Mae'n rhaid imi ddweud fy mod i'n rhyfeddu at y cynnig yma gan Geidwadwyr Cymru. Mae'n cyfeirio at y ffaith rhywsut eu bod nhw o dan y dybiaeth fod treth cyngor yn Lloegr yn is nag yw e yng Nghymru. Y realiti ydy ei fod e 87% yng Nghymru o gyfartaledd treth gyngor yn Lloegr; hynny yw, mae e 13% yn llai.

16:13 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That's largely due to the difference in property values here in Wales compared with England. The reality is that it's poor settlements that local councils have had from Welsh Government. Effectively, they're using council tax as a form of tax-raising power.

16:13 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wel, rwy'n falch eich bod chi'n cadarnhau bod y dreth gyngor yng Nghymru yn llai nag yw e yn Lloegr, ac eich bod chi hefyd yn cydnabod bod y setliad i awdurdodau lleol yn Lloegr wedi cael ei dorri i raddau llawer iawn mwy yn Lloegr nag y mae e yng Nghymru. Felly, mae sôn am rewi treth cyngor yn y cyd-destun hynny yn gwbl afresymol.

A gaf i symud y gwelliannau yn enw Elin Jones? Prif gyfrifoldeb unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru ydy cynnig gwasanaethau i bobl lle mae mawr angen y gwasanaethau—i'n henoed, i'n pobl ifanc ni, i'n hieuenctid ni, i'r bobl mwyaf bregus yn ein cymunedau ni. Hefyd, gadewch inni sylweddoli bod yn rhaid i ni edrych yn ofalus iawn ar unrhyw beth sydd yn cael ei drosglwyddo i ni o San Steffan, fel ein bod ni'n gallu gwneud y defnydd gorau o'r arian hwnnw. Mae rhyw ddatganiadau dogmatig ynglŷn â rhewi treth gyngor dim ond er mwyn ceisio plesio rhai pobl, gan ein bod ni'n wynebu dau etholiad dros y ddwy flynedd nesaf, yn gwbl hurt yn y sefyllfaoedd hynny.

But on top of that, of course, there is all this uncertainty that has been created. Commissioning the Williams report, accepting the report, saying that swift action was needed, the Government reassuring us that they would be in a position within months, by the end of March last year, to tell us what their definitive viewpoint was on the future of local government in Wales, invitations were then issued to local authorities to express an interest in merging voluntarily, turning down those proposals, and then another White Paper, which leaves local authorities across Wales not only facing these severe cuts, but also in a situation of complete uncertainty about their future.

If you want to plan and if you have to face making cuts, the one thing that is vitally important is certainty: that you know where you are going to be in a year, where you're going to be in five years, and where you're going to be in 10 years. There is not one authority in Wales that knows those things at the moment, and the responsibility for that lies with the Government in this place.

I have to say that I am amazed at this motion from the Welsh Conservatives. It refers to the fact that they are somehow labouring under the belief that council tax in England is lower than it is in Wales. The reality is that it is 87% in Wales of the average council tax in England; that is, it's 13% less.

Mae hynny'n bennaf oherwydd y gwahaniaeth yng ngwerth eiddo yma yng Nghymru o gymharu â Lloegr. Y realiti yw'r setliadau gwael y mae cynghorau lleol wedi'u cael gan Lywodraeth Cymru. I bob pwrpas, maent yn defnyddio'r dreth gyngor fel math o bŵer i godi trethi.

Well, I'm glad that you've confirmed that the council tax in Wales is less than it is in England, and that you also acknowledge that the settlement for local authorities in England has been cut to a far greater extent in England than is the case in Wales. Therefore, talking about freezing council tax in that context is totally unreasonable.

May I move the amendments in the name of Elin Jones? The primary responsibility of any local authority in Wales is to offer services to people where there is a great need for those services—for our older people, our young people and our youth, not to mention the most vulnerable people in our communities. Also, let us realise that we have to look very carefully at anything that is transferred to us from Westminster, so that we can make the best use of that money. Making dogmatic statements about freezing council tax just to try and please some people, because we are facing two elections over the next two years, is quite ridiculous in such situations.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:14

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I welcome the opportunity to take part in this important debate on council tax and local government funding this afternoon. As I have mentioned on numerous occasions in this Chamber, the funding formula, which decides the level of block grant to local authorities is an unfair funding formula. Rural councils, such as Powys and Ceredigion, Monmouthshire and Pembrokeshire have among the worst-funded settlements with a formula that fails to sufficiently take into account the issues of rurality. When I wrote to the Minister in October, he did reply to me to say,

‘Finally, I can assure you that I will look at the formula as an element of the reforming local government programme to ensure it is fit for purpose as we move forwards.’

I was disappointed not to see anything substantial in his statement yesterday. The settlement again this year is particularly disappointing for rural authorities like Powys and Ceredigion, which saw the biggest cuts last year and have seen them repeated again this year. And, of course, I’m disappointed that, as a result of the Liberal Democrats’ support for the Welsh Government’s budget, the settlement means that my constituents and residents across Powys and other parts of rural Wales will again suffer a huge reduction in their council finances, as has been the case for the past decade. Front-line services have already been seriously cut in Powys, as no doubt they have been Ceredigion and in other parts of rural Wales. After such a poor deal for the past 10 years, Powys now has to find a further £7.7 million-worth of savings in addition to the £70 million it needs to find by 2020. In the next financial year alone it has to find £16 million. The county council is now expecting community and town councils to step in and fund some services. So, we’re seeing libraries reducing their hours, public toilets being closed and tourist information centres—

Rwy’n croesawu’r cyfle i gymryd rhan yn y ddatl bwysig hon ar y dreth gyngor a chyllid llywodraeth leol y prynhawn yma. Fel y crybwyllais droeon yn y Siambr hon, mae’r fformiwla ariannu, sy’n penderfynu lefel y grant bloc i awdurdodau lleol yn fformiwla gyllido annheg. Mae cynghorau gwledig, megis Powys a Cheredigion, Sir Fynwy a Sir Benfro ymhlith y rhai sy’n cael y setliadau ariannol gwaethaf, gyda fformiwla sy’n methu â rhoi digon o ystyriaeth i faterion cefn gwlad. Pan ysgrifennais at y Gweinidog ym mis Hydref, atebodd gan ddweud,

‘Yn olaf, gallaf eich sicrhau y byddaf yn edrych ar y fformiwla fel elfen o’r rhaglen ddiwygio llywodraeth leol er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben wrth i ni symud ymlaen.’

Roeddwn yn siomedig na welais unrhyw beth sylweddol yn ei ddatganiad ddoe. Mae’r setliad eto eleni yn arbennig o siomedig i awdurdodau gwledig fel Powys a Cheredigion, a welodd y toriadau mwyaf y llynedd ac ynau gweld yn cael eu hailadrodd eto eleni. Ac wrth gwrs, rwy’n siomedig, o ganlyniad i gefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol i gyllideb Llywodraeth Cymru, bod y setliad yn golygu y bydd fy etholwyr a phreswylwyr ledled Powys a rhannau eraill o gefn gwlad Cymru unwaith eto yn dioddef gostyngiad anferth yng nghyllid eu cynghorau, fel sydd wedi digwydd dros y degawd diwethaf. Mae gwasanaethau rheng flaen eisoes wedi cael eu torri yn ddifrifol ym Mhowys, ac nid oes unrhyw amheuaeth nad yw hynny’n wir yng Ngheredigion ac mewn rhannau eraill o gefn gwlad Cymru hefyd. Ar ôl bargaen mor wael dros y 10 mlynedd diwethaf, mae’n rhaid i Bowys ddod o hyd i £7.7 miliwn pellach o arbedion yn awr yn ychwanegol at y £70 miliwn sy’n rhaid dod o hyd iddo erbyn 2020. Yn y flwyddyn ariannol nesaf yn unig mae’n rhaid i’r cyngor ddod o hyd i £16 miliwn. Mae’r cyngor sir yn awr yn disgwyl i gynghorau cymuned a thref gamu i mewn ac ariannu rhai gwasanaethau. Felly, rydym yn gweld llyfrgelloedd yn lleihau eu horiau, toiledau cyhoeddus yn cael eu cau a chanolfannau gwybodaeth i dwristiaid—

16:17

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:17

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yeah, I will in a moment. Tourist information centres went some time ago. Yes.

Ie, fe wnaif mewn munud. Caewyd canolfannau gwybodaeth i dwristiaid beth amser yn ôl. Iawn.

16:17

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Will you also accept that local council tax benefits have been devolved from the UK Government with a 10% fall in that amount of money and that the Assembly Government has had to find £25 million to bridge that gap?

A wnewch chi hefyd dderbyn bod budd-daliadau’r dreth gyngor leol wedi cael eu datganoli gan Lywodraeth y DU gyda 10% o ostyngiad yn y swm hwnnw o arian a bod Llywodraeth y Cynulliad wedi gorfod dod o hyd i £25 miliwn i bontio’r bwlch?

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, as I can understand it, Powys County Council doesn't use all its funding that is available to it in that regard, as it happens. So, I don't fully take that point, Rhodri Glyn. What I would also say is that, also in Powys, we're also seeing secondary schools now being proposed to be closed, as has been the case in Pembrokeshire, with children now expecting to spend a large part of their days on a bus rather than being in school, and I don't think that's acceptable and I think that stems from an unfair funding formula, which does not take into account rurality. So, for successive years, the UK Conservative-led Government has empowered local authorities to freeze council tax, so I ask the Welsh Government, of course, to follow its lead and to follow the UK Government and also to follow the police and crime commissioner, Christopher Salmon, for Dyfed Powys by putting money back into taxpayers' pockets. In Dyfed Powys, Christopher Salmon has recently reduced the police precept by 5% and, as the commissioner rightly said, following the announcement,

'there is no such thing as "government" money. All money is taxpayers' money. People have to earn it first. Whatever politicians take in taxes they cannot spend in looking after their families.'

And I have to say I'm also disappointed that Plaid is not supporting our calls for a Wales-wide tax freeze. I hope they reconsider, but I don't think they will following Rhodri Glyn's remarks, and it's a shame they don't follow their colleagues and friends in Scotland who have frozen council tax for households there for eight successive years. Since 1997, the average band D council tax bill has more than doubled in Wales, in contrast to the UK Conservative-led Government, which has cut bills by more than 11% in real terms since 2010, meaning people have more money in their pockets and no longer face the threat of soaring bills. In Wales, we know that council tax average bills have risen by 13.5% since 2010. As my colleague Janet Finch Saunders has pointed out, taxpayers in the average band D for council tax in Wales would be almost £150 better off if the Welsh Government adopted the policy of Welsh Conservatives.

So, in conclusion, Deputy Presiding Officer, the Welsh Government continues to ignore the needs of rural mid Wales. (1) We need wholesale reform of the local government funding formula that properly takes into account the challenges and delivering public services in rural mid Wales, and (2) we need a council tax freeze that puts money back into the pockets of hard-working families in Wales.

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First, trying to be positive, can I agree with the Conservatives' point 4:

'Believes that local authorities have a duty to spend public money with care and prudence, in order to ensure that council tax rates are set as low as possible for residents and that council tax rates provide value for money for the taxpayer.'

Wel, fel rwy'n ei ddeall, nid yw Cyngor Sir Powys yn defnyddio'r holl arian sydd ar gael iddo yn hynny o beth, fel y mae'n digwydd. Felly, nid wyf yn cymryd y pwynt hwnnw'n llwyr, Rhodri Glyn. Yr hyn y byddwn yn ei ddweud hefyd yw ein bod yn gweld argymhellion ym Mhowys i gau ysgolion uwchradd, fel sydd wedi digwydd yn Sir Benfro, gyda phlant yn awr yn disgwyl treulio rhan fawr o'u dyddiau ar fws yn hytrach na bod yn yr ysgol, ac nid wyf yn credu bod hynny'n dderbyniol a chredaf ei fod yn deillio o fformiwla gyllido annheg, nad yw'n ystyried natur cefn gwlad. Felly, ers blynyddoedd, mae Llywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr wedi grymuso awdurdodau lleol i rew'r dreth gyngor, felly wrth gwrs rwy'n gofyn i Lywodraeth Cymru ddilyn ei harweiniad a dilyn Llywodraeth y DU a hefyd i ddilyn comisinydd heddlu a throsedd Dyfed Powys, Christopher Salmon, drwy roi arian yn ôl ym mhocedi trethdalwyr. Yn Nyfed Powys, yn ddiweddar, mae Christopher Salmon wedi torri 5% oddi ar braesept yr heddlu ac fel y dywedodd y comisinydd yn hollol gywir, ar ôl y cyhoeddiad,

'nid oes y fath beth ag arian "y llywodraeth". Arian y trethdalwyr yw pob arian. Rhaid i bobl ei ennill yn gyntaf. Yr hyn y mae gwleidyddion yn ei gymryd mewn trethi, ni fyddant yn gallu ei wario ar ofalu am eu teuluoedd.'

Ac mae rhaid i mi ddweud fy mod yn siomedig hefyd nad yw Plaid Cymru yn cefnogi ein galwadau i rew'r dreth ledled Cymru. Rwy'n gobeithio y byddant yn ailystyried, ond nid wyf yn meddwl y byddant yn gwneud hynny yn dilyn sylwadau Rhodri Glyn, ac mae'n drueni nad ydynt yn dilyn eu cydweithwyr a'u ffrindiau yn yr Alban sydd wedi rhewi'r dreth gyngor i aelwydydd yno ers wyth mlynedd yn olynol. Ers 1997, mae bil cyfartalog y dreth gyngor ar gyfer band D wedi mwy na dyblu yng Nghymru, mewn gwrthgyferbyniad i Lywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr, sydd wedi torri biliau fwy nag 11% mewn termau real ers 2010, sy'n golygu bod gan bobl fwy o arian yn eu pocedi ac nad ydynt bellach yn wynebu bygythiad biliau'n codi i'r entrychion. Yng Nghymru, gwyddom fod biliau cyfartalog y dreth gyngor wedi codi 13.5% ers 2010. Fel y nododd fy nghyd-Aelod Janet Finch Saunders, byddai trethdalwyr Cymru sydd ym mand D y dreth gyngor bron i £150 ar gyfartaledd yn well eu byd pe bai Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu polisi'r Ceidwadwyr Cymreig.

Felly, i gloi, Ddirprwy Lywydd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i anwybyddu anghenion cefn gwlad canolbarth Cymru. (1) Mae angen diwygio fformiwla ariannu llywodraeth leol yn llwyr er mwyn rhoi ystyriaeth briodol i'r heriau a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng nghefn gwlad canolbarth Cymru, a (2) mae angen rhewi'r dreth gyngor sy'n rhoi arian yn ôl ym mhocedi teuluoedd gweithgar yng Nghymru.

Yn gyntaf, gan geisio bod yn gadarnhaol, a gaf fi gytuno â phwynt 4 y Ceidwadwyr, sydd:

Yn credu bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wario arian cyhoeddus gyda gofal a phwyll, er mwyn sicrhau bod cyfraddau treth gyngor yn cael eu gosod mor isel â phosibl i breswylwyr a bod cyfraddau treth gyngor yn darparu gwerth am arian i'r trethdalwr.'

I don't think any council will go out and say, 'Well, when are we going to increase the council tax a bit more?' Councillors don't sit around a table and say, 'I wonder how much we could put the council tax up this year'. What happens, of course, is there is a list of increased costs, including legislative costs, many from here, demographic changes are calculated, and reductions in expenditure can be identified and some are accepted and some are rejected. Sometimes, the same ones come up every year and are rejected every year, which is unacceptable, then the shortfall has to be made up from either reserves, fees and charges, or council tax.

I know of no councillor who wants to increase council tax. But, its inevitable consequence is a reduction in the rate support grant. I can also think of no area of public service that provides better value for money than local government. No council increases their council tax for any other reason than to continue to provide local services for the people who need them.

We also know that council tax is hated by the rich; there's no way of avoiding it. No non-domiciled status or offsets to reduce the council tax bill. Whilst not as progressive a tax as the rates—and I would like it to be made more progressive—it still means that those who are richer and in larger properties pay more.

The latest budget entailed increasing the expenditure on health, which the Tories have supported, and this has had the inevitable repercussion of reducing support for local government. The Conservatives' solution in education has been to reduce the expenditure considerably and devolve all the money to schools. This means the end of free school transport, end of education welfare officers, end of the educational psychological service, end of education other than at school, end of education support services, plus some centrally provided services.

Nid wyf yn credu y bydd unrhyw gyngor yn dod allan a dweud, 'Wel, pa bryd y gwnawn ni godi'r dreth gyngor ychydig mwy?' Nid yw Cynghorwyr yn eistedd o amgylch bwrdd a dweud, 'Tybed faint yn uwch y gallem godi'r dreth gyngor eleni'. Beth sy'n digwydd, wrth gwrs, yw bod rhestr o gostau cynyddol, gan gynnwys costau deddfwriaethol, nifer ohonynt o'r fan hon, caiff newidiadau demograffig eu cyfrifo, a nodir gostyngiadau yn y gwariant gyda rhai'n cael eu derbyn ac eraill yn cael eu gwrthod. Weithiau, mae'r un rhai yn codi bob blwyddyn ac yn cael eu gwrthod bob blwyddyn, sy'n annerbyniol, yna mae'n rhaid gwneud iawn am y diffyg o gronfeydd wrth gefn, ffioedd a thaliadau, neu'r dreth gyngor.

Nid wyf yn gwybod am unrhyw gynghorydd sydd am godi'r dreth gyngor. Ond ei ganlyniad anochel yw gostyngiad yn y grant cynnal ardrethi. Ni allaf feddwl chwaith am unrhyw faes gwasanaeth cyhoeddus sy'n darparu gwell gwerth am arian na llywodraeth leol. Nid oes unrhyw gyngor yn cynyddu eu treth gyngor am unrhyw reswm heblaw parhau i ddarparu gwasanaethau lleol ar gyfer y bobl sydd eu hangen.

Rydym hefyd yn gwybod bod y cyfoethog yn casáu'r dreth gyngor; nid oes modd o'i hosgoi. Dim statws trigo y tu allan i'r wlad na modd o osod costau yn erbyn y dreth gyngor i'w lleihau. Er nad yw'n dreth mor gynyddol ag ardrethi—a hoffwn ei gweld yn cael ei gwneud yn fwy cynyddol—mae'n dal i olygu bod y rhai sy'n gyfoethoch ac mewn eiddo mwy o faint yn talu mwy.

Roedd y gyllideb ddiweddaraf yn golygu cynyddu'r gwariant ar iechyd, a chefnogwyd hynny gan y Torïaid. Arweiniodd hyn yn anochel at leihau cymorth i lywodraeth leol. Ateb y Ceidwadwyr mewn addysg oedd lleihau'r gwariant yn sylweddol a datganoli'r holl arian i ysgolion. Mae hyn yn golygu rhoi diwedd ar gludiant ysgol am ddim, diwedd ar swyddogion lles addysg, diwedd ar wasanaeth seicoleg addysgol, diwedd ar addysg heblaw addysg yn yr ysgol, diwedd ar wasanaethau cymorth i addysg, yn ogystal â rhai gwasanaethau a ddarperir yn ganolog.

16:22 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Will you take an intervention?

A wneuch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:22 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Certainly. It's in the course of that list.

Yn sicr. Mae yn y rhestr honno.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:22 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you. So, are you happy then, on any future literature that you put out, that you say, 'I'm proud that the Welsh Labour Government that I support is happy that we didn't use the Barnett consequential to freeze council tax, thereby saving you £149 a year'? You're happy to tell your electorate that.

Diolch yn fawr. Felly, a ydych yn hapus, felly, i ddweud ar unrhyw lenyddiaeth a gyhoeddwyd yn y dyfodol, 'Rwy'n falch fod Llywodraeth Lafur Cymru a gefnogaf yn hapus na wnaethom ddefnyddio swm canlyniadol Barnett i rewi'r dreth gyngor, gan arbed £149 y flwyddyn i chi'? Rydych yn hapus i ddweud hynny wrth eich etholwyr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:22 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I'm happy to tell my electorate that, but I will be getting to that in a minute; at the very end of this, actually, which will perhaps embarrass you even more. [Laughter.]

Rwy'n hapus i ddweud hynny wrth fy etholwyr, ond fe droi at hynny mewn munud; ar ddiwedd hyn, mewn gwirionedd, a fydd efallai yn fwy o embaras i chi hyd yn oed. [Chwerthin.]

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

It is another example of a Tory soundbite: not thought out, made in the expectation that they will never have the opportunity to exact their damage on Welsh education. The Conservatives show their support for cuts to local government services. Can I now assume that, when cuts are suggested to services such as library services—

Mae'n enghraifft arall o sylw bachog gan y Toriaid: heb ei ystyried, wedi'i wneud gan ddisgwyl na chânt byth gyfle i fynd ati i ddiinstrio addysg yng Nghymru. Mae'r Ceidwadwyr yn dangos eu cefnogaeth i doriadau i wasanaethau llywodraeth leol. A gaf fi ragdybio yn awr, pan awgrymir toriadau i wasanaethau fel gwasanaethau llyfrgelloedd—

16:23 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Are you happy to take another?

A ydych yn hapus i gymryd un arall?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:23 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—the Conservatives will not support keeping them open, but say, 'We want more; we want more libraries to be shut; we want more cuts'. Certainly.

[Yn parhau.] —na fydd y Ceidwadwyr yn cefnogi eu cadw ar agor, ond yn dweud, 'Rydym am weld rhagor; rydym am weld rhagor o lyfrgelloedd yn cael eu cau; rydym eisiau mwy o doriadau'. Yn bendant.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. You are giving way, are you?

Trefn. Rydych yn ildio, ydych chi?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:23 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Ydw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Antoinette Sandbach.

Antoinette Sandbach.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:23 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very grateful to Mike Hedges for taking the intervention. Do you agree with me that the role of Government is to deliver essential services to people and that it shouldn't be using its money to buy airports and spending £120 million on a property portfolio?

Rwy'n ddiolchgar iawn i Mike Hedges am gymryd yr ymyriad. A ydych yn cytuno â mi mai rôl y Llywodraeth yw darparu gwasanaethau hanfodol i bobl ac na ddylai ddefnyddio ei arian i brynu meysydd awyr a gwario £120 miliwn ar bortffolio eiddo?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:23 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, can I just say, I'm bemused by what that's got to do with local government? But I do agree with you: it's about providing services, which your party want to do away with.

Wel, a gaf fi ddweud fy mod mewn penbleth ynglŷn â beth sydd gan hynny i'w wneud â llywodraeth leol? Ond rwy'n cytuno â chi: mae'n ymwneud â darparu gwasanaethau y mae eich plaid yn awyddus i gael eu gwared.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

We've got difficult financial circumstances. Local authorities are suffering. They've had reductions—the Welsh Government's budget has gone down by 9% in real terms and local government are having to make up some of those cuts.

Mae gennym amgylchiadau ariannol anodd. Mae awdurdodau lleol yn dioddef. Maent wedi cael gostyngiadau—mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi gostwng 9% mewn termau real ac mae llywodraeth leol yn gorfod gwneud iawn am rai o'r toriadau.

What is actually happening, though? These cuts in social care in England are leading to the inability to discharge patients from hospital when their medical needs have been met; increased numbers at A&E, as social care collapses. Don't just take my word for it; ask David Cameron's brother-in-law. Cardiologist, Carl Brookes, who is married to the Prime Minister's sister, Tania, spoke of the extraordinary challenges faced by his own hospital trust in Hampshire over the last few weeks. It also emerged that the trust, which is made up of three hospitals, is so stretched it has asked IT workers and other non-medical staff to help out on the wards. He said,

'There are problems with access to adult services, we are seeing a lot of frail elderly people who need special care, and we need family support. If the back door is blocked, it makes it difficult to get people in the front door.'

I agree entirely with the Conservative Prime Minister's brother-in-law; I wish he would.

Can I just answer a few questions? Why is council tax lower in some London boroughs? Quite simple—two things: they've been disproportionately helped by the rate support grant in England and, secondly, because a number of them, like Westminster, gained hundreds of millions of pounds by collecting money from car parking charges. That makes a huge difference to them. On the rate support grant, I hope the Minister will publish the rate support grant per head of every authority in Wales. I think you will find Powys very close to the top.

Ond beth sy'n digwydd mewn gwirionedd? Mae'r toriadau ym maes gofal cymdeithasol yn Lloegr yn arwain at anallu i ryddhau cleifion o'r ysbty pan fydd eu hanghenion meddygol wedi'u bodloni; niferoedd cynyddol yn yr adrannau damweiniau ac achosion brys, wrth i ofal cymdeithasol ddirywio. Peidiwch â chymryd fy ngair i am hynny; gofynnwch i frawd yng nghyfraith David Cameron. Siaradodd y cardiolegydd, Carl Brookes, sy'n briod â chwaer y Prif Weinidog, Tania, am yr heriau eithriadol y mae ei ymddiriedolaeth ysbty ei hun wedi eu hwynebu yn Hampshire dros yr wythnosau diwethaf. Daeth yn amlwg hefyd fod yr ymddiriedolaeth, sydd yn cynnwys tri ysbty, yn wynebu'r fath bwysau fel ei fod wedi gofyn i weithwyr TG a staff anfeddygol eraill i helpu allan ar y wardiau. Dywedodd,

'Mae yna broblemau gyda mynediad i wasanaethau oedolion, rydym yn gweld llawer o bobl oedrannus bregus sydd angen gofal arbennig, ac mae angen cymorth i deuluoedd. Os yw'r drws cefn wedi'i rwystru, mae'n ei gwneud yn anodd cael pobl i mewn drwy'r drws blaen.'

Cytunaf yn llwyr â brawd yng nghyfraith y Prif Weinidog Ceidwadol; hoffwn pe bai ef yn cytuno.

A gaf fi ateb ychydig o gwestiynau? Pam fod y dreth gyngor yn is yn rhai o fwrdeistrefi Llundain? Mae'n eithaf syml—dau beth: maent wedi cael help anghymesur gan y grant cynnal ardrethi yn Lloegr ac yn ail, am fod nifer ohonynt, fel San Steffan, wedi ennill cannoedd o filynau o bunnoedd drwy gasglu arian o ffioedd meysydd parcio. Mae hynny'n gwneud gwahaniaeth mawr iddynt. Ar y grant cynnal ardrethi, rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn cyhoeddi cyfradd y pen y grant cynnal ardrethi i bob awdurdod yng Nghymru. Rwy'n credu y gwelwch fod Powys yn dod yn agos iawn at y brig.

16:25

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do encourage great alacrity in debates, and you have to draw whatever comparisons you are making into the main subject of the debate. So, perhaps a little less about the Prime Minister's brother-in-law and also a little less about the previous debate, if I may say so. Let's stick to this subject. Mark Isherwood.

Rwy'n annog bywiogrwydd mewn dadleuon, a rhaid i unrhyw gymariaethau a wnewch fod yn gysylltiedig â phrif bwnc y ddadl. Felly, efallai ychydig yn llai am frawd yng nghyfraith y Prif Weinidog, a hefyd ychydig yn llai am y ddadl flaenorol, os caf fi ddweud. Gadewch i ni lynu at y pwnc. Mark Isherwood.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Well, between 1997-98 and 2014-15, council tax in Wales has increased from £495 to £1,276, up a whopping 158%, compared with 113% in England and less than 47% in Scotland for the average band D home. The Conservative-led UK coalition Government has now made funding available for a fifth year for local authorities to freeze their council tax. Sixty per cent of English councils—251—have frozen or even reduced their council tax this year. Although not every authority in England decided to freeze council tax—and, yes, including some Conservative-led authorities—the council tax community referendum threshold in the Localism Act 2011, brought in by this UK Government, protects hard-working and hard-pressed taxpayers, irrespective of which council they live in, giving them voice, choice and control. In England, local authorities are limited to a council tax increase of 2%, above which they have to hold a referendum, detailing plans for what the council will spend the increased revenue on. In London, all 33 boroughs froze or decreased council tax this year—over half of those Labour controlled.

The rise in average band D council tax across English local authorities averaged just 0.9%, with all precepts included, compared with 4.1% in Wales. In Scotland, funding's been provided to freeze council tax for the eighth consecutive year. Last year, Labour's UK shadow Minister for communities and local government, Hilary Benn, said that Labour were not proposing to change the council tax referendum arrangements for England. I wonder whether he looked to Wales, where, thanks to his Welsh Labour colleagues, Welsh taxpayers are spending more of their incomes on council tax than either their English or their Scottish counterparts.

Council tax is just 3.68% of incomes in Scotland, compared with 4.48% in England and, now, 4.56% in Wales—this, when Wales has the lowest average incomes and the weakest economy in the UK in terms of goods and services produced. Shockingly, Labour Ministers have repeatedly stated that, while council tax in Wales is increasing, it's not as high as in England. So, let us be clear: Welsh taxpayers are now paying more of their income on their council tax than people in England or Scotland. So, your repeated statement that it's higher in England simply no longer washes. You're doing to Wales exactly what you did in England: squeezing taxpayers more and more and blaming it on other people.

Wel, rhwng 1997-98 a 2014-15, mae'r dreth gyngor yng Nghymru wedi cynyddu o £495 i £1,276, codiad enfawr o 158%, o'i gymharu â 113% yn Lloegr a llai na 47% yn yr Alban ar gyfer cartref band D cyfartalog. Mae Llywodraeth glymblaid y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr bellach wedi sicrhau bod cyllid ar gael am y bumed flwyddyn i awdurdodau lleol rewi eu treth gyngor. Mae chwe deg y cant o gynghorau Lloegr—251—wedi rhewi neu hyd yn oed wedi lleihau eu treth gyngor eleni. Er nad yw pob awdurdod yn Lloegr wedi penderfynu rhewi'r dreth gyngor—gan gynnwys rhai awdurdodau a arweinir gan y Ceidwadwyr yn wir—mae trothwy refferendwm cymunedol y dreth gyngor yn Neddf Lleoliaeth 2011, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, yn gwarchod trethdalwyr gweithgar sydd dan bwysau, ni waeth pa gyngor y maent yn byw ynddo, gan roi llais, dewis a rheolaeth iddynt. Yn Lloegr, mae awdurdodau lleol yn cael eu cyfyngu i gynnydd o 2% yn y dreth gyngor, ac er mwyn ei chodi'n uwch na hynny rhaid iddynt gynnal refferendwm, gan roi manylion am y cynlluniau sydd gan y cyngor ar gyfer gwario'r cynnydd yn y refeniw. Yn Llundain, rhewodd, neu gostyngodd pob un o'r 33 bwrdeistref y dreth gyngor eleni—ac roedd dros eu hanner yn rhai a reolir gan Lafur.

Ni chafwyd ond cynnydd o 0.9% yn unig yn y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar draws awdurdodau lleol Lloegr, gyda phob praecept wedi'u cynnwys, o'i gymharu â 4.1% yng Nghymru. Yn yr Alban, darparwyd cyllid ar gyfer rhewi'r dreth gyngor am yr wythfed flwyddyn yn olynol. Y llynedd, dywedodd Hilary Benn, Gweinidog Llafur yr wrthblaid yn y DU dros gymunedau a llywodraeth leol nad oedd Llafur yn bwriadu newid trefniadau refferendwm y dreth gyngor ar gyfer Lloegr. Tybed a roddodd ystyriaeth i Gymru, lle y mae trethdalwyr Cymreig, diolch i'w gydweithwyr yn Llafur Cymru, yn gwario mwy o'u hincwm ar y dreth gyngor na'u cymheiriaid yn Lloegr a'r Alban.

Nid yw'r dreth gyngor ond yn 3.68% o incymau yn yr Alban, o'i gymharu â 4.48% yn Lloegr a 4.56% yn awr yng Nghymru—a hyn pan fo gan Gymru yr incymau cyfartalog isaf a'r economi wannaf yn y DU o ran nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir. Mae'n arswydus fod Gweinidogion Llafur wedi datgan dro ar ôl tro, er bod y dreth gyngor yng Nghymru yn cynyddu, nad yw mor uchel ag yn Lloegr. Felly, gadewch inni fod yn glir: mae trethdalwyr Cymru bellach yn talu mwy o'u hincwm ar eu treth gyngor na phobl yn Lloegr neu'r Alban. Felly'n syml iawn, nid yw eich datganiad yn ailadrodd ei fod yn uwch yn Lloegr yn dal dŵr bellach. Rydych yn gwneud yn union yr un fath yng Nghymru ag a wnaethoch yn Lloegr: gwasgu mwy a mwy ar drethdalwyr a beio pobl eraill.

A community referendum threshold would be of benefit to the Welsh taxpayer. Who knows, they may even vote for an increase? But it is giving people a voice. With a real-terms decreasing budget for local government and the services it provides, we urge the Welsh Government to start recognising service users and service providers as equal partners, designing, planning and delivering services with them. There are some wonderful examples of co-production across Wales, but, sadly, it is not Wales wide, it is not well understood and it is certainly not well embedded in most council areas. With budgets as they are, I urge you to turn the rhetoric about sharing power with communities into reality, in order to deliver truly sustainable social, economic and community regeneration.

At the 2013 Wales co-production conference, Western Australia's mental health commissioner talked about how Australia had embraced co-production, saying we have to decide whether we're adding on a programme or reforming the system. Well, we've had 16 years of Welsh Labour Government programmes; it's about time we reformed the system by giving power to the people who employ us.

Co-production Wales told me that co-production is not just a nice add-on, but a new way of operating for the Government as well as public service professionals and citizens—people, themselves, with explicit links between health, environment, housing, education and communities, and early action to prevent crisis.

The WCVA report on citizen-directed support for vulnerable groups said there is,

'scope for local authorities, health boards... to work much more imaginatively to develop better services that are closer to people, more responsive to needs, and add value by drawing on community resources.'

Real partnership means respect, listening, sharing expertise and recognising that you do not have all the answers. The Welsh Government must answer why it is still denying this to people in Wales. Instead of trusting the people and letting them decide, they pursue Leninist principles of democratic centralism where they decide and the people must do as they are told. [Interruption.]

Byddai trothwy refferendwm cymunedol o fudd i'r trethdalwr yng Nghymru. Pwy a wŷr, efallai y byddent hyd yn oed yn pleidleisio dros gynydd? Ond mae'n fater o roi llais i bobl. Gyda chyllideb sy'n lleihau mewn termau real i lywodraeth leol a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ddechrau cydnabod defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau fel partneriaid cyfartal, gan fynd ati i lunio, cynllunio a darparu gwasanaethau gyda hwy. Ceir rhai enghreifftiau gwych o gyd-gynhyrchu ar draws Cymru, ond yn anffodus, nid yw'n digwydd ledled Cymru gyfan, nid yw'n cael ei ddeall yn dda ac yn sicr nid yw wedi ei sefydlu'n dda yn y rhan fwyaf o ardaloedd y cyngorau. Gyda chyllidebau fel y maent, rwy'n eich annog i droi'r rhethreg ynghylch rhannu pŵer gyda chymunedau yn realiti, er mwyn sicrhau adfywiad cymdeithasol, economaidd a chymunedol gwirioneddol gynaliadwy.

Yng nghynhadledd cyd-gynhyrchu Cymru 2013, soniodd comisiynydd iechyd meddwl Gorllewin Awstralia sut y mae Awstralia wedi croesawu cyd-gynhyrchu, gan ddweud bod yn rhaid i ni benderfynu a ydym yn ychwanegu rhaglen neu'n diwygio'r system. Wel, rydym wedi cael 16 mlynedd o raglenni Llywodraeth Lafur Cymru; mae'n hen bryd i ni ddiwygio'r system drwy roi grym i'r bobl sy'n ein cyflogi ni.

Dyweddodd Cydgynhyrchu Cymru wrthyf nad ychwanegyn deniadol yn unig yw cyd-gynhyrchu, ond ffordd newydd o weithredu ar gyfer y Llywodraeth yn ogystal â gweithwyr proffesiynol gwasanaethau cyhoeddus a dinasyddion-pobl, eu hunain, gyda chysylltiadau clir rhwng iechyd, yr amgylchedd, tai, addysg a chymunedau, a gweithredu cynnar er mwyn atal argyfwng.

Dyweddodd adroddiad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar gymorth wedi ei gyfeirio gan y dinesydd i grwpiau sy'n agored i niwed fod,

'lle i awdurdodau lleol, byrddau iechyd... weithio'n llawer mwy dychmygus er mwyn datblygu gwasanaethau gwell sy'n agosach at bobl, yn fwy ymatebol i anghenion ac yn ychwanegu gwerth drwy ddefnyddio adnoddau cymunedol.'

Mae partneriaeth go iawn yn golygu parch, gwranddo, rhannu arbenigedd a chydabod nad yw'r holl atebion gennyh. Rhaid i Lywodraeth Cymru ateb pam ei bod yn dal i wadu hyn i bobl yng Nghymru. Yn hytrach nag ymddiried yn y bobl a gadael iddynt benderfynu, maent yn dilyn egwyddorion Leninaidd ynghylch canoliaeth ddemocrataidd lle y maent yn penderfynu ac mae'n rhaid i'r bobl wneud fel y dywedir wrthynt am ei wneud. [Torri ar draws.]

As an unlikely Leninist, I think that—. I start off by agreeing with Mike Hedges, actually, because I have no problem with clause 4 of this motion. It is absolutely right that local authorities have a duty to spend public money with care and prudence. I also agree with amendment 2, which is that the first duty of local authorities is to protect vital services. Those don't always work together, but it is absolutely right that local authorities are there to deliver local services, to protect the front-line services and to protect the most vulnerable people, but, whilst doing so, to try to make the best use of public money. Ultimately, it's for local authorities to make that decision and to do that job. It's not for us as the Welsh Assembly or the Welsh Assembly Government to tell local authorities how they do that job and how they should conduct their affairs. They are, after all, accountable to the electorate in their own right.

Yes, council tax rises have been high, and have contributed to the high cost of living many people face. That has been made worse by some councils breaking clear promises—Cardiff, for example, where the controlling Labour group were elected in 2012 promising to freeze council tax in their first year but, instead, increased it by 5%. I think, in terms of how we use the Barnett consequentials, that is a matter for us as a Welsh Assembly and through our budget processes. It is not a matter for the UK Government to tell us that, if they give us so much money to freeze council tax, we have to use it to freeze council tax. We've made that choice. We've made that choice because we've been faced with some very stark choices ourselves—stark choices like how we're going to fund the health service, stark choices about how we're going to make sure that our education service is properly funded, that we're targeting money at people who are in deprived areas and giving them the best chance and start in life. You cannot spend the same money twice despite what the Conservatives say. If you look at the Conservatives' own spending plans, they themselves would cut local government because they want to put more money into health. You cannot say to us that we should make those choices and then say that you will make different choices when you've already set out your plans and your plans include cutting the money available to local authorities.

It is a matter for local councils how they run their own affairs. The problem here, I think, is that there are too many people in this Assembly who want to run the councils instead of concentrating on their own jobs of being an Assembly Member. I do not exempt any party in saying that particular thing. Having said that, I'm concerned at the way that the Welsh Government has slashed—[Interruption.]

Sorry, did you want to intervene?

Fel Leninydd annhebygol, rwy'n meddwl bod hynny—. Rwy'n dechrau drwy gytuno gyda Mike Hedges, mewn gwirionedd, oherwydd nid oes gennyf broblem gyda chymal 4 y cynnig hwn. Mae'n gwbl briodol bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i wario arian cyhoeddus gyda gofal a phwyll. Rwyf hefyd yn cytuno â gwelliant 2, mai dyletswydd gyntaf awdurdodau lleol yw diogelu gwasanaethau hanfodol. Nid yw'r rhain bob amser yn gweithio gyda'i gilydd, ond mae'n hollol iawn fod awdurdodau lleol yno i ddarparu gwasanaethau lleol, i amddiffyn y gwasanaethau rheng flaen ac i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed, ond wrth wneud hynny, i geisio gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus. Yn y pen draw, mater i awdurdodau lleol yw gwneud y penderfyniad hwnnw a gwneud y gwaith. Nid ein lle ni fel Cynulliad Cymru na Llywodraeth Cynulliad Cymru yw dweud wrth awdurdodau lleol sut i wneud y gwaith a sut y dylent gynnal eu busnes. Wedi'r cyfan, maent yn atebol i'r etholwyr yn eu hawl eu hunain.

Ie, mae cynnydd mawr wedi bod yn y dreth gyngor, ac mae wedi cyfrannu at y costau byw uchel y mae llawer o bobl yn eu hwynebu. Mae hynny wedi cael ei wneud yn waeth wrth i rai cynghorau dorri addewidion dir—yng Nghaerdydd, er enghraifft, lle y cafodd y grŵp Llafur sy'n rheoli eu hethol yn 2012 gan addo eu bod yn mynd i rewi'r dreth gyngor yn eu blwyddyn gyntaf, ond a aeth ati i'w chodi 5% yn lle hynny. Rwy'n credu, o ran sut rydym yn defnyddio symiau canlyniadol Barnett, fod hynny'n fater i ni fel Cynulliad Cymru a thrwy ein prosesau cyllidebol. Nid yw'n fater i Lywodraeth y DU ddweud wrthym, os ydynt yn rhoi hyn a hyn o arian i ni y dylem rewi'r dreth gyngor, fod yn rhaid i ni ei ddefnyddio i rewi'r dreth gyngor. Rydym wedi gwneud y dewis hwnnw. Rydym wedi gwneud y dewis oherwydd ein bod wedi wynebu dewisiadau anodd iawn ein hunain—dewisiadau anodd fel sut rydym yn mynd i ariannu'r gwasanaeth iechyd, dewisiadau anodd ynglŷn â sut rydym yn mynd i wneud yn siŵr fod ein gwasanaeth addysg yn cael ei ariannu'n briodol, ein bod yn targedu arian at bobl mewn ardaloedd difreintiedig ac yn rhoi'r cyfle gorau a'r dechrau gorau mewn bywyd iddynt. Ni allwch wario'r un arian ddwywaith er gwaethaf yr hyn y mae'r Ceidwadwyr yn ei ddweud. Os edrychwch ar gynlluniau gwariant y Ceidwadwyr eu hunain, fe fyddent yn torri cyllid i lywodraeth leol am eu bod eisiau rhoi mwy o arian i iechyd. Ni allwch ddweud wrthym y dylem wneud y dewisiadau hynny ac yna dweud y byddech yn gwneud dewisiadau gwahanol pan ydych eisoes wedi nodi eich cynlluniau a bod eich cynlluniau'n cynnwys torri'r arian sydd ar gael i awdurdodau lleol.

Mater i gynghorau lleol yw sut y maent yn rhedeg eu materion eu hunain. Y broblem yma, rwy'n credu, yw bod gormod o bobl yn y Cynulliad hwn eisiau rhedeg y cynghorau yn hytrach na chanolbwyntio ar eu gwaith eu hunain sef bod yn Aelodau Cynulliad. Nid wyf yn eithrio unrhyw blaid wrth ddweud hynny. Wedi dweud hynny, rwy'n bryderus ynghylch y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi torri—[Torri ar draws.]

Mae'n ddrwg gennyf, a oeddech chi eisiau ymyrryd?

16:33	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Order. You shouldn't respond to sedentary comments.	Trefn. Ni ddylech ymateb i sylwadau aelodau ar eu heistedd.	Senedd.tv Fideo Video
16:33	Peter Black Bywgraffiad Biography	I thought he was intervening. I do apologise.	Roeddwn i'n meddwl ei fod yn ymyrryd. Rwy'n ymddiheuro.	Senedd.tv Fideo Video
16:33	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	I don't think so. I think he's just heckling.	Nid wyf yn credu hynny. Rwy'n credu mai heclo'n unig y mae'n ei wneud.	Senedd.tv Fideo Video
16:33	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography	I was merely commenting that your statement was supremely ironic, considering you're a county councillor.	Roeddwn i ond yn dweud bod eich datganiad yn hynod o eironig, o ystyried eich bod yn gynghorydd sir.	Senedd.tv Fideo Video
16:34	Peter Black Bywgraffiad Biography	Well, I think that as a member of a council I know a lot more than some about how local councils operate, and what the criteria are in terms of this. I think, as a councillor, I understand that I am accountable to the local people as a councillor, just as I am accountable to the local people as an Assembly Member. I think that accountability is what sets aside local councils from, for example, the health service, because the health service does not have that same local accountability, whereas councils do.	Wel, fel aelod o gyngor, credaf fy mod yn gwybod llawer mwy na rhai ynglŷn â sut y mae cynghorau lleol yn gweithredu, a beth yw'r meini prawf o ran hyn. Fel cynghorydd, rwy'n meddwl fy mod yn deall fy mod yn atebol i'r bobl leol fel cynghorydd, yn union fel rwy'n atebol i bobl leol fel Aelod o'r Cynulliad. Credaf mai atebolrwydd yw'r hyn sy'n gosod cynghorau lleol ar wahân i'r gwasanaeth iechyd, er enghraifft, oherwydd nid oes gan y gwasanaeth iechyd yr un atebolrwydd lleol ag sydd gan gynghorau.	Senedd.tv Fideo Video
		As I was saying before I was rudely interrupted, I am concerned at the way the Welsh Government has slashed local government funding this year, not because of the choice they've made but because they made the choice effectively in one year, when it would have been better, I think, spread over a period of time, rather than giving local government such a sudden cut all at once. I think that has caused an issue for many local councils, and I think if you'd had a planned increase in health funding over the last three years instead of just doing it this year, that would not have caused the same problem. But, certainly, I think, in terms of what Russell George was saying, Mike Hedges made the very good point that, if you look to spending per head, Powys would be up near the top of the funding. But, councils like Powys are suffering bigger cuts, because the funding system that is set out and the vagaries of that effectively target areas that have high levels of deprivation, and, of course, Powys has a different tax base to other councils and, of course, is a smaller size, and that all has an impact on the funding. So, it isn't a question of making a decision here to take money off Powys. It's making a decision here to give money to local government and letting the funding system, which is agreed by all local councils, decide how that money is allocated.	Fel roeddwn yn ei ddweud cyn i rywun fod mor anfoesgar â tharfau arnaf, rwy'n poeni am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi torri cyllid llywodraeth leol eleni, nid oherwydd y dewis y maent wedi ei wneud, ond oherwydd eu bod wedi gwneud y dewis i bob pwrpas mewn un flwyddyn, pan fyddai wedi bod yn well, yn fy marn i, ei wasgaru dros gyfnod o amser, yn hytrach na rhoi toriad mor sydyn i lywodraeth leol ar unwaith. Credaf fod hynny wedi achosi problem i lawer o gynghorau lleol, ac rwy'n meddwl pe baech chi wedi cael cynnydd arfaethedig mewn cyllid dros y tair blynedd diwethaf yn lle ei wneud eleni'n unig, ni fyddai hynny wedi achosi'r un broblem. Ond yn sicr, rwy'n meddwl, o ran yr hyn a ddywedodd Russell George, gwnaeth Mike Hedges bwynt da iawn ynglŷn ag os ydych yn edrych ar wariant y pen, byddai Powys fod yn agos at frig y cyllid. Ond mae cynghorau fel Powys yn dioddef toriadau mwy am fod y system gyllido sydd wedi ei gosod, a mympwyon hynny sydd i bob pwrpas yn targedu ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd, ac wrth gwrs, mae gan Bowys sylfaen dreth wahanol i gynghorau eraill ac wrth gwrs, mae'n llai o faint, ac mae hynny i gyd yn cael effaith ar y cyllid. Felly, nid yw'n fater o wneud penderfyniad yma i gymryd arian gan Bowys. Mae'n ymwneud â gwneud penderfyniad yma i roi arian i lywodraeth leol a gadael i'r system gyllido, sy'n cael ei chytuno gan bob cyngor lleol, benderfynu sut y caiff yr arian ei ddyrannu.	

I just want to conclude, Deputy Presiding Officer, by referring to the White Paper that the Minister published yesterday. I think there are some issues in there that are well worth addressing in the light of this particular motion. Looking, for example, at the gearing effects on local government funding and how we finance local councils is very important. Finding new ways of letting councils raise money, such as, for example, giving them back control of business rates, replacing business rates with land value taxation et cetera, would have a huge impact on the way councils are able to fund themselves, and also on local tax rates. I hope, therefore, that we can reject this motion and move ahead with the budget. Thank you.

Hoffwn orffen, Ddirprwy Lywydd, drwy gyfeirio at y Papur Gwyn a gyhoeddodd y Gweinidog ddoe. Rwy'n meddwl bod rhai materion ynddo sy'n werth mynd i'r afael â hwy yng ngoleuni'r cynnig penodol hwn. Mae edrych, er enghraifft, ar effeithiau gerio ar gyllid llywodraeth leol a sut rydym yn ariannu cynghorau lleol yn bwysig iawn. Byddai dod o hyd i ffyrdd newydd o adael i gynghorau godi arian, megis rhoi rheolaeth dros ardrethi busnes yn ôl iddynt, er enghraifft, cael treth gwerth tir ac ati yn lle ardrethi busnes, yn cael effaith enfawr ar y ffordd y mae cynghorau yn gallu ariannu eu hunain, a hefyd ar gyfraddau trethi lleol. Rwy'n gobeithio, felly, y gallwn wrthod y cynnig hwn a symud ymlaen â'r gyllideb. Diolch yn fawr.

16:36

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm really thrilled to be taking part in this exciting debate. I have to tell you that I am not a councillor, but I am a hard-pressed householder who pays quite significant council tax rates. So, I'd like to particularly concentrate on point 3 of this motion, because we do regret the staggering increase of over 150% on council tax bills in the past decade. I am quite a well-paid Assembly Member, so it must be totally horrific if you do not earn very much money to have to shell out on your council tax every month. Because these are absolutely swingeing increases and, as ever, the rhetoric from Welsh Government, and from some councils—too many councils—is all predicated on the cuts and how the services provided in the local area can be sucked into the great maw of these councils to sustain their never-ending appetite, thereby draining a great many innovative and worthwhile organisations of their lifeblood.

Councils should remember that they can choose their path and I believe that the greatest role they can play is that of a commissioning authority, and that they could and should recognise that they are not always the best-placed organisation to provide a local service. County councils can make great partners to smaller organisations, especially those in the voluntary sector, but when times are tough, and following Welsh Labour's centralising agenda, we all know the best mantra of the left is that it's all too easy to cut services on the promise that they can be delivered by the council, too easy to cut services that are easy wins, but loved and needed by the public, such as libraries and youth engagement programmes, too easy to cut services by justifying that central delivery and a reduction in voluntary providers or non-governmental organisations will deliver cost savings. But, are the councils entirely the demons here? Of course not. Their reaction is in response to the Labour Government's absolute lack of support for them.

Mae'n bleser mawr gennyf gymryd rhan yn y ddadl gyffrous hon. Mae'n rhaid i mi ddweud wrthyhych nad wyf yn gynghorydd, ond rwy'n ddeiliad tŷ dan bwysau sy'n talu cyfraddau treth gyngor eithaf sylweddol. Felly, hoffwn ganolbwyntio yn arbennig ar bwynt 3 y cynnig hwn, am ein bod yn gresynu at y cynnydd syfrdanol o dros 150% ym miliau'r dreth gyngor dros y degawd diwethaf. Rwy'n Aelod Cynulliad ar gyflog eithaf da, felly mae'n rhaid ei bod yn erchyll os nad ydych yn ennill fawr iawn o arian i orfod talu eich treth gyngor bob mis. Oherwydd mae'r rhain yn godiadau llym eithriadol, a'r rhethreg, fel erioed, gan Lywodraeth Cymru, a chan rai o'r cynghorau—gormod o'r cynghorau—i gyd yn cael ei phriodoli i'r toriadau a'r modd y gall y gwasanaethau a ddarperir yn yr ardal leol gael eu sugno i mewn i grombil mawr y cynghorau hyn i gynnal eu harchwaeth ddiddiwedd, gan waedu llawer iawn o sefydliadau blaengar a gwerthfawr yn sych.

Dylai cynghorau gofio y gallant ddewis eu llwybr, ac rwy'n credu mai'r rôl fwyaf y gallant ei chwarae yw bod yn awdurdod sy'n comisiynu, ac y gallent ac y dylent gydnabod nad hwy sydd yn y sefyllfa orau weithiau i ddarparu gwasanaeth lleol. Gall cynghorau sir wneud partneriaid gwyb i sefydliadau llai, yn enwedig sefydliadau yn y sector gwirfoddol, ond pan fydd pethau'n anodd, ac yn dilyn agenda ganoli Llafur Cymru, rydym i gyd yn gwybod mai mantra'r adain chwith yw ei bod yn rhy hawdd torri gwasanaethau gan addo y gellir eu darparu gan y cyngor, yn rhy hawdd torri gwasanaethau sy'n enillion hawdd, ond sy'n annwyl i'r cyhoedd, a'u hangen arnynt, megis llyfrgelloedd a rhaglenni ymgysylltu â phobl ifanc, yn rhy hawdd torri gwasanaethau drwy gyfiawnhau y bydd darpariaeth ganolog a lleihau nifer y darparwyr gwirfoddol neu sefydliadau anllywodraethol yn sicrhau arbedion ar gostau. Ond ai'r cynghorau yw'r unig ddiarfoliaid yn hyn o beth? Nage, wrth gwrs. Maent yn ymateb i ddiffyg cefnogaeth lwyr y Llywodraeth Lafur.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Communities in Wales are the only ones in mainland Britain being denied the chance to benefit from a council tax freeze. Now, the UK Government has provided support for local authorities to freeze council tax for five successive years, and for our friends in the north, in Scotland, the bills there have been frozen since 2008-09. In Wales, cash-strapped households have been left to put up and shut up. Yet, the UK Government did give the Welsh Government funding to offer households support with their council tax bills in 2013, but Labour decided Welsh households should not have this money, and it is a prerogative of devolution. Instead, it's been spent on a range of other activities, such as £38.9 million on a stimulus package without tangible outcomes. Not only did the households not receive the targeted council-tax-freeze funding, but many suffer because of the few. The £83 million that was uncollected by inefficient councils and monitored by an inefficient Government during 2013-14—

Cymunedau yng Nghymru yw'r unig rai ar dir mawr Prydain sy'n cael eu hamddifadu o'r cyfle i gael budd o rew'r dreth gyngor. Yn awr, mae Llywodraeth y DU wedi darparu cymorth i awdurdodau lleol rew'r dreth gyngor am bum mlynedd yn olynol, ac ar gyfer ein cyfeillion yn y gogledd, yn yr Alban, mae'r biliau yno wedi cael eu rhewers 2008-09. Yng Nghymru, mae aelwydydd sy'n brin o arian wedi eu gadael i ddioddef yn ddistaw. Eto i gyd, rhoddodd Llywodraeth y DU gyllid i Lywodraeth Cymru i gynnig cymorth i aelwydydd gyda'u biliau treth gyngor yn 2013, ond penderfynodd Llafur na ddylai aelwydydd Cymru gael yr arian hwn, a dyna yw un o freintiau datganoli. Yn lle hynny, mae wedi cael ei wario ar ystod o weithgareddau eraill, megis £38.9 miliwn ar becyn ysgogi heb ganlyniadau diriaethol. Nid yn unig na dderbyniodd yr aelwydydd y cyllid rhew'r dreth gyngor a dargedwyd, ond mae llawer yn dioddef oherwydd yr ychydig. Mae'r £83 miliwn na chafodd ei gasglu gan gynghorau aneffeithlon a'i fonitro gan Lywodraeth aneffeithlon yn ystod 2013-14—

16:39 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:39 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
This could have been used for helping our citizens by keeping services alive and council tax rates down. Yes, Mike.

Gallai hwn fod wedi cael ei ddefnyddio i helpu ein dinasyddion drwy gadw gwasanaethau yn fyw a chyfraddau'r dreth gyngor i lawr. Ie, Mike.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:39 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
How much of that uncollected council tax was due to people either being dead or in nursing homes?

Faint o'r dreth gyngor honno sydd heb ei chasglu sy'n deillio o'r ffaith fod pobl wedi marw neu mewn cartrefi nyrsio?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:39 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I do not know, Mike Hedges, but I can tell you now I do not believe that the dead, or those in nursing homes, accounted for £83 million, but prove me wrong, if you wish.

Nid wyf yn gwybod, Mike Hedges, ond gallaf ddweud wrthyf yn awr nad wyf yn credu mai'r meirw, neu'r bobl mewn cartrefi nyrsio, sydd i gyfrif am yr £83 miliwn, ond profwch fi'n anghywir os dymunwch.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

There's also £1.6 billion sitting in reserves. Now, that is a huge sum of money. If the Minister would like to help us understand how that might be freed up to help support those vital services we have in our communities, then we would be delighted to hear that, because £1.6 billion in reserves—and there's another £50 million or £60 million sloshing around in school reserves—is a lot of money to be sitting there, not being used. With those uncollected taxes and massive reserves, it could offset the 4.1% cut in the local government budget. The Welsh Local Government Association says that cuts could lead to some service failures.

Hefyd, mae yna £1.6 biliwn yn gorwedd mewn cronfeydd wrth gefn. Yn awr, mae hwnnw'n swm enfawr o arian. Pe bai'r Gweinidog am ein helpu i ddeall sut y gellid rhyddhau hwnnw i helpu i gefnogi'r gwasanaethau hanfodol sydd gennym yn ein cymunedau, yna byddem yn falch o glywed hynny, oherwydd mae £1.6 biliwn o gronfeydd wrth gefn—ac mae £50 miliwn neu £60 miliwn arall yn hofran o gwmpas yng nghronfeydd wrth gefn yr ysgolion—yn llawer o arian i fod yn gorwedd yno, nad yw'n cael ei defnyddio. Gyda'r trethi heb eu casglu a chronfeydd wrth gefn enfawr, gallai wneud iawn am y toriad o 4.1% yng nghyllideb llywodraeth leol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dweud y gallai toriadau arwain at rai gwasanaethau'n methu.

But not all of it needs to be about cuts. Minister, I want to quickly bring your attention to three initiatives that would be thinking out of the box. I have looked across the whole of the UK—in fact, I'm running out of time, so I'm really happy to e-mail these to you. These are areas where councils in Scotland and in England, instead of going, 'Cut, cut, cut', have gone, 'How else can we redeploy our services? How else can we redeploy our money and be really creative?' That, Minister, is the lead that we need from you and from Welsh Government, to encourage these councils to be very creative. So, it isn't about cutting public loos, squashing libraries and saying, 'No more books for kids', stopping youth engagement programmes, cutting domestic abuse services in Carmarthenshire and places like that. Those are the vital services, and we can do it without cutting them, but by reusing the money that we have in a more effective, imaginative, creative and outcome-monitored way.

Ond nid oes raid i bob dim fod ynghylch toriadau. Weinidog, rwy'n awyddus i dynnu eich sylw yn gyflym at dair menter a fyddai'n meddwl y tu allan i'r bocs. Rwyf wedi edrych ar draws y DU gyfan—a dweud y gwir, rwy'n rhedeg allan o amser, felly byddwn yn hapus iawn i e-bostio'r rhain atoch. Mae'r rhain yn feysydd lle y mae cynghorau yn yr Alban ac yn Lloegr, yn hytrach na dweud, 'Torri, torri, torri', yn dweud, 'Sut arall y gallwn aildddefnyddio ein gwasanaethau? Sut arall y gallwn aildddefnyddio ein harian a bod yn wirioneddol greadigol?' Weinidog, dyna'r arweiniad sydd ei angen arnom gennyh chi a chan Lywodraeth Cymru, i annog y cynghorau hyn i fod yn greadigol iawn. Felly, nid yw'n fater o gael gwared ar doiledau cyhoeddus, gwasgu ar lyfrgelloedd a dweud, 'Dim mwy o lyfrau i blant', atal rhaglenni ymgysylltu â phobl ifanc, torri gwasanaethau cam-drin domestig yn Sir Gaerfyrddin a llefydd o'r fath. Mae'r rhain yn wasanaethau hanfodol, a gallwn wneud hynny heb eu torri, ond drwy aildddefnyddio'r arian sydd gennym mewn ffordd fwy effeithiol, creadigol a llawn dychymyg, a monitro eu canlyniadau.

16:41 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, the easiest option for me in this debate would be to point out the sheer hypocrisy, once again, of the 'Do as I say, not as I do' Member for Aberconwy. Her conversion has been one of the greatest political conversions that I've ever seen during my time in the Assembly. If you want to know—I don't boil cabbages twice, because I can't be bothered—it's worth a read of the record, as to when she was in the cabinet in Conwy, how much the council tax increases were. However, they talk about a—[Interruption.] Well, I use it every time because it's true. It's true, and it's stuff that you forget when you stand up to tell us about how we should be freezing council tax here in Wales.

Wel, yr opsiwn hawsaf i mi yn y ddadl hon fyddai tynnu sylw at ragrith pur, unwaith eto, yr Aelod 'Gwnewch fel rwy'n dweud, nid fel rwy'n ei wneud,' dros Aberconwy. Ei thröedigaeth yw un o'r tröedigaethau gwleidyddol mwyaf a welais erioed yn ystod fy nghyfnod yn y Cynulliad. Os ydych am wybod—nid wyf yn berwi bresych ddwywaith, oherwydd nid yw'n werth y drafferth-mae'n werth i chi ddarllen y cofnod, i weld faint o gynnydd a gafwyd yn y dreth gyngor pan oedd hi yn y cabinet yng Nghonwy. Fodd bynnag, maent yn siarad am- [Torri ar draws.] Wel, rwy'n ei ddefnyddio bob tro am ei fod yn wir. Mae'n wir, ac mae'n rhywbeth rydych yn ei anghofio pan fyddwch yn codi i ddweud wrthym sut y dylem rewi'r dreth gyngor yma yng Nghymru.

16:42 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:42 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will take an intervention.

Fe dderbyniaf ymyriad.

16:42 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

If you have read the minutes correctly, is it not the case that, prior to that, when Labour were in control in Conwy, they took all of the reserves and actually still charged the council tax payers 7.5%, and then, during the election year, they dropped it down to 3.8%? If that isn't hypocrisy, what is?

Pe baech chi wedi darllen y cofnodion yn gywir, onid yw'n wir fod Llafur, cyn hynny, pan oeddent yn rheoli yng Nghonwy, wedi cymryd yr holl gronfeydd wrth gefn a dal i godi 7.5% ar dalwyr y dreth gyngor ac yna, yn ystod blwyddyn yr etholiad, fe ostyngon nhw'r dreth i 3.8%? Os nad yw hynny'n rhagrith, beth sydd?

16:42 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, the thing is, you stand up and you tell us about council tax raises, and you were part of the cabinet that actually increased council taxes during that time. So, you've had your say: it's, 'Do as I say, not as I do'. And that's what you will be remembered for in this Chamber.

Wel, y peth yw eich bod yn codi a dweud wrthym am godiadau yn y dreth gyngor, a chithau'n rhan o'r cabinet a gynyddodd y dreth gyngor yn ystod y cyfnod hwnnw mewn gwirionedd. Felly, rydych wedi cael cyfle i ddweud eich dweud: 'Gwnewch fel rwy'n dweud, nid fel rwy'n ei wneud'. Ac am hynny y cewch eich cofio yn y Siambr hon.

So, we are going to freeze council tax, according to the Tories. But let's not forget that, if you look at what happened in England with the freeze—Mark Isherwood refers to 60% of local authorities that took that option; that means that 40-odd per cent didn't. They went away and set that. Yes, you see, I did get a GCSE in maths, and a good one, thanks to the Welsh education system. There we go. So, what's happening now is, in England—. Oh, my friend Eric Pickles—yes, that was the man who, when he wasn't in the Government said £600 for sprinklers, and then when he got a ministerial car, it was £13,000, because that's what the builders told him to say. Yes, my friend Eric Pickles lectures councils and says that they have a moral duty not to increase council tax bills this year. But at the same time, he's dropped his own council tax bombshell on people on the lowest incomes. Over 2.2 million people have seen their council tax increase as a direct result of the changes that have been brought in by the localisation of council tax support in England. Many of these people are the poorest. Many have found themselves in arrears or summoned to court for non-payment. Many of these people as well, of course, we know—and we have done some research because, there we are—. The FOI requests that have come in show that the council tax freeze has not actually happened in most places. Some 394,000 disabled people across England have seen their council tax increase, and some 117,000 people in receipt of severe or enhanced disability premiums have seen their council tax increase.

Two thousand nine hundred recipients of pensions related to being a war widow or disablement as a result of service in the armed forces will see their council tax increase. Now, these are issues that the Welsh Tories here have talked about and wanted the Welsh Government to do something about. Can I say, the Welsh Government's council tax reduction scheme has actually been helping those people in Wales to pay a reduced payment of council tax, but also to ensure that they can keep their services? So, for them in Wales, that's where we should be comparing it; not comparing it with what Eric Pickles is telling us is wonderful, because, as I say, he has got a lot of explaining to do when he can bump something that was £600 up to £13,000 to get a ministerial car.

So, in a way, what I'm saying, I think, quite clearly, is—and it is right that we do—councils are facing difficult decisions. My own authority is facing difficult decisions, but I believe that the Tory-Independent-controlled Denbighshire County Council, whilst it's gone out to consultation, hasn't consulted properly. That's the best way to do it: not through a referendum, which costs money, but by going out and talking to the people, and also by listening to what the people say and not having had their idea first off. So, what's happening, I think—what you're trying to do here with this motion—is something we've heard before; it doesn't wash, and it certainly doesn't wash with those people who are having to have those services, such as disabled people, for whom, in Wales, their council tax reduction scheme will still operate.

Felly, rydym yn mynd i rewi'r dreth gyngor, yn ôl y Toriaid. Ond gadewch i ni beidio ag anghofio, os edrychwch ar yr hyn a ddigwyddodd yn Lloegr gyda'r rhewi—mae Mark Isherwood yn cyfeirio at 60% o awdurdodau lleol a gymerodd yr opsiwn hwnnw; sy'n golygu na wnaeth oddeutu 40% ohonynt hynny. Aethant ati i osod hynny. Do, welwch chi, fe ges i TGAU mewn mathemateg, ac un da, diolch i system addysg Cymru. Dyna ni. Felly, beth sy'n digwydd yn awr yw, yn Lloegr—. O, fy ffrind Eric Pickles—ie, dyna'r dyn, pan nad oedd yn y Llywodraeth a ddywedodd £600 ar gyfer systemau chwistrellu, ac yna pan gafodd car gweinidogol, roedd yn £13,000, am mai dyna beth y dywedodd yr adeiladwyr wrtho ei ddweud. Ydy, mae fy ffrind Eric Pickles yn pregethu wrth gynghorau ac yn dweud fod ganddynt ddyletswydd foesol i beidio â chynyddu biliau'r dreth gyngor eleni. Ond ar yr un pryd, mae wedi taro pobl ar yr incymau isaf â'i daranfollt dreth gyngor ei hun. Mae dros 2.2 miliwn o bobl wedi wynebu cynnydd yn y dreth gyngor o ganlyniad uniongyrchol i'r newidiadau a gyflwynwyd gan leoleiddio cymorth y dreth gyngor yn Lloegr. Mae llawer o'r rhain ymhlith y bobl dlotaf yn y wlad. Mae llawer wedi mynd i ddyled neu wedi cael eu gwysio i'r llys am beidio â thalu. Gwyddom fod llawer o'r bobl hyn hefyd, wrth gwrs—ac rydym wedi gwneud rhywfaint o ymchwil oherwydd, dyna ni—. Mae'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a ddaeth i mewn yn dangos mewn gwirionedd nad oedd rhewi'r dreth gyngor yn digwydd yn y rhan fwyaf o leoedd. Mae tua 394,000 o bobl anabl ledled Lloegr wedi gweld cynnydd yn y dreth gyngor, ac mae tua 117,000 o bobl sy'n derbyn premiymau anabledd difrifol neu bremiymau anabledd mwy wedi gweld cynnydd yn eu treth gyngor.

Bydd dwy fil naw cant o bobl sy'n derbyn pensiynau sy'n gysylltiedig â bod yn weddwon rhyfel neu anabledd o ganlyniad i wasanaeth yn y lluoedd arfog yn gweld cynnydd yn eu treth gyngor. Yn awr, mae'r rhain yn faterion y mae'r Ceidwadwyr Cymreig yma wedi siarad amdanynt ac yn awyddus i Lywodraeth Cymru wneud rhywbeth yn eu cylich. A gaf fi ddweud bod cynnydd gostyngiadau'r dreth gyngor Llywodraeth Cymru wedi bod yn helpu pobl yng Nghymru i dalu llai o dalu o dreth gyngor, ond hefyd i sicrhau eu bod yn cael cadw eu gwasanaethau? Felly, iddynt hwy yng Nghymru, dyna lle y dylem fod yn ei gymharu; nid ei gymharu â'r hyn y mae Eric Pickles yn ei ddweud wrthym sy'n wych, oherwydd, fel y dywedais, mae ganddo lawer o waith esbonio os yw'n gallu gwthio pris rhywbeth i fyny o £600 i £13,000 i gael car gweinidogol.

Felly, mewn ffordd, yr hyn rwy'n ei ddweud yn ddigon clir, rwy'n meddwl—ac mae'n iawn i ni wneud—yw bod cynghorau yn wynebu penderfyniadau anodd. Mae fy awdurdod fy hun yn wynebu penderfyniadau anodd, ond er ei fod wedi cynnal ymgynghoriad, credaf nad yw Cyngor Sir Ddinbych dan reolaeth y Toriaid a'r aelodau annibynnol wedi ymgynghori'n iawn. Dyna'r ffordd orau o'i wneud: nid drwy refferendwm, sy'n costio arian, ond drwy fynd allan a siarad â'r bobl, a hefyd drwy wrando ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud ac nid cael eu syniad yn gyntaf. Felly, mae'r hyn sy'n digwydd, rwy'n meddwl—yr hyn rydych yn ceisio ei wneud yma gyda'r cynnig hwn—yn rhywbeth rydym wedi ei glywed o'r blaen; nid yw'n dal dŵr, ac yn bendant, nid yw'n dal dŵr i'r bobl sy'n gorfod cael y gwasanaethau hynny, fel pobl anabl, y bydd cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor yn dal yn weithredol ar eu cyfer yng Nghymru.

16:46

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Public Services, Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews.

16:46

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

Deputy Presiding Officer, thank you. I call on the Assembly to oppose this motion. We take our responsibility to protect council tax payers from excessive increases very seriously, and we recognise that times are difficult for households in Wales. However, our front-line services are under severe and unprecedented pressure. This is a direct result of the UK Government cuts to the Welsh Government budget of around 10% over the last five years. These front-line services—schools, social care services, waste collection and road maintenance—are vital to the wellbeing of our communities, and as a Welsh Government, we have done our best to protect local government from the worst of the spending cuts imposed on Wales by the Conservative-led Government in Westminster.

Over the past five years, spending per head on services in English councils has fallen by around 7% in cash terms. In Wales, it has actually increased by 3%. And the truth, of course, is that English councils—as my colleagues have said—are turning away from council tax freezes in their droves. It's no surprise that the number of English authorities that chose not to accept the grant from Eric Pickles to avoid council tax increases has increased again this year. This financial year, almost half of English authorities rejected that grant, choosing to increase council tax instead, and that figure includes more than a quarter of Conservative-controlled councils in England.

Choices about how to use consequential funding that comes to Wales are matters for Welsh Ministers. We do not require Welsh authorities to conduct costly referenda on council tax, and we do not offer part of the local government funding settlement as a bribe for freezing council tax. We channel all available funding into the main local government settlement, allowing councils to allocate funding according to their local priorities. If councils choose to freeze council tax, they can do so within the funding provided. In Wales, the level of council tax continues to be a matter for each local authority to determine. They need to maintain vital services while limiting the burden on hard-pressed households. These are decisions that are best taken locally and for which councillors are accountable to their electorates. I wrote to leaders last week to this effect.

Ddirprwy Lywydd, diolch. Galwaf ar y Cynulliad i wrthwynebu'r cynnig hwn. Rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb i amddiffyn talwyr y dreth gyngor rhag cynnydd gormodol yn ddifrifol iawn, ac rydym yn cydnabod bod pethau'n anodd i aelwydydd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae ein gwasanaethau rheng flaen dan bwysau difrifol a digynsail. Canlyniad uniongyrchol yw hyn i doriadau Llywodraeth y DU o tua 10% i gyllideb Llywodraeth Cymru dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r gwasanaethau rheng flaen hyn—ysgolion, gwasanaethau gofal cymdeithasol, casglu gwastraff a chynnal a chadw ffyrdd—yn hanfodol i les ein cymunedau, ac fel Llywodraeth Cymru, rydym wedi gwneud ein gorau i amddiffyn llywodraeth leol rhag y gwaethaf o'r toriadau yn y gwariant a osodwyd ar Gymru gan Lywodraeth San Steffan dan arweiniad y Ceidwadwyr.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae gwariant y pen ar wasanaethau mewn cyngorau yn Lloegr wedi gostwng tua 7% yn nhermau arian parod. Yng Nghymru, mae wedi cynyddu 3% mewn gwirionedd. A'r gwir, wrth gwrs, yw bod cyngorau Lloegr—fel y mae fy nghyd-Aelodau wedi dweud—yn troi cefn yn llu ar gynlluniau i rewi'r dreth gyngor. Nid yw'n syndod bod nifer yr awdurdodau yn Lloegr a ddewisodd beidio â derbyn y grant gan Eric Pickles er mwyn osgoi cynnydd yn y dreth gyngor wedi cynyddu eto eleni. Y flwyddyn ariannol hon, gwrthododd bron hanner yr awdurdodau yn Lloegr y grant, gan ddewis cynyddu'r dreth gyngor yn lle hynny, ac mae mwy na chwarter y ffigur hwnnw'n cynnwys cyngorau dan reolaeth y Ceidwadwyr yn Lloegr.

Mae dewisiadau ynglŷn â sut i ddefnyddio arian canlyniadol a ddaw i Gymru yn faterion i Weinidogion Cymru. Nid ydym yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau Cymru gynnal refferenda costus ar y dreth gyngor, ac nid ydym yn cynnig rhan o setliad cyllid llywodraeth leol fel llwgrwobr i rewi'r dreth gyngor. Rydym yn sianelu pob arian sydd ar gael i'r prif setliad llywodraeth leol, gan ganiatáu i gyngorau ddyrannu cyllid yn ôl eu blaenoriaethau lleol. Pe bai cyngorau'n dewis rhewi'r dreth gyngor, gallant wneud hynny o fewn y cyllid a ddarparwyd. Yng Nghymru, mae lefel y dreth gyngor yn parhau i fod yn fater i bob awdurdod lleol ei benderfynu. Mae angen iddynt gynnal gwasanaethau hanfodol gan gyfyngu ar y baich ar aelwydydd sydd dan bwysau ar yr un pryd. Mae'r rhain yn benderfyniadau a wneir orau yn lleol gyda chynghorwyr yn atebol i'w hetholwyr amdanynt. Ysgrifennais at yr arweinwyr yr wythnos diwethaf i'r perwyl hwn.

There is an inevitable focus on the annual increases, but this masks the full picture. On average, council tax bills in Wales are £190 per year lower than in England and are similar to bills in Scotland. As my colleague the Member for the Vale of Clwyd said, in 2013, the UK Government abolished council tax benefit and cut the funding for future arrangements to provide council tax support. In response, this Welsh Government introduced a council tax reduction scheme and provided an additional £22 million to local authorities. This enabled authorities to provide all eligible applicants with their full entitlement to support, despite the shortfall in funding transferred from the UK Government. In Wales, all 320,000 households have continued and will continue to receive their full entitlement to council tax support for at least a further two years. This is in stark contrast with England, where over 2 million low-income households are faced with having to pay more of their council tax bill. This has already resulted in England in an increase in council tax arrears, court fees and administration costs, and collection rates have fallen. We've also seen an increase in the number of reports of bailiffs being brought in to chase outstanding council tax in England.

Today we support the first amendment to the motion as we have continually recognised the difficult financial situation faced by local authorities. This is a symptom of the reduction in the budget we've received from the UK Government. We also support the second amendment, as local authorities have statutory duties to protect children and vulnerable adults, and to provide education services. They also have duties to provide many other services, as well as a duty to promote the social, economic and environmental wellbeing of their communities, as my colleague Mike Hedges pointed out.

We do not, however, support the motion, whether amended or not, for the reasons we've given. A one-size-fits-all limit does not support localism and local democracy, or the relationship between central and local government. It reduces the ability of authorities to plan ahead, to respond to local circumstances, and to set medium-term priorities. I urge the Assembly to reject the Conservative motion.

Mae ffocws anochel ar y cynnydd blynyddol, ond mae'n cuddio'r darlun llawn. Ar gyfartaledd, mae biliau'r dreth gyngor yng Nghymru £190 y flwyddyn yn is nag yn Lloegr ac yn debyg i'r biliau yn yr Alban. Fel y dywedodd fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd, yn 2013, diddymodd Llywodraeth y DU fudd-dal y dreth gyngor a thori'r cyllid ar gyfer trefniadau yn y dyfodol i ddarparu cymorth y dreth gyngor. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy gyflwyno cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a darparu £22 miliwn ychwanegol i awdurdodau lleol. Galluogodd hyn yr awdurdodau i ddarparu eu hawl llawn i gymorth i bob ymgeisydd cymwys, er gwaethaf y diffyg cyllid a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU. Yng Nghymru, mae pob un o'r 320,000 o aelwydydd wedi parhau ac yn mynd i barhau i gael eu hawl llawn i gymorth y dreth gyngor am o leiaf ddwy flynedd arall. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â Lloegr, lle y mae dros 2 filiwn o aelwydydd ar incwm isel yn wynebu gorfod talu mwy o'u bil treth gyngor. Yn Lloegr, mae hyn eisoes wedi arwain at gynnydd mewn ôl-ddyledion treth gyngor, ffioedd llys a chostau gweinyddu, ac mae cyfraddau casglu wedi gostwng. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer yr adroddiadau o feiliaid sy'n cael eu cyflogi i fynd ar ôl treth gyngor heb ei chasglu yn Lloegr.

Heddiw, rydym yn cefnogi'r gwelliant cyntaf i'r cynnig gan ein bod wedi cydnabod yn barhaus y sefyllfa ariannol anodd a wynebir gan awdurdodau lleol. Mae'n symptom o'r gostyngiad yn y gyllideb a gawsom gan Lywodraeth y DU. Rydym hefyd yn cefnogi'r ail welliant, gan fod gan awdurdodau lleol ddyletswyddau statudol i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed, ac i ddarparu gwasanaethau addysg. Mae ganddynt ddyletswyddau hefyd i ddarparu llawer o wasanaethau eraill, yn ogystal â dyletswydd i hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eu cymunedau, fel y mae fy nghyd-Aelod, Mike Hedges, wedi nodi.

Fodd bynnag, nid ydym yn cefnogi'r cynnig, wedi ei ddiwygio neu beidio, am y rhesymau a roesom. Nid yw un terfyn sy'n addas i bawb yn cefnogi lleoliaeth a democratiaeth leol, na'r berthynas rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Mae'n lleihau gallu awdurdodau i gynllunio ymlaen llaw, i ymateb i amgylchiadau lleol, ac i bennu blaenoriaethau tymor canolog. Rwy'n annog y Cynulliad i wrthod cynnig y Ceidwadwyr.

16:51

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Darren Millar to reply to the debate.

Galwaf ar Darren Millar i ymateb i'r ddatl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. As Janet Finch-Saunders said in opening this debate, it's very timely that we're having this debate at this period in the year, because of course council tax bills will be hitting the doormats soon in our constituencies. These are, indeed, challenging times in terms of finances in the public sector, but let's remind ourselves about why that is the case. Who was it that ruined our public finances? It was the Labour Party, when they were in the UK Government. Of course, because of that dreadful mess that Gordon Brown left, and David Cameron and George Osborne inherited, difficult decisions have had to be made about public finances and public spending. Yes, I'll be the first to acknowledge that the Welsh Government has had some of those difficult decisions in public spending passed on in terms of the Welsh block grant, but then you have a choice as a Welsh Government, how to carve that cake up and where to spend your money. Unfortunately, the slice of the cake that you have had to be able to give to local government, in terms of the ability for it to at least be able to make a decision about freezing council tax, has not been passed on.

Now, yes, there are challenging decisions also for local authorities across Wales, and Rhodri Glyn Thomas was quite right to point out that many are feeling the pressure and feeling the pinch at the moment. But let's not forget—Angela Burns, I think, made reference to local authority reserves—there was a report published yesterday by the Wales Audit Office showing that, in spite of the bleating from local government, in spite of the gripes and the complaints from local government, the actual level of reserves increased in the last financial year by £64 million—£64 million. That's more than enough to actually freeze council tax across Wales, and yet local government chose not to do it. That's why there needs to be an incentive on the table—not an instruction from the Welsh Government, but an incentive on the table via the use of a grant that can be drawn down only if there is an intention to freeze council tax. It's that incentive that has worked in England to secure a reduction—a freeze, a reduction in real terms—in council tax for the majority of the English population. I'd like to see my constituents, and the constituents of every Assembly Member, being able to enjoy the benefits of a council tax freeze, and unfortunately we just haven't seen that here in Wales. So, this is about incentives, it's not about instructing, and that's why we feel that Welsh local authorities ought to be given the ability to allow for that incentive to be used to freeze council tax in their areas.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Fel y dywedodd Janet Finch-Saunders wrth agor y ddadl, mae'n amserol iawn ein bod yn cael y ddadl hon ar yr adeg hon o'r flwyddyn, oherwydd bydd biliau treth gyngor yn dod drwy'r drws cyn hir yn ein hetholaethau, wrth gwrs. Mae'r rhain yn amserau heriol yn wir o ran cyllid yn y sector cyhoeddus, ond gadewch i ni atgoffa ein hunain pam. Pwy wnaeth ddifetha ein cyllid cyhoeddus? Y Blaid Lafur a wnaeth, pan oeddent yn Llywodraeth y DU. Wrth gwrs, oherwydd y llanast ofnadwy a adawodd Gordon Brown ar ei ôl, ac a etifeddodd David Cameron a George Osborne, bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd am arian cyhoeddus a gwariant cyhoeddus. Iawn, fe fyddaf y cyntaf i gydnabod bod rhai o'r penderfyniadau anodd o ran gwariant cyhoeddus wedi cael eu trosglwyddo gan Lywodraeth Cymru o ran grant bloc Cymru, ond wedyn, fel Llywodraeth Cymru mae gennych ddewis sut i dorri'r gacen a ble i wario eich arian. Yn anffodus, mae'r darn o gacen rydych chi wedi gallu ei roi i lywodraeth leol, o ran ei galluogi o leiaf i wneud penderfyniad ynghylch rhewi'r dreth gyngor, heb gael ei drosglwyddo.

Yn awr, oes, mae yna benderfyniadau heriol hefyd yn wynebu awdurdodau lleol ledled Cymru, ac roedd Rhodri Glyn Thomas yn gwbl gywir i nodi bod llawer yn teimlo'r pwysau a'r wasgfa ar hyn o bryd. Ond gadewch i ni beidio ag anghofio-cyfeiriodd Angela Burns, rwy'n meddwl, at gronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol-cyhoeddwyd adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ddoe yn dangos, er gwaethaf y cwyno gan lywodraeth leol, er gwaethaf yr achwyn a'r cwynion gan lywodraeth leol, fod lefel wirioneddol y cronfeydd wrth gefn wedi cynyddu £64 miliwn yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf-£64 miliwn. Mae hynny'n fwy na digon mewn gwirionedd i rewi'r dreth gyngor ar draws Cymru, ac eto dewisodd llywodraeth leol beidio â gwneud hynny. Dyna pam y mae angen cymhelliad ar y bwrdd-nid cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru, ond cymhelliad ar y bwrdd drwy gyfrwng y defnydd o grant na ellir ond ei hawlio os oes bwriad i rewi'r dreth gyngor. Dyna'r cymhelliad sydd wedi gweithio yn Lloegr i sicrhau gostyngiad-rhewi, gostyngiad mewn termau real-yn y dreth gyngor i'r rhan fwyaf o boblogaeth Lloegr. Hoffwn weld fy etholwyr, ac etholwyr pob Aelod Cynulliad, yn gallu mwynhau manteision rhewi'r dreth gyngor, ac yn anffodus nid ydym wedi gweld hynny yma yng Nghymru. Felly, mae hyn yn ymwneud â chymhellion, nid â chyfarwyddo, a dyna pam y teimlwn y dyldid galluogi awdurdodau lleol Cymru i ganiatáu ar gyfer defnyddio'r cymhelliad i rewi'r dreth gyngor yn eu hardaloedd.

I was very interested in Mike Hedges's comments about the way that the Welsh Government has perhaps not cut the investment in Welsh local authorities by as much as has taken place over the border. He's quite right: local authorities in England have had to face more significant cuts in the revenue support grant, yet they have still managed to freeze council tax, and they've still managed to provide services because they've used innovation to provide services in different ways. You made reference, Mike—I was very pleased to hear you make that reference—to the Welsh national health service and the English national health service. You referred to some of the pressures in unscheduled care over the border in England, but you failed, Mike, to refer to the pressures on unscheduled care here in Wales, which are being caused as a result of the wrong choices that the Welsh Government has made not to invest in the Welsh national health service. You referred to the fact that you felt that the Welsh Government had protected social services spending to a greater extent and that that was leading to fewer pressures in our hospitals. Yet, the performance of our hospitals in terms of unscheduled care is much worse than it is over the border in England. Perhaps you'd like to explain to us why that might be.

Roedd gennyf ddi-ddordeb mawr yn sylwadau Mike Hedges am y ffordd nad yw Llywodraeth Cymru o bosibl wedi torri cymaint ar y buddsoddiad mewn awdurdodau lleol yng Nghymru ag sydd wedi digwydd dros y ffin. Mae'n hollol iawn: mae awdurdodau lleol yn Lloegr wedi gorfod wynebu toriadau mwy sylweddol yn y grant cynnal refeniw, ac eto maent yn dal i lwyddo i rewi'r dreth gyngor, ac maent yn dal i lwyddo i ddarparu gwasanaethau oherwydd eu bod wedi defnyddio arloesedd i ddarparu gwasanaethau mewn gwahanol ffyrdd. Fe gyfeirioch chi, Mike—roeddwn yn falch iawn o'ch clywed yn gwneud y cyfeiriad—at y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru a'r gwasanaeth iechyd gwladol yn Lloegr. Fe gyfeirioch at rai agweddau ar y pwysau mewn gofal heb ei drefnu dros y ffin yn Lloegr, ond Mike, fe fethoch â chyfeirio at y pwysau ar ofal heb ei drefnu yma yng Nghymru, sy'n cael ei achosi gan y dewisiadau anghywir y mae Llywodraeth Cymru wedi eu gwneud i beidio â buddsoddi yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Fe gyfeirioch at y ffaith eich bod yn teimlo bod Llywodraeth Cymru wedi gwarchod gwariant ar wasanaethau cymdeithasol i raddau mwy a bod hynny'n arwain at lai o bwysau ar ein hysbytai. Eto i gyd, mae perfformiad ein hysbytai o ran gofal heb ei drefnu yn llawer gwaeth nag y mae dros y ffin yn Lloegr. Efallai yr hoffech egluro i ni sut y gallai hynny fod.

16:56 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First of all, I don't recognise the statement you've just made. What I will say, which I think is really important, is that you do have support in social services to get people out and you have support for home care in order that people can be looked after in their homes and not taken into hospitals.

Yn gyntaf oll, nid wyf yn cydnabod y datganiad rydych newydd ei wneud. Yr hyn a ddywedaf, ac rwy'n meddwl ei fod yn bwysig iawn, yw bod gennych gymorth yn y gwasanaethau cymdeithasol i gael pobl allan ac mae gennych gymorth ar gyfer gofal cartref er mwyn i bobl allu cael gofal yn eu cartrefi yn hytrach na'u cludo i ysbtyai.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:56 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I completely agree with that, but, for some reason, they seem to be doing a better job of it in England, actually, which is why the performance of the Welsh NHS is much worse than it is over the border. It's just a fact: people are waiting longer in emergency departments.

Cytunaf yn llwyr â hynny, ond am ryw reswm, maent i'w gweld yn ei wneud yn well yn Lloegr, mewn gwirionedd, a dyna pam y mae perfformiad y GIG yng Nghymru yn llawer gwaeth nag y mae dros y ffin. Mae'n ffaith: mae pobl yn aros yn hwy mewn adrannau achosion brys.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Anyway, let me return to this issue of local government, because it is important to recognise that local authorities do have duties to deliver high-quality public services, but frankly there's not enough innovation. Local authorities, I believe, could move much more towards commissioning services rather than being direct providers of them. That's how, Leighton Andrews, the situation has arisen in that, while spending has fallen by 7% on local government services across the border, they've still been able to maintain the quality and the delivery of those services. It's because they provided them in different ways and more innovative ways. The fact is that, over the past few years, since the new UK Government was elected, council tax increases overall in England have risen by just 2% over that period—2%. Most local authorities have managed to freeze their council tax. In Wales, we've seen rises of five times as much as that, at nearly 10%. That cannot be acceptable in these difficult times when hard-pressed families need every penny to be able to spend themselves.

Beth bynnag, gadewch i mi ddychwelyd at fater llywodraeth leol, oherwydd mae'n bwysig cydnabod bod gan awdurdodau lleol ddyletswyddau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel, ond a bod yn onest, nid oes digon o arloesedd. Rwy'n credu y gallai awdurdodau lleol symud yn llawer agosach tuag at gomisiynu gwasanaethau yn hytrach na'u darparu'n uniongyrchol. Dyna sut, Leighton Andrews, y mae'r sefyllfa wedi codi, er bod gwariant wedi gostwng 7% ar wasanaethau llywodraeth leol ar draws y ffin, eu bod yn dal i fod wedi gallu cynnal ansawdd gwasanaethau a'r modd y cânt eu darparu. Mae'n deillio o'r ffaith eu bod yn eu darparu mewn gwahanol ffyrdd a ffyrdd mwy arloesol. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ers i Lywodraeth newydd y DU gael ei hethol, mae'n ffaith mai 2% yn unig o gynnydd a welwyd yn y dreth gyngor yn gyffredinol yn Lloegr dros y cyfnod hwnnw—2%. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi llwyddo i rewi eu treth gyngor. Yng Nghymru, rydym wedi gweld cynnydd o bum gwaith cymaint â hynny, bron i 10%. Ni all hynny fod yn dderbyniol yn y cyfnod anodd hwn pan fo teuluoedd dan bwysau angen pob ceiniog i'w wario eu hunain.

I would encourage everybody to think again, before you vote today, whether there ought to be this incentive made available to Welsh local authorities so that they can freeze council tax and so that people can benefit here in the same way that they are in other parts of the United Kingdom.

Byddwn yn annog pawb i feddwl eto, cyn i chi bleidleisio heddiw, pa un a ddylai'r cymhelliad hwn fod ar gael i awdurdodau lleol Cymru er mwyn iddynt allu rhewi'r dreth gyngor ac er mwyn i bobl allu cael budd yma yn yr un modd â mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

16:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiraf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

16:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I have a point of order. Nick Ramsay.

Mae gen i bwynt o drefn. Nick Ramsay.

16:58 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. During the last debate, my fellow Member the Member for the Vale of Clwyd referred to my neighbouring colleague, the Member for Aberconwy, as the—and I quote—

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Yn ystod y ddadl ddiwethaf, cyfeiriodd fy nghyd-Aelod yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd at fy nghyd-Aelod cyfagos, yr Aelod dros Aberconwy, fel y—ac rwy'n dyfynnu—

“Do as I say, not say as I do” Member for Aberconwy’.

“yr Aelod ‘Gwnewch fel rwy'n dweud, nid fel rwy'n ei wneud,’ dros Aberconwy’.

This seems to me an odd, inappropriate description for a Member of this Chamber. I wonder if you can update us and provide clarity on what is an appropriate description for a Member of this Chamber.

Mae hyn yn ymddangos i mi yn ddisgrifiad od ac anaddas o Aelod o'r Siambr hon. Tybed a allwch ein goleuo a darparu eglurder ar yr hyn sy'n ddisgrifiad priodol i Aelod o'r Siambr hon.

16:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for that point of order. It is not for me to limit pungent debate—we get it on both sides. However, can I just make it very clear to Members that the use of the word ‘hypocrite’, which is a direct and emphatic statement, is certainly out of order? I think the word ‘hypocrisy’ may have been used. It depends on how directly that is meant to relate to a person’s character whether that too would be out of order. I will review the Record because the matter did slip by me somewhat, but can I urge Members to be courteous to each other? You can still say things like, ‘Member is in danger of looking inconsistent on certain things’. [Laughter.] There are very artful ways of trying to point to incongruity and such matters. I think we owe it to each other to have that degree of alacrity if we can. So, I might return to that matter. I will certainly review it.

Diolch i'r Aelod am y pwynt o drefn. Nid fy lle i yw cyfyngu ar drafodaeth egr—rydym yn ei chael ar y ddwy ochr. Fodd bynnag, a gaf fi ei gwneud yn glir iawn i'r Aelodau fod y defnydd o'r gair ‘rhagrithiwr’, sy'n ddatganiad uniongyrchol a phendant, yn sicr yn annerbyniol? Rwy'n credu efallai bod y gair ‘rhagrith’ wedi cael ei ddefnyddio. Mae'n dibynnu ar ba mor uniongyrchol y mae i fod i ymwneud â chymeriad person pa un a fyddai hynny hefyd yn annerbyniol. Byddaf yn adolygu'r Cofnod oherwydd bod y mater hwnnw wedi llithro heibio i mi braidd, ond a gaf annog yr Aelodau i fod yn gwrtais tuag at ei gilydd? Gallwch ddal i ddweud pethau fel, ‘Mae'r Aelod mewn perygl o ymddangos yn anghyson ynghylch rhai pethau’. [Chwerthin.] Mae ffyrdd creffttus iawn o geisio nodi anghysondeb a materion o'r fath. Rwy'n meddwl y dylem ddangos cymaint â hynny o fywiogrwydd at ein gilydd os gallwn. Felly, efallai y byddwn yn dychwelyd at y mater. Byddaf yn sicr yn ei adolygu.

5. Dadl Plaid Cymru: Ffracio

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 2, 3, 4, 5, 6 a 7 yn enw Paul Davies. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol.

5. Plaid Cymru Debate: Fracking

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, and amendments 2, 3, 4, 5, 6 and 7 in the name of Paul Davies. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected.

16:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Eitem 5 yw dadl Plaid Cymru ar ffracio. Galwaf ar Llyr Gruffydd i wneud y cynnig.

Item 5 is the Plaid Cymru debate on fracking. I call on Llyr Gruffydd to move the motion.

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod Cymru yn hanesyddol wedi gwneud cyfraniad sylweddol i bortffolio ynni'r DU.
2. Yn gresynu at y darpariaethau ym Mil Seilwaith Llywodraeth y DU a fydd yn caniatáu i gwmnïau ffracio ddrilio o dan gartrefi yng Nghymru heb ganiatâd gan berchnogion yr eiddo.
3. Yn credu y dylai ynni gael ei ddatganoli'n llawn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac y dylai Llywodraeth Cymru gael y pŵer i atal ffracio.
4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud popeth o fewn ei phŵer i atal ffracio rhag digwydd yng Nghymru hyd nes y profir bod ffracio yn ddiogel yng nghyd-destun yr amgylchedd a iechyd cyhoeddus.

1. Notes that Wales has historically made a substantial contribution to the UK's energy portfolio.
2. Regrets the provisions within the UK Government's Infrastructure Bill that will allow fracking companies to drill beneath Welsh homes without permission from property owners.
3. Believes that energy should be fully devolved to the National Assembly for Wales and that the Welsh Government should have the power to block fracking.
4. Calls on the Welsh Government to do everything within its power to prevent fracking from taking place in Wales until it is proven to be safe in both an environmental and public health context.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

16:59

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move the motion on behalf of Plaid Cymru—the Party of Wales.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau y cynnig ar ran Plaid Cymru.

This motion offers us a historic opportunity. Today can be the day that this National Assembly for Wales, by supporting Plaid Cymru's motion, issues a clear statement that we support a Wales that is free from fracking. Now, the reasons for doing that are many and have been well rehearsed in the past. Certainly, I and my Plaid Cymru colleagues have been regularly highlighting them here in the Chamber and beyond for a number of years.

Mae'r cynnig hwn yn cynnig cyfle hanesyddol i ni. Gallai heddiw fod y diwrnod y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy gefnogi cynnig Plaid Cymru, yn cyhoeddi datganiad clir ein bod yn cefnogi Cymru sy'n rhydd o ffracio. Yn awr, mae'r rhesymau dros wneud hynny'n niferus ac wedi cael eu trafod yn helaeth yn y gorffennol. Yn sicr, rwyf fi a fy nghyd-Aelodau ym Mhlaid Cymru wedi bod yn tynnu sylw atynt yma yn y Siambur a thu hwnt yn rheolaidd ers nifer o flynyddoedd.

Ac maen nhw, yn fy marn i, yn rhesymau gwbl ddilys; maen nhw'n rhesymau gwbl resymol. Yn y lle cyntaf, mae gennym, wrth gwrs, fel cenedl ac fel sefydliad, ymrwymiadau pan mae'n dod i newid hinsawdd. Byddai buddsoddi a symud i gyfeiriad dull ynni 'carbon intensive' newydd, i fi, yn milwrio yn erbyn yr egyddorion hynny. Rydym ni'n gwybod yn barod nad yw'r 'trajectory' o gyrraedd rhai o'n hymrwymiadau ni o safbwynt allyriadau carbon yn edrych yn addawol—ac mae'n hynny'n bod yn garedig. Mae angen rhyw fath o 'game-changer' pan mae'n dod i'r ffigurau domestig hynny. Er, efallai, nad yw ffracio yn mynd i fod yn rhan o'r hafaliad yna, mae'n symud i'r cyfeiriad anghywir.

And, in my view, they are entirely valid reasons; they are entirely rational reasons. In the first place, we, of course, as a nation and an institution, have commitments when it comes to climate change. Investing and moving towards a new carbon-intensive energy process, to me, would militate against those principles. We already know that the trajectory in terms of achieving some of our commitments in terms of carbon emissions do not look particularly promising—and that is putting it kindly. We need some sort of game-changer when it comes to those domestic figures. Although, perhaps, fracking is not going to be part of that equation, it is certainly moving in the wrong direction.

Eisoes, rydym ni'n cwmpo ar ei hôl hi, a byddai cofleidio ffracio a nwy anghonfensiynol, yn fy marn i, yn hoelen olaf, er enghraifft, yn rhai o'n hymrwymiadau ehangach ni o safbwynt cyfyngu newid hinsawdd i 2 radd 'centigrade'. Nawr, mae Plaid Cymru, wrth gwrs, wedi ymrwymo i gynhyrchu'r hyn sy'n cyfateb i 100% o'n hanghenion trydan ni o ynni adnewyddadwy erbyn 2035. Mae symud buddsoddiad, 'incentives' a ffocws i gyfeiriad nwy siâl a nwy anghonfensiynol yn fy marn i yn gam difrifol yn ôl.

We are already falling behind, and embracing fracking and unconventional gas, in my view, would be the last nail, for example, in some of our broader commitments in terms of limiting climate change to 2 degrees centigrade. Now, Plaid Cymru, of course, has committed to producing what corresponds to 100% of our electricity needs from renewable sources by 2035. Shifting investment, incentives and focus towards shale gas and unconventional gas in my view is a serious retrograde step.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae rhai'n dweud, wrth gwrs, bod nwy anghonfensiynol yn lanach—rwyf wedi clywed y disgrifiad 'clean gas'; wel, dyna ddisgrifiad camarweiniol. Ar y gorau, mae e'n llai budr, efallai, nag olew a glo. Yr honiad yw, wrth gwrs, y bydd nwy anghonfensiynol yn cymryd lle olew a glo, ond y realiti yw na fydd yr olew a'r glo hwnnw'n aros yn y ddaear; bydd yn cael ei werthu i rywle arall ac yn cael ei losgi yn rhywle arall. Er gwaethaf protestio, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig, wrth gwrs, nid yn unig am ganiatáu ffracio ond yn mynd ati yn rhagweithiol i hyrwyddo ffracio yng Nghymru a thu hwnt.

Rydym ni wedi clywed yn flaenorol yn y Siambr yma gyfeiriadau at y Mesur Seilwaith yn Senedd y Deyrnas Unedig yr wythnos diwethaf—Llafur yn cefnogi hawliau'r Alban i atal ffracio ond, wrth gwrs, nad oeddent yn cefnogi pwerau cyfatebol i Gymru ac yn ymatal ar welliant Plaid Cymru i ddatganoli pŵer i Gymru. Ond mae Plaid Cymru wedi bod yn gyson yn ein galwad ni am foratoriwm ar ffracio a dulliau eraill o echdynnu nwy anghonfensiynol. Mae dadleuon amgylcheddol, wrth gwrs, a dadleuon iechyd cyhoeddus dilys iawn dros wneud hynny. Rydym ni'n gwybod bod y broses yn defnyddio biliynau o alwyni o ddŵr. Nawr, nid yw hynny, yn y lle cyntaf, yn ddefnydd cyfrifol na chynaliadwy, yn fy marn i, o un o adnoddau naturiol mwyaf gwerthfawr a phwysig Cymru ac, yn wir, y ddaear yma. Mae e wedyn yn cael ei gymysgu â phob math o gemegau i greu coctel peryglus sydd wedi llygru dŵr yfed, wrth gwrs, a thir amaethyddol mewn gwledydd eraill ac yn rhannau eraill o'r byd yma. Yng Nghaliffornia, mi lygrwyd acwifferau gan biliynau o alwyni o ddŵr gwastraff ffracio. Rydym yn gwybod bod yna 243 o ffynhonnau dŵr yfed wedi eu llygru dim ond yn Pennsylvania gan methan yn dianc o broses dyllu am fethan gwely glo. Rydym yn gwybod, wrth gwrs, mewn rhannau o Gymru, fel Borrás, er enghraifft, yn y gogledd-ddwyrain, bod yna ofidiau y gellid llygru'r afon Dyfrdwy. A chofiwch chi, mae'r afon Dyfrdwy yn darparu dŵr yfed i 1.2 miliwn o bobl yng ngogledd Cymru ac yng ngogledd-orllewin Lloegr. Mi fydd y drilio prawf fydd yn digwydd yno yn gweld drilio trwy'r Kinnerton acwiffer, cronfa anferthol o ddŵr sy'n estyn am filltiroedd lawer o dan y ddaear, gydag oblygiadau difrifol iawn, wrth gwrs, petai yna lygru yn digwydd yn fanna.

Mae yna effaith ar dir amaethyddol hefyd, wrth gwrs. Rydym ni wedi gweld enghreifftiau o dir yn cael ei lygru, sydd yn ei dro â risg o wenwyno stoc. Mi gafwyd eglurder gan NFU Mutual yr wythnos hon ynglŷn â sefyllfa yswirio ffermwyr, a na fydd 'cover' yswiriant i ffermwyr sy'n gwneud y penderfyniad i gymryd rhan mewn ffracio. Mae hefyd yn gallu effeithio ar werth tir, a hynny â goblygiadau. Hyd yn oed os nad ydych yn cymryd rhan weithredol, os oes gweithredu yn digwydd o dan eich tir chi, mae'n gallu effeithio ar werth y tir hwnnw, a hynny â goblygiadau, wrth gwrs, i forgeisi'r busnesau hynny, ac yn y blaen. Ewch i Forras i weld y farn gyhoeddus yn fanna—mae dwsinau o ffermydd yn glir yn dangos eu safbwynt yn erbyn y broses, sydd, wrth gwrs, yn mynd i gael oblygiadau difrifol o bosib i'w busnesau.

Some say, of course, that unconventional gas is cleaner—I've heard it described as 'clean gas'; well, that is misleading. At best, it is not as dirty, perhaps, as oil and coal. The claim is, of course, that unconventional gas will replace oil and coal, but the reality is that that oil and coal will not remain underground; it will be sold elsewhere and will be burned elsewhere. Despite protests, the UK Government, of course, not only wants to allow fracking, but is also proactively going about the promotion of fracking in Wales and elsewhere.

We've previously heard in this Chamber reference to the Infrastructure Bill in the UK Parliament last week—Labour supported Scottish powers to prevent fracking, but, of course, did not support similar powers for Wales and abstained on a Plaid Cymru amendment to devolve power to Wales. But Plaid Cymru has been consistent in our demand for a moratorium on fracking and other methods of extracting unconventional gas. There are environmental arguments, of course, and very valid public health arguments for doing so. We know that the process uses billions of gallons of water. Now, that, in itself, is not a responsible or sustainable use, in my view, of one of the most valuable natural resources of Wales, and, indeed, of this earth. It is then mixed with all sorts of chemicals to create a dangerous cocktail that has contaminated drinking water, of course, and agricultural land in other countries and other parts of the world. In California, aquifers were contaminated by billions of gallons of waste water from fracking. We know that 243 sources of drinking water were contaminated in Pennsylvania alone by methane escaping from the process of drilling for coal bed methane. We know, of course, that in parts of Wales, such as Borrás, in the north-east, that there are serious concerns that the River Dee could be could be polluted. Bear in mind that the River Dee provides drinking water to 1.2 million people in north Wales and the north-west of England. The test drilling that will happen there will see drilling through the Kinnerton aquifer, a huge reservoir of water that extends for miles underground, which will have serious implications, of course, were there to be pollution there.

There is an impact on agricultural land also, of course. We have seen examples of land being polluted, which is then at risk of poisoning stock. There was clarity from NFU Mutual this week on the insurance position of farmers, and there will no cover for farmers who make the decision to participate in fracking. It can also impact on the value of land, and that can have implications. Even if you are not actively involved, if there is action taken under your land, it can have an impact on the value of that land, and that has implications, of course, for the mortgages of those businesses, and so on. Just go to Borrás to see what the public opinion is there—there are dozens of farms clearly demonstrating their views against the process, which, of course, have potentially serious implications for their businesses.

Mae talaith New York yn ddiweddar wedi cyhoeddi eu bod nhw yn gwahardd ffracio ar sail y peryglon iechyd cyhoeddus, cyngor a gafodd ei roi gan adran iechyd cyhoeddus y dalaith. Fe gynhalion nhw adolygiad o'r holl wyddoniaeth sydd ar gael ar agweddau iechyd cyhoeddus ffracio, a dod i'r casgliad nad oedd tystiolaeth ddigonol i fedru dweud fod y broses yn un ddigonol, ac felly na fyddai modd sicrhau na fyddai yna niwed i iechyd y cyhoedd yn sgîl y gweithgarwch. Rydym hefyd yn gwybod am y 'ban' yn Ffrainc, y moratorïwm yn yr Almaen, a'r gwaharddiad mewn rhannau o Decsas lle cychwynnodd ffracio, wrth gwrs, i bob pwrpas, a hynny eto am resymau iechyd a rhesymau amgylcheddol.

Yn New South Wales, mae yna waharddiad ar dyllu o fewn milltir a hanner i ffynonellau dŵr. Wel, os ydyw e'n ddigon da i New South Wales, mae'n ddigon da i 'old south Wales' ac i 'old north Wales' hefyd, yn fy marn i. [Torri ar draws.] A 'mid Wales' hefyd, ie, digon teg. [Torri ar draws.] Ie, a 'west Wales'; o'cê, iawn. Nawr, wrth gwrs—[Torri ar draws.] Ie, 'all of Wales'; haws o lawer, cywir.

Ond yn y fan hyn, wrth gwrs, beth sydd gennym yw Llywodraeth yn San Steffan sydd nid yn unig yn rhannu trwyddedau ond hyrwyddo i gwmnïau gymryd mantais o'r trwyddedau hynny i dyllu o dan gartrefi dwy ran o dair o boblogaeth Cymru. Dyna sydd yn digwydd yng Nghymru. A gwneud hynny, wrth gwrs, heb orfod rhoi gwybod i deliadau y cartrefi hynny fod y broses yn digwydd o dan eu traed nhw. Nawr, rydym ni'n gwybod fod yna broblem 'subsidence' mewn rhai cymunedau oherwydd yr hen weithfeydd glo. Nid oes amheuaeth, wrth gwrs, fod yna risg bellach, yn fy marn i, pan fo drilio hefyd yn mynd i fod yn digwydd.

Nid yw'r hawl i drwyddedu ar gyfer nwy anghonfensiynol wedi ei ddatganoli i Gymru. Mi roedd yna ymrwymiad clir i ddatganoli i'r Alban; mae rhywun yn gobeithio y bydd o bosib ymrwymiad tebyg i Gymru ym mis Mawrth pan fydd y Gweinidog yn San Steffan yn gwneud ei ddatganiad; fe gawn ni weld am hynny. Os na ddaw'r pŵer, yna, wrth gwrs, bydd yn rhaid i ni weithredu o fewn y pwerau sydd gennym. Ac rwyf i ac eraill yn gyson wedi codi'r angen i edrych eto ar ddefnyddio'r pwerau presennol sydd gennym o safbwynt cynllunio yma yng Nghymru yn dipyn fwy effeithiol i roi stop ar y broses yma. Yn sicr, yn yr Alban mi wnaeth y Llywodraeth yno, wrth greu ei fframwaith gynllunio newydd yn ôl ym mis Mehefin, ei gwneud hi'n anoddach i gael caniatâd dros ffracio. Mae hynny yn rhywbeth rwy'n meddwl y dylem ni fod yn edrych arno ac yn edrych i'w efelychu yn y fframwaith datblygu cenedlaethol arfaethedig sydd yn cael ei gynniog o fewn y Bil cynllunio sydd yn mynd drwy'r Cynulliad yma ar hyn o bryd.

Nawr, mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod hi wedi cael cyngor cyfreithiol sy'n awgrymu na allwch chi ddefnyddio eich pwerau cynllunio i'r perwyl yma. Wel, beth am gyhoeddi y cyngor cyfreithiol hwnnw, fel ein bod ni gyd yn gallu deall y rhesymau? Ac rwy'n eich herio chi i gytuno i gyhoeddi hwnnw heddiw, oherwydd wedyn mi fydd y darlun yn gliriach ac wedyn mi allwn ni gael y drafodaeth yna wedi gallu cael golwg ar y cyngor rydych chi wedi ei dderbyn.

New York state recently announced that they are to ban fracking on the grounds of the risk to public health, advice provided by the public health department of the state. They conducted a study of all of the science available on public health aspects related to fracking, and came to the conclusion that there was not adequate evidence to say that the processes was sufficiently safe, and therefore that they could not be certain that they would not be damage to public health in light of that activity. We also know about the ban in France, the moratorium in Germany, and the ban in parts of Texas where fracking began, to all intents and purposes, and, again, that is for health and environmental reasons.

In New South Wales, there is a ban on drilling within a mile and a half of water sources. Well, if it is good enough for New South Wales, it is good enough for old south Wales and old north Wales too, in my view. [Interruption.] And mid Wales too, yes, fair enough. [Interruption.] Yes, and west Wales; okay, fine. Now, of course—[Interruption.] Yes, all of Wales; much easier, quite right.

But here, of course, what we have is a Government in Westminster that is not only licensing but promoting that companies should take advantage of those licences to drill under two thirds of the population of Wales. That is what happening in Wales. And doing that, of course, without even having to inform those homeowners that this process is taking place under their feet. Now, we know that there is a subsidence problem in some communities, because of old mining works. There is no doubt, of course, that there is a further risk, in my view, when drilling is also happening.

The power to licence for unconventional gas is not devolved to Wales. There was a clear commitment to devolve to Scotland; one would hope that there would be perhaps a similar commitment for Wales in March when the Minister in Westminster makes his statement; we will have to wait and see. If that power isn't devolved, then, of course, we will have to take action within the powers that we currently have. And I and others have consistently raised the need to look anew at using the current powers that we have in the area of planning here in Wales far more effectively in order to stop this process. Certainly, in Scotland, the Government there, in creating its new planning framework back in June, did make it more difficult to get consent for fracking. That is something that I think we should be looking at and looking to emulate in the proposed national development framework that is being proposed under the planning Bill currently going through this Assembly.

Now, the Welsh Government states that it has had legal advice suggesting that you cannot use your planning powers to that end. Well, why not publish that legal advice, so that we can all understand the rationale behind it? And I challenge you to agree to publish that advice today, because then the picture will be clearer and we can have that discussion having had sight of the advice that you have received.

Wrth gwrs, os daw y pŵer dros drwyddedu, yna mi fydd y bleidlais heddiw yn un arwyddocaol iawn iawn. Felly, wrth gefnogi cynnig Plaid Cymru heddiw, mae yna gyfle i'r Cynulliad Cenedlaethol hwn i wneud datganiad clir nad ydym ni am weld ffracio yn digwydd yng Nghymru, ac y byddwn ni yn gwneud pob peth o fewn ein pwerau ni i wneud yn siŵr na fydd ffracio ar dir Cymru.

Of course, if the power for licensing does come to Wales, then today's vote will be very significant indeed. So, in supporting the Plaid Cymru motion today, there is an opportunity for the National Assembly to make a clear statement that we do not want to see fracking here in Wales, and that we will do everything within our powers to ensure that fracking does not happen here on Welsh land.

17:08

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwyf wedi dehol y saith gwelliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol. Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I have selected the seven amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. I call on William Powell to move amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Dileu pwyntiau 2, 3 a 4 a rhoi yn eu lle:

Delete points 2, 3 and 4 and replace with:

2. Yn gresynu at y ffaith y gwrthodwyd gwelliant trawsbleidiol i Fil Seilwaith Llywodraeth y DU i weithredu moratoriwm ar ffracio am ddwy flynedd a hanner tra bod risgiau'n cael eu hasesu.

2. Regrets that a cross-party amendment to the UK Government's Infrastructure Bill to implement a moratorium on fracking for two and a half years while risks are assessed was rejected.

3. Yn galw ar Lywodraeth y DU i weithredu argymhellion Comisiwn Silk ar gyfer datganoli ynni a thrwyddedu olew ar y tir ac echdynnu nwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag argymhelliad ar gyfer yr Alban gan Gomisiwn Smith.

3. Calls for the UK Government to implement the Silk Commission's recommendations for energy devolution and for licensing of onshore oil and gas extraction to be devolved to the National Assembly for Wales, as recommended for Scotland by the Smith Commission.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i atal ffracio rhag digwydd yng Nghymru drwy gyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol newydd yn nodi'r safonau amgylcheddol ac iechyd a ddisgwylir o weithrediadau ffracio a chyfarwyddo awdurdodau cynllunio i wrthod ceisiadau ar gyfer gweithrediadau ffracio oni chaff ei brofi i fod yn ddiogel ar gyfer yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd.

4. Calls on the Welsh Government to prevent fracking from taking place in Wales by issuing a new Technical Advice Note setting out the environmental and health standards expected of fracking operations and to direct planning authorities to reject applications for fracking operations unless it is proven to be safe for the environment and public health.

Cynigiwyd gwelliant 1.

Amendment 1 moved.

17:08

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. I rise to move amendment 1 in the name of Aled Roberts, and I'm very pleased to be leading for my party in this important debate today, instigated by Plaid Cymru.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n codi i gynnig gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, ac rwy'n falch iawn o arwain ar ran fy mhlaid yn y ddadl bwysig hon heddiw, a gyghwynwyd gan Blaid Cymru.

The Welsh Liberal Democrats have had a clear policy on fracking for some three years now. In 2011, a policy motion was passed at our Wrexham conference to impose a moratorium on fracking operations in Wales until, and I quote, 'we fully comprehend the potential risks to the environment and to public health'. Since that time, my Welsh Liberal Democrat colleagues and I have consistently highlighted the potential risks that fracking brings to our communities across Wales.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi bod â pholisi clir ar ffracio ers oddeutu tair blynedd bellach. Yn 2011, pasiwyd cynnig polisi yn ein cynhadledd yn Wrecsam i osod moratoriwm ar weithrediadau ffracio yng Nghymru hyd nes, ac rwy'n dyfynnu, 'y byddwn yn deall yn llawn y risgiau posibl i'r amgylchedd ac i iechyd y cyhoedd'. Ers hynny, mae fy nghydweithwyr o blith Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a minnau wedi tynnu sylw'n gyson at y peryglon posibl y mae ffracio yn eu creu i'n cymunedau ledled Cymru.

As reflected in point 2 of our amendment, the Welsh party has explicitly set itself apart from our colleagues in the coalition Government front benches on the issue of fracking. I was therefore heartened that many of my Liberal Democrat colleagues in the House of Commons sought to limit, and ensure the safety of, fracking operations, such as in the case of Dr Julian Huppert's amendment to the Infrastructure Bill, which was calling for a moratorium on fracking. That was unfortunately not passed, as has been referred to. The added exemption of sites of special scientific interest, conservation areas and national parks was of some consolation, but it goes nowhere near far enough. The environmental risks of fracking simply cannot be ignored and they've been well rehearsed by Llyr Huws Gruffydd in proposing the motion. Whether it's from the risk of earth tremors or seismic events or ground contamination and waste water emanation, the evidence to show that fracking is safe for the environment simply does not exist. It also seems likely that shale gas extraction would increase both short and long-term greenhouse gas emission rates, and, with climate change being one of the biggest threats that faces civilisation, I would maintain that this makes fracking impossible to justify. Equally, as cited by Julian Huppert last week from 'Nature' magazine, a boom in shale gas extraction would be likely to hinder considerably the development of the renewable energy sector.

I would also like to mention briefly the potential health risks associated with fracking. As you will be aware, after a two-year study, headed up by the health commissioner for New York state, as Llyr Huws Gruffydd has referred to, a ban on fracking has been implemented across the entire state. Given the mounting body of evidence against fracking, I can only assume that those who seek to advance it are doing so purely on the basis of economic advantage, whilst ignoring the severe threat to our environment and indeed to public health. This is very much in line with a petition submitted by Friends of the Earth Cymru, which calls for new technical advice to strengthen the precautionary principle with regard to planning applications both for onshore oil and gas and including fracking. It states that:

'All reasonable scientific doubt that there is any risk of adverse impacts must be eliminated, and strongest consideration must be given to the urgent need to mitigate climate change.'

When the Petitions Committee questioned the former Minister for Natural Resources as to whether the Welsh Government would consider the current guidance and regulation relating to unconventional gas, the response was that the current approach did indeed, and I quote from the letter received,

'provide appropriate safeguards to both the environment and society'.

I would seriously question whether in fact this is the case. The Minister's response at that time went on to say that the Welsh Government remains, and I quote again,

Fel yr adlewyrchwyd ym mhwynt 2 ein gwelliant, mae'r blaidd yng Nghymru wedi gosod ei hun yn amlwg ar wahân i'n cydweithwyr ar feinciau blaen y Llywodraeth glymblaid ar fater ffracio. Cefais fy nghalonogi, felly, fod llawer o fy nghydweithwyr o blith y Democratiaid Rhyddfrydol yn Nhŷ'r Cyffredin wedi ceisio cyfyngu ar, a sicrhau diogelwch, gweithrediadau ffracio, megis gwelliant Dr Julian Huppert i'r Bil Seilwaith, a oedd yn galw am foratoriwm ar ffracio. Yn anffodus ni chafodd ei basio, fel y crybwyllwyd. Roedd ychwanegu eithrio safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, ardaloedd cadwraeth a pharciau cenedlaethol o ryw gysur, ond nid yw'n mynd yn ddigon pell o'r hanner. Ni ellir anwybyddu risgiau amgylcheddol ffracio ac maent wedi cael sylw helaeth gan Llyr Huws Gruffydd wrth iddo gyflwyno'r cynnig. Boed yn risg o ddirgryniadau neu ddigwyddiadau seismig neu halogi'r ddaear a tharddiad dŵr gwastraff, nid yw'r dystiolaeth i ddangos bod ffracio yn ddiogel i'r amgylchedd yn bodoli. Mae hefyd yn ymddangos yn debygol y byddai echdynnu nwy siâl yn cynyddu cyfraddau allyriadau nwyon tŷ gwydr hirdymor a byrdymor a gyda newid yn yr hinsawdd yn un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu gwareddiad, byddwn yn honni bod hyn yn ei gwneud yn amhosibl cyfiawnhau ffracio. Yn yr un modd, fel y dyfynnodd Julian Huppert o gylchgrawn 'Nature' yr wythnos diwethaf, byddai ffyniant gwaith echdynnu nwy siâl yn debygol o lesteirio datblygiad y sector ynni adnewyddadwy yn sylweddol.

Hoffwn sôn yn fyr hefyd am y risgiau iechyd posibl sy'n gysylltiedig â ffracio. Fel y gwyddoch, ar ôl astudiaeth ddwy flynedd dan arweiniad comisiynydd iechyd talaith Efrog Newydd, fel y mae Llyr Huws Gruffydd wedi crybwyll, rhoddwyd gwaharddiad ar ffracio ar waith ar draws y dalaith. O ystyried y corff cynyddol o dystiolaeth yn erbyn ffracio, ni allaf ond tybio bod y rhai sy'n ceisio'i ddatblygu yn gwneud hynny ar sail mantais economaidd yn unig, gan anwybyddu'r bygythiad difrifol i'n hamgylchedd ac yn wir i iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn unol â deiseb a gyflwynwyd gan Gyfeillion y Ddaear Cymru, sy'n galw am gyngor technegol newydd i gryfhau'r egwyddor ragofalus mewn perthynas â cheisiadau cynllunio ar gyfer olew a nwy ar y tir ac yn cynnwys ffracio. Mae'n datgan:

'Rhaid dileu pob amheuaeth wyddonol resymol bod risg o effeithiau niweidiol, a rhaid rhoi'r ystyriaeth gryfaf i'r angen brys i liniaru'r newid yn yr hinsawdd.'

Pan holodd y Pwyllgor Deisebau y cyn Weinidog Cyfoeth Naturiol ynglŷn ag a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried y canllawiau a'r rheoliadau cyfredol sy'n ymwneud â nwy anghonfensiynol, yr ymateb oedd bod yr agwedd bresennol, ac rwy'n dyfynnu o'r llythyr a ddaeth i law,

'yn darparu mesurau diogelu priodol i'r amgylchedd ac i gymdeithas'.

Fe fyddwn yn cwestiynu o ddifrif a yw hyn yn wir mewn gwirionedd. Aeth ymateb y Gweinidog ar y pryd ymlaen i ddweud bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod, ac rwy'n dyfynnu unwaith eto,

'committed to maximising the benefits for communities hosting energy developments in Wales',

'wedi ymrwymo i wneud y gorau o'r buddion i gymunedau lle y ceir datblygiadau ynni yng Nghymru',

showing no appreciation, I would argue, at all of the potential threats to those very communities. There may be economic benefits, but at what cost? It is for all these reasons that we have put forward our amendments to points 3 and 4 of the motion. It is my party's belief that the Silk commission recommendations for energy devolution and powers for licensing of onshore oil and gas extraction should be and must be devolved to this Assembly. It is absolutely essential that that happens. We also need such powers to be able to deliver on our ambitious targets for making Wales a net exporter of renewable energy and indeed to make our energy supply produce zero net greenhouse gas. Whilst aspects of licensing policy are indeed currently non-devolved, it remains the case that all fracking applications in Wales are subject to local authority determination and indeed also permitted by NRW.

gan ddangos odid ddim gwerthfawrogiad, fe fyddwn yn dadlau, o'r holl fgythytiadau posibl i'r union gymunedau hynny. Efallai fod manteision economaidd, ond ar ba gost? Am yr holl resymau hyn rydym wedi cyflwyno ein gwelliannau i bwynt 3 a 4 y cynnig. Cred fy mhlaid yw y dylai argymhellion comisiwn Silk ar gyfer datganoli ynni a phwerau i drwyddedu echdynnu olew a nwy ar y tir gael eu datganoli i'r Cynulliad hwn. Mae'n gwbl hanfodol fod hynny'n digwydd. Rydym hefyd angen pwerau o'r fath i allu cyrraedd ein targedau uchelgeisiol ar gyfer sicrhau bod Cymru yn allforio mwy o ynni adnewyddadwy nag y mae'n ei fewnforio ac yn wir i sicrhau nad yw ein cyflenwad ynni yn cynhyrchu nwyon tŷ gwydr. Er bod agweddau ar bolisi trwyddedu heb eu datganoli ar hyn o bryd, mae'n dal yn wir fod pob cais ffracio yng Nghymru yn ddarostyngedig i benderfyniad yr awdurdod lleol ac yn wir i ganiatâd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd.

- 17:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Finish now please. Gorffennwch yn awr os gwelwch yn dda.
- 17:14 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Both of these need to be addressed. Mae angen mynd i'r afael â'r ddau.
- 17:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Galwaf ar Antoinette Sandbach i gynnig gwelliannau 2 i 7 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. I call on Antoinette Sandbach to move amendments 2 to 7 tabled in the name of Paul Davies.
Gwelliant 2—Paul Davies *Amendment 2—Paul Davies*
Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le: *Delete point 2 and replace with:*
Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i sicrhau y bydd cymunedau yn elwa o gronfa gymunedol sylweddol, os bydd echdynnu nwy siâl yn digwydd. *Welcomes the UK Government's commitment to ensure that communities will benefit from a substantial community fund, if shale gas extraction does take place.*
Gwelliant 3—Paul Davies *Amendment 3—Paul Davies*
Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le: *Delete point 3 and replace with:*
Yn galw am ddatganoli cymhwysedd ar gyfer prosiectau ynni hyd at 100MW, ac i Lywodraeth Cymru adeiladu capasiti ychwanegol ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. *Calls for devolution of competency for energy projects up to 100mw, and for Welsh Government to build additional capacity for future projects.*
Gwelliant 4—Paul Davies *Amendment 4—Paul Davies*
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig: *Add as new point at the end of motion:*
Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cymunedau lleol yn cael dweud eu dweud wrth benderfynu a ydynt eisiau cefnogi cynlluniau i archwilio nwy siâl yn eu hardal. *Calls on the Welsh Government to ensure that local communities have a say in deciding whether or not they want to support shale gas exploration in their area.*
Gwelliant 5—Paul Davies *Amendment 5—Paul Davies*
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig: *Add as new point at the end of the motion:*

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod canllawiau cynllunio cyfredol ar waith mewn perthynas ag echdynnu nwy siâl.

Gwelliant 6—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gan Gyfoeth Naturiol Cymru gyllid ac arbenigedd digonol i allu ymateb i drwyddedau i ddrilio am nwy siâl a sicrhau monitro bod cyflenwadau dŵr daear a dŵr gwastraff yn cael eu monitro'n briodol i sicrhau eu bod yn ddiogel ac na achosir risg sylweddol i iechyd pobl neu'r amgylchedd.

Gwelliant 7—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwil sy'n ymwneud â'r meini prawf pellter diogel gofynnol cyn cynnal gwaith ffracio yn agos i dai preswyl neu oddi tanynt.

Cynigiwyd gwelliannau 2, 3, 4, 5, 6 a 7.

Calls on the Welsh Government to ensure that there is up to date planning guidance relating to the extraction of shale gas.

Amendment 6—Paul Davies

Add as new point at the end of the motion:

Calls on Welsh Government to ensure that Natural Resources Wales has sufficient funding and expertise to be able to respond to drilling licenses for shale gas and to ensure appropriate monitoring of groundwater supply and waste water, so that it is safe and causes no significant risk to human health or to the environment.

Amendment 7—Paul Davies

Add as new point at the end of the motion:

Calls on the Welsh Government to undertake research relating to the safe distance criteria required before fracking can be undertaken near or underneath residential housing.

Amendments 2, 3, 4, 5, 6 and 7 moved.

17:14

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am very pleased to have the opportunity to participate in today's debate, and we can to some extent support the Plaid motion, but, I regret, not the whole of it in the way that it's currently drafted, which is why we tabled the amendments. The important thing is that Wales has historically played a huge part in the energy mix of the UK, and particularly supplying coal, but the question around shale gas is quite nuanced. There are competing scientific views, and I think whilst those doubts are there the Welsh Conservatives support a moratorium, certainly until 2021, on fracking in order to enable further research to be carried out. It's particularly true that the geology of each area will differ, and circumstances will differ in each area. It's important that any policy, or indeed technical advice note that Welsh Government issues, recognises the fact that there are going to be differences in the geology throughout Wales.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch iawn o gael y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl heddiw, ac i ryw raddau, gallwn gefnogi cynnig Plaid Cymru, ond nid i gyd, gresynaf, oherwydd y ffordd y mae wedi cael ei ddrafftio ar hyn o bryd, a dyna pam y cyflwynwyd y gwelliannau gennym. Y peth pwysig yw bod Cymru yn hanesyddol wedi chwarae rhan enfawr yng nghymysgedd ynni y DU, gan gyflenwi glo yn arbennig, ond mae'r cwestiwn ynghylch nwy siâl yn eithaf cymhleth. Mae yna safbwyntiau gwyddonol sy'n cystadlu, ac rwy'n meddwl tra bod yr amheuon yn bodoli, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi moratoriwm ar ffracio, yn sicr tan 2021, er mwyn ei gwneud hi'n bosibl cyflawni gwaith ymchwil pellach. Mae'n bendant yn wir y bydd daeareg pob ardal yn wahanol, a bydd amgylchiadau'n amrywio ym mhob ardal. Mae'n bwysig bod unrhyw bolisi, neu nodyn cyngor technegol yn wir, y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gyhoeddi, yn cydnabod y ffaith fod gwahaniaethau daearegol yn mynd i fod ledled Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The Welsh Conservatives' stance is to make sure that fracking doesn't take place, because of the concerns that local communities have, unless they wish to opt in. They can only opt in, in effect, or will only choose to opt in, if they feel that there are benefits and that the scientific concerns have been addressed. Our amendments make it quite clear that we, too, have concerns about the impact of fracking underneath people's homes, and indeed, on the environment, and those are genuine concerns and those are concerns that need to be investigated further. I can't, therefore, understand why the current Minister hasn't updated his guidance. I would echo the points that William Powell has made that the technical advice note guidance—and I very much welcome the Liberal Democrat amendment in that form on that issue—needs to be updated and isn't sufficient in its current form. So, we would echo those concerns, Minister, and ask you to look at that again, because it is not providing the safeguards to local communities that we would like to see.

In terms of our amendments, in particular, allowing local communities to have a greater say in what they want for their areas, it seems to me that the changes in the planning Bill will automatically mean that that process, in effect, happens, because it would either be a development of national significance or at that level, and there'd be a requirement for that kind of engagement with local communities. So, we think that our point 4 is a realistic point.

Again, I echo the concerns made by William Powell about Natural Resources Wales. I am not convinced that it has the expertise to be able to deal with the licensing and drilling applications. We need a moratorium in order to allow that body of expertise to be built up in Natural Resources Wales. It's a new body; it doesn't have the resources and expertise to deal with these applications yet, but it doesn't mean that it can't get that expertise. In the meantime, it would be wrong for fracking to proceed without our main regulator having the appropriate expertise.

It seems a contradictory position, in respect of Plaid, to say, 'Well, let fracking go on elsewhere in the world; we're quite happy to import 30%—30%—of our gas through Milford Haven', which is our current requirements. I appreciate that you may want to move to completely renewable resources by 2025, but I question whether or not that is realistic and I really don't think you will achieve it in that time frame. The reality is that shale gas is a cleaner technology, and we really need to be looking at what we're doing with coal, because that is the dirtiest technology of all. If we are serious about our climate change emissions and we are serious about looking at our impact, we have to look at how we are using coal in our power stations. I think that is a key point: that it is cleaner; it is better. I appreciate that you disagree with me on that, but certainly, in terms of the idea of a—

Safiad y Ceidwadwyr Cymreig yw gwneud yn siŵr nad yw ffracio'n digwydd, oherwydd y pryderon sydd gan gymunedau lleol, oni bai eu bod yn dymuno optio i mewn. I bob pwrpas, dim ond optio i mewn y gallant ei wneud, neu ddewis optio i mewn, os ydynt yn teimlo bod manteision a bod y pryderon gwyddonol wedi cael eu hateb. Mae ein gwelliannau yn ei gwneud hi'n gwbl glir ein bod ninnau, hefyd, yn pryderu am effaith ffracio dan gartrefi pobl, ac yn wir, ar yr amgylchedd, ac mae'r rhain yn bryderon gwirioneddol ac yn rhai sydd angen eu harchwilio ymhellach. Felly, ni allaf ddeall pam nad yw'r Gweinidog presennol wedi diweddarau ei arweiniad. Byddwn yn adleisio'r pwyntiau a wnaeth William Powell fod angen diweddarau'r arweiniad ar y nodyn cyngor technegol-ac rwy'n croesawu gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol ar y mater yn y ffurf honno'n fawr iawn-ac nad yw'n ddigon ar ei ffurf bresennol. Felly, byddem yn adleisio'r pryderon hynny, Weindog, ac yn gofyn i chi edrych ar hynny eto, am nad yw'n darparu'r mesurau diogelwch i gymunedau lleol y byddem yn hoffi eu gweld.

O ran ein gwelliannau, yn arbennig caniatáu i gymunedau lleol gael mwy o lais yn yr hyn y maent ei eisiau ar gyfer eu hardaloedd, mae'n ymddangos i mi y bydd y newidiadau yn y Bil cynllunio yn golygu yn awtomatig bod y broses honno, i bob pwrpas, yn digwydd, gan y byddai naill ai'n ddatblygiad o bwys cenedlaethol neu ar y lefel honno, a byddai gofyn cael y math hwnnw o ymgysylltiad â chymunedau lleol. Felly, rydym yn credu bod ein pwynt 4 yn bwynt realistig.

Unwaith eto, hoffwn adleisio pryderon a wnaeth gan William Powell ynghylch Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid wyf yn argyhoeddedig fod ganddo'r arbenigedd i allu delio â'r ceisiadau trwyddedu a drilio. Mae arnom angen moratoriwm er mwyn caniatáu i gorff o arbenigedd gael ei ddatblygu yn Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n gorff newydd; nid oes ganddo'r adnoddau a'r arbenigedd i ymdrin â'r ceisiadau hyn eto, ond nid yw'n golygu na all gael arbenigedd o'r fath. Yn y cyfamser, byddai'n gamgymeriad i ffracio fynd yn ei flaen heb fod yr arbenigedd priodol gan ein prif reolydd.

Mae safbwynt Plaid Cymru i'w weld yn anghyson, pan ddywedant, 'Wel, gadewch i ffracio ddigwydd mewn rhannau eraill o'r byd; rydym yn ddigon hapus i fewnforio 30%-30%-o'n nwy drwy Aberdaugleddau', sef ein gofynion cyfredol. Sylweddolaf efallai y byddwch am symud i adnoddau cwbl adnewyddadwy erbyn 2025, ond rwy'n amau a yw hynny'n realistig ac nid wyf yn credu o gwbl y byddwch yn ei gyflawni o fewn yr amser hwnnw. Y realiti yw bod nwy siâl yn dechnoleg lanach, ac mae gwir angen i ni edrych ar yr hyn rydym yn ei wneud â glo, oherwydd dyna'r dechnoleg futraf oll. Os ydym o ddifrif ynglŷn â'n hallyriadau newid hinsawdd ac os ydym o ddifrif ynglŷn ag edrych ar ein heffaith, mae'n rhaid i ni edrych ar sut rydym yn defnyddio glo yn ein gorsafoddedd pŵer. Credaf fod hwnnw'n bwynt allweddol: mae'n lanach; mae'n well. Rwy'n sylweddoli eich bod yn anghytuno â mi ar hynny, ond yn sicr, o ran y syniad o—

17:19

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finish now, please.

Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:19 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Continues.]—moratorium, we would support one until 2021.

[Yn parhau.]—foratoriwm, byddem yn cefnogi un tan 2021.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:19 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As my colleague, Llyr Gruffydd, has said, the real concerns that people in communities across Wales, and indeed the world, have for fracking are deeply held, and they cannot be ignored by policy makers. Llyr Gruffydd has made the very compelling environmental case, and I want to focus my contribution this afternoon on the deficit that exists between the will of the people and the inability of the National Assembly for Wales to implement that will.

Fel y mae fy nghyd-Aelod, Llyr Gruffydd, wedi dweud, mae'r pryderon gwirioneddol sydd gan bobl mewn cymunedau ledled Cymru, ac yn wir y byd, ynghylch ffracio yn rhai diffuant, ac ni all gwneuthurwyr polisi eu hanwybyddu. Cyflwynodd Llyr Gruffydd achos amgylcheddol grymus iawn, ac rwyf am ganolbwyntio fy nghyfraniad y prynhawn yma ar y diffyg sy'n bodoli rhwng ewyllys y bobl ac anallu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i weithredu'r ewyllys honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We're all too familiar with Wales's peculiar position in the British state: of yet again being the odd one out when it comes to being empowered to deliver policies that are in the interests of the people of Wales. We know through history that, although we have a resource-rich country, those who mined the earth, who made the iron and quarried the slate did not fully benefit from their toil. Those workers and their families did not benefit from the abundance of resources in their land. We are in danger seeing a repeat performance by Westminster, this time with Wales's shale gas.

Rydym i gyd yn rhy gyfarwydd â sefyllfa ryfedd Cymru yn y wladwriaeth Brydeinig: o fod unwaith yn rhagor yn wahanol i bawb pan ddaw'n fater o gael ein grymuso i gyflawni polisiâu sydd er budd pobl Cymru. Drwy hanes, er bod gennym wlad gyfoethog ei hadnoddau, gwyddom nad elwodd y rhai a dylodd y ddaear, a wnaeth yr haearn ac a gloddiodd y llechi yn llawn o'u llafur. Nid elwodd y gweithwyr hynny a'u teuluoedd o'r cyfoeth o adnoddau yn eu tir. Rydym mewn perygl o weld y stori'n cael ei hailadrodd gan San Steffan, y tro hwn gyda nwy siâl Cymru.

Again, one devolved administration in the UK has secured powers over onshore licensing for drilling; again, no mention of our devolved administration. Again, Scotland has secured more powers for itself and, again, its Government has used those powers in the interests of its people. I welcome the calls from the Liberal Democrats for these powers to be devolved as per Silk, but I do have to ask the question: when you are a partner in the coalition Government, why on earth have you not devolved these powers already? It's worth reiterating that when Plaid Cymru tabled amendments to the Infrastructure Bill at Westminster, giving Wales the same powers as Scotland, we were not supported by the other parties. Why was that?

Unwaith eto, mae un weinyddiaeth ddatganoledig yn y DU wedi sicrhau pwerau dros drwyddedu ar y tir ar gyfer drilio; unwaith eto, nid oes unrhyw sôn am ein gweinyddiaeth ddatganoledig. Unwaith eto, mae'r Alban wedi sicrhau mwya o bwerau iddi ei hun ac unwaith eto, mae ei Llywodraeth wedi defnyddio'r pwerau hynny er lles ei phobl. Rwy'n croesawu'r galwadau gan y Democratiaid Rhyddfrydol am i'r pwerau hyn gael eu datganoli yn unol â Silk, ond mae'n rhaid i mi ofyn: a chithau'n bartner yn y Llywodraeth glymblaid, pam ar y ddaear nad ydych wedi datganoli'r pwerau hyn yn barod? Mae'n werth ailadrodd, pan gyflwynodd Plaid Cymru welliannau i'r Bil Seilwaith yn San Steffan, i roi'r un pwerau â'r Alban i Gymru, ni chawsom ein cefnogi gan y pleidiau eraill. Pam hynny?

As Llyr Gruffydd said, there are some who are of the view that the Welsh Government is quite happy to sit on its hands when, actually, it could use existing planning powers to introduce a moratorium. If the Government has had legal advice suggesting that they cannot prevent fracking under our existing arrangements, then I would add my voice to my colleagues' calls for that legal advice to be published.

Fel y dywedodd Llyr Gruffydd, mae rhai o'r farn fod Llywodraeth Cymru yn ddigon hapus i eistedd yn ôl a gwneud dim, er y gallai ddefnyddio pwerau cynllunio presennol mewn gwirionedd i gyflwyno moratoriwm. Os yw'r Llywodraeth wedi cael cyngor cyfreithiol sy'n awgrymu na allant atal ffracio dan ein trefniadau presennol, yna byddwn yn ychwanegu fy llais at alwadau fy nghyd-Aelodau am gyhoeddi'r cyngor cyfreithiol hwnnw.

Now, I hope that all parties will support our motion today, firstly, to give the people of Wales the power to decide on their own natural resources and, secondly, for the Labour Government to not just support Plaid Cymru's calls for a moratorium on fracking, but also to act accordingly. It's not good enough just to say that you are for or against something; when you run the Government, you actually have to do something, and we look forward now to seeing what you intend to do on this.

Yn awr, rwy'n gobeithio y bydd pob plaid yn cefnogi ein cynnig heddiw, yn gyntaf, i roi pŵer i bobl Cymru benderfynu ynglŷn â'u hadnoddau naturiol eu hunain ac yn ail, i'r Llywodraeth Lafur nid yn unig i gefnogi galwadau Plaid Cymru am foratoriwm ar ffracio, ond hefyd i weithredu yn unol â hynny. Nid yw'n ddigon da i chi ddweud yn unig eich bod o blaid neu yn erbyn rhywbeth; pan fyddwch yn rhedeg y Llywodraeth, rhaid i chi fynd ati i wneud rhywbeth, ac rydym yn edrych ymlaen yn awr at weld beth rydych yn bwriadu ei wneud ar hyn.

There's been much talk in this Chamber of home rule in recent months. Few of the platitudes and little of the rhetoric have actually resulted in any meaningful improvements for people here in Wales, to date. As Wales's National Assembly, we can secure empowerment for our country that brings us in line with others and, crucially, we can ensure that the exploitation of our resources never happens again in a way that is contrary to the interests of our communities and to our precious natural environment.

17:23

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I oppose fracking and support an unequivocal, point-blank ban on shale gas exploitation for reasons that I will shortly outline. I do support a moratorium, but I'm under no illusion that the moratorium is anything other than a delaying tactic and not, in itself, opposition to fracking.

I represent a constituency where licences have been issued by the UK Government for exploratory drilling in Llantrisant, so it is an issue that directly affects the people whom I represent. At present, I do not think there is a community consensus of views as to the desirability, or otherwise, of exploitation of shale gas, because there has been no informed debate. Instead, there is a high degree of confusion. The inconsistency of views is also reflected in all political parties in this Assembly, where views vary from total opposition to conditional opposition or support. There are those who regard shale gas as a resource that could provide vital community funding, provided it can be extracted safely. This confusion and the potential impact on communities reinforce my view that licensing for shale gas should be devolved to the Welsh Government and that the issue of exploitation of this potential resource should be a matter for the people of Wales.

For my part, I consider there are three key considerations. Firstly, is it safe? Secondly, what will be the community impact or benefit, and, thirdly, what is the consequence of reliance on another fossil fuel? Firstly, I am not convinced that there are no safety implications. The Environment and Sustainability Committee, which considered the issue of unconventional gas exploitation in 2012, was also unconvinced.

Secondly, there is no clarity as to how communities would benefit socially or economically. This is a matter for communities to consider, but we have as yet no control over any financial benefits were we to support fracking, and it is of the greatest concern that the UK Government and DEFRA have refused to publish the full unredacted copy of their own report, 'Shale Gas Rural Economy Impacts'.

Thirdly, even if we can overcome these issues, I'm of the view that it would be the gravest of errors to proceed with and develop any dependency on shale gas as a carbon-emitting fossil fuel. This approach was supported by the environment committee again in 2012, in paragraph 76 of that report, when they stated:

Cafwyd llawer o sôn yn y Siambr hon am ymreolaeth yn ystod y misoedd diwethaf. Ychydig o'r ystrydebau ac ychydig o'r rhethreg sydd wedi arwain mewn gwirionedd at unrhyw welliannau ystyrlon i bobl yma yng Nghymru hyd yn hyn. Fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gallwn sicrhau ein bod yn grymuso ein gwlad er mwyn ein gwneud yn gyfartal ag eraill, ac yn allweddol, er mwyn i ni sicrhau nad yw ein hadnoddau byth eto'n cael eu hecsbloetio mewn ffordd sy'n groes i fuddiannau ein cymunedau a'n hamgylchedd naturiol gwerthfawr.

Rwy'n gwrthwynebu ffracio ac yn cefnogi gwaharddiad cwbl ddiawms ar ecsbloetio nwy siâl am y rhesymau y byddaf yn eu hamlinellu cyn bo hir. Rwy'n cefnogi moratoriwm, ond nid wyf dan unrhyw gamagraff fod moratoriwm yn ddim mwy na thacteg i oedi ac nad yw, ynnddo'i hun, yn wrthwynebiad i ffracio.

Rwy'n cynrychioli etholaeth lle y mae trwyddedau wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth y DU ar gyfer drilio archwiliol yn Llantrisant, felly mae'n fater sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y bobl rwy'n eu cynrychioli. Ar hyn o bryd, nid wyf yn credu bod consensws cymunedol o safbwyntiau ynghylch pa mor ddymunol, neu fel arall, fyddai ecsbloetio nwy siâl, gan na chafwyd unrhyw drafodaeth ddeallus. Yn lle hynny, mae yna lawer iawn o ddryswch. Mae anghysondeb y safbwyntiau hefyd yn cael ei adlewyrchu ym mhob plaid wleidyddol yn y Cynulliad hwn, lle y mae'r safbwyntiau'n amrywio o wrthwynebiad pur i wrthwynebiad neu gefnogaeth amodol. Mae rhai'n ystyried bod nwy siâl yn adnodd a allai ddarparu cyllid cymunedol hanfodol, ar yr amod y gellir ei echdynnu'n ddiogel. Mae'r dryswch a'r effaith bosibl ar gymunedau yn atgyfnerthu fy marn y dylai trwyddedu ar gyfer nwy siâl gael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru ac y dylai ecsbloetio'r adnodd posibl hwn fod yn fater i bobl Cymru.

O'm rhan i, rwyf o'r farn fod yna dair ystyriaeth allweddol. Yn gyntaf, a yw'n ddiogel? Yn ail, beth fydd yr effaith neu'r budd cymunedol, ac yn drydydd, beth yw canlyniad dibyniaeth ar danwydd ffosil arall? Yn gyntaf, nid wyf yn argyhoeddedig nad oes unrhyw oblygiadau diogelwch. Nid oedd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, a ystyriodd fater ecsbloetio nwy anghonfensiynol yn 2012, wedi ei argyhoeddi chwaith.

Yn ail, nid oes unrhyw eglurder ynglŷn â sut y byddai cymunedau yn elwa'n gymdeithasol neu'n economaidd. Mae hwn yn fater i gymunedau ei ystyried, ond hyd yma nid oes gennym reolaeth o gwbl dros unrhyw fanteision ariannol pe baem yn cefnogi ffracio, ac mae'n destun pryder mawr fod Llywodraeth y DU a DEFRA wedi gwrthod cyhoeddi'r copi llawn heb ei olygu o'u hadroddiad eu hunain, 'Shale Gas Rural Economy Impacts'.

Yn drydydd, hyd yn oed os gallwn oresgyn y materion hyn, rwyf o'r farn y byddai'n gamgymeriad o'r mwyaf i symud ymlaen a datblygu unrhyw ddiibyniaeth ar nwy siâl fel tanwydd ffosil sy'n allyrru carbon. Cafodd yr agwedd hon ei chefnogi gan bwyllgor yr amgylchedd eto yn 2012, ym mharagraff 76 o'r adroddiad hwnnw, pan ddywedodd hyn:

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

'the Committee considers that the development of another carbon intensive energy industry at this time is not appropriate and cannot be reconciled with EU and UK commitments to reduce emissions'.

That was as well as recommending a new and updated technical advice note to help planning authorities in Wales in dealing with planning applications for the exploitation and extraction of unconventional gas.

The House of Commons Select Committee on 21 January 2014 endorsed this view, saying,

'Any large scale extraction...is...at least 10-15 years away.'

'Continually tightening carbon budgets...will have significantly curtailed our scope for fossil fuel energy, and as a consequence only a very small fraction of the possible shale gas deposits will be burnable.'

The report further endorsed this view, supporting the position of the director of the Tyndall Centre for Climate Change Research, Professor Kevin Anderson, who stated:

'emissions from a fully developed UK shale gas industry would likely be very substantial in their own right. If the UK Government is to respect its obligations under both the Copenhagen Accord and Low Carbon Transition Plan, shale gas offers no meaningful potential as even a transition fuel.'

Now, I understand and sympathise with the Plaid Cymru dilemma, because they are hedging. They have one eye on independence and the question of how they will bridge the monumental funding gap, and the other on the electoral benefits of being perceived as anti-fracking. The people of Wales should be in no doubt that this motion imposes conditions on fracking and nothing more. As for the Lib Dems, let's remind ourselves it is a Lib Dem Minister who's issuing all the licences for exploitation.

I'm clear in the reasons for my own opposition to shale gas exploitation, but I'm also clear that a pre-requisite to all of this is that, firstly, licensing has to be devolved to Wales. Once that has happened, I believe there should be an informed, unconditional and transparent debate on this issue, and that the people of Wales, through the Welsh Assembly, should take that decision.

'mae'r Pwyllgor yn ystyried nad yw datblygu diwydiant ynni arall sy'n ddrud-ar-garbon yn briodol yn awr ac nad yw'n gyson ag ymrwymadau'r DU a'r UE i leihau allyriadau'.

Hefyd argymhellodd y dylid llunio nodyn cyngor technegol newydd wedi ei ddiweddarau er mwyn helpu awdurdodau cynllunio yng Nghymru i ymdrin â cheisiadau cynllunio ar gyfer ecsbloetio ac echdynnu nwy anghonfensiynol.

Ategodd Pwyllgor Dethol y Tŷ'r Cyffredin y farn hon ar 21 Ionawr 2014, gan ddweud,

'ni fydd unrhyw echdynnu ar raddfa fawr yn digwydd... am o leiaf 10-15 mlynedd.'

'Bydd cyllidebau carbon sy'n tynhau'n barhaus... wedi cyfyngu'n sylweddol ar ein cyfle o ran ynni tanwydd ffosil, ac o ganlyniad, cyfran fechan iawn yn unig o'r dyddodion nwy siâl posibl a fydd yn llosgadwy.'

Roedd yr adroddiad yn cymeradwyo'r farn hon ymhellach, gan gefnogi safbwynt cyfarwyddwr Canolfan Tyndall ar gyfer Ymchwilio i'r Newid yn yr Hinsawdd, yr Athro Kevin Anderson, a ddywedodd:

'byddai allyriadau o ddiwydiant nwy siâl wedi'i ddatblygu'n llawn yn y DU yn debygol o fod yn sylweddol iawn ynddynt eu hunain. Os yw Llywodraeth y DU yn parchu ei rhwymedigaethau o dan Gytgord Copenhagen a'r Cynllun Newid Carbon Isel, nid yw nwy siâl yn cynnig unrhyw bontial ystyrlon hyd yn oed fel tanwydd pontio.'

Yn awr, rwy'n deall ac yn cydymdeimlo â chyfyng-gyngor Plaid Cymru, oherwydd maent yn petruso. Mae ganddynt un llygad ar annibyniaeth a'r cwestiwn ynghylch sut y byddant yn pontio'r bwlch cyllido enfawr, a'r llall ar y manteision etholiadol o gael eu gweld fel plaid wrth-ffracio. Ni ddylai pobl Cymru fod dan unrhyw amheuaeth mai gosod amodau ar ffracio a dim byd mwy y mae'r cynnig hwn yn ei wneud. Ac am y Democratiaid Rhyddfrydol, gadewch i ni atgoffa ein hunain mai Gweinidog y Democratiaid Rhyddfrydol sy'n cyhoeddi'r holl drwyddedau ar gyfer ecsbloetio.

Rwy'n glir ynghylch y rhesymau dros fy ngwrthwynebiad fy hun i ecsbloetio nwy siâl, ond rwy'n glir hefyd mai'r rhagofyniad i hyn oll, yn gyntaf, yw bod yn rhaid datganoli trwyddedu i Gymru. Wedi i hynny ddigwydd, rwy'n credu y dylid cael trafodaeth wybodus, ddiamed a thryloyw ar y mater, ac y dylai pobl Cymru, drwy Gynulliad Cymru, wneud y penderfyniad hwnnw.

17:27	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Wel, mae'n ymddangos i mi fod yna fwyafrif yn y Siambur heddiw sydd o blaid yr hyn y mae Plaid Cymru yn galw amdano, sef y dylai'r Cynulliad hwn ddatgan yn glir ein bod o blaid moratoriwm ar ffracio yng Nghymru. Mi fyddai'r neges yna yn un gryf ac arwyddocaol, fod y Senedd yma, sydd yn adlewyrchiad o ddewis democrataidd pobl Cymru, ddim am weld ffracio'n digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd, a hefyd yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gael yr hawl i weithredu ar y farn honno.</p>	<p>Well, it appears to me that there is a majority in the Chamber today in favour of what Plaid Cymru is calling for, which is that this Assembly should state clearly that it is in favour of a moratorium on fracking in Wales. That message would be a strong and significant one that this Senedd, which is a reflection of the democratic choice of the people of Wales, would not wish to see fracking taking place in Wales at present, while also believing that the Welsh Government should have the right to act according to that opinion.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:28	<p>Elin Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Nid yw'n cael ei gyfieithu.</p>	<p>It isn't being translated.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:28	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Nid oes dim cyfieithu?</p>	<p>Is there no translation?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:28	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Order. I think there's a problem with the translation. We will just check. Yes, it is coming now. I'm sorry.</p>		<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:28	<p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Iawn, wel, af i ddim yn ôl dros y paragraff agoriadol yna. Beth bynnag, rwyf yn gobeithio y cawn anfon y neges yna allan heno i gyfleu barn pobl Cymru yn glir.</p> <p>Rŵan, 'te. Mae Leanne Wood wedi sôn yn barod am y diffyg democrataidd o ran pŵer y sefydliad yma o gymharu ag ewyllys pobl Cymru. Mae Mick Antoniw wedi sôn am yr un peth yn bwerus iawn. Mi hoffwn i ymhelaethu ar y pwynt yna. Mae'n ymddangos i mi fod yna fwlch mawr rhwng yr hyn y mae gwleidyddion yn ei ddweud ar un llaw, a'r hyn y maen nhw'n ei wneud ar y llaw arall. Mae'r mater yna'n berthnasol i'r ddatl heddiw ar ffracio.</p> <p>Mewn ymateb i gwestiwn gan lefarydd Plaid Cymru ar hynny, Llyr Gruffydd, dywedodd y Gweinidog Adnoddau Naturiol wrth y Cynulliad ei fod o a'r Prif Weinidog wedi cynnal nifer o drafodaethau efo Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ynglŷn â rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cymru i gyflwyno moratoriwm ar ffracio. Ond, ar ôl i Aelod Seneddol Plaid Cymru dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Jonathan Edwards, wirio'r datganiad yma efo Gweinidog Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol, mae'n ymddangos nad oedd unrhyw gyswllt wedi bod gan Lywodraeth Cymru ar y mater yma o gwbl.</p> <p>Wrth gwrs, pan gafodd y Blaid Lafur y cyfle i gyflwyno gwelliannau i'r Bil Isadeiledd yn San Steffan, fe gyflwynon nhw welliant i ddatganoli'r pŵer i'r Alban ond nid i Gymru. Mae'n rhaid gofyn, gan gofio sylwadau cryf Mick Antoniw yn ddiweddar, pam nad oedd Aelodau Seneddol Llafur Cymru yn fodlon gwneud y gwelliant hwnnw. Eto, yr hyn sy'n rhyfedd—yn fwy rhyfedd, mewn gwirionedd—yw'r ffaith, pan ddaru Plaid Cymru gyflwyno gwelliant i'r effaith hynny, fe benderfynodd Llafur beidio â chefnogi'r gwelliant. Mae'r sefyllfa'n warthus ac yn chwerthinllyd, a dweud y gwir.</p>	<p>Right. Well, I won't rehearse my opening paragraph. However, I do hope that we can send a message this evening to voice the opinion of the people of Wales clearly.</p> <p>Now, then. Leanne Wood has already spoken about the democratic deficit in terms of the Assembly's power as compared to the will of the people of Wales. Mick Antoniw has also mentioned the same very powerfully. I'd like to expand on that point. It appears to me that there is a big gap between what politicians are saying on the hand and what they are doing on the other hand. That matter is at the root of today's debate on fracking.</p> <p>In a response to a question by Plaid Cymru's spokesperson on energy, Llyr Gruffydd, the Minister for Natural Resources told the Assembly that he and the First Minister had held several discussions with the United Kingdom Government regarding giving the Welsh Government power to introduce a moratorium on fracking. However, after the Plaid Cymru Member of Parliament for Carmarthen East and Dinefwr, Jonathan Edwards, verified this statement with the UK Government Minister, it appears that no contact had been made by the Welsh Government on this matter at all.</p> <p>Of course, when the Labour Party had an opportunity to introduce amendments to the Infrastructure Bill in Westminster, they introduced an amendment to devolve the power to Scotland but not to Wales. We have to ask, remembering the robust comments that Mick Antoniw made, why the Welsh Labour Members of Parliament were not willing to make that amendment. Again, what's strange—even more strange, to be honest—is the fact that when Plaid Cymru put forward an amendment to that effect, Labour decided not to support that amendment. The situation is appalling and laughable, to be honest.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Mae pobl yng Nghymru yn cael eu twyllo yn hyn o beth. A gaf i wneud un peth yn gwbl glir heddiw? Mae Plaid Cymru yn erbyn ffracio. Mae Plaid Cymru wedi pleidleisio yn erbyn ffracio yn y Senedd yma, yn Senedd y Deyrnas Gyfunol ac yn Senedd Ewrop ar bob cyfle posib, a dyna a wnawn ni i'r dyfodol. Rŵan, rwyf yn deall bod yna rai sydd o blaid ffracio ac yn pleidleisio i gyflawni hynny heddiw, ond i rai ohonoch sydd yn dweud eich bod yn ei erbyn, yna bydd eich record bleidleisio yn atseinio'n gliriach na'ch geiriau chi. Diolch yn fawr.

The people of Wales are being tricked in this regard. May I make one thing very clear today? Plaid Cymru is against fracking. Plaid Cymru has voted against fracking in this place, in the United Kingdom Parliament and in the European Parliament at every opportunity, and that's what we will do in future. Now, I do understand that some people are in favour of fracking and will vote to that effect today, but to those who say that they are against it, then your voting record will be clearer than your words. Thank you very much.

17:31

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very pleased to hear the unconditional statement from Alun Ffred that Plaid Cymru is against fracking. I have considerable concerns about fracking, which I regard as a short-term fix to a long-term problem. The long-term problem is that the world is fixated on oil. We've already used up 50% of the oil that's easy to get at and the current drop in oil prices has caused BP this week to announce that it's cutting back on exploration and therefore we have to find other ways of producing the energy that we all need.

Fracking is not the answer, in my view. As the first point in the motion explains, Wales has already got a long history of having its natural resources plundered and, too often, those who do that exploitation are not prepared to pay for the cleaning up of the cost of their pollution in that exploitation. Aberfan, obviously, is a byword for the failure to deal effectively with the consequences of the exploiting of Wales's natural resources.

The very existence of the south Wales seam makes it an area of extreme interest to fracking companies. We know that that's where the fracking companies want to go. They're not at the moment planning to drill under Cardiff, although the UK Government's Infrastructure Bill would allow them to do that without permission of any of the householders living in Cardiff. But, nevertheless, I don't think that's a threat in the short term. But, the threats that I do think pose a risk to everybody, not just those living in areas of possible fracking exploitation, are the fact that the fracking process uses up a huge amount of water. This is our most precious resource and the only one for which we have no substitute. Now, the Institution of Civil Engineers estimates that between 3 million and 7 million gallons of water could be required for each well, which is enough to supply between 60 and 150 families with water for a year. So, that is an awful lot of water.

Now, if you look at the fracking experiences that have already been going on in the UK, there's a place called Wytch Farm in Dorset that has already had 199 wells drilled and not a single one of which has hit either methane or shale gas reserves. So, I imagine it's truly peppered the landscape, but you can imagine just how many millions of gallons of water have been expended on this fruitless task. We have to recall that, in future, the UK Committee on Climate Change predicts that we won't have enough water to grow our crops as soon as within 10 to 15 years. So, husbanding our water for drinking and for growing crops seems to be a crucial point that we need to bear in mind when we're considering whether or not fracking is something that would benefit Wales.

Rwy'n falch iawn o glywed y datganiad diamod gan Alun Ffred fod Plaid Cymru yn erbyn ffracio. Mae gennyf bryderon sylweddol ynghylch ffracio, yr ystyriaf ei fod yn ateb tymor byr i broblem hirdymor. Y broblem yn y tymor hir yw bod y byd ag obsesiwn am olew. Rydym eisoes wedi defnyddio 50% o'r olew sy'n hawdd ei gyrraedd ac mae'r gostyngiad cyfredol mewn prisiau olew wedi peri i BP gyhoeddi yr wythnos hon ei fod yn torri'n ôl ar archwilio ac felly mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffordd eraill o gynhyrchu'r ynni rydym ei angen.

Nid ffracio yw'r ateb, yn fy marn i. Fel y mae'r pwynt cyntaf yn y cynnig yn egluro, mae gan Gymru hanes hir eisoes o gael ei hadnoddau naturiol wedi eu hysbeilio ac yn rhy aml, nid yw'r rhai sy'n ecsbloetio yn y fath fodd yn barod i dalu am lanhau eu llygredd yn sgil yr ecsbloetio. Yn amlwg, mae Aberfan yn enw sy'n cyfleu'r methiant i ymdrin yn effeithiol â chanlyniadau ecsbloetio adnoddau naturiol Cymru.

Mae bodolaeth gwythien de Cymru ynnddi ei hun yn ei gwneud yn ardal o ddiddordeb eithafol i gwmnïau ffracio. Gwyddom mai dyna lle y mae'r cwmnïau ffracio eisiau mynd. Nid ydynt yn cynllunio i ddrilio o dan Gaerdydd ar hyn o bryd, er y byddai Bil Seilwaith Llywodraeth y DU yn eu galluogi i wneud hynny heb ganiatâd gan unrhyw un o'r deiliaid tai sy'n byw yng Nghaerdydd. Serch hynny, nid wyf yn credu bod hynny'n fygythiad yn y tymor byr. Ond y bygythiadau rwy'n meddwl sy'n peri risg i bawb, nid yn unig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd sy'n wynebu'r posibilrwydd o ffracio, yw'r ffaith fod y broses o ffracio'n defnyddio llawer iawn o ddŵr. Dyma ein hadnodd mwyaf gwerthfawr a'r unig un heb ddim a allai gymryd ei le. Yn awr, mae Sefydliad y Peirianwyr Sifil yn amcangyfrif y gallai fod angen rhwng 3 miliwn a 7 miliwn galwyn o ddŵr ar gyfer pob ffynnon, sy'n ddigon i gyflenwi dŵr i rhwng 60 a 150 o deuluoedd am flwyddyn. Felly, mae hynny'n llawer iawn o ddŵr.

Yn awr, os edrychwch ar y profiadau ffracio sydd eisoes wedi bod yn digwydd yn y DU, mae 199 o ffynhonnau eisoes wedi cael eu drilio mewn lle o'r enw Wytch Farm yn Dorset ac nid oes un ohonynt wedi taro ar gronfeydd methan na nwy siâl. Felly, rwy'n tybied ei fod wedi tyllu'r dirwedd yn ddifrifol, ond gallwch ddychmygu faint yn union o filynau o alwyni o ddŵr sydd wedi cael eu defnyddio ar y dasg ofer hon. Mae'n rhaid i ni gofio bod Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd yn rhagweld na fydd gennym ddigon o ddŵr yn y dyfodol i dyfu ein cnydau o fewn cyn lleied â 10 i 15 mlynedd. Felly, mae'n ymddangos bod cynilo ein dŵr i'w yfed ac ar gyfer tyfu cnydau yn fater hollbwysig sy'n rhaid i ni ei gadw mewn cof wrth ystyried a yw ffracio yn rhywbeth a fyddai o fudd i Gymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Now, the second issue, of course, is the pollution of the groundwater that goes with this process. In England, the Environment Agency has tried to assure MPs they would protect ground water supplies with a ban on places where boreholes are used to supplement drinking water supplies. But, as Frack Off Fife pointed out to the Environmental Audit Committee of the House of Commons, once a water supply is contaminated, it cannot be uncontaminated. Water's natural ability to permeate rock means the contaminated waters will eventually find clean, natural groundwater and thus contaminate it and put at risk the environment around it.

At Cuadrilla's Preese Hall site near Blackpool, the flowback fluid was some three times saltier than seawater and contained chromium more than four times the drinking water standard, and lead 18 times more than the drinking water standard allows. So, I think that that is a particular concern in terms of what could happen if we were to allow fracking in Wales. Added to which, the reinjecting underground of fracking waste water takes huge amounts of water out of the water system. There's great concern that waste water reinjection triggers seismic activity, which has already been experienced in Blackpool. So, I'm disappointed that the UK Government rejected the calls by the House of Commons Environmental Audit Committee for a complete moratorium on fracking as part of the Infrastructure Bill, and I hope that, as soon as possible, we can get powers devolved to Wales so that we can make our own decision about whether fracking is in the benefit of Wales.

Yn awr, yr ail fater, wrth gwrs, yw llygredd dŵr daear sy'n gysylltiedig â'r broses hon. Yn Lloegr, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ceisio sicrhau Aelodau Seneddol y byddent yn diogelu cyflenwadau dŵr daear drwy waharddiad ar lefydd lle y defnyddir tyllau turio i ychwanegu at gyflenwadau dŵr yfed. Ond fel y dywedodd Frack Off Fife wrth Bwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin, ar ôl i'r cyflenwad dŵr gael ei halogi, ni ellir ei ddadhalogi. Mae gallu naturiol dŵr i dreiddio craig yn golygu yn y pen draw, y bydd y dyfroedd llygredig yn dod o hyd i ddŵr daear naturiol a glân, gan ei halogi a pheryglu'r amgylchedd o'i gwmpas.

Ar safle Cuadrilla yn Preese Hall ger Blackpool, roedd yr hylif a lifai'n ôl oddeutu dair gwaith yn fwy hallt na dŵr môr ac yn cynnwys lefelau cromiwm a oedd yn fwy na phedair gwaith y safon ar gyfer dŵr yfed, a lefelau plwm 18 gwaith yn uwch nag y mae'r safon dŵr yfed yn ei ganiatáu. Felly, credaf fod hynny'n bryder arbennig o ran yr hyn a allai ddigwydd pe baem yn caniatáu ffracio yng Nghymru. Yn ychwanegol at hynny, mae ail-chwistrellu dŵr gwastraff ffracio yn danddaearol yn cymryd llawer iawn o ddŵr allan o'r system dŵr. Mae pryder mawr fod ail-chwistrellu dŵr gwastraff yn ysgogi gweithgaredd seismig, sydd eisoes wedi cael ei brofi yn Blackpool. Felly, rwy'n siomedig bod Llywodraeth y DU wedi gwrthod galwadau gan Bwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin am foratoriwm llwyr ar ffracio fel rhan o'r Bil Seilwaith, ac rwy'n gobeithio y gallwn gael pwerau datganoledig i Gymru cyn gynted ag y bo modd er mwyn i ni wneud ein penderfyniad ein hunain ynglŷn ag a yw ffracio yn fuddiol i Gymru.

17:36

Bethan Jenkins [Bywgraffiad Biography](#)

It's very easy for us to discuss this subject dispassionately in a cloistered environment such as this Chamber—and I'm for all calm decision-making, believe it or not. But there are times when we have to remember that we're here to make them on behalf of the people of Wales, and that what we don't see here is the uncertainty in their eyes, and the anger in their voices, and the words that they speak, which tell us, absolutely emphatically, that they don't want this. Why would they? Take Pontrhydyfen in my region: this was a mining community, where the winding gear has gone but the terraces still cling to the hillside. People there thought the rape of their fair country was over, that it was behind them. Then UK Methane Ltd. came along. We had the public meetings, where feelings ran high, and the council—rightly, in this instance—turned it down. So, UK Methane has put in another application. If Einstein's definition of insanity is repeating the same mistakes and expecting different results, then fracking shows us that our planning system is insane. But it's more than that. I remember the first time fracking was proposed in my region. It was in the Ogmere valley. I met with campaigners, and this is what they told me: 'We believe, because we live in the valleys, others think that we're there to be dumped on.' That is no way to live your life.

Mae'n hawdd iawn i ni drafod y pwnc hwn yn bwylllog mewn amgylchedd caeedig fel y Siambr hon—ac rwy'n cefnogi gwneud penderfyniadau pwylllog, credwch neu beidio. Ond mae yna adegau pan fo'n rhaid i ni gofio ein bod ni yma i'w gwneud ar ran pobl Cymru, ac mai'r hyn nad ydym yn ei weld yma yw'r ansicrwydd yn eu llygaid, y dichter yn eu lleisiau, a'r geiriau y maent yn eu siarad, sy'n dweud wrthym, yn hollol bendant, nad ydynt eisiau hyn. Pam y byddent ei eisiau? Dyna i chi Bont-rhyd-y-fen yn fy rhanbarth: roedd hon yn gymuned lofaol, ac mae olwyn y pwll wedi mynd, ond mae'r terasau'n dal i lynu at ochr y bryn. Roedd pobl yno'n credu bod y treisio ar eu hannwyl wlad wedi dod i ben, ei fod y tu ôl iddynt. Yna daeth UK Methane Ltd. yno. Cawsom y cyfarfodydd cyhoeddus, lle'r oedd y teimladau'n danllyd, ac fe wrthododd y cyngor y cynllun, yn hollol gywir, yn yr achos hwn. Felly, mae Methane UK wedi cyflwyno cais arall. Os mai diffiniad Einstein o wallgofrwydd yw ailadrodd yr un camgymeriadau a disgwyl canlyniadau gwahanol, yna mae ffracio'n dangos i ni fod ein system gynllunio yn wallgof. Ond mae'n fwy na hynny. Rwy'n cofio'r tro cyntaf i ffracio gael ei gynnis yn fy rhanbarth. Yng Nghwm Ogwr oedd hynny. Cyfarfûm ag ymgyrchwyr, a dyma a ddywedon nhw wrthyf: 'Credwn fod eraill yn meddwl, am ein bod yn byw yn y cymoedd, fod hawl ganddynt i gam-fanteisio arnom. Nid dyna'r ffordd i fyw eich bywyd.'

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

As a representative, it is my duty to demonstrate to them that their views actually count, and here's how. Reasoned scientific argument does not support fracking. What reasoned scientific argument screams out for is for this moratorium to take place. One thing that gets lost in this debate, and one thing that Ministers can never answer, is what happens to all the old mines we have if you begin pumping millions of gallons of liquids into them? If you were to produce a cross-section of the Earth beneath the Valleys, it would look like a Swiss cheese, with thousands of miles of tunnels still there. Most of us will know two further things about these mines: that they are full to the brim with water, and that they are often unstable. When miners lost their lives at the Gleision mine in my region, it was said by one witness that the 650,000 litres from the old tunnels they broke into sounded like a jet engine explosion that filled where they worked within seconds. People in Ponrhydyfen reported a breakout from one of the old mines there a few weeks ago. I learned this in a public meeting this week. This was without the millions of litres that fracking companies would add to that, 60% to 80% of which remains underground. So, what we need to question ourselves about is what that would mean for stability. Would we see subsidence, as somebody said earlier? Could it lead to tragedy? In truth, we actually don't know. So, in my view, that is enough to instigate this particular moratorium.

Let's talk about pollution. A 2008 Environment Agency report began by saying, and I quote:

'Abandoned mines are one of the most significant pollution threats in Britain.'

It cited Welsh mines as being particularly problematic. The Environment Agency had, by that point, built 54 treatment plants specifically to deal with mine water. Fracking would make controlling pollution that much more difficult. Over 500 toxic chemicals have been used in the fracking process—several are known to be carcinogenic—and, as frack fluids find their way back out of the ground, they may well carry with them any pollution found in those old mines, making its containment and treatment far more difficult, not to mention expensive.

None of us could argue that this would be any good for public health. The areas in which these fracking rigs would go have some of the worst health levels in Europe. What would it mean to those people, and what will it mean to the public purse if the problems that are already in existence in the USA—headaches, nausea, breathing—are not fully investigated? So, do let's have this moratorium here today. Let's have it because we don't know what it will do to the ground beneath our feet. Let's do it because we don't know how much pollution it would bring, how unsustainable it will make Wales. Let's do it because fracking could make us ill. Let's do it, because the people we represent don't want it—because it's the right thing to do. Diolch yn fawr.

Fel cynrychiolydd, fy nyletswydd yw dangos iddynt fod eu barn yn cyfrif mewn gwirionedd, a dyma sut. Nid yw'r ddadl wyddonol resymegol yn cefnogi ffracio. Yr hyn y mae dadl wyddonol resymegol yn galw amdano yw i'r moratoriwm hwn ddigwydd. Un peth sy'n mynd ar goll yn y ddadl hon, ac un peth na all Gweinidogion byth mo'i ateb, yw beth sy'n digwydd i'r holl hen byllau glo sydd gennym os dechreuwch bwmpio miliynau o alwyni o hylifau i mewn iddynt? Pe baech yn cynhyrchu trawstoriad o'r ddaear o dan y Cymoedd, byddai'n edrych fel darn o gaws tyllog, gyda miloedd o filltiroedd o dwnelau'n dal i fod yno. Bydd y rhan fwyaf ohonom yn gwybod dau beth pellach am y pyllau hyn: maent yn llawn hyd at yr ymylon o ddŵr, ac maent yn aml yn ansefydlog. Pan gollodd glowyr eu bywydau ym mhwl Gleision yn fy rhanbarth i, dywedodd un tyst fod y 650,000 o litrau o'r hen dwnelau y torrion nhw i mewn iddynt yn swnio fel ffrwydrad injan jet a lanwodd y fan lle y gweithient o fewn eiliadau. Soniodd pobl ym Mhont-rhyd-y-fen am ddŵr yn gollwng o un o'r hen byllau yno ychydig wythnosau yn ôl. Dysgais hyn mewn cyfarfod cyhoeddus yr wythnos hon. Roedd hyn heb y miliynau o litrau y byddai cwmnïau ffracio yn eu hychwanegu at hynny, gyda 60% i 80% ohono'n aros o dan y ddaear. Felly, yr hyn sydd angen i ni holi ein hunain yn ei gylch yw beth fyddai hynny'n ei olygu o ran sefydlogrwydd. A fyddem yn gweld ymsuddiant, fel y dywedodd rhywun yn gynharach? A allai arwain at drasiedi? Yn onest, nid ydym yn gwybod. Felly, yn fy marn i, mae hynny'n ddigon i gyhwyn y moratoriwm penodol hwn.

Gadewch i ni siarad am lygredd. Dechreuodd adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn 2008 drwy ddweud, ac rwy'n dyfynnu:

'hen weithfeydd yw un o'r bygythiadau llygredd mwyaf arwyddocaol ym Mhrydain.'

Mae'n cyfeirio at weithfeydd Cymru fel rhai arbennig o broblemus. Roedd Asiantaeth yr Amgylchedd, erbyn hynny, wedi adeiladu 54 o weithfeydd trin yn benodol ar gyfer ymdrin â dŵr o weithfeydd. Byddai ffracio yn gwneud rheoli llygredd yn llawer anos. Mae dros 500 o gemegau gwenwynig wedi cael eu defnyddio yn y broses ffracio—gwyddys bod nifer ohonynt yn garsinogenaidd—ac am fod hylifau ffracio yn dod o hyd i'w ffordd yn ôl allan o'r ddaear, efallai'n wir y byddant yn cario llygredd o'r hen weithfeydd hynny allan, gan wneud y broses o'u cyfyngu a'u trin yn llawer anos ac yn ddrud.

Ni allai neb ohonom ddadlau y byddai hyn o unrhyw les i iechyd y cyhoedd. Yr ardaloedd lle y byddai'r rigiau ffracio hyn yn mynd sydd â rhai o'r lefelau iechyd gwaethaf yn Ewrop. Beth fyddai'n ei olygu i'r bobl hynny, a beth fydd yn ei olygu i'r pwrs cyhoeddus os na chaiff y problemau sydd eisoes yn bodoli yn yr Unol Daleithiau-cur pen, cyfog, anaflu-eu hymchwilio'n llawn? Felly, gadewch i ni gael y moratoriwm hwn yma heddiw. Gadewch i ni ei gael gan nad ydym yn gwybod beth fydd yn ei wneud i'r ddaear o dan ein traed. Gadewch i ni ei wneud oherwydd nad ydym yn gwybod faint o lygredd y byddai'n ei greu, a pha mor anghynaliadwy y byddai'n gwneud Cymru. Gadewch i ni ei wneud am y gallai ffracio ein gwneud yn sâl. Gadewch i ni ei wneud, am nad yw'r bobl a gynrychiolwn mo'i eisiau-am mai dyma'r peth iawn i'w wneud. Diolch yn fawr.

Can I thank Plaid Cymru actually for bringing this debate forward this afternoon? It's important to acknowledge that the mix of energy generation is important within Wales and the wider UK, but, at the same time, it's also important that we balance these with safety and environmental considerations. This afternoon, we're debating one particular means of extracting a raw material for energy production that would actually introduce another carbon-based fuel, which we want to try to remove. Across the globe, environmental groups have mounted significant protests against fracking, citing the fact that the detrimental environmental impact of such drilling and shale gas may well prove to be substantial. There is no doubt that significant public concern exists on fracking and related industrial processes. So much so that many areas across the globe have imposed moratoria on its use—it's already been mentioned this afternoon by various Members where those exist.

But is it an environmentally clean means of energy production, and what are the preventative measures to offset the potential environmental impact? There are many environmental risks, and I do not believe that these have been fully assessed or analysed. Contamination of groundwater and leaks of chemical waste into waterways have already been mentioned. Risks to air quality: not yet mentioned. The migration of gases and hydraulic fracturing chemicals to the surface, the mishandling of waste, the contribution to raised atmospheric carbon dioxide levels and noise pollution: not mentioned. The increased traffic flow. All these affect our communities. They are just a few of the issues that we have seen in areas that allow fracking and are concerns that many people have raised in my own constituency. Bethan Jenkins has already indicated the application that exists actually in Aberavon, in Cwmavon ward, but it is a concern to those people who live near that area—Pontrhydyfen, Oakwood, Cwmavon; the whole area around there. Now, we all know what will come next: it's that the borehole is actually approved, and that's a concern to many people.

Now, as fracking is relatively new, there are many gaps in the scientific literature regarding the impacts. As a result, the public debate has often been based upon anecdotal information or sources from the industry itself. However, an increase in volume of impartial—that's important: impartial—evidence-based information is becoming available. Scientists for Global Responsibility and the Chartered Institute of Environmental Health published a report last July that reviewed current evidence across a number of issues associated with shale gas extraction. These include environmental and public health aspects. Further concerns over the lack of evidence on fracking related to health impacts come from both the European Union and the United Nations environment programme, which concluded that fracking may result in unavoidable environmental and health impacts, even if the gas is extracted properly, and obviously more so if it's not done so. They suggest that, even if the risk can be reduced theoretically, in practice, many accidents from leaky or malfunctioning equipment and bad practices occur regularly.

A gaf fi ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl hon y prynhawn yma? Mae'n bwysig cydnabod bod y gymysgedd o ynni a gynhyrchir yn bwysig yng Nghymru a'r DU yn ehangach, ond ar yr un pryd, mae hefyd yn bwysig ein bod yn cydbwysu hyn â diogelwch ac ystyriaethau amgylcheddol. Y prynhawn yma, rydym yn trafod un ffordd benodol o echdynnu deunydd crai ar gyfer cynhyrchu ynni a fyddai mewn gwirionedd yn cyflwyno tanwydd carbon arall i ni geisio cael gwared arno. Ar draws y byd, mae grwpiau amgylcheddol wedi cynnal protestiadau sylweddol yn erbyn ffracio, gan nodi'r ffaith y gallai effaith niweidiol drilio o'r fath a nwy siâl ar yr amgylchedd fod yn sylweddol. Nid oes amheuaeth fod cryn dipyn o bryder ymhlith y cyhoedd ynghylch ffracio a'r prosesau diwydiannol sy'n gysylltiedig â'r broses. Gymaint felly fel bod llawer o ardaloedd ar draws y byd wedi gosod moratoria ar ei ddefnydd—mae hynny eisoes wedi'i grybwyll y prynhawn yma gan wahanol Aelodau.

Ond a yw'n ffordd lân yn amgylcheddol o gynhyrchu ynni, a beth yw'r mesurau ataliol i wneud iawn am yr effaith bosibl ar yr amgylchedd? Mae llawer o risgiau amgylcheddol, ac nid wyf yn credu bod y rhain wedi cael eu hasesu na'u dadansoddi'n llawn. Soniwyd eisoes am halogi dŵr daear a gollyngiadau gwastraff cemegol i mewn i gyrsiau dŵr. Risgiau i ansawdd yr aer: ni chawsant eu crybwyll eto. Symudiad nwyon a chemegau hollti hydrologig i'r wyneb, cam-drafod gwastraff, cyfrannu at godi lefelau carbon deuocsid atmosfferig a llygredd sŵn: nid yw'r rhaid wedi'u crybwyll. Y cynnydd yn llif y traffig. Mae'r rhain i gyd yn effeithio ar ein cymunedau. Rhai yn unig o'r materion rydym wedi'u gweld mewn ardaloedd sy'n caniatáu ffracio yw'r rhain ac maent yn bryderon y mae llawer o bobl wedi eu lleisio yn fy etholaeth i. Mae Bethan Jenkins eisoes wedi nodi'r cais sy'n bodoli mewn gwirionedd yn Aberafan, yn ward Cwmafaf, ond mae'n bryder i'r bobl hynny sy'n byw ger yr ardal honno—Pont-rhyd-y-fen, Oakwood, Cwmafaf; yr ardal gyfan o amgylch y fan honno. Yn awr, rydym i gyd yn gwybod beth fydd yn dod nesaf: bydd y twll turio yn cael ei gymeradwyo, ac mae hynny'n peri pryder i lawer o bobl.

Yn awr, gan fod ffracio'n gymharol newydd, mae llawer o fylchau yn y llenyddiaeth wyddonol ynghylch yr effeithiau. O ganlyniad, mae'r drafodaeth gyhoeddus yn aml wedi'i seilio ar wybodaeth anecdotaidd neu ffynonellau o fewn y diwydiant ei hun. Fodd bynnag, mae cynnydd i'w weld yn y wybodaeth ddiuedd-mae hynny'n bwysig: diduedd-sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Cyhoeddodd Scientists for Global Responsibility a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd adroddiad ym mis Gorffennaf y llynedd a oedd yn adolygu'r dystiolaeth gyfredol ar draws nifer o faterion sy'n gysylltiedig ag echdynnu nwy siâl. Mae'r rhain yn cynnwys agweddau ar iechyd yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd. Daw pryderon pellach ynghylch diffyg tystiolaeth am ffracio o ran ei effeithiau ar iechyd o'r Undeb Ewropeaidd a rhaglen amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig, a ddaeth i'r casgliad y gallai ffracio arwain at effeithiau ar yr amgylchedd ac ar iechyd na ellir eu hosgoi, hyd yn oed os yw'r nwy'n cael ei echdynnu yn y modd cywir ac yn fwy felly, mae'n amlwg, os na chaiff ei wneud yn gywir. Maent yn awgrymu, hyd yn oed os gellir lleihau'r risg yn ddamcaniaethol, yn ymarferol, mae llawer o ddamweiniau'n digwydd yn rheolaidd oherwydd offer sy'n gollwng neu'n ddiffygiol ac arferion drwg.

Regulation of the industry in the UK is currently inadequate. Confidence in the practice is undermined by a series of disingenuous claims made by both the UK Government and the industry. Virtually all economic analysts refute the claim that fracking will reduce energy bills in the UK. Fracking is not beneficial, except for the companies that will extract it. Consequently, I do support a precautionary stance on this matter.

It's been mentioned about Labour not supporting things this week in the Infrastructure Bill. Well, let's remind ourselves that they did introduce a new clause 19 and put in place 13 conditions that would actually put tighter controls on fracking extraction in the UK and, for Llyr Huws Gruffydd, it does include underneath aquifers, so it should stop drilling through aquifers as a consequence. This is the largest single overhaul of the shale gas regulations to date. It might not be what we want, but it's in place, and, if the Bill becomes law, it will be there and provide a far more robust regulation than we currently have.

Now, we've heard many views this afternoon stressing the need to ensure a full understanding of the extraction of unconventional gas and to reassure the public that it safe to our environment and communities. I concur with the Member for Pontypridd—I believe that it should be banned, but the first step to that ban, perhaps, is a moratorium, and the first step to a moratorium is actually gathering the evidence. I believe we have not yet reached the point where we can provide the reassurance, and thus I repeat my request to the Welsh Government to meet with the office of unconventional gas and oil within the Department of Energy and Climate Change to ensure detailed analysis of the evidence is undertaken in order to arrive at a point where we can produce a technical advice note or even modify MTAN 2 to provide guidance to planning authorities on gas extraction. There is no MTAN on gas extraction at this point in time. Until that point—until we can get a full understanding of the impact of fracking in Wales—. I will agree with Antoinette Sandbach here about understanding the geology aspect as well. It's critical, because what's happening in Wales is unique—our communities, our geology, our structures are different, and we need to evaluate that. So, studies conducted elsewhere simply aren't good enough. Surely, at that point, the minimum we should have is that a moratorium on planning applications should exist.

Mae trefn rheoleiddio'r diwydiant yn y DU yn annigonol ar hyn o bryd. Caiff hyder yn y gwaith ei danseilio gan gyfres o honiadau anonest a wnaed gan Lywodraeth y DU a'r diwydiant. Mae bron bob dadansoddwr economaidd yn gwrthod yr honiad y bydd ffracio yn lleihau biliau ynni yn y DU. Nid yw ffracio'n fuddiol, ac eithrio i'r cwmnïau a fydd yn echdynnu'r nwy. O ganlyniad, rwy'n cefnogi safbwynt rhagofalus ar y mater.

Crybwyllwyd y ffaith nad yw'r Blaid Lafur yn cefnogi pethau yn y Bil Seilwaith yr wythnos hon. Wel, gadewch i ni atgoffa ein hunain eu bod wedi cyflwyno cymal 19 newydd a gosod 13 o amodau a fyddai mewn gwirionedd yn rhoi rheolaethau tynnach ar echdynnu drwy ffracio yn y DU ac i Llyr Huws Gruffydd, mae'n cynnwys o dan ddyfrhaenau, felly dylai roi'r gorau i'r arfer o ddrilio drwy ddyfrhaenau o ganlyniad. Dyma'r ailwampiad unigol mwyaf ar y rheoliadau nwy siâl hyd yn hyn. Efallai nad yw'r hyn rydym ei eisiau, ond mae ar waith, ac os daw'r Bil yn gyfraith, bydd yn yno ddarparu trefn reoleiddio lawer cadarnach na'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd.

Yn awr, rydym wedi clywed llawer o sylwadau y prynhawn yma yn pwysleisio'r angen i sicrhau dealltwriaeth lawn o'r broses o echdynnu nwy anghonfensiynol ac i dawelu meddwl y cyhoedd ei fod yn ddiogel i'n hamgylchedd a'n cymunedau. Cytunaf â'r Aelod dros Bontypridd-credaf y dylid ei wahardd, ond cam cyntaf y gwaharddiad, efallai, yw moratoriwm, a'r cam cyntaf i foratoriwm mewn gwirionedd yw casglu tystiolaeth. Credaf nad ydym wedi cyrraedd y pwynt lle y gallwn gynnig sicrwydd eto, ac felly rwy'n ailadrodd fy nghais i Lywodraeth Cymru i gyfarfod â'r swyddfa nwy ac olew anghonfensiynol yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd i sicrhau bod dadansoddiad manwl o'r dystiolaeth yn cael ei wneud er mwyn cyrraedd pwynt lle y gallwn gynhyrchu nodyn cyngor technegol neu hyd yn oed addasu MTAN 2 i roi canllawiau i awdurdodau cynllunio ar echdynnu nwy. Nid oes MTAN ar echdynnu nwy ar hyn o bryd. Tan hynny-hyd nes y gallwn gael dealltwriaeth lawn o effaith ffracio yng Nghymru-. Cytunaf ag Antoinette Sandbach yma ynglŷn â deall yr agwedd ddaearegol hefyd. Mae'n hollbwysig, oherwydd mae'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru yn unigryw-mae ein cymunedau, ein daeareg, ein strwythurau yn wahanol, ac mae angen inni werthuso hynny. Felly'n syml, nid yw astudiaethau a gynhelir mewn manau eraill yn ddigon da. Ar y pwynt hwnnw, 'does bosibl na ddylai fod gennym foratoriwm ar geisiadau cynllunio yn ei le, fan lleiaf.

17:46

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwina Hart.

I call the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:46

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Thank you very much indeed, Deputy Presiding Officer. I've certainly welcomed the debate here today. Hydraulic fracturing, or fracking, is an issue that generates significant public debate and much discussion in this Chamber, and much discussion across communities in Wales, which are very fearful about the impact of fracking. That is why we have the precautionary approach to shale gas in Wales, and I'm therefore pleased to support the motion today.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n sicr wedi croesawu'r ddadl hon heddiw. Mae hollti hydrolog, neu ffracio, yn fater sy'n creu cryn dipyn o drafodaeth ymysg y cyhoedd a llawer o drafod yn y Siambr hon, a llawer o drafod ar draws cymunedau yng Nghymru, sy'n ofnus iawn ynghylch effaith ffracio. Dyna pam y mae gennym agwedd ragofalus ar waith mewn perthynas â nwy siâl yng Nghymru, ac rwy'n falch felly o gefnogi'r cynnig heddiw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

If I can deal with some of the amendments to the motion in the first instance, we will not be supporting the first amendment, in the name of Aled Roberts. We're currently in the early exploration stage in Wales, and to this end, the precautionary approach to minerals development, as advocated in the national planning policy and the existing regulatory controls in place, provide the appropriate safeguards. Appropriate guidance is in place, and a clarification letter was issued in July 2014 on the national planning policies that would apply to unconventional gas and oil development in Wales for the current stage of development. There's no intention of issuing a new technical advice note at this time. Local planning authorities do not need further guidance and are already aware of their powers in this area.

In terms of amendment 2 in the name of Paul Davies, we support the original motion. We would look to any energy developments in Wales to maximise community benefits. We will also be opposing amendment 3. We have called for devolution of the necessary powers for all energy matters in Wales, except nuclear, and the Welsh Government's position is clear and coherent: we want to see further devolution of powers in Wales through the implementation of the recommendations of part 1 and 2 of the Silk commission, and Silk recommends devolution up to 350 MW.

We will be supporting amendment 4 in the name of Paul Davies, because we believe the planning system already enables local communities and the wider public to participate in the planning and decision-making process, and all decisions will be made in accordance with the development plan and other material considerations. In addition, the Planning (Wales) Bill seeks to introduce statutory pre-application consultation.

We will be supporting amendment 5, as the national planning policy is kept under constant review and is updated to provide additional advice and guidance where there's an evidential basis for doing so. The current national planning policy on shale gas exploration and extraction is provided through a suite of documents, and in July 2014, as I indicated, a clarification letter was issued by the two chief planning officers in Wales.

We will also be supporting amendment 6. Natural Resources Wales has stated that it has sufficient resources and expertise to ensure that exploratory bore-hole developments are safe and cause no significant risk to human health or to the environment. In addition, we will be supporting amendment 7. The geology of Wales means that we need to consider all available evidence, and where this does not exist, we will commission research, if and when required, to ensure that we protect our communities.

Os caf ymdrin â rhai o'r gwelliannau i'r cynnig yn y lle cyntaf, ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant cyntaf, yn enw Aled Roberts. Rydym ar hyn o bryd yn y cyfnod archwilio cynnar yng Nghymru, ac i'r perwyl hwn, mae'r agwedd ragofalus tuag at ddatblygiad mwynau, fel yr argymhellir yn y polisi cynllunio cenedlaethol a'r rheolaethau rheoleiddio presennol sydd ar waith, yn darparu'r mesurau diogelu priodol. Mae'r canllawiau priodol ar waith, a chyhoeddwyd llythyr egluro polisi ym mis Gorffennaf 2014 ar y polisiâu cynllunio cenedlaethol a fyddai'n berthnasol i ddatblygu nwy ac olew anghonfensiynol yng Nghymru ar gyfer y cam presennol o'r broses ddatblygu. Nid oes bwriad i gyhoeddi nodyn cyngor technegol newydd ar hyn o bryd. Nid oes angen arweiniad pellach ar awdurdodau cynllunio lleol ac maent eisoes yn ymwybodol o'u pwerau yn y maes hwn.

O ran gwelliant 2 yn enw Paul Davies, rydym yn cefnogi'r cynnig gwreiddiol. Byddem yn disgwyl i ddatblygiadau ynni yng Nghymru sicrhau cymaint o fanteision cymunedol ag y bo modd. Byddwn hefyd yn gwrthwynebu gwelliant 3. Rydym wedi galw am ddatganoli'r pwerau angenrheidiol dros holl faterion ynni yng Nghymru, ac eithrio niwclear, ac mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir a chydlynol: rydym am weld mwy o ddatganoli pwerau yng Nghymru drwy weithredu argymhellion rhan 1 a 2 o gomisiwn Silk, ac mae Silk yn argymhell datganoli hyd at 350 MW.

Byddwn yn cefnogi gwelliant 4 yn enw Paul Davies, am ein bod yn credu bod y system gynllunio eisoes yn galluogi cymunedau lleol a'r cyhoedd yn gyffredinol i gymryd rhan yn y broses gynllunio a gwneud penderfyniadau, a bydd pob penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â'r cynllun datblygu ac ystyriaethau perthnasol eraill. Yn ogystal, mae Bil Cynllunio (Cymru) yn galw am gyflwyno ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio.

Byddwn yn cefnogi gwelliant 5, am fod y polisi cynllunio cenedlaethol yn cael ei adolygu'n gyson ac yn cael ei ddiweddarau i roi cyngor a chyfarwyddyd ychwanegol lle y bo sail dystiolaethol dros wneud hynny. Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol cyfredol ar chwilio am nwy siâl a'i echdynnu yn cael ei ddarparu drwy gyfres o ddogfennau, ac ym mis Gorffennaf 2014, fel y nodais, cyhoeddwyd llythyr egluro polisi gan ddau brif swyddog cynllunio Cymru.

Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 6. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datgan bod ganddo ddigon o adnoddau ac arbenigedd i sicrhau bod datblygiadau tyllau turio archwiliol yn ddiogel ac nad ydynt yn peri unrhyw risg sylweddol i iechyd dynol na'r amgylchedd. Yn ogystal, byddwn yn cefnogi gwelliant 7. Mae daeareg Cymru yn golygu bod angen i ni ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, a lle nad yw'n bodoli, byddwn yn comisiynu gwaith ymchwil, yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau ein bod yn diogelu ein cymunedau.

Wales certainly contributes significantly to the UK energy requirements through electricity generation, liquefied natural gas imports and fuel refining capabilities. The oil and gas sector is of core importance to the Welsh economy, and electricity generated in Wales supports economic growth in both Wales and England. Between 2004 and 2012 Wales exported an average of 7,239 GWh of electricity to England per annum. This is an average of 21.5% of Welsh electricity generation. We recognise the concerns about the provisions in the UK Government's infrastructure Bill in relation to drilling beneath people's homes to pursue oil, gas and geothermal energy. In response to their consultation on the proposals within the Bill, we stress the importance of any unconventional gas activity in Wales, either above or below ground, being considered by the appropriate authorities in Wales. We've also made representations to the UK Government that it is wrong for the UK Government to simply remove people's rights without thorough consultation with the people of Wales. Furthermore, the UK Government has announced it will remove Scotland from the provisions concerning the right to access deep-level land for drilling. We believe that that should be fundamentally the issue that should be dealt with within the context of Wales. We've raised with the UK Government the importance of decisions on oil and gas. Indeed, there are no reasons why oil and gas licensing powers being devolved to Scotland should not also be devolved to Wales. It is our firm view that devolving all the necessary powers for all energy developments in Wales, except nuclear, will enable us to realise our ambition to put in place a streamlined, transparent process in Wales, which people actually are calling for.

Now, the UK Government is enthusiastic about developing shale gas. However, we have a more precautionary approach to the developments in Wales. We recognise the significant role of gas in the energy mix as a flexible, reliable, responsive resource with lower emissions than other fossil fuels. But, we need to look very carefully at all the issues, including economic, environmental and, of course, social impacts. In Wales, little historic oil and gas exploration has been undertaken. We're still in the very early stages of understanding the potential shale gas resource that might, may or might not exist. We recognise the need for more research to understand the potential gas resource in Wales and the potential impacts of its development. We consider it sensible, therefore, to determine whether Wales might hold commercially recoverable quantities of gas. We need to consider how shale gas might contribute to the future energy mix. Ongoing studies are considering the economic impacts of unconventional gas to Wales. We also continue to evaluate all available evidence to ensure that robust regulatory procedures, which would apply to shale gas activity in Wales, are appropriate.

Mae Cymru yn sicr yn cyfrannu'n sylweddol at ofnyion ynni'r DU drwy gynhyrchu trydan, mewnfurion nwy naturiol hylifedig a gallu i buro tanwydd. Mae'r sector olew a nwy yn hollbwysig i economi Cymru, ac mae trydan a gynhyrchir yng Nghymru yn cefnogi twf economaidd yng Nghymru ac yn Lloegr. Rhwng 2004 a 2012 allforiodd Cymru 7239 GWh o drydan i Loegr bob blwyddyn ar gyfartaledd. Mae hyn yn 21.5% ar gyfartaledd o'r trydan a gynhyrchir yng Nghymru. Rydym yn cydnabod y pryderon ynghylch y darpariaethau ym Mil Seilwaith Llywodraeth y DU mewn perthynas â drilio o dan gartrefi pobl i chwilio am olew, nwy ac ynni geothermal. Mewn ymateb i'w hymgyngghoriad ar argymhellion y Bil, rydym yn pwysleisio'r angen i unrhyw weithgaredd nwy anghonfensiynol yng Nghymru, naill ai ar y ddaear neu'n danddaearol, gael ei ystyried gan yr awdurdodau priodol yng Nghymru. Rydym hefyd wedi cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ei bod yn anghywir i Lywodraeth y DU gael gwared ar hawliau pobl heb ymgynghori'n drwyadl gyda phobl Cymru. Ar ben hynny, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yn hepgor yr Alban o'r darpariaethau ynglŷn â hawl mynediad i dir ar gyfer drilio dwfn. Credwn mai dyna'n sylfaenol yw'r mater y dylid ymdrin ag ef yng nghyd-destun Cymru. Rydym wedi tynnu sylw Llywodraeth y DU at bwysigrwydd penderfyniadau ynghylch olew a nwy. Yn wir, nid oes unrhyw reswm pam na ddylai pwerau trwyddedu olew a nwy sy'n cael eu datganoli i'r Alban gael eu datganoli i Gymru hefyd. Yn ein barn gadarn ni, byddai datganoli'r holl bwerau angenrheidiol ar gyfer pob datblygiad ynni yng Nghymru, ac eithrio niwclear, yn ein galluogi i wireddu ein huchelgais i sefydlu proses symlach a thryloyw yng Nghymru, sef yr hyn y mae pobl yn galw amdani mewn gwirionedd.

Yn awr, mae Llywodraeth y DU yn frwdfrydig ynghylch datblygu nwy siâl. Fodd bynnag, mae gennym agwedd fwy rhagofalus at y datblygiadau yng Nghymru. Rydym yn cydnabod rôl sylweddol nwy yn y cymysgedd ynni fel adnodd dibynadwy ymatebol hyblyg, gydag allyriadau is na mathau eraill o danwydd ffosil. Ond mae angen inni edrych yn ofalus iawn ar yr holl faterion, gan gynnwys effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol, wrth gwrs. Yng Nghymru, ychydig o chwilio am olew a nwy a wnaed yn hanesyddol. Mae'n dal yn ddyddiau cynnar arnom o ran deall potensial, neu fel arall, nwy siâl fel adnodd. Rydym yn cydnabod yr angen am fwy o ymchwil i ddeall potensial posibl yr adnodd nwy yng Nghymru ac effeithiau posibl ei ddatblygiad. Rydym yn ystyried ei bod yn synhwyrol, felly, i benderfynu a allai Cymru gynnal cronfeydd nwy y gellir eu hadfer yn fasnachol. Mae angen i ni ystyried sut y gallai nwy siâl gyfrannu at y cymysgedd ynni yn y dyfodol. Mae astudiaethau parhaus yn ystyried effeithiau economaidd nwy anghonfensiynol i Gymru. Rydym hefyd yn parhau i werthuso'r holl dystiolaeth sydd ar gael i sicrhau bod gweithdrefnau rheoleiddio cadarn, a fyddai'n berthnasol i weithgaredd nwy siâl yng Nghymru, yn briodol.

In keeping with my portfolio responsibilities for energy delivery and policy, I'm committed to delivering progress on the energy agenda. It is clear that energy is a core issue across the entire Welsh economy, both now and into the future. Within this context, I've asked my energy Wales strategic delivery group to provide advice on the energy delivery and policy objectives I should be championing. I've asked them to review the House of Commons Environmental Audit Committee's report in the first instance when we look at this particular issue. The group is looking into all the underlying issues in relation to unconventional gas and will consider all the available evidence. I shall update Members on the group's deliberations in due course. I hope that those deliberations will be concluded in the next couple of months.

Finally, we consider our current precautionary approach to unconventional gas in Wales provides sufficient safeguards to the environment and society. We will continue to consider all available evidence to ensure this position remains appropriate for how we deliver on the energy agenda within Wales. We will be supporting the Plaid Cymru motion.

Yn unol â'm cyfrifoldebau portffolio dros y ddarpariaeth ynni a pholisi ynni, rwy'n ymrwymedig i gyflawni cynnydd ar yr agenda ynni. Mae'n amlwg bod ynni yn fater craidd ar draws economi Cymru gyfan, yn awr ac yn y dyfodol. Yn y cyd-destun hwn, rwyf wedi gofyn i fy ngrŵp cyflawni strategol ar ynni yng Nghymru i roi cyngor ar y ddarpariaeth ynni ac ar yr amcanion polisi ynni y dylwn fod yn eu hyrwyddo. Rwyf wedi gofyn iddynt adolygu adroddiad Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin yn y lle cyntaf wrth inni edrych ar y mater penodol hwn. Mae'r grŵp yn edrych ar yr holl faterion sylfaenol mewn perthynas â nwy anghonfensiynol a bydd yn ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am drafodaethau'r grŵp maes o law. Rwy'n gobeithio y bydd y trafodaethau hynny'n cael eu cwblhau yn y misoedd nesaf.

Yn olaf, rydym yn ystyried bod ein hagwedd ragofalus bresennol i nwy anghonfensiynol yng Nghymru yn darparu digon o fesurau diogelwch i'r amgylchedd a chymdeithas. Byddwn yn parhau i ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael er mwyn sicrhau bod y safbwynt hwn yn parhau i fod yn briodol ar gyfer y modd y byddwn yn cyflawni'r agenda ynni yng Nghymru. Byddwn yn cefnogi cynnig Plaid Cymru.

17:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Llyr Gruffydd i ymateb i'r ddatl.

I call Llyr Gruffydd to respond to the debate.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:53 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I, in the first place, thank everyone who's taken part in this debate? I thank you, Minister, particularly, for your support and for outlining the steps that you will be taking in response to this debate this afternoon. Just to pick up on a few points, I was slightly tickled by Bill Powell's contribution. He tells us that he wants to set himself apart from his colleagues in Westminster. Well, no doubt, because I would as well if I had colleagues such as Ed Davey. He's one of the most fervent champions of fracking and he is a Lib Dem. There's no getting away from that, I'm afraid, Bill. On devolution, as Leanne reminded us, don't tell us, tell your own Ministers.

A gaf fi, yn y lle cyntaf, ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddatl hon? Diolch yn arbennig i chi, Weinidog, am eich cefnogaeth ac am amlinellu'r camau y byddwch yn eu cymryd mewn ymateb i'r ddatl hon y prynhawn yma. Cyfeiriaf at ambell bwynt yn unig, a chefais fy ngoglais ychydig gan gyfraniad Bill Powell. Mae'n dweud wrthym ei fod am sefyll ar wahân i'w gydweithwyr yn San Steffan. Wel, mae'n siŵr ei fod, am y byddwn innau eisiau gwneud hynny hefyd pe bai gennyf gydweithwyr fel Ed Davey. Mae'n un o hyrwyddwyr mwyaf brwd ffracio ac mae'n Ddemocrat Rhyddfrydol. Nid oes dianc rhag hynny, yn anffodus, Bill. Ar ddatganoli, fel yr atgoffodd Leanne ni, peidiwch â dweud wrthym ni, dywedwch wrth eich Gweinidogion eich hun.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:54 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are.

Rydym yn gwneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:54 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You are. Well, there we are. That tells us something about the relationship that you have there. So, there we are. Likewise, I'm afraid, with Antoinette Sandbach. I thank Antoinette for her contribution. You tell us you have concerns but, of course, it is your Government that is championing and encouraging the dash for gas. Again, maybe you'd like to tell them and not us.

Rydych yn gwneud hynny. Wel, dyna ni. Mae hynny'n dweud rhywbeth wrthym am y berthynas sydd gennych. Felly, dyna ni. Yr un modd, yn anffodus, gydag Antoinette Sandbach. Diolch i Antoinette am ei chyfraniad. Rydych yn dweud wrthym fod gennych bryderon ond wrth gwrs, eich Llywodraeth chi sy'n hyrwyddo ac yn annog yr ysfaf am nwy. Unwaith eto, efallai yr hoffech ddweud wrthynt hwy, nid wrthym ni.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mick Antoniw suggested that Plaid Cymru's opposition to fracking was because of the electoral benefits of being perceived as anti-fracking. Well, I can guarantee you that our opposition is as real as the adverse impact that it will have on many communities across—. [Interruption.] I've been set up, I think. Go on.

Awgrymodd Mick Antoniw fod Plaid Cymru yn gwrthwynebu ffracio oherwydd y manteision etholiadol o gael eu hystyried yn blaid wrth-ffraccio. Wel, gallaf warantu bod ein gwrthwynebiad mor real â'r effaith niweidiol y bydd yn ei chael ar lawer o gymunedau ledled—. [Torri ar draws.] Rwyf wedi cael fy nal, rwy'n meddwl. Ewch ymlaen.

17:54

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, no. I'm just wondering whether you'd actually endorse my call for an actual ban, rather than just a moratorium.

Na, na. Roeddwn i ond yn meddwl tybed a fydddech chi mewn gwirionedd yn cefnogi fy ngalwad am waharddiad go iawn, yn hytrach na moratoriwm yn unig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:54

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd be very comfortable with that, because I outlined my concerns around climate change and carbon emissions. Moving to and investing in, as I explained in my opening remarks, a carbon-intensive source of energy is the wrong direction of travel, but I do recognise, obviously, that there are other reasons for opposing as well.

Fe fyddwn i'n gyfforddus iawn gyda hynny, oherwydd amlinellais fy mhryderon ynghylch newid yn yr hinsawdd ac allyriadau carbon. Mae symud at ffynhonnell ynni drud-ar-garbon a buddsoddi ynddi, fel yr eglurais yn fy sylwadau agoriadol, yn mynd i'r cyfeiriad anghywir, ond rwy'n cydnabod, yn amlwg, bod rhesymau eraill dros wrthwynebu hefyd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Bethan Jenkins told us about Pontrhydyfen and the concerns there, and those concerns, of course, as we know, are replicated in swathes of communities across Wales. Of course, this is only the start of the process; there is so much more to come. On the cocktail of chemicals you mentioned, I can tell you there's benzene, toluene, phenol, formaldehyde and all sorts of carcinogens in the water that we are talking about here.

Dyweddodd Bethan Jenkins wrthym am Bont-rhyd-y-fen a'r pryderon yno, ac mae'r pryderon hynny, wrth gwrs, fel y gwyddom, yn cael eu hailadrodd mewn lluo o gymunedau ar draws Cymru. Wrth gwrs, dechrau'r broses yn unig yw hyn; mae cymaint mwy i ddod. Ynglŷn â'r coctel o gemegau y sonioch amdanynt, gallaf ddweud wrthyhch fod bensen, tolwen, ffenol, fformaldehyd a phob math o garsinogenau yn y dŵr rydym yn sôn amdano yma.

I agree with David Rees on the need for an MTAN on unconventional gas—it's long overdue here in Wales. I hope that message is heard loud and clear.

Rwy'n cytuno â David Rees ynglŷn â'r angen am MTAN ar nwy anghonfensiynol—mae'n hen bryd ei gael yma yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y bydd y neges yn cael ei chlywed yn glir.

Mewn perthynas â'r gwelliannau, ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliannau, rhai ohonyn nhw am eu bod yn dileu agweddau allweddol ar y cynnig, sy'n bwysig i ni, wrth gwrs, ac eraill oherwydd, er fy mod yn deall y pwynt sy'n cael ei wneud, eu bod yn cael eu gwneud yng nghydestun y ffaith bod ffracio yn mynd i ddigwydd. I mi, byddai hynny'n cymylu'r cynnig yma heddiw, oherwydd bwriad y cynnig yw gwneud datganiad clir a di-flewyn ar dafod—sylfaenol, mewn gwirionedd—o wrthwynebiad i ffracio ac echdynnu nwy anghonfensiynol.

In relation to the amendments, we will not be supporting the amendments, some of them because they delete crucial parts of our motion, which is important to us, of course, and others because, while I understand the points made, they are made in the context of the fact that fracking is going to happen. To me, that would cloud this motion today, because the intention of the motion is to make a clear and fundamental statement of opposition to fracking and unconventional gas extraction.

Now, we know that the consensus against fracking that has been emerging and becoming stronger and stronger in communities across Wales in recent years is also becoming stronger here, and I hope that will be reflected in the way that this Assembly votes on this issue today, because, as I said at the beginning, this is our opportunity to stand shoulder to shoulder with those communities and to send out the strongest possible message that the National Assembly for Wales, in supporting Plaid Cymru's motion today, does not want to see fracking happening in Wales.

Yn awr, gwyddom fod y consensws yn erbyn ffracio sydd wedi dod i'r amlwg ac sy'n tyfu'n gryfach ac yn gryfach mewn cymunedau ledled Cymru yn y blynyddoedd diwethaf hefyd yn dod yn gryfach yma, ac rwy'n gobeithio y bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yn y ffordd y mae'r Cynulliad yn pleidleisio ar y mater hwn heddiw, oherwydd, fel y dywedais ar y dechrau, dyma ein cyfle i sefyll fraich ym mraich â'r cymunedau hynny a chyfleu'r neges gryfaf bosibl nad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy gefnogi cynnig Plaid Cymru heddiw, am weld ffracio yn digwydd yng Nghymru.

17:56

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is that the motion without amendment be agreed to. Is there any objection? [Objection.] I defer voting on this item until voting time.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

17:57

6. Cyfnod Pleidleisio

6. Voting Time

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. So, we'll vote first on the Welsh Conservatives' debate on Cardiff Airport. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11. There voted against 42. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Mae amser pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes. Felly, byddwn yn pleidleisio yn gyntaf ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig ar Faes Awyr Caerdydd. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na fydd y cynnig yn cael ei gytuno, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid. Pleidleisiodd 42 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn.

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 11, Yn erbyn 42, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 11, Against 42, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5684](#)

[Result of the vote on motion NDM5684](#)

17:57

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We will now vote on the amendments. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 37. There voted against 16. Therefore, amendment 1 is agreed.

Byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 37 o blaid. Pleidleisiodd 16 yn erbyn. Felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 37, Yn erbyn 16, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 37, Against 16, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5684](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5684](#)

17:58

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 16. There voted against 37. Therefore, amendment 2 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 16 o blaid. Pleidleisiodd 37 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 2 wedi'i dderbyn.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 37, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 16, Against 37, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5684](#)

[Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5684](#)

17:58

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call for a vote on amendment 3, tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 53. There were no votes against. Therefore, amendment 3 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 53 o blaid. Nid oedd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, mae gwelliant 3 wedi'i dderbyn.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 53, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 53, Against 0, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5684](#)

[Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5684](#)

17:58

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call for a vote on amendment 4, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15. There voted against 38. Therefore, amendment 4 is not agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 4, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid. Pleidleisiodd 38 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 4 wedi'i dderbyn.

Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 38, Ymatal 0.

Amendment not agreed: For 15, Against 38, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5684](#)

[Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5684](#)

Cynnig NDM5684 fel y'i diwygiwyd

Motion NDM5684 as amended

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi y bydd gwelliant yn nifer y teithwyr sy'n teithio drwy Faes Awyr Caerdydd yn y dyfodol yn dibynnu ar gefnogaeth llywodraeth a rheolaeth fasnachol gadarn.

1. Notes that future improvement in the number of passengers travelling through Cardiff Airport will depend upon government support and sound commercial management.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i weithio gyda'i gilydd i ddatganoli toll teithiau awyr pell i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

2. Calls on the Welsh Government and UK Government to work together to devolve long-haul air passenger duty to the National Assembly for Wales.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

3. Calls on the Welsh Government to:

a) rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran datblygu llwybrau newydd o'r maes awyr a chynyddu gweithrediadau cludo nwyddau;

a) provide an update on progress made to develop new routes from the airport and increase freight operations;

b) cyhoeddi prisiad marchnad cyfredol ar gyfer Maes Awyr Caerdydd; ac

b) publish a current market valuation of Cardiff Airport; and

c) cyhoeddi strategaeth glir a chynhwysfawr er budd teithwyr, busnesau a threthdalwyr sy'n cynnwys cynigion ar gyfer llwybrau hir ac yn archwilio pob opsiwn ar gyfer dyfodol Maes Awyr Caerdydd, gan gynnwys dychwelyd y maes awyr i berchnogaeth breifat.

c) publish a clear and comprehensive strategy for the benefit of passengers, businesses and taxpayers which includes proposals for long-haul routes and explores all options for the future of Cardiff Airport, including returning the airport to private ownership.

17:59

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I now call for a vote on the motion as amended. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 15. There voted against 38. Therefore, the motion as amended is defeated.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnis wedi'i ddiwygio. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 15 o blaid. Pleidleisiodd 38 yn erbyn. Felly, mae'r cynnis wedi'i ddiwygio wedi ei drechu.

Gwrthodwyd y cynnis fel y'i diwygiwyd: O blaid 15, Yn erbyn 38, Ymatal 0.

Motion as amended not agreed: For 15, Against 38, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5684 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5684 as amended](#)

17:59

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

We now vote on the second Welsh Conservatives debate, which was on council tax. I call for a vote on the motion tabled in name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 11. There voted against 42. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ail ddadl y Ceidwadwyr Cymreig, ar y dreth gyngor. Galwaf am bleidlais ar y cynnis a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na fydd y cynnis yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau i'r cynnis. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 11 o blaid. Pleidleisiodd 42 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnis heb ei ddiwygio wedi'i dderbyn.

Gwrthodwyd y cynnis: O blaid 11, Yn erbyn 42, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 11, Against 42, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5681](#)

[Result of the vote on motion NDM5681](#)

18:00	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We will now vote on the amendments. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 37. There voted against 16. Therefore, amendment 1 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 37, Yn erbyn 16, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5681</p>	<p>Byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 37 o blaid. Pleidleisiodd 16 yn erbyn. Felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.</p> <p><i>Amendment agreed: For 37, Against 16, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5681</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:00	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call for a vote on amendment 2 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 42. There voted against 11. Therefore, amendment 2 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 42, Yn erbyn 11, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5681</p> <p>Cynnig NDM5681 fel y'i diwygiwyd:</p> <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio symiau canlyniadol Barnett blaenorol gan Lywodraeth y DU i roi'r gallu i awdurdodau lleol rewi'r dreth gyngor i breswylwyr yng Nghymru; 2. Yn nodi'r sefyllfa ariannol anodd sy'n wynebu llywodraeth leol ac effaith mesurau llymder Llywodraeth y DU ar wariant cyhoeddus yng Nghymru. 3. Yn credu mai dyletswydd gyntaf awdurdodau lleol yn sgil y toriad 3.4% ar gyfartaledd yn y setliad refeniw llywodraeth leol yw diogelu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. 	<p>Galwaf am bleidlais ar welliant 2 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 42 o blaid. Pleidleisiodd 11 yn erbyn. Felly, mae gwelliant 2 wedi'i dderbyn.</p> <p><i>Amendment agreed: For 42, Against 11, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5681</p> <p>Motion NDM5681 as amended:</p> <p>To propose that the National Assembly for Wales:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Notes that the Welsh Government has not used previous Barnett consequentials from the UK Government to provide local authorities with the ability to freeze council tax for residents in Wales; 2. Notes the difficult financial situation facing local government and the impact of UK Government austerity measures on Welsh public expenditure. 3. Believes that in light of the average 3.4% cut in the local government revenue settlement, the first duty of local authorities is to protect vital public services. 	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:00	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I now call for a vote on the motion as amended. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 10. There voted against 43. Therefore, the motion as amended is defeated.</p> <p><i>Gwrthodwyd cynnig NDM5681 fel y'i diwygiwyd: O blaid 10, Yn erbyn 43, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5681 fel y'i diwygiwyd</p>	<p>Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 10 o blaid. Pleidleisiodd 43 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig wedi'i ddiwygio wedi ei drechu.</p> <p><i>Motion NDM5681 as amended not agreed: For 10, Against 43, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on motion NDM5681 as amended</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
18:01	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We will now vote on the Plaid Cymru debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 37. There voted against 16. Therefore, the motion without amendment is agreed.</p>	<p>Pleidleisiwn yn awr ar ddadl Plaid Cymru. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 37 o blaid. Pleidleisiodd 16 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig heb ei ddiwygio wedi'i dderbyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Derbyniwyd cynnig NDM5686: O blaid 37, Yn erbyn 16, Ymatal 0.

Motion NDM5686 agreed: For 37, Against 16, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5686](#)

[Result of the vote on motion NDM5686 as amended](#)

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would ask all those Members who are leaving the Chamber to do so quickly and quietly.

Hoffwn ofyn i'r holl Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair am 18:01.

Rhodri Glyn Thomas took the Chair at 18:01.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:01 **7. Dadl Fer: Cynlluniau Pensiynau Diffoddwyr Tân: Sicrhau Chwarae Teg**

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Eitem 7. Os dych chi yn gadael, a wneuch chi wneud hynny, os gwelwch chi fod yn dda, yn dawel ac yn gyflym. Eitem 7 yw'r ddadl fer, 'Cynlluniau Pensiynau Diffoddwyr Tân: Sicrhau Chwarae Teg'. Peter Black.

7. Short Debate: Firefighters' Pension Schemes: Credit Where Credit's Due

Item 7. If you are leaving, please do so quietly and quickly. Item 7 is the short debate, 'Firefighters' Pension Schemes: Credit Where Credit's Due'. Peter Black.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:02 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Chair. I wanted to use this opportunity to highlight an issue that has been brought to my attention by a number of constituents, and which I know the Minister is already considering. Before I proceed, though, could you please note that Ann Jones has asked for an opportunity to intervene at the end of my speech?

Diolch, Gadeirydd. Roeddwn am ddefnyddio'r cyfle hwn i dynnu sylw at fater sydd wedi'i ddwyn i fy sylw gan nifer o etholwyr, ac rwy'n gwybod bod y Gweinidog eisoes yn ei ystyried. Cyn i mi fwrw ymlaen, fodd bynnag, a fydddech cystal â nodi bod Ann Jones wedi gofyn am gyfle i ymyrryd ar ddiwedd fy araith?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I understand that a consultation on the shape of firefighters' pensions is now closed, and that the Minister will be making decisions in due course. It seemed opportune, therefore, to raise this matter once more before the die is cast irrevocably.

Rwy'n deall bod ymgynghoriad ar ffurf pensiynau diffoddwyr tân wedi cau erbyn hyn, ac y bydd y Gweinidog yn gwneud penderfyniadau yn y man. Roedd yn ymddangos yn amserol, felly, i godi'r mater hwn unwaith eto cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

I wanted to frame this short contribution around the case of one particular constituent, who, having served this country in the armed forces, went on to join the fire brigade. My constituent joined the fire service at the age of 24 after four years in the army. By transferring his armed forces pension to the firefighters' pension scheme, he reduced the length of service he would need to get a full pension from 30 years to just under 28 years, meaning he could retire at 52.

Roeddwn i eisiau fframio'r cyfraniad byr hwn o gwmpas achos un etholwr penodol, a aeth ymlaen, ar ôl gwasanaethu'r wlad hon yn y lluoedd arfog, i ymuno â'r frigâd dân. Ymunodd fy etholwr â'r gwasanaeth tân yn 24 oed ar ôl pedair blynedd yn y fyddin. Drwy drosglwyddo ei bensiwn lluoedd arfog i gynllun pensiwn y diffoddwyr tân, fe leihaodd hyd y gwasanaeth y byddai ei angen arno i gael pensiwn llawn o 30 mlynedd i ychydig o dan 28 mlynedd, sy'n golygu y gallai ymddeol yn 52 oed.

However, because the tapered protection for the fire service on their new pension scheme is based on an individual's age, rather than the length of service and age as it is in the police force, and because he is below the age of 45, the benefit gained from transferring his army pension into the firefighters' scheme will be lost.

Fodd bynnag, oherwydd bod y diogeliad yn lleihau'n raddol ar gyfer y gwasanaeth tân yn eu cynllun pensiwn newydd yn seiliedig ar oedran yr unigolyn, yn hytrach na hyd y gwasanaeth ac oedran fel y mae i'r heddlu, ac oherwydd ei fod o dan 45 oed, bydd y buddion a enillodd o drosglwyddo ei bensiwn o'r fyddin i mewn i gynllun y diffoddwyr tân yn cael eu colli.

All that the tapered protection does is to allow him a little longer in the firefighters' pension scheme before being forced into the new scheme. He now has to wait until the age of 60 before being able to claim his full pension.

Y cyfan y mae'r diogeliad sy'n lleihau'n raddol yn ei wneud yw caniatáu ychydig yn rhagor o amser yng nghynllun pensiwn y diffoddwyr tân cyn cael ei orfodi i mewn i'r cynllun newydd. Mae bellach yn gorfod aros nes ei fod yn 60 oed cyn gallu hawlio ei bensiwn llawn.

There are approximately 3,000 firefighters across the UK who are ex-service personnel. So, it is likely that this anomaly will impact on a few hundred ex-service personnel firefighters in Wales. If Wales were to follow Scotland and allow protection based on age and length of service, these firefighters would not be so adversely affected by the new pension scheme.

The other anomaly with the firefighters' pension is that people in the 2006 scheme were not allowed to transfer in their armed forces pension. That was not the case with the 1992 scheme. It is therefore important that the 2015 scheme treats ex-servicemen and women equally, irrespective of whether they are in the 1992 or 2006 scheme previously. By this, I mean that those who weren't able to transfer into the 2006 scheme should be able to do so now, with some backdating.

That is the nub of the case. However, if I may, I will quote further from my constituent's letter to the Minister setting out his own situation. It is important to note that Scotland has gone its own way on this issue, and looks upon former service personnel more favourably. The scheme for England will apply in Wales, unless the Minister decides to vary it. That is what I am hoping will happen. My constituent writes:

Mae tua 3,000 o ddiffoddwyr tân ar draws y DU sy'n gyn-filwyr y lluoedd arfog. Felly, mae'n debygol y bydd yr anghysondeb yn effeithio ar ychydig gannoedd o ddiffoddwyr tân sy'n gyn-filwyr y lluoedd arfog yng Nghymru. Pe bai Cymru yn dilyn yr Alban ac yn caniatáu diogeliad ar sail oedran a hyd gwasanaeth, ni fyddai'r diffoddwyr tân hyn yn cael eu heffeithio mor niweidiol gan y cynllun pensiwn newydd.

Yr anghysondeb arall gyda phensiwn y diffoddwyr tân yw nad oedd pobl yng nghynllun 2006 yn cael trosglwyddo eu pensiwn lluoedd arfog i mewn iddo. Nid oedd hynny'n wir gyda chynllun 1992. Felly, mae'n bwysig fod cynllun 2015 yn trin cyn-filwyr yn gyfartal, pa un a ydynt yn rhan o gynllun 1992 neu 2006 yn flaenorol. Yr hyn rwy'n ei olygu yw y dylai'r rhai nad oedd yn gallu trosglwyddo i mewn i gynllun 2006 allu gwneud hynny yn awr, gyda rhywfaint o ôl-ddyddio.

Dyna yw hanfod yr achos. Fodd bynnag, os caf, fe ddyfynnaf ymhellach o lythyr fy etholwr at y Gweinidog yn nodi ei sefyllfa ei hun. Mae'n bwysig nodi bod yr Alban wedi mynd ei ffordd ei hun ar y mater hwn, ac yn edrych ar gyn-aelodau'r lluoedd arfog yn fwy ffafriol. Bydd y cynllun ar gyfer Lloegr yn gymwys yng Nghymru, oni bai bod y Gweinidog yn penderfynu ei amrywio. Dyna'r hyn rwy'n gobeithio a fydd yn digwydd. Mae fy etholwr yn ysgrifennu:

'I am currently 45 years old, having served (inclusive of credited pension transfer) 23 years. I have started a family a little later in life, and although I live by my means, (rather sensibly as the Government have us believe) I have "forecast" my family's future based on these figures, that I believed were contractually, and legally binding. The English Government Pension Reforms laid down certain criteria (which are not being adhered to by the Scottish Government), stating that individuals being within 10 years of normal retirement would be protected from any change in their Pension. Additionally, they express in the criteria that individuals would have to be 45 years of age on April 1st 2012 to fall under the normal retirement category. At this point I personally had reached the age of 42 years and 8 months, but I was also however, within 10 years of normal retirement, having served (due to my Army pension transfer) 20 years and 4 months. Additionally, normal retirement under the Firefighters' Pension Scheme is at the age of 50 (if more than 25 years service), or after attaining 30 years for a FULL pension. I am eligible for both of these options, and would not have needed to work until 55 regardless, if I chose to retire. The English proposals would therefore force me to join the new pension scheme, which, in effect, totally disregards my Military service and accrued pension rights. I will not be able to continue on the Firefighters' Pension Scheme after September 2018 and I will never have the opportunity to attain a full 30 year pension, which I feel I am legally entitled to. At the age of 52 years and 4 months, rather than receive the expected full 30 year pension, I will only get a 26 years and 9 months pension, which will result in a shortfall of thousands of pounds, with any additional accrual only accessible at age 60, should I make it to that age, or else be further penalised with a percentage deducted. In the meantime I am being forced to pay 3.2% more every week into a pension that I won't even be entitled to. It is nothing more than daylight robbery and reneges on a contract I signed in good faith, in return for risking my life daily.'

He continues:

'I therefore ask that (considering the small numbers of Armed Forces veterans here in Wales affected) you take into account this very real concern, as there are colleagues who are in a worse predicament than mine, just due to their age. The ridiculousness of the situation is highlighted by the fact that a colleague of mine, with no military service, and only having 15 years Service (12 years in April 2012) has FULL protection from the changes, and will see his pension unaffected and expect to see his forecast come to fruition! All we ask is that the few of us affected have our Military service recognised, and taken into account when introducing the new scheme here in Wales. We have served our country and our community without ever asking for anything in return, so now we are just asking for what we have paid for, signed up to and are legally entitled to, and nothing more.'

'Rwyf ar hyn o bryd yn 45 oed, ar ôl gwasanaethu (yn cynnwys trosglwyddiad pensiwn wedi'i gredydu) am 23 mlynedd. Rwyf wedi dechrau teulu ychydig yn ddiweddarach mewn bywyd, ac er fy mod yn byw yn ôl fy ngallu, (yn eithaf synhwyrol fel y mae'r Llywodraeth yn disgwyl inni ei gredu). Rwyf wedi "rhagweld" dyfodol fy rheulu yn seiliedig ar y ffigurau hyn y credwn eu bod yn rhwymu mewn contract ac mewn cyfraith. Gosododd Diwygiadau Pensiwn y Llywodraeth yn Lloegr feini prawf penodol (nad ydynt yn cael eu dilyn gan Lywodraeth yr Alban), a nodai y byddai unigolion o fewn 10 mlynedd i ymddeoliad arferol yn cael eu diogelu rhag unrhyw newid yn eu Pensiwn. Yn ogystal, maent yn datgan yn y meini prawf y byddai'n rhaid i unigolion fod yn 45 mlwydd oed ar 1 Ebrill 2012 i berthyn i'r categori ymddeoliad arferol. Ar y pwynt hwn roeddwn i'n bersonol wedi cyrraedd 42 o flynyddoedd ac 8 mis oed, ond roeddwn hefyd, fodd bynnag, o fewn 10 mlynedd i ymddeoliad arferol, ar ôl gwasanaethu (yn sgil trosglwyddo fy mhensiwn o'r fyddin) am 20 mlynedd a 4 mis. Yn ogystal, oedran ymddeol arferol o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yw 50 oed (os oes mwy na 25 mlynedd o wasanaeth), neu ar ôl cyrraedd 30 mlynedd i gael pensiwn LLAWN. Rwy'n gymwys ar gyfer y ddau opsiwn, ac ni fyddai wedi bod angen i mi weithio tan 55 oed pe bawn i'n dewis ymddeol. Felly, byddai'r argymhellion yn Lloegr yn fy ngorfodi i ymuno â'r cynllun pensiwn newydd, sydd, i bob pwrpas, yn llwyr anwybyddu fy ngwasanaeth milwrol a hawliau pensiwn cronus. Ni fyddaf yn gallu parhau ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân ar ôl Medi 2018 ac ni fyddaf erioed wedi cael y cyfle i ennill pensiwn 30 mlynedd llawn y teimlaf fod gennyf hawl gyfreithiol iddo. Yn 52 o flynyddoedd a 4 mis oed, yn hytrach na derbyn y pensiwn llawn 30 mlynedd disgwylidig, ni fyddaf ond yn cael pensiwn 26 mlynedd a 9 mis, a fydd yn arwain at ddiffyg o filoedd o bunnoedd, ac ni fydd unrhyw groniat ychwanegol ar gael i mi hyd nes fy mod yn 60 oed, os cyrhaeddaf yr oedran hwnnw, neu fel arall fe gaf fy nghosbi ymhellach drwy dynnu canran ohono. Yn y cyfamser rwy'n cael fy ngorfodi i dalu 3.2% yn fwy bob wythnos i mewn i bensiwn na fyddaf â hawl iddo hyd yn oed. Nid yw'n ddim mwy na lladrad golau dydd ac mae'n torri cytundeb a lofnodais yn ddiwyll, yn gyfnewid am beryglu fy mywyd bob dydd.'

Mae'n parhau:

'Gofynnaf felly (o ystyried y nifer fach o gyn-filwyr y Lluoedd Arfog yma yng Nghymru sy'n cael eu heffeithio) i chi roi sylw i'r pryder gwirioneddol hwn, gan fod cydweithwyr mewn sefyllfa waeth na fy un i, oherwydd eu hoedran yn unig. Mae gwallgofrwydd y sefyllfa yn cael ei amlygu gan y ffaith fod cydweithwr i mi, heb unrhyw wasanaeth milwrol, a 15 mlynedd yn unig o wasanaeth (12 mlynedd ym mis Ebrill 2012) â diogeliad LLAWN rhag y newidiadau, ac nid yw'n wynebu unrhyw effaith ar ei bensiwn Mae'n disgwyl gweld ei ragolwg yn dwyn ffrwyth! Y cyfan rydym yn gofyn amdano yw bod y rhai ohonom sy'n cael ein heffeithio yn cael ein gwasanaeth milwrol wedi'i gydnabod, a'i ystyried wrth gyflwyno'r cynllun newydd yma yng Nghymru. Rydym wedi gwasanaethu ein gwlad a'n cymuned heb erioed ofyn am unrhyw beth yn ôl, felly yn awr gofynnwn yn unig am yr hyn rydym wedi talu amdano, wedi'i lofnodi a'r hyn y mae gennym hawl gyfreithiol iddo, dim mwy na hynny.'

I think we are all aware of the pressures on the public purse and on the pension schemes as a result of a number of factors, many outside the control of the Welsh Government. Pension provision is changing and people are not getting what they expected when they started out on their working life. I don't necessarily agree with what's happening in England, but of course we do have an opportunity to do something different in Wales. In this case, men and women who have served their country and then gone on to risk their lives further as members of one of the emergency services face seeing the value of their military pension undermined as a result of an actuarial calculation. That can be avoided and I hope that, when he comes to consider this matter in detail, the Minister can make special provision for those ex-service personnel. Obviously, I'm not expecting the Minister to announce the outcome of his consultation here today, but I think it was useful to highlight that case so that he is aware—as I'm sure he is—but also so that everyone else is aware of that issue and so that maybe that can be taken into account when we do get a final decision. Thank you, Chair.

Rwy'n credu ein bod i gyd yn ymwybodol o'r pwysau ar y pwrs cyhoeddus ac ar y cynlluniau pensiwn o ganlyniad i nifer o ffactorau, a llawer ohonynt y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r ddarpariaeth bensiynau'n newid ac nid yw pobl yn cael yr hyn y maent yn ei ddisgwyl pan oeddent yn dechrau eu bywyd gwaith. Nid wyf o reidrydd yn cytuno â'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr, ond wrth gwrs mae gennym gyfle i wneud rhywbeth gwahanol yng Nghymru. Yn yr achos hwn, mae dynion a merched sydd wedi gwasanaethu eu gwlad ac wedyn mynd ymlaen i beryglu eu bywydau ymhellach fel aelodau o un o'r gwasanaethau brys yn wynebu gweld gwerth eu pensiwn milwrol yn cael ei danseilio o ganlyniad i gyfrifiad actiwaraidd. Gellir osgoi hynny a gobeithiaf, pan ddaw i ystyried y mater yn fanwl, y bydd y Gweinidog yn gallu gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer cyn-filwyr y lluoedd arfog. Yn amlwg, nid wyf yn disgwyl i'r Gweinidog gyhoeddi canlyniad ei ymgynghoriad yma heddiw, ond rwy'n meddwl ei bod yn werth tynnu sylw at yr achos hwn er mwyn iddo fod yn ymwybodol—fel rwy'n sicr ei fod—ond hefyd er mwyn i bawb arall fod yn ymwybodol o'r mater ac felly efallai y gellir ystyried hynny pan gawn benderfyniad terfynol. Diolch, Gadeirydd.

18:08

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I want to declare an interest because Peter mentioned the 1992 pension scheme. I was heavily involved in the deliberations around that scheme as a Fire Brigades Union official. I just wanted to make the point that I think that the firefighters in Wales have recognised that this Welsh Government intends to be open in its consultation and to talk to them about that, and that was demonstrated by the fact that they withdrew from taking strike action to protect their pension scheme here in Wales. I wanted to put that on the record, and I think that many of our communities have benefited from that fact.

The issues that Peter has raised, and in particular those of his constituent, are things that the fire service has always had to try and grapple with in terms of pensions and those who have had previous military service. However, I think the decisions taken by the communities and local government people in London, the DCLG in London, have made life very difficult for firefighters who have transferred their pensions in on a former scheme, with all goodwill and intention of forecasting, which we expect people to do. And I think that I would ask the Minister, if he's able, to do something around those particular cases; I'm sure that he will.

Just to finish, I will say thank you to Peter for raising this. This is a very specialist area, but thank you very much for raising it, Peter. It just gives me an opportunity to say, on behalf of my former colleagues, that they deserve their pension. It's no fun having to get up to the sound of bells ringing at 3 o'clock in the morning to jump on a fire engine, not knowing what you're going to find. I did challenge the fire Minister at the time, from London, to try that at the age of 60, and I would think it's no fun, but I think that we're showing here in the Welsh Government, hopefully, that we do value our firefighters.

Rwyf am ddatgan buddiant oherwydd soniodd Peter am gynllun pensiwn 1992. Roeddwn ynghlwm wrth y trafodaethau ar y cynllun fel swyddog Undeb y Brigadau Tân. Roeddwn i ond eisiau gwneud y pwynt fy mod yn meddwl bod diffoddwyr tân Cymru wedi cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu bod yn agored yn ei hymgyngoriad ac i siarad â hwy am hynny, a chafodd hynny ei ddangos gan y ffaith iddynt dynnu'n ôl rhag cynnal streic i ddiogelu eu cynllun pensiwn yma yng Nghymru. Roeddwn i eisiau cofnodi hynny, a chredaf fod llawer o'n cymunedau wedi elwa o'r ffaith honno.

Mae'r materion y mae Peter wedi codi, ac yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â'i etholwr, yn bethau y mae'r gwasanaeth tân bob amser wedi ceisio ymgodymu â hwy o ran pensiynau a'r rhai sydd wedi cyflawni gwasanaeth milwrol yn flaenorol. Fodd bynnag, credaf fod y penderfyniadau a wneir gan y bobl cymunedau a llywodraeth leol yn Llundain, y DCLG yn Llundain, wedi gwneud bywyd yn anodd iawn i ddiffoddwyr tân sydd wedi trosglwyddo eu pensiynau i mewn ar gynllun blaenorol, gyda phob ewyllys da a'r bwriad o gynnal rhagolygon, y disgwylw'n i bobl eu gwneud. Ac rwy'n meddwl yr hoffwn ofyn i'r Gweinidog, os yw'n gallu, i wneud rhywbeth ynghylch yr achosion penodol hyn; rwy'n siŵr y gwnaiff.

I offfen, hoffwn ddiolch i Peter am godi hyn. Mae'n faes arbenigol iawn, ond diolch yn fawr iawn am ei godi, Peter. Mae'n rhoi cyfle i mi i ddweud, ar ran fy nghyngydweithwyr, eu bod yn haeddu eu pensiwn. Nid yw'n hwyl gorfod codi i sŵn dychau'n canu am 3 o'r gloch yn y bore er mwyn neidio ar injan dân, heb wybod beth rydych yn mynd i'w wynebu. Fe heriais y Gweinidog tân ar y pryd, o Lundain, i geisio gwneud hynny'n 60 oed, a byddwn yn tybied nad yw'n hwyl, ond rwy'n meddwl ein bod yn dangos yma yn Llywodraeth Cymru, gobeithio, ein bod yn gwerthfawrogi ein diffoddwyr tân.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:10 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ymateb i'r ddadl—Leighton Andrews.

I call on the Minister for Public Services to reply to the debate—Leighton Andrews.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:10 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

Can I start by thanking Peter Black for raising this issue? He's done so in Plenary with me before, and in correspondence, as well.

A gaf fi ddechrau drwy ddiolch i Peter Black am godi'r mater hwn? Mae wedi gwneud hynny yn y Cyfarfod Llawn gyda mi o'r blaen, ac mewn gohebiaeth, yn ogystal.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It's fair to say that changes to firefighters' pensions have proved controversial across the UK and have led to a long-running industrial dispute with the Fire Brigades Union, although strike action is now confined to England, as my colleague the Member for the Vale of Clwyd said. I think the handling of the dispute in England has been shambolic and has resulted in 48 periods of strike action since September 2013. The strength of feeling among firefighters and their representatives is very clear.

Mae'n deg dweud bod y newidiadau i bensiynau diffoddwyr tân wedi bod yn ddadleuol ledled y DU ac wedi arwain at anghydfod diwydiannol hirhoedlog gydag Undeb y Brigadau Tân, er bod y streic yn awr wedi'i chyfyngu i Loegr, fel y mae fy nghyd-Aelod yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd wedi ei ddweud. Rwy'n meddwl bod y modd yr ymdriniwyd â'r anghydfod yn Lloegr wedi bod yn draed moch ac wedi arwain at 48 cyfnod o streicio ers mis Medi 2013. Mae cryfder teimladau diffoddwyr tân a'u cynrychiolwyr yn glir iawn.

Much of this has focused on the increase in the pension age to at least 60 across the public sector. This is mandated by the Public Service Pensions Act 2013 and we have no option but to implement it. However, there are good arguments for treating firefighters as a special case. Unlike most other public sector workers, they have to meet very stringent fitness standards. Many firefighters fear that they will be unable to maintain these standards into their late 50s; this risks them losing their jobs without being able to claim their full pensions.

Mae llawer o hyn wedi canolbwyntio ar y penderfyniad i godi oedran pensiwn i 60 fan lleiaf ar draws y sector cyhoeddus. Caiff hyn ei orfodi gan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 ac nid oes gennym unrhyw ddevis ond ei weithredu. Fodd bynnag, mae dadleuon da dros drin diffoddwyr tân fel achos arbennig. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o weithwyr eraill yn y sector cyhoeddus, rhaid iddynt fodloni safonau ffitrwydd llym iawn. Mae llawer o ddiffoddwyr tân yn ofni na fyddant yn gallu cynnal y safonau hyn yn eu 50au hwyr; mae hyn yn creu risg o golli eu swyddi heb allu hawlio eu pensiynau llawn.

In England, the UK coalition Government has ignored the concerns of firefighters, has ceased negotiations with unions and, essentially, laid the same set of regulations as were laid in June 2013. Unlike Ministers in England, I have listened to the concerns of firefighters and formed a constructive and continuing dialogue with the Fire Brigades Union. Last November, I started a consultation process based on two different possible pension schemes for Wales. One mirrored the scheme to be introduced in England; this would mean a firefighter who retired five years early at 55 would lose 21% of his or her pension. This 21% cut is what people refer to when they talk about the cliff edge.

Yn Lloegr, mae Llywodraeth glymblaid y DU wedi anwybyddu pryderon diffoddwyr tân, wedi rhoi'r gorau i drafodaethau gydag undebau ac yn y bôn, wedi gosod yr un set o reoliadau ag a osodwyd ym mis Mehefin 2013. Yn wahanol i Weinidogion yn Lloegr, rwyf wedi gwrandao ar bryderon diffoddwyr tân a chynnal deialog adeiladol sy'n dal i fynd rhagddi gydag Undeb y Brigadau Tân. Fis Tachwedd diwethaf, dechreuais broses ymgynghori yn seiliedig ar ddau gynllun pensiwn gwahanol posibl i Gymru. Roedd un yn adlewyrchu'r cynllun sydd i'w gyflwyno yn Lloegr; byddai hyn yn golygu bod diffoddwyr tân sy'n ymddeol bum mlynedd yn gynnar yn 55 oed yn colli 21% o'i bensiwn. Y toriad hwn o 21% yw'r hyn y mae pobl yn cyfeirio ato wrth sôn am ymyl y dibyn.

The other scheme would provide more generous early retirement terms; the reduction at age 55 would only be 9% and the Scottish Government has since made a similar offer to firefighters there. This second proposal was designed to address the concerns some firefighters have expressed. However, under this scheme, all firefighters would accrue slightly less pension for each year of service. This means both schemes would cost around the same, overall. So, we needed to understand how firefighters and others saw the relative benefits of the two.

Byddai'r cynllun arall yn darparu telerau mwy hael ar gyfer ymddeol yn gynnar; byddai'r gostyngiad yn 55 oed ond yn 9% ac ers hynny, mae Llywodraeth yr Alban wedi gwneud cynnig tebyg i ddiffoddwyr tân yno. Lluniwyd yr ail gynnig hwn i fynd i'r afael â'r pryderon y mae rhai diffoddwyr tân wedi eu mynegi. Fodd bynnag, dan y cynllun hwn, byddai pob diffoddwyr tân yn cronni ychydig yn llai o bensiwn ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Mae hyn yn golygu y byddai'r ddau gynllun yn costio tua'r un faint ar y cyfan. Felly, roedd angen inni ddeall sut oedd diffoddwyr tân ac eraill yn gweld manteision cymharol y ddau.

The consultation is now over and we will announce our decisions shortly. This will affect thousands of current and future firefighters and we need, therefore, to consider the consultation responses carefully and we need expert advice from lawyers and actuaries.

The Member has raised a further issue. Under both schemes on which I consulted, some firefighters would acquire protected rights, as members of existing schemes. Anyone within 10 years of their current retirement age on 1 April 2012 could remain in their existing scheme. In practice, this will mostly benefit members of the 1992 firefighters pension scheme who were 45 or older on this date. The 1992 scheme has a pension age of 55, so such firefighters could still retire at this age with a full pension. Pension reforms often provide such protection. Doing so allows those who've already started planning for retirement to continue on the same basis.

The Member is effectively asking me to extend this protection to encompass length of service as well as age. Those with at least 20 years of public sector service would qualify too, regardless of age. He and others believe this would benefit former members of the armed forces in particular. Their military service would then count towards their eligibility for protection. Again, I understand the concerns here. The 1992 scheme is more generous because of its lower pension age. Firefighters obviously want to remain in it if they can, whatever their career history. I will consider this carefully in making my decision. I will also take into account actuarial advice and the likely cost of extending protection and the number of firefighters who would benefit.

However, I fully support the commitments we've made in our response to the armed forces covenant, so I will not introduce a scheme that disadvantages ex-service personnel. Neither of the options on which I consulted do so. They provide protection on the same terms for all firefighters, whether or not they have previous military service. Prior service in the public sector, including the armed forces, would count towards a firefighter's pension, so would contributions to another public sector pension scheme if individuals chose to transfer them. So, anyone who left the armed forces to join the fire services would not lose protection as a result. They would be in exactly the same position as a firefighter of the same age with no military experience. Furthermore, they would still be in the same position if they had remained in the armed forces and not joined the fire service at all. This is because the new armed forces pension scheme offers protection on exactly the same age-based terms. This issue is not about ex armed forces personnel specifically; it is about all firefighters.

Mae'r ymgynghoriad bellach drosodd a byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau cyn bo hir. Bydd hyn yn effeithio ar filoedd o ddiffoddwyr tân ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ac mae angen, felly, inni ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus a chael cyngor arbenigol gan gyfreithwyr ac actiwariaid.

Mae'r Aelod wedi tynnu sylw at fater arall. O dan y ddau gynllun yr ymgynghorais yn eu cylch, byddai rhai diffoddwyr tân yn cael hawliau a ddiogelir, fel aelodau o gynlluniau sydd eisoes yn bodoli. Gallai unrhyw un o fewn 10 mlynedd i'w oedran ymddeol cyfredol ar 1 Ebrill 2012 aros yn eu cynllun presennol. Yn ymarferol, bydd hyn o fudd yn bennaf i aelodau o gynllun pensiwn diffoddwyr tân 1992 a oedd yn 45 neu'n hŷn ar y dyddiad hwn. Mae gan gynllun 1992 oedran pensiwn o 55, er mwyn i ddiffoddwyr tân ddal i allu ymddeol ar ôl cyrraedd yr oedran hwn gyda phensiwn llawn. Mae diwygiadau pensiwn yn aml yn darparu diogeliad o'r fath. Mae gwneud hynny yn caniatáu i rai sydd eisoes wedi dechrau cynllunio ar gyfer ymddeol i barhau ar yr un sail.

I bob pwrpas, mae'r Aelod yn gofyn i mi ymestyn y diogeliad i gwmpasu hyd gwasanaeth yn ogystal ag oedran. Byddai'r rhai gydag o leiaf 20 mlynedd o wasanaeth yn y sector cyhoeddus yn gymwys hefyd, waeth beth fo'u hoedran. Mae ef ac eraill yn credu y byddai hyn o fudd i gyn-aelodau o'r lluoedd arfog yn arbennig. Byddai eu gwasanaeth milwrol yn cyfrif felly tuag at eu cymhwysra i gael diogeliad. Unwaith eto, rwy'n deall y pryderon yma. Mae cynllun 1992 yn fwy hael oherwydd ei oedran pensiwn is. Yn amlwg mae diffoddwyr tân yn awyddus i aros ynddo os gallant, beth bynnag yw eu hanes gyfaol. Byddaf yn ystyried hyn yn ofalus wrth wneud fy mhenderfyniad. Byddaf hefyd yn ystyried cyngor actiwaraidd a'r gost debygol o ymestyn diogeliad a nifer y diffoddwyr tân a fyddai'n elwa.

Fodd bynnag, rwy'n llwyr gefnogi'r ymrwymadau a wnaethom yn ein hymateb i gyfamod y lluoedd arfog, felly ni fyddaf yn cyflwyno cynllun sy'n creu anfantaes i gyn-filwyr y lluoedd arfog. Nid yw'r un o'r opsiynau rwy'n ymgynghori arnynt yn gwneud hynny. Maent yn darparu diogelwch ar yr un telerau ar gyfer yr holl ddiffoddwyr tân, pa un a oes ganddynt wasanaeth milwrol blaenorol ai peidio. Byddai gwasanaeth blaenorol yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys y lluoedd arfog, yn cyfrif tuag at bensiwn diffoddwr tân, fel y byddai cyfraniadau i gynllun pensiwn sector cyhoeddus arall os yw unigolion yn dewis eu trosglwyddo. Felly, ni fyddai unrhyw un sy'n gadael y lluoedd arfog i ymuno â'r gwasanaeth tân yn colli diogeliad o ganlyniad. Byddent yn yr un sefyllfa yn union â diffoddwr tân o'r un oed heb unrhyw brofiad milwrol. Ar ben hynny, byddent yn dal yn yr un sefyllfa pe baent wedi aros yn y lluoedd arfog a heb ymuno â'r gwasanaeth tân o gwbl. Y rheswm am hyn yw bod cynllun pensiwn newydd y lluoedd arfog yn cynnig diogeliad ar yr un telerau'n union yn seiliedig ar oed. Nid yw'r mater hwn yn ymwneud â chyn-filwyr y lluoedd arfog yn benodol; mae'n ymwneud â'r holl ddiffoddwyr tân.

I remain committed to introducing a pension scheme that is fair, affordable and sustainable for firefighters, their employers and the Welsh Government. I am not, as the Member expected, going to make any specific commitments today. He and others have set out their concerns clearly, I will reflect on them carefully, and I will announce my decision as soon as possible.

Rwy'n dal i fod wedi ymrwymo i gyflwyno cynllun pensiwn sy'n deg, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy ar gyfer diffoddwyr tân, eu cyflogwyr a Llywodraeth Cymru. Nid wyf yn mynd i wneud unrhyw ymrwymadau penodol heddiw, fel oedd yr Aelod yn disgwyl i mi ei wneud. Mae ef ac eraill wedi amlinellu eu pryderon yn glir, byddaf yn eu hystyried yn ofalus, a byddaf yn cyhoeddi fy mhenderfyniad cyn gynted ag y bo modd.

18:16

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Daw hynny a thrafodion heddiw i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:16.

That brings today's proceedings to a close.

The meeting ended at 18:16.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)